# Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD IAU,<br>11 MAWRTH, 2021 am 10.00 o'r gloch yb | | THURSDAY,<br>11 MARCH, 2021 at 10.00 a.m. |
| CYFARFOD RHITHIOL | | VIRTUAL MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes<br>01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

T Ll Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Mr. Dyfed Wyn Jones (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Mrs Llio Johnson-(Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) a Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

## R H A G L E N

**1** **YMDDIHEURIADAU**

**2** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

**3** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 9 Chwefror, 2021.

**4** **BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS - CRAFFU CYNNYDD AR WIREDDU'R CYNLLUN LLESIANT** (Tudalennau 11 - 18)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Ynys Môn.

**5** **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB 2019/20** (Tudalennau 19 - 66)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Polisi a Strategaeth.

**6** **NEWID HINSAWDD** (Tudalennau 67 - 118)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

**7** **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD DIOGELU GOGLEDD CYMRU 2019/20** (Tudalennau 119 - 178)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro.

**8** **CRAFFU AR BARTNERIAETHAU** (Tudalennau 179 - 200)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

**9** **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 201 - 208)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

**Cofnodion y cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2021**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, R Ll Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Margaret Murley Roberts a Nicola Roberts.<br><br>Mr Dyfed Wyn Jones – Rhiant-Lywodraethwr - Sector Ysgolion Cynradd;<br>Mrs Llio Johnson – Rhiant-Lywodraethwr - Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY;<br>Mr Keith Roberts – Yr Eglwys Gatholig.<br><br>Y Cynghorydd Llinos M Huws - Arweinydd y Cyngor (ar gyfer eitem 5);<br>Y Cynghorydd R Meirion Jones - Aelod Portffolio (Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Phobl Ifanc) (ar gyfer eitem 4);<br>Y Cynghorydd Dafydd R Thomas - Aelod Portffolio (Gwasanaethau Corfforaethol). |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc (ar gyfer eitem 4),<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro (ar gyfer eitem 5),<br>Prif Swyddog Cynllunio (ar gyfer eitem 5),<br>Uwch Reolwr - Anghenion Addysgol Arbennig a Chynhwysiant (FE) (ar gyfer eitem 4),<br>Uwch Reolwr - Lles (GMH) (ar gyfer eitem 4),<br>Uwch Reolwr - Cynradd (OD) (ar gyfer eitem 4),<br>Rheolwr Sgriwtini (AD),<br>Swyddog Sgriwtini (SR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Prif Weithredwr,<br>Y Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio - y Cynghorydd Richard Dew |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Ms Catrin Roberts, Mrs Sharon Vaughan, Mr Rhys Williams - GwE (ar gyfer eitem 4).<br>Ms Heledd Jones - Arweinydd Tîm, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn (ar gyfer eitem 5). |

---

1 **YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodir uchod.

2 **DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

3 **COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gywir: -

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2020.
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd, 2020.
-

4 **ADRODDIAD CYNNYDD GAN GWE - BLAENRAGLEN WAITH A CHEFNOGAETH I YSGOLION YN YSTOD PANDEMIG COVID 19**

- **Adroddiad Cynnydd GwE 2020/21: cefnogaeth i ysgolion yn ystod pandemig Covid 19**

  Cyflwynwyd - adroddiad cynnydd - GwE 2020/21: cefnogaeth i ysgolion yn ystod pandemig Covid 19.

  Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Llyfrgelloedd, Diwylliant a Phobl Ifanc fod yr adroddiad yn cyfeirio at y gwaith sydd wedi'i wneud rhwng GwE a'r awdurdod lleol er mwyn cefnogi ysgolion yn ystod y pandemig. Dywedodd y bu parodrwydd rhwng y sefydliadau i drafod, i rannu syniadau ac i addasu i wireddu gweledigaeth y gefnogaeth i ysgolion a disgyblion. Dywedodd ei fod, fel Aelod Portffolio, yn dymuno mynegi ei werthfawrogiad i staff yr Adran Addysg (Tîm Môn), GwE ac Estyn am eu gwaith mewn perthynas â’r pandemig a'i effaith ar ysgolion.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod GwE a'r awdurdod lleol wedi addasu eu ffyrdd o weithio er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w holl gymunedau ysgol yn ystod y pandemig. Bu angen sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf i'r broses o wneud penderfyniadau a sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu darparu’r lefel gywir o gefnogaeth weithredol neu broffesiynol. Croesawyd y cyswllt rheolaidd ag arweinwyr ysgol ac mae wedi cyfrannu at Brifathrawon yn teimlo y gallent droi at gydweithiwr proffesiynol i rannu materion heriol ac i ddod o hyd i ddatrysiadau i fynd i'r afael â materion dydd i ddydd. Dywedodd ymhellach, er nad yw addysg rithwir mor effeithiol â dysgu plant yn yr ysgolion, gwnaed pob ymdrech i ddarparu'r addysg orau bosib i'r disgyblion.

  Dywedodd Mrs Sharon Vaughan, GwE fod yr adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod hwn yn dangos sut mae'r consortiwm rhanbarthol, mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Lleol, wedi esblygu ac addasu i gefnogi ysgolion yn ystod y pandemig. Trwy gydol y pandemig, mae'r cydweithredu rhwng yr Adran Addysg, GwE ac ysgolion wedi bod yn effeithiol, yn agored, yn dryloyw ac yn

adeiladol. Roedd crynodeb o'r gwaith a wnaed ynghlwm wrth yr adroddiad fel a ganlyn: -

- Cam 1 - Cyn y cyfnod clo
- Cam 2 - Cefnogi ysgolion ar ddechrau'r cyfnod clo
- Cam 3 - Dysgu o Bell
- Cam 4 - Cefnogi ysgolion i ailagor
- Cam 5 - Dysgu Cyfunol
- Cam 6 - Cyflymu Dysgu / Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau
- Cam 7 - Dyfnhau cydweithredu a datblygu rhwydweithiau cadarn

Rhoddodd Mrs Sharon Vaughan grynodeb byr o Atodiadau 2 i 5 a oedd ynghlwm wrth yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Dywedodd Mr Rhys Williams o GwE fod lles a llesiant wedi bod yn hollbwysig yn y gweithio ar y cyd rhwng yr awdurdod lleol a GwE dros gyfnod anodd y pandemig. Yn ystod y cyfnod anodd hwn, cefnogodd GwE yr awdurdod lleol trwy gyflwyno a chefnogi gweithdrefnau Asesu Risg a chynhyrchu arweiniad ar gyfer defnyddio Ffrydio Byw mewn dosbarthiadau. Mae egwyddor gwaith Tîm Ynys Môn yn hollbwysig i'r dull o weithredu a'r llinellau cyfathrebu clir rhwng pawb. O ganlyniad, mae cefnogaeth benodol wedi'i theilwra i gwrdd ag anghenion pob ysgol ac mae'r camau gweithredu dilynol yn gadarn iawn. Mae Ymgynghorwyr GwE wedi bod mewn cysylltiad rheolaidd â Phrifathrawon unigol i gynnig cefnogaeth fel y bydd angen. Adroddodd ymhellach fod GwE wedi bod ar flaen y gad o ran ceisio sicrhau nad yw'r Gymraeg yn colli tir yn ystod y cyfnod hwn, ac mae GwE a'r Gwasanaeth Dysgu wedi ymdrechu i gefnogi ysgolion. Mae yna nifer o enghreifftiau o ysgolion yn cefnogi rhieni nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg er mwyn sicrhau bod disgyblion yn parhau i fod yn agored i'r iaith dros y cyfnod. Mae'r enghreifftiau hyn yn cynnwys rhannu arfer da trwy fideos pwrpasol gyda staff ysgolion yn darllen straeon a rhannu fideos i gefnogi datblygiad Cymraeg llafar trwy Google Classroom.

Adroddodd Mr Williams ymhellach ar y Sector Cynradd a nododd fod strwythurau cydweithredu ymhlith bron pob un o ysgolion yr Ynys wedi cael eu datblygu’n llwyddiannus dros gyfnod y pandemig. Mewn cydweithrediad â GwE, mae grwpiau o Benaethiaid Cynradd a thimau rheoli ysgolion mewn sawl dalgylch yn Ynys Môn wedi bod yn cydweithredu ar ysgrifennu a gyrru blaenoriaeth frys a blaenoriaethau tymor hir mewn meysydd fel Llesiant, Cymraeg llafar a pharatoi ar gyfer Cwricwlwm Cymru. Nid yn unig y mae hyn yn sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu ymhlith ysgolion, mae hefyd yn sicrhau bod y system addysg yn parhau i ddatblygu capasiti i wella ei hun. Mae ysgolion cynradd mewn un dalgylch yn rhan ogleddol yr Ynys wedi bod yn treialu technegau ‘Ffrydio Byw’ yn ystod y cyfnod clo. Gyda chefnogaeth y Gwasanaeth Dysgu a GwE, aethant ymlaen i gynhyrchu protocol canllawiau ar gyfer pob ysgol. Ystyrir bod hyn yn ymarfer llwyddiannus y dylid ei rannu ledled y Rhanbarth ac ers hynny maent wedi creu Gweminar i ddarparu arweiniad i bob ysgol yng Ngogledd Cymru. Mae ysgolion cynradd wedi bod yn gwneud defnydd effeithiol o’r adnoddau ‘Dysgu Carlam’ er mwyn datblygu eu sgiliau sylfaenol ar ôl cyfnod o fethu â chael mynediad at addysg ffurfiol reolaidd. Mae

pob ysgol ar Ynys Môn wedi bod yn datblygu eu staff yn llwyddiannus i ddefnyddio technoleg i barhau â'r dysgu.

Adroddodd Mrs Sharon Vaughan ar y Sector Uwchradd lle bu ffocws dwys ar draws pob ysgol uwchradd ar uwchsgilio staff fel bod ganddynt y sgiliau priodol i gael disgyblion i ymgysylltu â sesiynau dysgu digidol effeithiol. Gwnaethpwyd hyn yn ffurfiol trwy ddiwrnodau hyfforddi a hyfforddiant anffurfiol a gwirfoddol. Bu gwelliant syfrdanol yn sgiliau digidol staff ar draws y pum ysgol uwchradd ar yr Ynys, a gwnaed cryn dipyn o waith mewn cyfnod cymharol fyr. Mae rhai ysgolion yn dewis ffrydio rhai gwersi yn fyw i grwpiau o ddisgyblion ac mae eraill wedi defnyddio dull mwy cyfunol gyda rhai gwersi byw, a rhywfaint o ddysgu trwy fideos wedi'u recordio ymlaen llaw neu gyflwyniadau a thasgau PowerPoint trwy'r ystafell ddosbarth rithwir. Mae presenoldeb mewn gwersi wedi cael ei fonitro yn y pum ysgol uwchradd trwy SIMS neu Siartiau Dosbarth a chysylltwyd â rhieni os nad yw disgyblion yn mynychu.

Adroddodd Mr Rhys Williams ar y Gwasanaeth Addysgol Arbennig ar Ynys Môn a dywedodd fod yr Awdurdod wedi ymateb yn llwyddiannus i anghenion amrywiol y plant a'r bobl ifanc sydd yn ei ofal. Yn seiliedig ar asesiadau risg gofalus a chynhwysfawr, mae lles dysgwyr, eu teuluoedd, staff a chymuned ehangach yr ysgol wedi bod yn brif flaenoriaeth a gweithredwyd yn llwyddiannus i'w cefnogi. Mae'r ymrwymiad ychwanegol a ddangoswyd dros y penwythnosau a gwyliau ysgol wedi bod yn nodwedd o'r gefnogaeth hon ac mae'n ymarfer gorau yn y sector ADY. Mae diwygiadau i'r cwricwlwm a diwygiadau eraill wedi parhau ar gyflymder synhwyrol yn ystod y cyfnod, ac mae'r cynlluniau gwella cyfredol yn adlewyrchu set o ddyheadau gonest a chyraeddadwy yng nghyd-destun y pandemig.

Adroddodd Mrs Catrin Roberts, GwE ar ddatblygiad y Gymraeg. Dywedodd fod pryder o fewn ysgolion ynghylch effaith y pandemig ar y Gymraeg hyd yn oed mewn ardaloedd lle mae'r iaith yn gryf a hefyd yr effaith ar yr iaith oherwydd nad yw disgyblion o fewn amgylchedd yr ysgol. Mae angen cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mae athrawon yn cynllunio ac yn paratoi cyfarwyddiadau dwyieithog ar gyfer disgyblion hefo trosleisiadau fel y gall disgyblion glywed y Gymraeg, gwrando ar gyfarwyddiadau ynddi a'u dilyn. Mae'n bwysig sicrhau bod gan athrawon yr adnoddau gorau ar gyfer hyrwyddo dysgu o bell a dysgu cyfunol ac i sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion glywed a siarad y Gymraeg. Rhennir canllawiau digidol a rhoddir hyfforddiant i athrawon ar sut i ddefnyddio meddalwedd Hwb, fel Google Classroom, Screencastify, Adobe Spark, Flipgrid a gweminarau ar gyfer eu datblygiad proffesiynol. Nododd ymhellach fod tasgau dwyieithog wedi'u amlinellu i rieni gynorthwyo plant i ddysgu a deall anghenion y tasgau.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a gwnaeth y pwyntiau a ganlyn: -

- Gofynnwyd sut y gwnaeth y Gwasanaeth Dysgu a GwE addasu eu ffyrdd o weithio o ganlyniad i'r pandemig, a hynny er mwyn ymateb i anghenion plant a phobl ifanc Ynys Môn, ac i ddarparu'r addysg orau bosib iddynt. Mynegwyd bod pwysau ar rieni sy'n gorfod gweithio gartref a chanddynt fwy nag un plentyn y mae angen eu hannog i fynychu gwersi rhithwir a chwblhau gwaith

ar-lein; bu pryderon bod rhai o'r darpariaethau digidol wedi bod yn well mewn rhai ysgolion nag eraill. Ymatebodd Mrs Sharon Vaughan, GwE fod rhai anghysondebau yn genedlaethol o fewn ysgolion oherwydd y pandemig. Mae GwE wedi bod yn rhoi canllawiau i gefnogi ysgolion yn lleol ac ers y cyfnod clo. Yn Ynys Môn mae cysylltiadau cryf â'r Ymgynghorwyr GwE wrth gefnogi ysgolion ac yn enwedig yr ysgolion hynny sydd wedi gofyn am gefnogaeth. Rhannwyd arferion da rhwng ysgolion yn Ynys Môn trwy gyfarfodydd yn y sectorau Cynradd ac Uwchradd ac er bod y rhaglen ddysgu broffesiynol wedi'i lleihau eleni mae'n dal i fod yn gynhwysfawr ac mae'n cwrdd ag anghenion y sefyllfa yr ydym yn ei hwynebu oherwydd y pandemig;

- Cyfeiriwyd at y ffaith y gall ysgolion, gyda gobaith, ailagor yn raddol yn y dyfodol agos. Gofynnwyd sut y bydd y Gwasanaeth Dysgu a GwE yn parhau i fonitro a gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth ddysgu ar yr Ynys. Ymatebodd Mr Rhys Williams, GwE, y rhagwelir, mewn perthynas â monitro'r ddarpariaeth ddysgu, y bydd dysgu cyfunol yn parhau ac mae ysgolion eisoes wedi mynd i'r afael â'r mater hwn. Mae wedi bod yn sefyllfa heriol gyda GwE yn methu ymweld ag ysgolion a chysylltir â Phrifathrawon a staff i'w cefnogi a'u harwain ar faterion sydd wedi bod yn gweithio'n dda a materion nad ydynt wedi gweithio cystal, ynghyd â'r prosesau mewnol sydd gan yr ysgolion ar waith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod fforymau strategol mewn ysgolion sy'n trafod a monitro materion sy'n wynebu'r ysgolion. Ar hyn o bryd mae Bwrdd Ansawdd yn weithredol hefyd i drafod materion heriol rhwng Aelodau Portffolio, y Prif Weithredwr, y Dirprwy Brif Weithredwr a GwE;
- Codwyd pryderon ynghylch y gefnogaeth i ddisgyblion ag anghenion arbennig a disgyblion sydd angen cymorth addysgol ychwanegol. Gofynnwyd pa gefnogaeth a roddwyd gan GwE i safoni'r cymorth i'r disgyblion hyn. Ymatebodd yr Uwch Reolwr - Anghenion Addysgol Arbennig a Chynhwysiant fod gan aelod o staff ym mhob ysgol rôl i godi unrhyw bryderon mewn perthynas ag unrhyw ddisgyblion sydd angen cefnogaeth. Mae'r Tîm yn yr ysgolion yn cefnogi disgyblion a rhieni o ran dysgu o bell. Rhoddir cefnogaeth hefyd o ran iechyd a lles meddyliol a darpariaethau lleferydd ac iaith. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc y bu cynnydd yn nifer y disgyblion sydd bellach ag anghenion addysg arbennig na fyddent efallai wedi bod angen cefnogaeth cyn y pandemig a bod rhai plant yn cael ei chael yn anodd ymdopi â'r sefyllfa. Nododd fod gwaith wedi ei wneud gan wasanaethau'r Awdurdod ynghyd â busnesau lleol i roi caledwedd TG i blant i'w galluogi i ymgysylltu â dysgu o bell. Fodd bynnag, os ydynt yn cael anawsterau o ran ymgysylltu â dysgu o bell rhoddir cymorth iddynt, ynghyd â'u rhieni, i ddefnyddio'r dechnoleg a ddarperir. Dywedodd yr Uwch Reolwr - Cynradd fod 130 o liniaduron a 120 o unedau Wi-Fi wedi eu rhoi i ddisgyblion ac mae'r gwasanaeth TG yn parhau i adnewyddu'r dechnoleg sydd ar gael a bod dros 2,000 o 'chromebooks' wedi eu derbyn trwy'r grant Hwb i gefnogi disgyblion;
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod rhai plant yn medru derbyn gwybodaeth yn well nag eraill ac y byddant yn ffynnu gyda dysgu rhithwir. Gofynnwyd sut y bydd y Gwasanaeth Dysgu a GwE yn gallu monitro a chefnogi disgyblion nad ydynt wedi gallu ffynnu trwy ddysgu o bell fel y gall y disgyblion hyn i ddal i fyny â disgyblion eraill. Ymatebodd Mr Rhys Williams o GwE fod system carlam yn edrych ar sgiliau sylfaenol mewn llythrennedd a rhifedd a rôl GwE yw cefnogi

ysgolion i nodi disgyblion a fydd angen darpariaeth addysgol ychwanegol pan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol yn y dyfodol;

- Cyfeiriwyd at yr ansicrwydd i ddisgyblion a fydd yn sefyll arholiadau TGAU ac UG a Safon Uwch ac mae'n ymddangos bod y disgyblion hyn wedi colli ffydd yn y prosesau addysgol. Gofynnwyd pa gefnogaeth y gellir ei rhoi gan GwE a'r Gwasanaethau Dysgu i'r disgyblion hyn. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod Tîm Ynys Môn eisiau gweld y disgyblion yn ôl yn yr ysgol pan fydd yn ddiogel iddynt ddychwelyd a bod system olrhain ar waith i fonitro a yw'r disgyblion yn cymryd rhan mewn dysgu rhithwir ac yn gallu dysgu a datblygu gyda'r adnoddau a roddir iddynt. Dywedodd Mrs Sharon Vaughan, GwE fod lefelau presenoldeb disgyblion mewn sesiynau dysgu rhithwir yn cael eu monitro gan yr ysgolion. Nawr bydd yn rhaid i Ysgolion Uwchradd gasglu tystiolaeth ar gyfer byrddau arholi mewn perthynas â phob disgybl ond, serch hynny, nid oes arweiniad gan CBAC na Chymwysterau Cymru. Dywedodd yr Uwch Reolwr Lles fod yr Awdurdod yn ymgysylltu â gweithgareddau y tu allan i'r sbectrwm addysgol ac nad yw pobl ifanc yn gallu mynychu clybiau a chyfleusterau chwaraeon ar hyn o bryd.

- **Adroddiad cylch gorchwyl Estyn ynghylch gwaith yr Awdurdod yn cefnogi cymunedau dysgu mewn ysgolion ers mis Mawrth**

  Adroddodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc fod yr adroddiad hwn yn cyfeirio at arweinyddiaeth a chydweithio ac mae'n nodi bod yr Awdurdod yn effeithiol o ran cyfathrebu â rhanddeiliaid a chefnogi llesiant staff a disgyblion yn Ysgolion Ynys Môn. Nododd fod Estyn wedi cyfeirio at 'Tim Môn' a nododd fod y tîm yn rhannu gweledigaeth gref sy'n cefnogi ymreolaeth a chydweithio mewn ysgolion i gyflawni'r gorau ar gyfer y disgyblion.

  Dywedodd y Cynghorydd T Ll Hughes MBE ei fod o'r farn y dylid trefnu datganiad i'r wasg i dynnu sylw at y gwaith da a wnaed gan y Gwasanaethau Dysgu gyda chefnogaeth GwE ac Estyn i roi'r addysg orau bosib i ddisgyblion ysgolion Ynys Môn.

  Dywedodd Arweinydd y Cyngor ei bod hi a'r Aelod Portffolio ar gyfer Addysg wedi bod yn pwyso ar y byrddau arholi am eglurder o ran arholiadau i ddisgyblion eleni a'r flwyddyn nesaf. Roedd o'r farn y byddai'n fuddiol anfon llythyr yn mynegi'r pryderon hyn at Lywodraeth Cymru.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo:-**

- **Adroddiad cynnydd GwE ar gyfer 2020/21;**
- **Adroddiad cylch gorchwyl Estyn ynghylch gwaith yr Awdurdod yn cefnogi ei gymunedau dysgu mewn ysgolion ers mis Mawrth 2020.**
- **Bod llythyr yn cael ei anfon ar ran y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru yn mynegi siom a phryderon nad oes cynllun ar waith o ran arholiadau TGAU a Safon Uwch ar gyfer Haf 2022.**

## 5 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL - CYFLEUSTERAU A LLETY (ADRODDIAD YMGYNGHORI)

Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Arweinydd Tîm, Gwasanaeth Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, yn absenoldeb yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, mai rôl y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yw rhoi cyngor manwl ar bolisïau arbennig sy'n gysylltiedig â thwristiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn gyson ar draws ardal y Cynllun ac i gefnogi Swyddogion Cynllunio pan gyflwynir ceisiadau. Yn dilyn y broses ymgynghori wreiddiol yn 2018 ac o ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd, ystyriwyd ei bod yn briodol gwneud diwygiadau pellach i'r Canllawiau. Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA hyn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Cyd-Bwyllgor Polisi Cynllunio ar 4 Medi, 2020. Wedi hynny bu'r CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 16 Hydref, a 27 Tachwedd, 2020. Nododd fod cydnabyddiaeth bod twristiaeth yn bwysig i'r Ynys a gellir gweld o fewn y CCA bod cydbwysedd rhwng cefnogaeth i'r sector twristiaeth a'r angen i ddiogelu cymunedau lleol i'r dyfodol.

Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro fod y sector twristiaeth yn bwysig i economi'r Ynys. Y gobaith yw y bydd llacio'r cyfyngiadau'n raddol yn gweld y sector twristiaeth yn ailagor pan fydd yn ddiogel gwneud hynny ac mewn modd cynaliadwy. Mae'r CCA yn rhoi polisïau clir i'r awdurdod cynllunio ar ansawdd, yr amgylchedd a'r Gymraeg wrth ddelio â cheisiadau cynllunio.

Dywedodd y Prif Swyddog Cynllunio fod twristiaeth yn bwysig i'r Ynys a bod y polisïau cynllunio yn gyffredinol yn hyrwyddo datblygiad y fath weithgareddau twristiaeth ar yr amod eu bod yn gynaliadwy ac o safon uchel.

Dywedodd Arweinydd Tîm Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn fod y CCA wedi'u cynhyrchu i gefnogi'r polisïau yn y CDLlC. Yn ystod cyfarfod y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a gynhaliwyd ar 22 Mawrth, 2019 cyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori ar yr ymgynghoriad pellach hwn, a oedd yn nodi nad oedd angen gwneud unrhyw ddiwygiadau pellach i'r Canllawiau o ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a gofynnwyd am i'r Canllawiau gael eu cyflwyno i gyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor Polisi Cynllunio i'w mabwysiadu. Ers y cyfarfod cyflwynwyd y canllawiau i Bwyllgor Craffu Cymunedau Cyngor Gwynedd ar 4 Ebrill, 2019. O ganlyniad i'r drafodaeth yn y cyfarfod hwnnw, ystyriwyd y byddai'n briodol gwneud mân newid i weithrediad y Canllawiau. At hynny, mae penderfyniad apêl diweddar mewn perthynas ag ystyriaethau sy'n gysylltiedig ag asesu 'gorddarpariaeth' o lety gwyliau wedi tynnu sylw at yr angen i ddiwygio'r Canllawiau ymhellach. Cymeradwywyd fersiwn ddrafft o'r CCA ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan y Cyd-Bwyllgor Polisi Cynllunio ar 4 Medi, 2020. Paratowyd y drafft hwn mewn ymgynghoriad â Swyddogion perthnasol y ddau Awdurdod. Ymgynghorwyd gyda'r cyhoedd ar y CCA o 16 Hydref hyd at 27 Tachwedd 2020. Nodwyd bod y prif newid i'r Canllawiau a arweiniodd at y trydydd cyfnod ymgynghori yn ymwneud â gwneud newid pellach i'r diffiniad sy'n gysylltiedig â gorddarparu llety gwyliau. Erbyn hyn, mae'r diffiniad fel y gwelir yn adran 4.6 o'r Canllawiau yn Atodiad 2 sydd ynghlwm wrth yr adroddiad, yn cynnwys trothwy penodol o ran pryd y mae gorddarpariaeth o lety gwyliau hunanarlwyo

mewn ardal benodol. Yn unol â'r cyfarwyddyd diwygiedig yn y Canllawiau, ni roddir ystyriaeth ffafriol i geisiadau am lety gwyliau hunanarlwyo pan fydd cyfuniad o lety gwyliau ac ail gartrefi eisoes wedi cyrraedd y trothwy o 15% o'r holl stoc dai. Ystyrir y bydd gosod trothwy pendant yn ei gwneud yn haws i Swyddogion asesu ‘gorddarpariaeth' yng nghyd-destun y gofyniad a nodir ym Mholisi TWR 2 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

Dywedodd Arweinydd Tîm Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn ymhellach fod y Canllawiau yn darparu cyfarwyddyd ar ystyriaeth berthnasol sy'n gysylltiedig ag asesu twristiaeth gynaliadwy o'r ansawdd uchaf a'r effaith ar y Gymraeg a'r amgylchedd naturiol. Dywedodd mai un mater dadleuol a ddaeth i'r amlwg wrth baratoi'r CCA oedd sut i ddiffinio pa lefel o lety twristiaeth sy'n dderbyniol yn unol â pholisi cynllunio penodol TWR 2 y CDLlC. Ar ôl derbyn apeliadau a sylwadau mewn perthynas â'r diffyg cyfarwyddyd yn y Canllawiau, roedd yn briodol gosod trothwy ar gyfer llety hunanarlwyo pan ystyrir cais cynllunio. Er bod y canllawiau'n dweud na roddir ystyriaeth ffafriol i gais cynllunio am lety hunanarlwyo pan fo'r fath ddarpariaeth eisoes yn cyfateb i 15% o'r holl stoc dai mewn cymunedau lleol, mae Cyngor Gwynedd wedi gosod trothwy o 10%.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad a gwnaeth y pwyntiau a ganlyn: -

- Cyfeiriwyd at y cynnig datblygu ar Draeth y Newry yng Nghaergybi ar gyfer 350 o anheddau fel rhan o safle Marina yr oedd y sector economaidd o blaid datblygiad o'r fath. Cyflwynwyd apêl ac mae'r datblygwr bellach wedi cyflwyno cais am 250 o anheddau ar y safle ar gyfer cartrefi gwyliau. Gofynnwyd a fydd y CCA - Cyfleusterau a Llety yn gadarn o ran cyfyngu ar ddatblygiadau o'r fath a gynigir ar Draeth y Newry. Ymatebodd y Prif Swyddog Cynllunio nad yw'n briodol nac yn amserol trafod ceisiadau cynllunio penodol. Nododd, os mabwysiedir y CCA y byddant yn ystyriaeth pan gynhelir trafodaeth ar unrhyw gais cynllunio yn y dyfodol fel rhan o gyd-destun ehangach o ystyriaethau cynllunio;
- Cyfeiriwyd at orddarpariaeth o lety gwyliau, yn enwedig yn ardal yr arfordir. Gofynnwyd a yw'r CCA yn gadarn o ran cyfyngu ar orddarpariaeth o'r fath a all effeithio ar gymunedau lleol. Ymatebodd Arweinydd Tîm Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn y gobeithir y bydd mabwysiadu'r CCA o gymorth pan gyflwynir ceisiadau cynllunio am lety gwyliau. Nododd fod pryderon ynghylch gorddarparu llety gwyliau mewn ardaloedd arfordirol a bod capasiti cyfyngedig ar gyfer darpariaeth o'r fath. Y gobaith yw y bydd gosod cyfyngiad o 15% o gymorth i'r broses gynllunio. Nododd ymhellach fod sylw manwl wedi'i roi wrth baratoi'r CCA i'r effaith ar brisiau tai oherwydd bod cartrefi wedi'u trosi'n llety gwyliau ac mae gwaith hefyd wedi'i wneud i edrych ar awdurdodau lleol eraill fel Ardal y Llynnoedd sy'n dangos enghreifftiau o gyfyngu ar faint o'r stoc dai a addasir i fod yn llety twristiaeth;
- Cyfeiriwyd at y ffaith mai dim ond ychydig o ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y CCA - Cyfleusterau a Llety. Gofynnwyd a oes angen ystyried sut yr ymgynghorir yn y dyfodol. Ymatebodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro fod y pandemig wedi codi'r angen i ystyried ymgynghori'n ddigidol a bod angen annog pobl i fanteisio ar dechnoleg yn y dyfodol. Dywedodd Arweinydd Tîm Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn fod gohebiaeth wedi'i chynnal gyda Chynghorau Tref a Chymuned a chydag

Aelodau Etholedig a bod tudalen ar wefan yr awdurdodau lleol. Mae'r cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi bod yn gyfrwng ar gyfer annog y cyhoedd i gyflwyno sylwadau ynghylch y CCA yn gyffredinol;

- Codwyd pryderon bod eiddo yn cael eu troi'n llety Air B + B a chyfeiriwyd at drosi garejis. Ymatebodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Dros Dro y rhoddir ystyriaeth lawn i'r holl bolisïau cynllunio lleol a chenedlaethol pan gyflwynir ceisiadau cynllunio er mwyn dod i benderfyniad arnynt.
- Gwnaed sylw bod y polisïau cynllunio yn fwy perthnasol na chanllawiau cynllunio atodol fel y dangoswyd yn ystod apeliadau cynllunio. Ymatebodd Arweinydd Tîm Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn bod y canllawiau cynllunio yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau cynllunio ac mewn apeliadau cynllunio a'u bod yn cefnogi'r polisïau cynllunio yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad mewn perthynas â'r Canllawiau Cynllunio Atodol: Cyfleusterau a Llety Twristiaeth a'r adroddiad ymgynghori cysylltiedig.**

## 6 BLAENRAGLEN WAITH 2020/21

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD nodi'r rhaglen waith am y cyfnod Medi 2020 hyd at Ebrill, 2021.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 pm

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 11eg Fawrth 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Cynnydd ar Gyflawni'r Cynllun Llesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Darparu adroddiad ar gynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng. Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cyng. Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dim yn berthnasol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Nonn Hughes.<br>Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>01286 679906<br>NonnGwenllianHughes@gwynedd.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Dim yn berthnasol i unrhyw ward benodol. |

**1 – Argymhelliad/ion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini nodi:

1. Cynnydd gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae'r Cyngor yn darparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol, yn ogystal â chyfrannu at, a chefnogi amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorth i Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r Cynllun Llesiant yn ei gael ar unigolion a chymunedau

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
| --- |
| 1. Pa ddeilliannau amlwg sydd I ffrydiau gwaith y Bwrdd ar Ynys Môn ers yr adroddiad cynnydd diwethaf?<br>2. Pa rôl fydd gan y Bwrdd yn y cyfnod adfer yn dilyn y pandemig?<br>3. Sut mae'r Bwrdd yn sicrhau gwerth gorau am arian, a chanlyniadau gorau i drigolion Ynys Môn?<br>4. A yw'r Cynllun Llesiant yn darparu cyfleoedd i fyfyrio ac adolygu p'un ai yw gweithredoedd yn arwain at yr effaith a ddymunnir, neu a oes angen newid dull o weithredu? |

**5. – Cefndir / Cyd-destun**

**5.1 Cyflwyniad a chyd-destun**

**5.1.1** Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant a phum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus.

**5.1.2** Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn ym 2016, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Y penderfyniad a wnaethpwyd gan Bwyllgor Gwaith Ynys Môn bryd hynny oedd sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) i Ynys Môn fyddai'n *cydweithio* efo Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd.

**5.1.3** Cyhoeddwyd Asesiad o Lesiant y BGC ar gyfer ardaloedd llesiant Ynys Môn ym mis Mai 2017, ac yna yn dilyn cyfres o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori cyhoeddwyd y Cynllun Llesiant ym 2018. Ceir cadarnhad yn y Cynllun Llesiant o'r ddau amcan a chwe maes blaenoriaeth ble cytunwyd y gall y Bwrdd gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Cytunwyd felly ar feysydd blaenoriaeth sy'n gyffredin yn y ddwy Sir a bydd y BGC yn ymateb i'r materion yma ar y cyd ar draws y ddwy Sir.

**5.2 Diweddariad ar gynnydd gwaith y BGC**

**5.2.1** Fel yr amlygir yng Nghylch Gorchwyl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mae gan y BGC bedwar aelod statudol sef yr Awdurdodau Lleol, Y Bwrdd Iechyd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Gwasanaeth Tân- ynghyd â chyfranogwyr gwadd sy'n cyfrannu at ddyletswyddau'r Bwrdd.

**5.2.2** Mae'r gan y BGC is-grwpiau er mwyn ei gefnogi i weithredu ei swyddogaethau. Ceir isod ddiweddariad ar waith yr is-grwpiau. Mae'n deg dweud fod y pandemig wedi arafu cynnydd yr is-grwpiau yn ystod y misoedd diwethaf, ond bellach mae pob un o'r is-grwpiau yn ail afael yn eu cynlluniau gwaith. Maer BGC wedi parhau i gynnal cyfarfodydd yn ystod cyfnod y pandemig sy'n dangos ymrwymiad ein haelodau i'r gwaith.

**5.3 Amcan 1 – Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor**

**5.3 Is-grŵp cartrefi**

**5.3.1** Mae'r is-grŵp cartrefi yn parhau i weithredu yn unol â'u cynllun gweithredu. Mae gan yr is-grŵp reolwr prosiect rhan amser sy'n cael ei ariannu gan aelodau'r BGC. Fe gytunwyd yn

ddiweddar i'r swydd gael ei hymestyn am 6 mis pellach (hyd at Fehefin 2021). Mae'r rheolwr prosiect yn defnyddio methodoleg rheoli prosiect i sicrhau fod y prosiect yn gweithredu yn unol ar amserlen ac adnoddau disgwyliedig.

**5.3.2** Pwrpas yr is-grŵp yw edrych am gyfleoedd i ddatblygu tai arloesol, sy'n cyd fynd ac nid yn dyblygu'r gwaith sy'n deillio o strategaeth tai Ynys Môn.

**5.3.3** Mae'r hyn sydd wedi ei gyflawni gan yr is-grŵp hyd yma wedi bod o fudd mawr i aelodau'r BGC, ac fe ddangoswyd gwerthfawrogiad i'r is-grŵp am eu gwaith yn ystod cyfarfod ddiwethaf y BGC ym mis Rhagfyr. Mae'r grŵp wedi sefydlu trefn cydweithio a rhannu arfer dda rhwng Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri ac Adra. Yn ogystal- cynhaliwyd gwerthusiad o wahanol fodelau tai arloesol a'u hyfywedd ariannol, a gwerthusiad o wahanol safleoedd a'u haddasrwydd ar gyfer datblygu tai arloesol. Mae'r broses yma wedi dangos parodrwydd y partneriaid i rannu gwybodaeth am ragdybiaethau ariannol ac am eu hasedau gyda'r is-grŵp.

**5.3.4** Bu i'r is-grwp werthuso nifer fawr o safleoedd fel rhan o'u gwaith, a'u haddasrwydd ar gyfer gwahanol fodelau. Defnyddiwyd yr ymarfer i ddiystyru safleodd nad oedd yn addas neu hyfyw. Mae un safle ym Môn bellach ar restr fer yr is-grwp sydd â'r potensial ar gyfer ei ddatblygu.

**5.3.5** Ar fater cysylltiedig â gwaith yr is-grŵp cartrefi (ond ddim yn rhan o'u cynllun gweithredu) gwahoddwyd Ned Michael i gyfarfod y BGC ym mis Rhagfyr i roi diweddariad Cyngor Sir Ynys Môn ar effaith ail gartrefi ar y farchnad dai. Mae argaeledd tai i bobl leol yn parhau i fod yn bryder i'r BGC, a'r sefydliadau unigol. Cytunwyd i'r BGC ysgrifennu llythyr at y Llywodraeth i gefnogi safbwyntiau Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn am y mater, sydd eisoes wedi cysylltu gyda'r Llywodraeth i ofyn iddynt gydweithio. Yn ogystal bydd y llythyr gan y BGC yn benodol yn cyfeirio at faterion llesiant yn y maes tai, ac effaith hir dymor y mater ar lesiant ein trigolion.

**5.4 Newid Hinsawdd**

**5.4.1** Yn ystod y misoedd diwethaf mae'r is-grŵp newid hinsawdd wedi canolbwyntio ar ail afael yn eu cynllun gwaith, a hynny ers yr oediad o ganlyniad i ddyfodiad y pandemig. Gofynnwyd yn wreiddiol i'r is-grŵp gydweithio yn lleol ac yn gweithredu ar y cyd i geisio lliniaru effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau. Fel man cychwyn o ail afael yn y gwaith yma fe drefnwyd gweithdy yn ystod mis Ionawr 2021 ar gyfer cynrychiolaeth eang o sefydliadau cyhoeddus. Cafwyd trafodaethau ar enghreifftiau o arfer dda yn y maes newid hinsawdd. Cyfeiriwyd at y gwaith a wnaethpwyd gyda'r cymunedau yn Niwbwrch a Dwyran yn ddiweddar, er mwyn ymateb i anghenion lleol.

**5.4.2** Bydd ail ran y gweithdy yn digwydd ym mis Mawrth ac yn gyfle i barhau gyda'r drafodaeth ac i gytuno ar weithredoedd ar gyfer eu cynllun gweithredu. Mae'r is-grŵp hefyd yn disgwyl cyfarwyddyd ar lefel rhanbarthol. Comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru Alan Netherwood i lunio adroddiad ar ddull rhanbarthol o ymdrin â Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r adroddiad yn argymell bod Gogledd Cymru yn symud tuag at ddull trawsnewidiol o ymdrin ag argyfwng yr hinsawdd ac yn nodi tri maes blaenoriaeth lle dylid datblygu cydweithredu rhanbarthol dros gyfnod o dair blynedd. Byddai hyn yn trin newid yn yr hinsawdd fel mater strategol sy'n hanfodol i les y rhanbarth yn y dyfodol.

Y tair blaenoriaeth yw:

- Cydlynu gweithgarwch y sector cyhoeddus i sicrhau Sector Cyhoeddus Carbon Niwtral erbyn 2030.
- Cydgysylltu gwaith rhanbarthol i sefydlu mesurau ac arferion i ddal a storio carbon a lleihau nwyon tŷ gwydr o arferion rheoli tir yn y rhanbarth.
- Cydlynu gweithgarwch rhanbarthol i ymateb i risg yr hinsawdd ac adeiladu gwydnwch yn erbyn effeithiau'r hinsawdd.

Gyda'r argymhelliad y dylai Gogledd Cymru sefydlu Grŵp Cydgysylltu Strategol ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd i oruchwylio'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau hyn.

**5.4.3** Ochr yn ochr â gwaith yr is-grŵp mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn cynnal sesiynau ymgynghori/ ymgysylltu yn gysylltiedig â'u gwaith ar y Datganiadau Ardal. Bydd y dystiolaeth a chanfyddiadau'r datganiadau ardal yn cael eu plethu mewn i waith yr is-grŵp.

**5.5 Amcan 2 –Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da**

**5.5.1 Is-grŵp Iechyd a Gofal Integredig y Gorllewin** -Mae'r is-grŵp iechyd a gofal yn parhau i roi sylw i agweddau penodol megis - plant, oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a'r gwaith trawsffurfio. Cydnabuwyd fod yr angen i gydweithio, rhannu gwybodaeth a sicrhau mynediad rhwydd at wasanaethau yn bwrpas cyffredinol i bob un o'r ffrydiau gwaith. Yn ogystal Bwriedir i bob un o'r mentrau uchod fod yn cyflawni'r diben sydd wedi'i fabwysiadu sef: "fy helpu i fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw".

Dyma gyflwyniad cryno ar y ffrydiau gwaith.

**5.5.2 Iechyd Meddwl**
Mae yna is-grŵp iechyd meddwl eisoes wedi ei ddatblygu a hynny o dan arweiniad y Bwrdd Iechyd. Yn ystod yr wythnosau nesaf bydd yr is-grŵp iechyd a gofal yn rhoddi ystyriaeth i strwythurau presennol y grŵp, ac ymyraethau a chefnogaeth sydd eu hangen yn sgil Covid_19. Bydd diweddariadau ar waith yr is-grŵp iechyd meddwl yn cael eu trafod yn yr is grŵp iechyd a gofal.

**5.5.3. Rhaglen Trawsnewid Gymunedol**
Mae trefniadau ar y gweill ar gyfer integreiddio iechyd a gofal ar y lefel mwyaf lleol ar draws y sir. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod ansicr ac mae'r angen i gydweithio, rhannu gwybodaeth a sicrhau mynediad rhwydd i'n gwasanaethau yn bwysicach nag erioed. Mae'r is-grŵp yn dangos parodrwydd i weithio mewn ffyrdd hyblyg, gwahanol sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod y misoedd diwethaf. Mae hwn yn drosolwg cryno iawn o ddatblygiadau Ynys Môn yn ystod y misoedd diwethaf:

**Ynys Môn**

- Ers canol Medi, cynhaliwyd cyfarfodydd amlddisgyblaethol ('huddle' / 'timau amlddisgyblaethol') deirgwaith yr wythnos. Mae hyn bellach yn cael ei ddiwygio a bydd

cyfarfod hirach yn digwydd unwaith yr wythnos. Daw'r cyfarfodydd â phartneriaid at ei gilydd ar sail 3 x CRT

- Mae holl staff a rheolwyr gofal cymdeithasol (a oedd wedi'u strwythuro'n flaenorol fel un tîm canolog) wedi'u dyrannu i un o'r 3 CRTs
- Mae'r 3ydd sector a darparwyr allanol wedi'u hychwanegu'n ddiweddar at y rhestr o aelodau CRT craidd, ac maent yn mynychu cyfarfodydd amlddisgyblaethol
- Cynnydd wedi'i wneud yn CRTs Caergybi a Llanfair PG (De Ynys Môn) ynghylch gofod swyddfa addas ar gyfer y CRTs, ac mae trafodaethau'n ailddechrau ynghylch defnyddio safle meddygfa Amlwch
- Sefydlwyd Grŵp Datblygu ac Adolygu (mae aelodaeth yn cynnwys rheolwyr allweddol) i oruchwylio cynnydd, ac mae bwriad i fabwysiadu'r dull hyblyg o ymdrin â chyfarfodydd cynnydd uwch arweinwyr / CRT o fis Chwefror 2021 ymlaen.

**5.5.4 Cell Intel y Gorllewin -**
Cronfa ddata defnyddiol yw'r Gell Intel ,sy'n cael ei reoli gan BIPBC, i gyfarwyddo penderfyniadau. Mae grŵp wedi ei sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r BIPBC, Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Ambiwlans er mwyn cadw trosolwg o sefyllfa Covid, dadansoddiad o welyau mewn defnydd a chapasiti staffio. Bydd y grŵp yn adrodd yn wythnosol i'r Grŵp Integredig Iechyd a Gofal, er mwyn eu cynorthwyo i gynllunio gwasanaethau.

**5.5.5 Plant**
Cytunwyd i ail-edrych ar y gwaith trawsffurfio rhanbarthol a sefydlu rhaglen waith i'r Gorllewin, yn seiliedig ar y rhaglen waith '*no wrong door'.*

**5.6. Yr Iaith Gymraeg**

**5.6.1** Ni fu arweinydd i'r is grŵp benodol yma am gyfnod. Erbyn hyn mae Aled Jones Griffith o Goleg Llandrillo a Menai wedi cytuno i ymgymryd â'r rôl, a bydd y BGC yn cymeradwyo hyn yn ystod y cyfarfod ym mis Mawrth. Yn y cyfamser mae'r is-grŵp – sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Gyngor Sir Ynys Môn, wedi rhoi ystyriaeth i'w cynllun gwaith am y misoedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys rhoi sylw i effaith Covid_19 ar yr Iaith Gymraeg, a chanfyddiadau gwaith ymchwil Prifysgol Bangor a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r is-grŵp yn ogystal mewn trafodaethau gyda'r partneriaeth sgiliau am drefniadau cydweithio, gan fod yr Iaith Gymraeg yn rhan allweddol o gryfhau ac adfer ein cymunedau.

**5.6.2** Mae'r BGC yn awyddus iawn i fod yn ystyried sut mae modd cynyddu defnydd o'r Gymraeg wrth i aelodau o'r cyhoedd wneud y cyswllt cyntaf gyda sefydliadau cyhoeddus. Roedd yn fwriad gan yr is-grwp iaith i gynnal astudiaeth i ystyried defnydd iaith mewn derbynfeydd, gyda'r gobaith o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd papur cynnig prosiect wedi'i gymeradwyo gan y BGC yn ôl ym mis Mawrth 2020. Wrth gwrs, oherwydd yr argyfwng, roedd nifer o dderbynfeydd ar gau yn ystod gweddill 2020 ac o'r herwydd ni aeth y gwaith yn ei flaen. Bydd yr is-grŵp yn gofyn am arweiniad y BGC ar y ffordd ymlaen yng ngoleuni'r argyfwng er mwyn ystyried a oes dymuniad yn parhau i gynnal prosiect o'r fath, neu a oes angen newid ffocws i'r dyfodol.

**5.7 Asesiadau Llesiant**

**5.7.1** Bydd y gwaith hwn cael ei yrru gan gynllun prosiect, sydd i'w gymeradwyo gan y BGC ym mis Mawrth. Bwriedir ymgysylltu ac ymgynghori gyda thrigolion Ynys Môn o'r 6 ardal llesiant. Mae hyn yn gyfle cyffrous unwaith yn rhagor i holi ein cymunedau am yr hyn sy'n bwysig iddynt, a'r hyn sy'n effeithio ar eu llesiant. Byddwn yn cymryd i ystyriaeth effeithiau Covid_19 a Brexit ar ein cymunedau, yn ogystal â thrafod ein hymagwedd tuag at y normal newydd. Bwriedir gydweithio'n agos gyda gyda Chyngor Sir Ynys Môn, a phartneriaid eraill er mwyn ymgysylltu'n effeithiol a cheisio osgoi dyblygu.

**5.8 Cyflawni**

**5.8.1** Mae'r pedwar is-grŵp a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Disgwylir bod arweinyddion yr is-grwpiau yn adrodd yn ôl ar gynnydd yn chwarterol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y cyfnod o gyflawni'r amcanion yn gyfle i bartneriaid y BGC ddangos eu parodrwydd a'u hymroddiad i weithio'n gydweithredol ac arloesol ar gynlluniau cyraeddadwy.

**5.8.2** Mae'r BGC yn gweithredu yn unol â saith egwyddor, sef y pum egwyddor datblygu gynaliadwy cenedlaethol uchod, ynghyd â dau sydd wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd sef 'Yr Iaith Gymraeg' a 'Chydraddoldeb'. Golyga hyn weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau y bodlonir anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain.

**5.8.3** Er mwyn ymateb i'r amserlen o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol bydd y BGC yn cyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn mis Gorffennaf 2021. Bydd y BGC yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol i Bwyllgor Sgriwtini Ynys Môn cyn hynny er sylwadaeth.

**5.9 Trefniadau Craffu**

**5.9.1** Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / sgriwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Bydd y BGC hefyd yn paratoi adroddiad blynyddol i ddangos cynnydd wrth iddo geisio cyflawni'r amcanion llesiant. Anfonir copi o bob adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru, y Comisiynydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru a phwyllgorau craffu / sgriwtini y cynghorau.

**5.9.2** Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig[1] yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

[1] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

**5.9.3** Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn destun craffu gan Bwyllgor craffu / sgriwtini dynodedig awdurdodau lleol Gwynedd ac Ynys Môn yn bresennol. Cytunwyd ar sefydliad Y BGC bydd panel craffu ar y cyd rhwng y 2 sir yn cael ei ddatblygu i wneud y gwaith yma ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Mae swyddogion craffu o Wynedd ac Ynys Môn wedi gwerthuso'r opsiynau o barhau gyda threfniadau craffu presennol yr Awdurdodau Lleol neu sefydlu panel ar y cyd. Daethpwyd i'r casgliad nad oeddent yn argymell sefydlu panel ar hyn o bryd ond yn hytrach i ganolbwyntio ar alinio amserlenni a chysondeb trefniadau craffu ar draws y 2 Sir. Byddai modd adolygu'r trefniadau hyn rhwng y ddau gyngor eto maes o law.

**6.0 Adnoddau**

**6.1** Mae rheolaeth a chefnogaeth weinyddol ar gyfer y Bwrdd yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd.

**6.2** Cyfrifoldeb pob aelod statudol yn gyfartal yw adnoddau ar gyfer cyflawni gwaith yr is-grwpiau. Bydd y cyfraniadau yn cael eu cytuno a'i hadolygu gan y Bwrdd yn ôl y gofyn.

**6.3 Rheoli Risgiau**

**6.3.1** Mae'r Bwrdd yn rheoli risgiau mewn perthynas â phrosiectau a gwaith yr is-grwpiau er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â'r Cynllun Llesiant a'r amserlen benodedig. Mae cofrestr risg y Bwrdd yn cael ei reoli yn unol â'r pum ffordd o weithio.

| **7– Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **7.1** Bydd yr is-grwpiau cyflawni yn paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb ac ieithyddol, ble mae hynny'n briodol, i gyd-fynd â'u cynlluniau gweithredu. Bydd yr asesiadau effaith yn ddogfennau byw fydd yn newid a datblygu ochr yn ochr â'r gwaith cyflawni. Mae tîm cefnogi'r BGC yn rhoi sylw i ddatblygu teclyn Asesiad Effaith Llesiant yn bresennol. |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| - |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| 1. Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn 2018<br>2. Cofnodion Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 10fed Dachwedd 2020 |

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 11 Mawrth 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2019/20 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Cyflwyno'r adroddiad er sylwadau cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyiedig i'w gyhoeddi. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cyng Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cyng Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Lynn Ball,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Carol Wyn Owen, Rheolwr Polisi a Strategaeth<br>01248 752561<br>CarolWyn@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau lleol:** | Ddim yn berthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gwahoddir y Pwyllgor i gyflwyno sylwadau ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2019/20 cyn ei gyflwyno am gymeradwyaeth dirprwyiedig gan y Deilydd Portffolio i'w gyhoeddi. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Er mwyn dangos ein hymrwymiad i brif ffrydio cydraddoldeb o fewn y Cyngor - ac yn unol â'n ymagwedd 'Un Cyngor' tuag at ddarparu gwasanaethau - rydym wedi ceisio cynnal cysylltiadau agos rhwng ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol2020-2024 a **Chynllun y Cyngor 2017-2022**. Mae'r adroddiad blynyddol yma ar gydraddoldeb yn ceisio parhau'r cysylltiadau hyn trwy gyfeirio at rai enghreifftiau o arfer dda o Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor 2019/20. |

| **3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]** |

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| 1 - Pa gamau a roddwyd yn eu lle er mwyn sicrhau nad yw plant / pobl fregus yn dioddef anghydraddoldeb yn sgil pandemig Covid-19?<br><br>2 - Sut bwriedir sicrhau y bydd y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn dod yn rhan annatod o waith y Cyngor?<br><br>3 - I ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni'r amcanion cydraddoldeb yn llwyddiannus?<br><br>4 - Pa ddangosyddion perfformiad neu ddata a ddefnyddir er mwyn mesur a monitro cydraddoldeb ar draws yr ynys? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Mae'n ofynnol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus bod pob awdurdod cyhoeddus a restrir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswyddau Statudol (Cymru) 2011 yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn sy'n dilyn y cyfnod adrodd. Prif bwrpas yr Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb yw cefnogi'r awdurdod i gwrdd â'i ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol i:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt

- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â chyflogaeth ac adrodd ar gynnydd yn erbyn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb sydd wedi'u hadnabod yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor. Fe gyflwynwyd y Cynllun Strategol drafft ar gyfer 2020-2024 i'r Pwyllgor hwn er sylwadau ar 4 Chwefror 2020 ac fe'i gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 10 Mawrth 2020.

Yn unol â'r gofynion, mae'r wybodaeth ar gyflogaeth yn yr adroddiad blynyddol eleni yn seiliedig ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020. Mae gweddill yr adroddiad yn amlinellu cynnydd hyd at fis Rhagfyr 2020, er mwyn rhoi darlun mwy diweddar o'r sefyllfa.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Pwrpas yr adroddiad blynyddol yw edrych yn ôl ar sut mae'r Cyngor wedi bod yn cwrdd â'i ddyletswyddau o ran cydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys amlinelliad o gynnydd yn erbyn y gwaith sy'n gysylltiedig a'n blaenoriaeth i sefydlu proses gorfforaethol effeithiol er mwyn sicrhau bod effeithiau'n cael eu hasesu'n barhaus ar draws y gwasanaethau (Amcan 8, Blaenoriaeth 8.2)

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Amherthnasol.

**8 – Atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2019/20 (drafft).

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2019/20
# DRAFFT

**Mawrth 2021**



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Sut i gysylltu â ni

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau, awgrymiadau neu adborth am yr Adroddiad Blynyddol hwn ar Gydraddoldeb. Cysylltwch â ni:

E-bost: cydraddoldeb@ynysmon.gov.uk
Rhif Ffôn: 01248 752520 / 752561

Gwasanaethau Democrataidd (Cydraddoldeb)
Busnes y Cyngor
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Rydym hapus hefyd i ddarparu'r ddogfen hon mewn fformatau gwahanol ar gais. Defnyddiwch y manylion uchod i gysylltu â ni.

## Mynegai


| | Tudalen |
|---|---|
| Sut i gysylltu â ni | 2 |
| Rhagarweiniad a Chefndir | 4 |
| Deddf Cydraddoldeb 2010 | 4 |
| Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) | 5 |
| Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb | 5 |
| Blaenoriaethau’r Cyngor | 5 |
| Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol | 6 |
| Ein Cymunedau | 6 |
| Ein Staff | 6 |
| Asesu Effaith | 15 |
| Hyrwyddo Cydraddoldeb | 16 |
| Cydweithio | 17 |
| Ein Hamcanion Cydraddoldeb | 17 |
| Atodiad 1 – Blaenoriaethau CCS 2020-2024: Cynnydd hyd at Rhagfyr 2020 | 20 |
| Atodiad 2 – Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau | 43 |




Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# Rhagarweiniad a Chefndir

## Deddf Cydraddoldeb 2010

Pwrpas Deddf Cydraddoldeb 2010 yw sicrhau tegwch ac mae'n diogelu'r nodweddion canlynol (sy'n cael eu galw hefyd yn 'grŵpiau gwarchodedig'):

- Oed
- Anabledd
- Rhyw
- Newid rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred, gan gynnwys diffyg cred
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Priodas a phartneriaeth sifil

Nid yw hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg wedi'i gynnwys yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gan fod gofynion **Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011** yn rhoi sylw i hyn. Fodd bynnag, mae'n bwysig cynnwys yr iaith Gymraeg ochr yn ochr â'r nodweddion gwarchodedig uchod er mwyn annog ymagwedd holistaidd tuag at anghenion pob cymuned wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

### Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol

Mae'r Ddeddf yn gosod Dyletswydd Gyffredinol ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r canlynol wrth weithredu eu swyddogaethau:

- Diddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

### Dyletswyddau Penodol

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddyletswyddau penodol i helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gyfarfod â'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r dyletswyddau penodol hyn yn cynnwys gofyniad i ddatblygu a chyhoeddi **amcanion cydraddoldeb** a **Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol** o leiaf unwaith bob pedair blynedd. Hefyd, rhaid cynhyrchu **adroddiadau blynyddol ar gydraddoldeb** (hy yr adroddiad hwn) erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos sut yr ydym wedi cwrdd gyda'n dyletswyddau cyffredinol a phenodol o ran cydraddoldeb.

**Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

Bydd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (Rhan 1, Adran 1 o'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010) yn dod i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Nod cyffredinol y Ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd y Ddyletswydd yn cefnogi hyn drwy sicrhau bod y rheini sy'n gwneud penderfyniadau strategol:

- yn ystyried tystiolaeth ac effaith posibl drwy ymgynghori ac ymgysylltu,
- yn deall barn ac anghenion y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt, yn enwedig y rheini sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol
- yn croesawu her a chraffu
- yn sbarduno newid yn y ffordd y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r ffordd y mae llunwyr penderfyniadau yn gweithredu

Rydym yn egluro sut yr ydym wedi bod yn paratoi ar gyfer y Ddyletswydd newydd yma yn Atodiad 1 (Amcan 8).

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf (2012-2016) yn Ebrill 2012. Fe adolygwyd y Cynllun hwnnw - ynghyd â'r amcanion cydraddoldeb a gynhwysir ynddo - ac fe gyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig ar gyfer 2016–2020 ym mis Mawrth 2016. Cyhoeddwyd trydydd Cynllun, ar gyfer 2020–2024, ym mis Mawrth 2020. Gellir gweld y Cynllun a dogfennau perthnasol eraill ar ein gwefan.

## Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb

Yr adroddiad hwn yw'r Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb, a'i brif bwrpas yw dangos sut yr ydym yn cydymffurfio gyda'n dyletswyddau o ran cydraddoldeb.

Mae'r adroddiad yma'n ymwneud â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 o ran data cyflogaeth. Mae gweddill yr adroddiad yn cynnwys amlinelliad o ddatblygiadau hyd at Rhagfyr 2019 er mwyn darparu darlun mwy cyfredol a hefyd er mwyn ategu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd.

## Blaenoriaethau'r Cyngor

### Cynllun y Cyngor 2017-2022

Nod y Cyngor, fel a nodir yn ein Cynllun Cyngor, yw y byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach ac yn llewyrchus ble gall teuluoedd ffynnu. Er mwyn diwallu'r nod hwn, amcanion y Cyngor ar gyfer 2017-2022 yw:

(1) Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
(2) Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl
(3) Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i'w galluogi i ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth warchod ein hamgylchedd naturiol

Rydym wedi ceisio cadw cysylltiadau agos rhwng ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd a Chynllun y Cyngor 2017-2022, sy'n sylfaen i'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi:

- **Dogfen Gyflawni Flynyddol** sy'n hoelio sylw ar y gwaith a wneir gennym i wireddu'r targedau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol.

- **Adroddiad Perfformiad Blynyddol** sy'n edrych ar berfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau a nodir yn y Ddogfen Gyflenwi Flynyddol ar gyfer yr un flwyddyn.

# Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol

## Ein Cymunedau

Rydym o'r farn ein bod yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys o fewn ystod eang o strategaethau, cynlluniau gwasanaeth a chorfforaethol ac adroddiadau pwyllgor a gyhoeddir ar ein gwefan. Mae copïau papur neu fformatau amgen eraill ar gael hefyd ar gais - defnyddiwch y manylion cysylltu ar dudalen 2 i gysylltu â ni os gwelwch yn dda.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu a gwella'n barhaus y wybodaeth sydd gennym am grwpiau a warchodir ar Ynys Môn a byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid ac ymrwymo pobl i gyflawni hyn.

## Ein Staff

### Gwybodaeth am Gyflogaeth


Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweld data fel teclyn hanfodol i gyflawni ei ddyletswyddau sector gyhoeddus mewn perthynas â chyflogaeth, i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal, helpu i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Mae'r Awdurdod yn ymdrechu'n barhaus i gasglu gwybodaeth gywir am ei staff ac yna dadansoddi'r data am y grwpiau cydraddoldeb a warchodir, a hynny drwy'r system Adnoddau Dynol electronig.


Mae'r data a ddelir yn ymwneud â 3,077 o weithwyr y Cyngor (yn cynnwys staff dysgu) a rhoddwyd ystyriaeth i'r nodweddion a warchodir o ran rhyw, oedran, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol ac anabledd ymhlith staff presennol, lle mae'r wybodaeth honno gennym ac wedi'i rhannu â'r Awdurdod. Ceir hefyd ddadansoddiad o'r rheiny sydd wedi gwneud cais am swyddi gweigion o fewn yr Awdurdod âr ol y wybodaeth am staff cyfredol.

Mae'r graffiau gwybodaeth ganlynol yn amlinellu'r wybodaeth am gyflogaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn:

| **Pobl a gyflogwyd gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2020** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dynion | Merched | Cyfan swm | Oed <25 | Oed 26-34 | Oed 35-44 | Oed 45-54 | Oed 55-64 | Oed 65+ | * Anabl | *BME ** | *LHD *** |
| 774 | 2303 | 3077 | 314 | 574 | 643 | 777 | 602 | 167 | 86 | 13 | 28 |


*Nid oes rhaid i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth yma. O'r rhai hynny sydd wedi datgan, dyma'r dadansoddiad
**BME – Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig
***LGB – Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol










Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English




Crefydd y Staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
2500
2000
1500
1000
500
0
3 1
829 727
4 1
2 3
368 400
25 20
60 74
1950 1851
BWDHYDD
CRISTION
HINDW
IDDEW
DIM CREFYDD NA CHRED
ARALL
GWELL GENNYF BEIDIO A DWEUD
ANHYSBYS
31/03/2019
31/03/2020

Staff gyda Fflag Anabledd ar 31 Mawrth
86
82
2019
2020



Tarddiad Ethnig Staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
2000
1800
1600
1400
1200
1000
800
600
400
200
0
1869
1825
4
2
3
7
4
3
1352
1230
3
1
ANHYSBYS
TSIEINIAIDD
CYMYSG
ARALL
GWYN
DU
31/03/2019
31/03/2020

Cyfeiriadedd Rhywiol Staff a gyflogwyd ar 31 Mawrth
2500
2000
1500
1000
500
0
19
16
8
4
1122
1076
4
8
105
103
1983
1870
DEURYWIOL
HOYW
HETERORYWIOL
LESBIAD
GWELL GENNYF BEIDIO A DWEUD
ANHYSBYS
31/03/2019
31/03/2020

Mae’r wybodaeth arall sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys y canlynol:

| **Pobl sydd wedi llwyddo i newid swydd o fewn yr Awdurdod yn 2019/2020**<br><br>Bydd y ffigyrau hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi cael dyrchafiad, wedi newid rol ar yr un lefel neu wedi cymryd ail swydd gyda’r Awdurdod | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dynion | Merched | Cyfan swm | Oed <25 | Oed 26-34 | Oed 35-44 | Oed 45-54 | Oed 55-64 | Oed 65+ | * Anabl | *BME ** | *LHD *** |
| 95 | 318 | 413 | 69 | 91 | 104 | 91 | 50 | 8 | 14 | 2 | 4 |
| *Nid oes rhaid i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu’r wybodaeth yma. O’r rhai hynny sydd wedi datgan, dyma’r dadansoddiad<br>**BME – Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig<br>***LHD – Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | | | | | | | | | | | |

| **Data Hyfforddiant** | | |
|---|---|---|
| Hyfforddiant a gwblhawyd | Dynion sydd wedi cwblhauhyfforddiant | Merched sydd wedi cwblhau hyfforddiant |
| 4835 | 1279 | 3556 |

**Cwynion -** Mae’r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â gweithwyr sydd wedi ymwneud â’r drefn datrys cwynion, un ai fel yr achwynydd neu fel y person y gwnaed cwyn yn eu herbyn, a hynny rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 ac fe’i chyflwynir ar gyfer pob un o’r nodweddion a warchodir.

| | |
|---|---|
| **Nifer y cwynion** | 5 |
| **Oed** | 16-24 – 0<br>25-34 – 1<br>35-44 – 0<br>45-54 – 1<br>55-64 – 2<br>65+ - 1 |
| **Anabledd** | Dim wedi’i gofnodi |

| | |
|---|---|
| **Newid Rhyw** | Dim wedi'i gofnodi |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Dim wedi'i gofnodi |
| **Hil** | Gwyn – 3<br><br>Gwybodaeth wedi'i chofnodi ar gyfer 3 / 5 |
| **Crefydd neu Gred** | Cristion – 3<br><br>Gwybodaeth wedi'i chofnodi ar gyfer 3/5 |
| **Rhyw** | Gwrywaidd - 3<br>Benywaidd – 2 |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Heterorywiol – 3<br><br>Gwybodaeth wedi'i chofnodi ar gyfer 3 / 5 |


**Disgyblu -** Mae'r tabl isod yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â gweithwyr sydd wedi ymwneud â'r drefn ddisgyblu, a hynny rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 ac fe'i chyflwynir ar gyfer pob un o'r nodweddion a warchodir:

| | |
|---|---|
| **Nifer y gweithwyr a oedd yn ddarostyngedig i'r drefn ddisgyblu** | 21 |
| **Oed** | 16-24 – 1<br>25-34 – 2<br>35-44 – 7<br>45-54 – 5<br>55-64 – 5<br>65+ - 1 |
| **Anabledd** | Dim wedi'i gofnodi |
| **Newid rhyw** | Dim wedi'i gofnodi |
| **Beichiogrwydd a Mamoldaeth** | Dim wedi'i gofnodi |
| **Rhyw** | Gwyn – 7<br><br>Gwybodaeth wedi'i chofnodi ar gyfer 7 / 21 |

| | |
|---|---|
| **Crefydd neu Gred** | Cristion – 3<br>Dim crefydd na chred – 3<br>Arall - 1<br><br>Gwybodaeth wedi'i chofnodi ar gyfer 7 / 21 |
| **Rhyw** | Gwrywaidd - 12 Benywaidd - 9 |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Heterorywiol – 6<br>Gwell gennyf beidio â dweud – 1<br><br>Gwybodaeth wedi'I chofnodi ar gyfer 7 / 21 |


Gwybodaeth mewn perthynas ag ymgeiswyr i swyddi gweigion a hysbysebwyd gan yr Awdurdod


| **Pobl sydd wedi gwneud ceisiadau am swyddi gyda'r Awdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyn-ion | Merched | Cyfan-swm | Oed <25 | Oed 26-34 | Oed 35-44 | Oed 45-54 | Oed 55-64 | Oed 65+ | *An-abl | *BME ** | *LDH *** |
| 527 | 1039 | 1566 | 172 | 207 | 135 | 100 | 65 | 13 | 25 | 22 | 38 |
| *Nid oes rhaid i weithwyr nag ymgeiswyr ddarparu'r wybodaeth yma. O'r rhai hynny sydd wedi datgan, dyma'r dadansoddiad,<br>** BME – Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig<br>***LHD – Pobl Lesbiaidd, Hoyw neu Ddeurywiol | | | | | | | | | | | |





Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English




Mae gan yr Awdurdod system recriwtio arlein sy’n gweithredu’n llawn ac yn cysylltu data monitro cydraddoldeb yr ymgeisydd gyda’u cofnod staff electronig. Mae’r ffurflen hefyd yn cynnwys yr opsiwn i staff nodi ‘gwell gennyf beidio â dweud’. Golygai hyn felly y bydd y wybodaeth am y rhai sy’n dewis ei darparu o ran cydraddoldeb yn cael ei adlewyrchu yn y data ar gyfer y gweithlu.

Mae rhai bylchau yn parhau o ran ywybodaeth am staff presennol. Mae'r system hunan-wasanaeth, My View, yn caniatau staff o ddiweddaru eu gwybodaeth monitro cydraddoldeb eu hunain, yn ôl eu hwylustod. Mae cynlluniau ar waith i wneud mwy o farchnata o ran hyn. Rhaid cydnabod bod y data yn fwy cywir o lawer na'r flynyddoedd diwethaf, a hynny o ganlyniad i ymarferiad ar bapur ar draws y sefydliad i annog staff i rannu'r wybodaeth yma ym Medi 2019. Mae yna ymrwymiad I barhau I sicrhau bod y wybodaeth a ddelir mor gyfredol a phosibl.

**Hyfforddiant**

Yn unol â'r Strategaeth Bobl, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu gweithwyr ac aelodau etholedig i sicrhau bod y rhai hynny sy'n cael eu cyflogi ac yn gweithio gyda'r Awdurdod â sgiliau, wedi'u hyfforddi ac yn barod i gwrdd yn frwdfrydig ag anghenion heriol ac amrywiol y gymuned. Gall cyfleoedd hyfforddiant a datblygu gynnwys cymwysterau ac achrediadau, dysgu yn yr ystafell ddosbarth, e-ddysgu, dysgu cyfunol, dysgu hunangyfeiriedig, cysgodi a dysgu yn y gwaith.

Er mwyn darparu ein gwasanaethau'n effeithiol, mae angen i'r holl staff ac Aelodau Etholedig fod yn ymwybodol o'r Dyletswyddau Cydraddoldeb cyffredinol a phenodol er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ystyriaeth fel rhan o'r gwaith y maent yn ei wneud. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi cynnwys:

- Darparu hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i staff ac aelodau etholedig.
- Darparu hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth ar asesu'r effaith ar gydraddoldeb i staff ac aelodau etholedig.
- Gweithredu porth e-ddysgu newydd sydd ar gael ar unrhyw adeg ac ar unrhyw ddyfais.
- Rhan ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'I gynnwys yn yr anwythiad corfforaethol I bod aelod newydd o staff.

Mae'r Awdurdod yn parhau i gymryd camau cadarnhaol tuag at hyrwyddo a datblygu cydraddoldeb ac amrywiaeth o fewn y sefydliad, a bydd yn parhau i ddatblygu ac esblygu dulliau presennol i sicrhau bod cynnydd yn parhau.

## Asesu Effaith

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gofyniad statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb ac mae hyfforddiant ar gael i unrhyw aelodau o staff sy'n teimlo eu bod angen rhagor o arweiniad wrth ddefnyddio templedi'r Awdurdod ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Y nod yw i'r broses yma cael ei phriflifo i'r gwaith dydd i ddydd o lunio polisiau, arferion cyflogaeth, darparu gwasanaethau a swyddogaethau eraill o fewn y sefydliad. Ymddengys bod hyn yn symud ymlaen yn gadranhaol, gyda mwy a mwy o feysydd yn adnabod yr angen am asesiadau effaith ar gydraddoldeb a thystiolaeth, sy'n dangos bod y canllawiau a'r templedi sydd ar gael yn cael eu defnyddio.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad yma, roedd y templed a'r canllawiau corfforaethol ar gyfer cynnal asesiadau effaith yn cael eu hadolygu, a hynny er mwyn ymgorffori gofynion y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol sy'n dod i rym ar 31 Mawrth 2021. Mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Atodiad 1 (Amcanion 7 a 8).

## Hyrwyddo Cydraddoldeb

Mae delio gydag argyfwng Covid-19 wedi bod yn her sylweddol i'r Cyngor dros y misoedd diwethaf. Mae ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20 (a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020) yn rhestru nifer o weithrediadau a wnaed gan y Cyngor a'i bartneriaid er mwyn hyrwyddo cydraddoldeb a diogelu ein cymunedau mwyaf bregus, er enghraifft:

- Amddiffyn a chefnogi plant bregus a phlant ein gweithwyr allweddol yn ein Hybiau Gofal
- Gweithredu grantiau cenedlaethol, ee cymorth busnes, taliadau uniongyrchol am brydau ysgol am ddim

Ar adeg ysgrifennu'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol:

- Roedd y cynllun 'Neges' a sefydlwyd o dan arweiniad Menter Môn er mwyn sicrhau bod pobl fregus yn ein cymdeithas yn cael prydau maethlon, wedi danfon mwy na 3000 o brydau i unigolion, cyplau a theuluoedd ers dechrau'r pandemig
- Roedd banciau bwyd wedi dosbarthu dros 400 o becynnau, gydag ymateb eithriadol o ran rhoddion gan y cymunedau
- Roedd 3393 o bobl wedi derbyn llythyr Gwarchod gan Lywodraeth Cymru ac, ar ôl i'r Cyngor gysylltu â'r unigolion hynny, dnafonwyd tua 150 o barseli bwyd i'r rheiny a oedd angen y pecynnau
- Talwyd cyfanswm o 1551 o daliadau Prydau Ysgol am Ddim i deuluoedd cymwys ar yr ynys – mae hyn yn gynnydd ar y 1140 o hawlwyr Prydau Ysgol am Ddim a nodwyd yn CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion)

Mae llawer mwy o enghreifftiau i'w gweld yn y rhan 'Newyddion' ar ein gwefan, gan gynnwys:

IPads newydd yn cael eu darparu i gadw pobl mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu: https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/i-pads-newydd-yn-cael-eu-darparu-i-gadw-pobl-mewn-cysylltiad-a-ffrindiau-a-theulu

Gofalwch am eich meddwl ynghyd â'ch corff:
https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/gofalwch-am-eich-meddwl-ynghyd-ach-corff

Gorwel yn tawelu meddwl dioddefwyr camdriniaeth ddomestig bod cefnogaeth ar gael iddynt yn ystod Covid-19:
https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/gorwel-yn-tawelu-meddwl-dioddefwyr-camdriniaeth-ddomestig-bod-cefnogaeth-ar-gael-iddynt-yn-ystod-covid-19

Gyda'n gilydd gallwn gadw pobl yn ddiogel:
https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/gydan-gilydd-gallwn-gadw-pobl-yn-ddiogel

## Cydweithio

Grŵp o swyddogion cydraddoldeb yw'r Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru, o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae'r grŵp wedi bod yn cydweithio ers 2010 pan ddaeth y Ddeddf Cydraddoldeb i rym. Yn ystod 2011/12, datblygodd y Rhwydwaith gyfres o gydamcanion a gytunwyd gan bob partner. Fe adolygwyd yr amcanion hyn i gyd-fynd â pharatoi Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2016-20 a 2020-2024.

Bydd aelodau'r Rhwydwaith yn parhau i weithio gyda'i gilydd er mwyn rhannu arfer dda a gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael.

## Ein Hamcanion Cydraddoldeb 2020-2024

### Yr hyn yr ydym wedi ei wneud hyd yma

Fe ddaethom i'r gasgliad yn ein Cynllun ar gyfer 2020-2024 bod nifer o'r rhwystrau y mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn eu hwynebu yn rhai sy'n bodoli ers tro byd ac fe gymer gryn amser i roi sylw llawn iddynt. Oherwydd hyn, mae ein hamcanion newydd yn dilyn y fras yr un themâu ag a ddewiswyd yn ein cynlluniau blaenorol. Adnabuwyd blaenoriaethau a gweithrediadau o dan pob amcan ac mae manylion am y cynnydd dros y naw mis cyntaf o'n cynllun newydd i'w gweld yn Atodiad 1.

Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys rhai ddangosyddion o'r hyn y dylem ddisgwyl ei weld os yw'r gweithrediadau'n cael eu cwblhau'n llwyddiannus erbyn diwedd cyfnod y Cynllun cyfredol (gweler isod). Yn seiliedig ar y wybodaeth yn Atodiad 1, er y gwelwyd rhywfaint o oedi gyda rhai meysydd oherwydd heriau ychwanegol y pandemig Covid-19, rydym o'r farn ein bod yn parhau i fod ar y trywydd iawn tuag at gyflawni'r dangosyddion yma o lwyddiant erbyn diwedd cyfnod y Cynllun:

**Amcan 1: Mae canlyniadau o ran cyrhaeddiad Addysgol a llesiant mewn ysgolion yn gwella**

- Camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng gwahanol grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys bylchau sy'n codi oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol (Blaenoriaeth 1.1).

- Mae'r Cyngor wedi cael sicrwydd bod ysgolion yn gallu dangos eu bod yn cymryd camau i herio bwlio a throseddau casineb, mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol a gwella llesiant (Blaenoriaeth 1.2).

**Amcan 2: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr teg ac yn lleihau bylchau mewn cyflogau**

- Mae patrymau gwaith gweithwyr, ble bynnag y mae hynny'n bosibl, yn cael eu haddasu i'w cynorthwyo i gyfuno gwaith a blaenoriaethau eraill tra'n rhoi i'r Cyngor yr hyblygrwydd i ddarparu gwasanaeth sy'n fwy integredig ac ymatebol (Blaenoriaeth 2.1).

- Mae'r Cyngor fel mater o drefn yn casglu ac yn defnyddio data monitro gweithwyr o ran yr holl grwpiau gwarchodedig er mwyn nodi a lleihau bylchau rhwng cyflogau ac unrhyw anghydraddoldebau eraill. (Blaenoriaeth 2.2).

**Amcan 3: Byddwn yn cymryd camau i wella safonau byw pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig**

- Mae nifer yr arosfannau bysus hygyrch, cyrbinau isel addas a chyfleusterau croesi cyffyrddol ar yr ynys yn cynyddu (Gweithredoedd 3.1 a 3.2).

- Mae cwynion a dderbynnir ynghylch cerbydau sydd wedi'u parcio ar balmentydd neu ger mannau croesi yn cael sylw ac yn cael eu datrys, lle bynnag y mae hynny'n bosibl (Gweithred 3.1.3).

- Mwy o gartrefi o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ein trigolion (Blaenoriaeth 3.2).

**Amcan 4: Byddwn yn gwella canlyniadau o ran iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**

- Mwy o gyfleoedd ar gael a phobl o bob sector o'r gymuned, yn enwedig o'r grwpiau hynny nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n llawn, yn dewis ffyrdd iach o fyw drwy fod yn fwy actif (Blaenoriaeth 4.1).

- Cynnydd yn nifer y bobl â namau dysgu sy'n manteisio ar y cynnig i gael gwiriad iechyd blynyddol (Gweithred 4.2.1).

- Bod yr holl unigolion sy'n cysylltu â'r Cyngor yn cael cynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg (Gweithred 4.2.2).

**Amcan 5: Byddwn yn gwella diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder**

- Mwy o bobl yn ymwybodol o'r ffaith bod cymorth ar gael i ddioddefwyr ynghyd â sut i riportio troseddau casineb (Blaenoriaeth 5.1).

- Holl aelodau o staff ac Aelodau yn glir am y disgwyliadau a osodir arnynt o ran ymateb mewn modd priodol i bryderon sy'n cael eu riportio; gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cofnodi ac ymateb i achosion ac unrhyw honiadau neu amheuon o niwed neu gam-drin (Blaenoriaeth 5.2).

- Mwy o bobl yn ymwybodol o'r mathau mwyaf cyffredin o dwyll a sut i ddelio â nhw (Blaenoriaeth 5.3).

**Amcan 6: Byddwn yn cynyddu mynediad at gyfranogiad er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau**

- Cynnydd mewn amrywiaeth ymysg unigolion sy'n sefyll yn etholiadau llywodraeth leol 2022 ac unigolion sy'n ymgeisio i fod yn aelodau cyfetholedig fel rhan o brosesau recriwtio yn y dyfodol (Blaenoriaeth 6.1).

- Ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei gyflawni i safon uchel yn gyson ar draws y Cyngor. (Blaenoriaeth 6.2).

- Cynnydd yn nifer y sylwadau a dderbyniwyd gan grwpiau anodd eu cyrraedd mewn ymateb i ymgysylltu ac ymgynghori. (Blaenoriaeth 6.2).

**Amcan 7: Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd (pan fydd arweiniad ar gael) er mwyn adnabod y meysydd allweddol o effaith sydd angen rhoi sylw iddynt o dan bob amcan**

- Mae anghydraddoldebau cysylltiedig ag anfanteision cymdeithasol economaidd yn cael eu nodi ac yn cael ystyriaeth ddigonol yng nghynlluniau, polisïau a gweithdrefnau'r Cyngor (amcan 7).

**Amcan 8: Byddwn yn gwella gweithdrefnau'r Cyngor er mwyn sicrhau tegwch i bawb**

- Lefel uchel o ymwybyddiaeth a gwell dealltwriaeth o ddyletswyddau cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws y Cyngor (Blaenoriaeth 8.1).

- Asesiadau effaith yn cael eu cynnal i safon uchel yn rheolaidd a byddant wedi dod yn rhan annatod o fusnes o ddydd i ddydd (Blaenoriaeth 8.2).

## Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud nesaf

Byddwn yn parhau i adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnawn ac yn manteisio ar bob cyfle i symud cydraddoldeb ymlaen trwy ein gwaith ar bob lefel yn y Cyngor, er mwyn ein cynorthwyo i adeiladu cymdeithas decach i'n holl ddinasyddion. Bydd hyn yn arbennig o bwysig dros y misoedd nesaf fel y byddwn yn parhau i ymateb i'r pendemig Covid-19 trwy ddiogelu'r rhai bregus yn ein cymunedau a chefnogi'r rhai sydd mewn angen. Rydym yn parhau i ymrwymo, o fewn gallu a dylanwad y Cyngor Sir, i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010

- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt

- feithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt

**Mawrth 2021**

# Amcan 1: Mae canlyniadau o ran cyrhaeddiad Addysgol a llesiant mewn ysgolion yn gwella

## Blaenoriaeth 1.1: Byddwn yn lleihau'r bwlch sydd rhwng y gwahanol grwpiau o ran cyrhaeddiad addysgol

### 1.1.1 Cynnal perfformiad disgyblion sydd â gofynion dysgu ychwanegol ar lefel TGAU fel nad oes unrhyw fwlch sylweddol mewn cyrhaeddiad addysgol:

Dros y cyfnod clo rhwng Mawrth a Medi 2020, rhoddwyd sylw brys i sicrhau bod gan yr holl ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fynediad at liniadur neu offer electroneg dderbyniol arall i alluogi dysgu cyfunol da. Bu i'r ysgolion ynghyd ag athrawon cefnogol ymgysylltu gyda'r disgyblion yn gyson er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol gyda'r tasgau. Mae gwefan pwrpasol gan Strategaeth Môn a Gwynedd i gefnogi ac mae'r wefan ar gael i ysgolion, disgyblion a'u rhieni - mae data yn dangos bod defnydd o'r wefan wedi cynnyddu'n sylweddol dros y misoedd diwethaf.

Yn ystod y cyfnod adrodd, penderfynwyd cynnal asesiadau sefydliad ac roedd hyn yn disodli'r angen am arholiadau allanol arferol. Golygai hyn bod cymharu canlyniadau a pherfformiad eleni gyda'r blynyddoedd blaenorol yn anodd. Yn ychwanegol i hyn nid yw canlyniadau perfformiad disgyblion mewn TGAU a Lefel A yn cael eu cyhoeddi bellach ac felly nid oes modd cymharu data rhwng Awdurdodau yn yr un modd ag yn y gorffennol.

Serch hynny, mae'r tablau isod yn dangos canlyniadau asesiadau sefydliad ar berfformiad disgyblion sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol o gymharu â chanlyniadau asesiad sefydliad disgyblion heb anghenion. Cynigir tair haen wahanol o gymorth i ddisgyblion gydag anghenion ychwanegol, er mwyn adlewyrchu lefel y gynhaliaeth sydd ei angen:

| | A* | A | B | C | D | E | F | G | U | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim cefnogaeth ychwanegol | 501 | 771 | 1394 | 1244 | 471 | 197 | 48 | 17 | 5 | **4793** |
| Gweithredu Ysgol | 22 | 27 | 93 | 170 | 136 | 114 | 65 | 42 | 6 | **713** |
| Gweithredu Ysgol a Mwy | 17 | 23 | 59 | 112 | 70 | 70 | 28 | 10 | 2 | **418** |
| Ar ddatganiad | | 1 | 7 | 11 | 1 | 2 | | 4 | 1 | **29** |
| **Cyfanswm** | **571** | **874** | **1634** | **1610** | **713** | **409** | **152** | **82** | **16** | **6285** |

Yn ystod 2019/20 cafodd 6,265 o gymwysterau eu pennu fel cyfanswm, gyda 95.5% o ddisgyblion heb ADY yn llwyddo i gael gradd A*-E.

Mae graddau cyrhaeddiad disgyblion ar ddatganiad o gwmpas 20% is na disgyblion heb anghenion ychwanegol. Mae disgyblion oedd yn derbyn cefnogaeth ysgol yn perfformio yn 3.3% yn uwch na disgyblion ar ddatganiad ond yn parhau yn is [16.7%] wrth gymharu ar ddisgyblion heb anghenion ychwanegol.

Mae'r bwlch rhwng disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth gweithredu a mwy a disgyblion heb anghenion yn llai. [11.5%]. Mae'n ymddangos felly bod y gynhaliaeth sydd yn cael ei roi i'r cohort yma o ddisgyblion yn cael effaith cadarnhaol ar eu cyflawniad academaidd.

| | A* - A | A* - C | A* - E |
|---|---|---|---|
| Dim cefnogaeth ychwanegol | 26.5 | 81.58 | 95.5 |
| Cefnogaeth Gweithredu | 6.87 | 43.76 | 78.8 |
| Cefnogaeth Gweithredu a Mwy | 9.57 | 50.48 | 84 |
| Datganiad | 3.45 | 65.52 | 75.9 |

Mae canran fach o ddisgyblion sydd ar ddatganiad yn llwyddo i gyflawni'r graddau uchaf A*-A [3.45] ac ar gyfartaledd mae tua hanner holl ddisgyblion gydag anghenion yn llwyddo graddau A-C . Mae'r bwlch felly o gwmpas 30%.

## 1.1.2 Lleihau'r bwlch cyrhaeddiad addysgol rhwng bechgyn a merched sy'n cyflawni Sgôr 9 wedi'i gapio ar adeg gadael ysgol, lle mae'n fwy na 10% a pharhau i fynd i'r afael â'r mater hwn ar draws pob ysgol:

Wrth graffu ar ddata answyddogol ysgolion, mae'n ymddangos bod canlyniadau asesiadau sefydliadau TGAU 2019-20 yn gosod perfformiad merched yn uwch na'r bechgyn.

| | **A*** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **U** | **cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Merched | 98 | 189 | 241 | 231 | 137 | 81 | 32 | 15 | 4 | 1028 |
| % gradd | 10 | 18 | 23 | 22 | 13 | 8 | 3 | 1 | 0 | |
| Cronnus | 10 | 28 | 52 | 74 | 88 | 96 | 99 | 100 | 100 | |
| Bechgyn | 63 | 118 | 214 | 250 | 179 | 110 | 52 | 29 | 12 | 1027 |
| % gradd | 6 | 11 | 21 | 24 | 17 | 11 | 5 | 3 | 1 | |
| Cronnus | 6 | 17 | 38 | 63 | 80 | 91 | 96 | 99 | 100 | |

Perfformiad Merched a Bechgyn TGAU 2020:

- 98 o ferched wedi derbyn o leiaf 1 A* yn erbyn 63 o fechgyn
- 74% o ferched wedi cael gradd A*-C yn erbyn 63% o fechgyn
- 28% o ferched wedi derbyn A*-A yn erbyn 17% o fechgyn

Gan gofio na fydd arholiadau allanol eto eleni, mae'n werth rhoi sylw gofalus i weithdrefnau a phrosesau asesiadau sefydliadau. Yn gyffredinol, mae gwaith ymchwil yn dangos bod bechgyn yn tueddu i wneud yn well mewn arholiadau diwedd flwyddyn o gymharu ag asesiadau parhaus. Byddai cyflwyno amrywiaeth o ddulliau asesu graddau, gan gynnwys profion ynghyd ag asesiadau parhaus, o gymorth i sicrhau bod bechgyn a merched yn derbyn yr un tegwch.

### 1.1.3 Gweithredu cynlluniau i leihau'r gwahaniaeth ym mherfformiad disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol (PYD) am ddim a'r rhai nad ydynt, trwy ddefnyddio cyllid Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol ar lefel ysgol unigol:

Mae ysgolion yn cynllunio'n ofalus y defnydd o'u Grant Datblygu Disgyblion i sicrhau nad yw disgyblion sydd gyda'r hawl i ginio am ddim yn cael eu heffeithio'n andwyol oherwydd tlodi. Mae pob ysgol wedi llwyddo i greu cynllun gwariant sy'n dangos y gynhaliaeth ychwanegol rhoddir i'r cohort yma o ddisgyblion i leihau effaith tlodi ar gyflawniad. Mae'r cynllun gwariant, adnoddau a'r ddarpariaeth yn cael ei drafod yn rheoliad gyda'r Ymgynghorydd Cefnogi GwE, sydd wedyn yn ei dro yn rhaeadru'r wybodaeth i'r Awdurdod drwy gyfarfodydd rheoliad Bwrdd Ansawdd.

| | A* | A | B | C | D | E | F | G | U | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim PYD | 554 | 822 | 1488 | 1403 | 582 | 310 | 104 | 41 | 10 | **5314** |
| PYD | 17 | 52 | 146 | 207 | 131 | 99 | 48 | 41 | 6 | **747** |
| **Cyfanswm** | **571** | **874** | **1634** | **1610** | **713** | **409** | **152** | **82** | **16** | **6061** |

| | A*-A | A*-C | A*-E |
|---|---|---|---|
| Dim PYD | 25.9 | 80.3 | 97.1 |
| PYD | 9.24 | 56.5 | 87.3 |

Serch hynny mae'n amlwg o'r data uchod bod perfformiad grŵp PYD yn parhau i berfformio yn is na'u cyfoedion. Yn wir mae'r gwahaniaeth rhwng disgyblion PYD, 10% yn is o gymharu â disgyblion dim Pyd ar y graddau A*-E. Mae llai na hanner o ddisgyblion PYD yn llwyddo'r graddau uchaf A*-A o gymharu â disgyblion sydd ddim gyda'r hawl i ginio am ddim. Nid yw'r data yma yn dangos faint o ddisgyblion PYD sydd hefyd ar gofrestr ADY.

Dros gyfnod y pandemig, mae nifer o ddisgyblion sydd gyda hawl i ginio am ddim wedi cynyddu . Ym mis Mawrth 2020, cafwyd 1,545 o ddisgyblion Môn yn hawl cinio am ddim, ond erbyn diwedd Rhagfyr 2020 mae'r ffigwr wedi cynyddu i 1846 ac yn parhau i gynyddu [1860 erbyn canol Ionawr 2021].

Gyda mwy o ddisgyblion PYD ar gofrestr ysgolion Môn mae cydweithio traws adran gan yr Awdurdod wedi bod yn effeithiol i sicrhau bod y grŵp yma o blant yn parhau i gael cinio maethlon dros y cyfnodau clo a chyfnodau hunan ynysu a dros gwyliau ysgol . Trwy gydweithio'n agos gyda'r adran budd-daliadau a'r ysgolion mae pob teulu cymwys PYD yn derbyn taliad ariannol electroneg yn uniongyrchol i gyfrif banc. Mae hyn yn sicrhau nad oes stigma na gwahaniaethu amlwg yn cael ei osod a y teuluoedd ac mae modd iddynt brynu bwyd mewn unrhyw archfarchnad o'i dymuniad.

Yn ychwanegol i hyn mae'r grwp yma o blant yn cael ei adnabod fel un o'r grwpiau bregus ac felly yn cael mynediad i ysgol dros y cyfnodau clo i dderbyn cynhaliaeth bellach yn eu haddysg.

Fel gyda disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol mae ysgolion a'r Awdurdod wedi blaenoriaethu mynediad at offer digidol drwy rhoi benthyg gliniaduron i'w ddefnyddio yn y cartref.

## Blaenoriaeth 1.2: Byddwn yn lleihau bwlio yn seiliedig ar hunaniaeth mewn addysg

### 1.2.1 Cynorthwyo ysgolion i weithredu argymhellion canllawiau Llywodraeth Cymru, *Hawliau, Parch, Cydraddoldeb:*

Yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill fel yr Undebau, mae'r Awdurdod wedi diweddaru eu Polisi Atal Bwlio i gydfynd â'r canllawiau diweddaraf. Ynddo ceir linciau defnyddiol at amrywiaeth o adnoddau gwerthfawr i gefnogi'r ysgolion.

Mae'n ofyn statudol ar ysgolion i adrodd yn dymhorol ar achosion o fwlio i'w Corff Llywodraethu ac i'r Awdurdod. Mae Adroddiad Blynyddol Diogelu Ysgolion I'r Corff Llywodraethu yn crynhoi nifer yr achosion bwlio yn flynyddol mewn ysgol ac yn dangos yn glir y gwanhaol mathau o achosion bwlio sydd wedi cymryd lle, ee seibrfwlio, hiliol, corfforol ayyb. Mae'r Awdurdod yn derbyn copi o'r adroddiad blynyddol gan bob ysgol ac yn monitro'r achosion drwy chwilio am dueddiadau. Dros y flwyddyn diwethaf mae'r Awdurdod wedi annog pob ysgol i ymrwymo i'r cynllun 'Safer School' sydd yn ddi gost i bob ysgol Môn ac yn cynnig cefnogaeth i holl ran ddeiliad mewn ysgol i gadw'n saff yn ddigidol.

## 1.2.2. Cylchredeg gwybodaeth i ysgolion yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol (Hydref):

Mae cylchredeg gwybodaeth i ysgolion yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan yn gyfle gwych i ddod ar destun pwysig hyn i sylw ysgolion. Mae rhannu adnoddau fel Dangos Cerdyn Coch i Hiliaeth, Schoolbeat.cymru ac adnodau gan NSPCC yn galluogi ysgolion rhoi sylw blaenllaw i'r maes. Fodd bynnag, rydym yn tynnu sylw ysgolion nad yw'r wythnos dathlu yn ddigwyddiad sydd wedyn yn cael ei anghofio am weddill y flwyddyn. Rydym yn annog ysgolion i sicrhau bod y themâu pwysig yma yn derbyn ystyriaeth barhaus draws cwricwlaidd o fewn ein hysgolion.

Mae tair ysgol gynradd wedi ymrwymo i gynllun hyfforddiant peilot, Prosiect Troseddau Casineb mewn Ysgolion gan Sapere/P4C . Mae elfennau o'r hyfforddiant ar gyfer athrawon yn datblygu sgiliau meddwl critigol plant Mae'r dulliau sy'n cael eu cynnig yn rhoi'r cyfle da i'r ysgolion ddatblygu'r egwyddorion o fewn eu cwricwlwm newydd,.Bydd y tair ysgol gynradd peilot yn cyflwyno'r project i weddill ysgolion mewn cyflwyniadau Arfer Dda dros y misoedd nesaf.

Yn ychwanegol i hyn mae pencampwyr diogelu wedi derbyn hyfforddiant ar drosedd casineb ac mae holl ysgolion wedi derbyn sleidiau gwybodaeth i'w helpu i adnabod sut i gyflwyno'r themâu yma yn systematig o fewn eu cwricwlwm ysgol.

# Amcan 2: Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn gyflogwr teg ac yn lleihau bylchau mewn cyflogau

## Blaenoriaeth 2.1: Byddwn yn nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran prosesau recriwtio, cadw staff, hyfforddiant a dyrchafiadau.

### 2.1.1 Ymdrechu'n barhaus i ddatblygu strategaethau pellach i gynorthwyo staff i weithio'n hyblyg a pholisïau eraill sy'n gyfeillgar i deuluoedd:

Mae gwasanaethau wedi gorfod addasu i amgylchiadau a gofynion digynsail o ganlyniad i'r pandemig. Golygai hyn bod gweithwyr wedi bod yn gweithio'n fwy hyblyg nag efallai erioed o'r blaen. Yn ychwanegol i'r broses ffurfiol o weithio'n hyblyg, er mwyn cefnogi cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, annogwyd rheolwyr i ystyried ceisiadau anffurfiol dros dro. Gwerthfawrogir bod angen yr hyblygrwydd yma oherwydd y gofynion gwahanol ar staff yn ystod y pandemig, gan gynnwys gofalu ac addysgu o adref. Gellir ystyried hyn fel un o effeithiau cadarnhaol y pandemig.

## Blaenoriaeth 2.2: Byddwn yn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau cyflog rhwng pobl â nodweddion gwarchodedig gwahanol

### 2.2.1 Parhau i annog mwy o staff i ddarparu gwybodaeth bersonol fel y gall yr Awdurdod gael darlun mwy cyflawn o'r nifer o weithwyr y Cyngor fesul nodwedd a ddiogelir:

Mae'r system recriwtio ar y we yn galluogi trosglwyddo data gan ymgeiswyr llwyddiannus i'w ffeiliau personol pan y maent yn cychwyn gweithio gyda'r Awdurdod. Gall gweithwyr rannu eu gwybodaeth bersonol pan yn cychwyn gyda'r Awdurdod, yn ystod y broses anwytho. Mae cyfle hefyd i atgoffa staff beth yw pwrpas y data yma yn ystod y gwerthusiad blynyddol. Mae gan yr Awdurdod system hunan-wasanaeth, MyView, sy'n golygu y gall staff ddiweddaru eu gwybodaeth eu hunain yn gyfrinachol ac yn ôl eu hwylustod eu hunain.

Dengys y data eleni bod yna gynnydd yn y staff sydd wedi darparu eu gwybodaeth. Mae hyn yn caniatau'r Awdurdod i gael darlun mwy cywir o'r gweithlu, sydd o gymorth i brosesau allweddol megis cynllunio'r gweithlu.

2.2.2 Dadansoddi'r data gweithlu blwyddyn ar ôl blwyddyn a darparu adroddiadau blynyddol yn cynnwys y wybodaeth a ddadansoddwyd – rhaid i adroddiadau ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau a gwybodaeth ynghylch cyflogaeth gael eu cyhoeddi erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn (gan adrodd ar ddata fel yr oedd ar 31 Mawrth y flwyddyn flaenorol):

Mae'r data blynyddol ar y gweithlu wedi'i gasglu a'i ddadansoddi, gan adrodd ar ddata hyd at 31 Mawrth 2020 – gweler Atodiad 2.

Wrth gymharu â llynedd, mae'r ystod oed isaf (o dan 25), a'r ddau ystod uchaf (55-64 a 65+) wedi gweld cynnydd. Mae'n gadarnhaol bod yr Awdurdod yn denu pobl ifanc ac yn cadw'r gweithlu henach. Mae gan pob gwasanaeth gynllun gweithlu er mwyn dadansoddi gwybodaeth am y gweithlu a rhoi sylw i faterion megis cynllunio dilyniant er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei drosgwlyddo a bod staff sydd wedi'u hyfforddi'n addas ar gael pan mae staff yn dymuno ymddeol.

Mae'r proffil rhyw eto'n cadarnhau bod yr Awdurdod yn cyflogi llawer mwy o ferched na dynion, sydd yn dueddiad ar draws nifer o Awdurdodau Lleol. Mae'r data o ran y nodweddion a warchodir yn ymddangos i fod yn sefydlog. Awgrymir hyn bod angen mwy o waith i hyrwyddo'r system hunan-wasanaeth er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn gwybod pam mae'r data yma'n cael ei gasglu a'r modd y mae'n cael ei gadw a'i reoli'n gyfrinachol.

# Amcan 3: Byddwn yn cymryd camau i wella safonau byw pobl â gwahanol nodweddion gwarchodedig

## Blaenoriaeth 3.1: Byddwn yn gwella mynediad ffisegol at wasanaethau, trafnidiaeth, yr amgylchedd adeiledig a mannau agored

3.1.1 Parhau, lle mae hynny'n bosibl, i wella arosfannau bysus ar yr ynys i'w gwneud yn hygyrch:

Gwaith parhaus yn cymryd lle i wella cyfleusterau arosfannau bysus ar draws yr ynys o ganlyniad i gyllid gan Llywodraeth Cymru yn 2019/20 a 2020/21.

3.1.2 Parhau i ddarparu cyrbinau isel a chyfleusterau croesi cyffyrddol addas fel rhan o gynlluniau gwella troedffyrdd:

Mae'r gwaith o ddarparu cyrbinau isel wedi parhau, gyda 26 set ychwanegol wedi'u gosod ers yr adolygiad diwethaf. Hefyd, erbyn hyn darperir cyrbinau isel fel mater o drefn pan mae palmentydd yn cael eu hadnewyddu neu eu hamnewid wrth ymyl cyffordd fel rhan o unrhyw waith cynnal priffyrdd arferol.

3.1.3 Ymateb fel y bo'n briodol i gwynion a dderbynnir gan aelodau o'r cyhoedd trwy ddefnyddio ein pwerau o dan ddeddfwriaeth rheoli traffig i gadw palmentydd a chroesfannau yn glir rhag rhwystrau a achosir gan geir wedi'u parcio:

Lle mae parcio'n digwydd wrth ymyl cyfyngiad llinell felen ddilys, mae'r Awdurdod wedi gweithredu trwy roi cosbau parcio i geisio atal hyn rhag digwydd eto. Hefyd, mae'r Awdurdod yn gweithio'n agos gyda'r Heddlu o ran materion parcio ar balmentydd. Yn unol â bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd parcio ar y palmant, bydd yr Awdurdod yn gweithredu mesurau i'w alluogi i gorfodi'r cyfyngiad yma

## Blaenoriaeth 3.2: Byddwn yn parhau i weithio tuag at sicrhau cartrefi mwy addas a fforddiadwy yn y llefydd iawn i gwrdd ag anghenion lleol

### 3.2.1 Parhau i asesu eiddo presennol y Cyngor ac eiddo landlordiaid cymdeithasol cofrestredig er mwyn sicrhau eu bod yn hygyrch i bobl anabl:

Mae'r Gwasanaethau Tai wedi cyflogi Therapydd Galwedigaethol – Llety er mwyn gwella dulliau a systemau eiddo tai cymdeithasol yr addasir ym Môn. Mae Therapydd y Gwasanaethau Tai yn gyfrifol am y meysydd yr amlinellir isod a rhoddir hefyd enghreifftiau o sut mae'r rol yma'n gweithio:

| Maes | Enghreifftiau / Meysydd |
|---|---|
| Gwasanaeth Digartrefedd (statudol): | Unigolyn na all bellach fyw yn ei annedd bresennol oherwydd anghenion iechyd a lles, gan arwain at fod ei gartref yn afresymol i feddiannu ac angen cefnogaeth ac ymyrraeth o ran digartrefedd. Byddai'r Therapydd Galwedigaethol yn gweithio gyda'r Tîm Digartrefedd i sicrhau bod eiddo tai cymdeithasol addas yn cael ei nodi er mwyn diwallu anghenion yr unigolion.<br><br>Unigolyn na all adael yr ysbyty (oedi cyn ei ryddhau) gan fod ei lety yn anaddas oherwydd newidiadau i'w anghenion iechyd a lles.<br><br>Ymadawyr carchar digartref ag anghenion iechyd a lles.<br>Pobl ddigartref sy'n byw mewn llety brys sydd angen eiddo wedi'i addasu i ddiwallu eu hanghenion iechyd tymor hir |
| Gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Gynllunio (PMC) | Gweithio gyda chynlluniau PMC i drawsnewid eiddo ar gyfer anghenion tenantiaid penodol os bydd anghenion iechyd a lles yn gofyn am addasiadau arbenigol.<br><br>Ar y cyd â'r tîm Gwasanaethau Technegol, trawsnewid lolfeydd cymunedol sydd ar gau i gael eu haddasu a diwallu anghenion penodol tenantiaid / tenantiaid sy'n dod i mewn. |
| Gwagleoedd - Darparu cartrefi hygyrch | Asesu addasrwydd darpar eiddo ar gyfer tenantiaid / tenantiaid sy'n dod i mewn ag anghenion addasu a darparu cyngor ac arweiniad proffesiynol i'r Gwasanaethau Technegol Tai ar y gofynion penodol ar gyfer yr unigolyn / unigolion. |

| Maes | Enghreifftiau / Meysydd |
|---|---|
| Addasiadau cyffredinol | Darparu cefnogaeth a mewnbwn ar gyfer anghenion addasu cyffredinol mewn perthynas â thai cymdeithasol i unigolion sy'n cael eu hystyried ar gyfer llety tymor hir.<br><br>Cynghori ar addasiadau mewn ardaloedd cymunedol (megis systemau mynediad drws a ffobiau).<br><br>Cynghori ar addasiadau mewn perthynas â pholisïau penodol (er enghraifft, sgwteri symudedd).<br><br>Cydweithio â gweithwyr proffesiynol Gofal Iechyd Oedolion / Plant mewn perthynas ag ymgeiswyr tai cymdeithasol ag anghenion cymhleth. |
| Penderfyniadau Cofrestr Tai | Cyswllt Tai neu APAP yn flaenorol.<br><br>Ymgymryd â phenderfyniadau Cofrestr Tai ar y bandio sy'n ofynnol ar gyfer cwsmeriaid ag anghenion iechyd a lles, yn unol â Pholisi Dyraniadau Tai Cyffredin CSYM (CHAP) |
| Prynu eiddo yn ôl (eiddo Hawl i Brynu blaenorol) – Darparu cartrefi hygyrch | Gweithio gyda Thîm Datblygu Tai y Cyngor i brynu eiddo y gellid ei ystyried yn addas neu y mae angen ei addasu er mwyn diwallu angen ymgeisydd cofrestr tai<br><br>Gweithredu fel yr arbenigwr mewn sefyllfaoedd lle mai addasiadau arbenigol / anghenion iechyd a lles yw'r prif ysgogwyr (fel dialysis cartref) i sicrhau lles ac annibyniaeth y tenant yn y tymor hir. |
| Tai cymdeithasol newydd – Darparu cartrefi hygyrch | Gweithio gyda Thîm Datblygu Tai y Cyngor neu LCC ynglŷn â datblygu a chreu eiddo addas ar gyfer ymgeiswyr cofrestr tai ag anghenion iechyd a lles. |
| Gweithio gyda Landlordiad Cymdeithsol Cofrestredig (LCC) sy’n bartneriaid ynghylch anghenion llety cleientiaid | Cydweithio â LCC sy’n bartneriaid er mwyn darparu cyngor ac arweiniad arbenigol ynghylch anghenion penodol cleientiaid. |

| Maes | Enghreifftiau / Meysydd |
|---|---|
| Darparu offer fel rhan o broses asesu SSWB 2014 i gynnal annibyniaeth a dewis (o fewn llwyth achosion ThG Tai) | Bydd ThG Tai yn gallu cyrchu offer trwy'r siop offer Cymunedol yn unol â phrotocolau safonol Gwasanaethau Oedolion.<br><br>. |

## 3.2.2 Parhau i fuddsoddi mewn mân waith addasu a gwaith addasu mawr ar gyfer eiddo cyngor - tai cymdeithasol - trwy'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT), yn unol â Chynllun Busnes y CRT a chyllideb flynyddol y CRT:

Mae'r Gwasanaethau Tai yn parhau i fuddsoddi mewn mân addasiadau ac addasiadau mawr i eiddo'r Cyngor. Yn ogystal â hyn, mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda phartneriaid Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL) er mwyn sefydlu eu prosesau presennol a sut y gallai ein Therapydd Galwedigaethol ddarparu gwerth a budd i'w stoc eiddo addasedig bresennol neu i ateb unrhyw alw yn y dyfodol.

Mae'r Gwasanaethau Tai yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaethau Plant ac Oedolion i gynllunio am yr angen posibl a'r galw am addasiadau, gan sicrhau ein bod yn ymyrryd mor gynnar â phosibl er budd a lles ein preswylwyr ag anghenion Iechyd a Lles.

## 3.2.3 Parhau i fonitro lefelau perfformiad chwarterol o ran y nifer o ddiwrnodau a gymerir i gwblhau Ceisiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer gwelliant parhaus:

| **Dangosydd** | **Canlyniadau Ch2 2020-21** | **Canlyniadau Ch3 2020-21** | **Targed 2020-21** | **Perfformiad** |
|---|---|---|---|---|
| Canran y teuluoedd (gyda phlant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref | Dim ceisiadau cyfredol mewn lle | Dim ceisiadau cyfredol mewn lle | 70% | Dim ceisiadau cyfredol mewn lle |
| Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau I'r Anabl | **148.8** | **162** | **170** | ↓ |

## Amcan 4: Byddwn yn gwella canlyniadau o ran iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol

## Blaenoriaeth 4.1: Byddwn yn cynyddu'r nifer o bobl ym mhob sector o'r gymuned, yn enwedig pobl nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n llawn, sy'n dewis ffyrdd iach o fyw.

### 4.1.1 Symud ymlaen i sicrhau Dyfarniad Aur Insport erbyn Ebrill 2021:

Mae rhai cyflawniadau hyd yn hyn yn cynnwys:

- Cwblhaodd dros 70 o staff hamdden gwrs Awtistiaeth ar-lein DSW.
- Cwblhaodd pob athro nofio Hyfforddiant Cynhwysiant Anabledd Aquatics.
- Clwb hwylio cynhwysol wedi'i leoli yng Nghanolfan Conwy (S.E.A.S.) wedi ennill grant i addasu cychod at ddefnydd anabledd. Enwebwyd y Clwb am Wobr Chwaraeon Anabledd Cymru a chafodd sylw ar raglen 'Countryfile' y BBC.
- Daeth canolfannau gofal haf yn y gymuned yn flaenoriaeth oherwydd Covid.
- Gweithiodd staff hamdden mewn partneriaeth â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Ieuenctid i redeg 6 chanolfan ar gyfer plant sy'n agored i niwed, gan gynnwys rhai â chyflyrau fel awtistiaeth, dyslecsia ac anawsterau dysgu.
- Cwblhawyd yr ymarfer ymgynghori: dosbarthwyd cwestiynau arolwg i'r grwpiau canlyn:

    - Cleientiaid anabl ar Gynllun Cyfeirio Ymarfer Ynys Mon;
    - Disgyblion a staff Canolfan Addysg y Bont;
    - Aelodau o Glwb Annibynwyr Anabledd Mon ;
    - Pob clwb 'insport' sydd wedi'i gofrestru ar gronfa ddata Ynys Mon;
    - Wedi'i rannu ar gyfryngau cymdeithasol Mon Actif a chopïau caled mewn canolfannau hamdden

O'r arolwg, gosodwyd nodau ar gyfer Gwobr Aur fel a ganlyn:

- Gwella gwasanaethau i bobl anabl yn Ynys Môn.
- Rhoi cyfle i bobl anabl (a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi) i 'ddweud eu dweud'.
- Nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth anabledd ar yr ynys.
- Ehangu'r ddarpariaeth chwaraeon cynhwysol ar Ynys Môn trwy weithio gyda chyrff llywodraethu cenedlaethol a nodwyd i gyflawni hyn

Prif gamau gweithredu ar gyfer 2021 felly fydd:

- Sefydlu fforwm chwaraeon anabledd.
- Mapio cyfleoedd cyfredol yn erbyn lleoliad a nam.
- Gweithio gyda 6 chorff llywodraethu cenedlaethol i ehangu'r ddarpariaeth ar yr Ynys.

### 4.1.2 Parhau i gynnig Cynllun Cyfeirio Ynys Môn, gan weithio tuag at y targedau NERS cenedlaethol isod:

- Canran y cleientiaid NERS sy'n cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (50% ac uwch)

- Canran y cleientiaid NERS y mae eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau'r rhaglen ymarfer corff (80% ac uwch):

Yn anffodus, atalwyd y cynllun NERS ym mis Mawrth cyn y cyfnod clo cyntaf ac nid yw wedi'i ailgychwyn hyd yn hyn. Yn ystod yr amser yma, mae staff NERS wedi bod yn darparu rhaglenni ymarfer o adref a dosbarthiadau rhithiol i'r rhai hynny a oedd ar y cynllun cyn iddo gael ei atal. Cysylltwyd â'r holl gleientau a oedd yn rhan o'r cynllun pan y cafodd ei atal, a hynny ar ddyddiad eu hadolygiad 16 wythnos, ac fe'u cwblhawyd/tynnwyd oddi ar y bas-ddata. Ni dderbyniwyd unrhyw atgyfeiriadau newydd ers atal y cynllun ond y gobaith yw y bydd modd cynnig ymgynghoriadau rhithiol yn y dyfodol agos.

## Blaenoriaeth 4.2: Byddwn yn creu'r amodau i unigolion wella eu hiechyd a'u llesiant

### 4.2.1 Gweithio mewn partneriaeth gyda darparwyr iechyd sylfaenol yn Ynys Môn fel rhan o gynllun peilot i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth gwiriad iechyd blynyddol ar gyfer pobl a chanddynt namau dysgu:

Cyn y cyfnod Covid-19, gweithiodd Arweinydd Iechyd y rhaglen trawsnewid Rhanbarthol - Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd – Gwasanaethau di-dor i bobl ag anableddau dysgu, â Meddygon Teulu Ynys Môn er mwyn adnabod y rhwystrau i gynnal y gwiriadau iechyd. Roedd y gwaith o ymweld â phob Meddygfa a'u hadolygu bron â dod i ben pan ddaeth Covid-19 i roi stop ar y gwaith o gasglu unrhyw wybodaeth bellach. Roedd y themâu cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn cynnwys:

- yr angen i fod â chofrestr fanwl gywir a diweddar o ddinasyddion
- yr angen am gyswllt rheolaidd rhwng y Feddygfa a'r Tîm Ymgysylltu Iechyd
- mynediad hawdd i wybodaeth hygyrch am Wiriadau Iechyd Blynyddol a
- hyfforddiant i staff yfeddygfa.

Rhagwelir y bydd y rhaglen waith hon yn cael ei hedrych arni eto yn 2021/22.

Mae gwaith ychwanegol wedi'i ymgymryd ag ef mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn cefnogi a pharatoi pobl ifanc i gael eu gwiriad iechyd blynyddol cyntaf. Mae sesiynau hyfforddiant drwy weminarau a chyfryngau ar-lein wedi eu datblygu.

Mae'r rhaglen trawsnewid Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd hefyd wedi datblygu adnodd ar-lein gwerthfawr ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr er mwyn iddynt allu cael mynediad i amrywiaeth o wybodaeth gysylltiedig ag iechyd: www.gofalwchameichiechydgogleddcymru.org

Mae'r wybodaeth ar gael ar ffurf hawdd ei darllen a hygyrch ac mae'n declyn defnyddiol er mwyn codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am sut i hyrwyddo gofal iechyd ymysg pobl ag anableddau dysgu.

### 4.2.2 Parhau i hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg:

- Yn ystod 2020, mae cyflwyniadau o ran gweithrediad y Safonau Iaith Gymraeg a chyfathrebu a gofal cwsmer (yn cynnwys y gofyniad i wneud cynnig rhagweithiol o wasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i'r holl gwsmeriaid) wedi ei ddarparu mewn cynadleddau staff.
- Mae codi ymwybyddiaeth am y rhaglen Mwy na Geiriau a'r Safonau Iaith Gymraeg yn parhau i fod yn elfen hanfodol o'r holl gyrsiau cynefino staff.
- Mae pob aelod o staff ar y system e-bost wedi derbyn nodyn atgoffa ysgrifenedig o'r angen i ateb y ffôn yn ddwyieithog.
- Mae ffyrdd o fonitro sut y cofnodir y cynnig rhagweithiol o ddewis iaith gan ddefnyddwyr gwasanaeth, drwy gael ystadegau o'r system cadw cofnodion electronig, wrthi'n cael ei datblygu er mwyn i berfformiad mewn perthynas â chofnodi hyn allu cael ei fonitro.
- Mae gwasanaethau yn parhau i fonitro a sicrhau bod digon o staff sy'n siarad Cymraeg ar draws pob maes o'r Gwasanaeth er mwyn gallu darparu gwasanaethau Cymraeg ym mhob rhan o'r Gwasanaeth.
- Mae Gwasanaethau yn parhau i annog staff sy'n dysgu Cymraeg i gymryd rhan yn yr hyfforddiant perthnasol er mwyn iddynt allu datblygu eu sgiliau iaith.

## Amcan 5: Byddwn yn gwella diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder

### Blaenoriaeth 5.1: Byddwn yn cynyddu nifer y troseddau casineb ac aflonyddu sy'n cael eu riportio a chymryd camau i leihau achosion o droseddau casineb ac aflonyddu, yn cynnwys camdriniaeth a bwlio ar-lein.

5.1.1 Parhau i weithio â phartneriaid ledled gogledd Cymru er mwyn dwyn sylw at y broblem o droseddau casineb ac annog pobl i hysbysu Heddlu Gogledd Cymru neu Cymorth i Ddioddefwyr yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan a gynhelir yn flynyddol (ym mis Hydref):

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid ar draws Gogledd Cymru, a hynny yn ystod yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb Cymru Gyfan yn ogystal â thrwy'r flwyddyn, er mwyn codi ymwybyddiaeth am droseddau casineb a hyrwyddo riportio i Heddlu Gogledd Cymru neu Gymorth i Ddioddefwyr.

Gweler hefyd y weithred o dan 1.2.2, i gael amlinelliad o'r hyn sydd yn digwydd yn ysgolion yr ynys i godi ymwybyddiaeth a thaclo troseddau casineb.

5.1.2 Y Gweithgor Troseddau Casineb aml-asiantaeth i ddatblygu a gweithredu cynllun gweithredu troseddau casineb er mwyn gwella dulliau riportio a chefnogi unigolion sy'n ddioddefwyr troseddau casineb (yn unol â'r amserlenni a nodir yn y cynllun gweithredu ar gyfer atal troseddau casineb):

Mae'r gweithgor troseddau casineb yn parhau i fod yn weithredol ac mae ffilm fer wrthi'n cael ei chynhyrchu i godi ymwybyddiaeth a rhoi proffil o'r mathau o droseddau casineb a welir o fewn ein cymdeithas. Mae'r Gwasanaethau Tai yn darparu cefnogaeth ac ymyrraeth rhagweithiol i denantiaid sy'n riportio troseddau casineb. Mae ein Timau Cymdogaeth yn annog riportio troseddau casineb ac yn barod i gefnogi unrhyw un sy'n dymuno hynny.

Gohiriwyd y cynlluniau ar gyfer cynnal Diwrnod Cydraddoldeb ar Ynys Môn ym mis Ebrill 2020 oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, rydym yn dymuno edrych eto ar y trefniadau hyn unwaith y bydd cyfyngiadau Covid-19 yn cael eu codi a phryd y bydd hi'n hollol ddiogel i wneud hyn, ond mae'n anhebygol y bydd yn cymryd lle yn ystod 2021.

## Blaenoriaeth 5.2: Byddwn yn sicrhau bod gan Aelodau a Swyddogion y Cyngor y gallu i gyflawni eu dyletswyddau diogelu yn effeithiol, drwy hyfforddiant diogelu ar lefel sy'n gymesur â'u rolau a'u cyfrifoldebau.

### 5.2.1 Defnyddio'r Porth Polisi er mwyn sicrhau bod yr holl staff presennol a staff newydd (y mae ganddynt gyfrifon e-bost) wedi darllen, deall a derbyn y Polisi Diogelu Corfforaethol:

Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn un o naw polisi allweddol o fewn system rheoli polisïau electronig y Cyngor (y Porth Polisi) yn mae'n rhaid i bob aelod o staff sydd â chyfrif e-bost y Cyngor eu derbyn. Mae'r polisi wedi bod ar gael i'w dderbyn ers Rhagfyr 2018 ac mae'n cael ei aseinio o fewn 24 awr i unrhyw staff newydd a ychwanegir at y grwpiau gwasanaeth electronig. Rhaid i staff dderbyn polisiau corfforaethol allweddol pob dwy flynedd a mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol wedi'i raglennu i'w gyflwyno eto i'w dderbyn o fis Medi 2021.

(Mae'n bwysig nodi nad oes modd i staff gymryd rhan os nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur fel rhan o'u gwaith. Y bwriad eleni oedd arbrofi datrysiad yn seiliedig ar waith papur ond, o ganlyniad i Covid-19, ystyriwyd fyddai hyn yn briodol gan y byddai gofyn i nifer uchel o staff rannu gwaith papur. Bydd yr elfen hon o dderbyn polisiau corfforaethol felly'n parhau i fod wedi'i hatal hyd nes y bydd datrysiad mwy ymarferol yn cael ei ganfod).

### 5.2.2 Sicrhau bod Staff ac Aelodau yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant am agweddau perthnasol o'r Polisi Diogelu Corfforaethol, yn unol â chyfarwyddyd y Bwrdd Diogelu Corfforaethol:

Mae'r rhaglen dreigl o hyfforddiant diogelu yn parhau i ddarparu staff gyda'r wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eu rôl. Gwahoddir staff i fynychu'r hyfforddiant perthnasol i'w rol pob tair blynedd, sef Diogelu Cyffredinol neu Sylfaenol. Hefyd, mae rhaglen fwy arbenigol sydd wedi'i theilwra i staff Gwasanaethau Cymdeithasol sydd yn cynnwys sesiynau rhanbarthol.

Byddwn yn adolygu y Fframwaith Hyfforddi Diogelu er mwyn sicrhau ein bod yn alinio i ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau rhanbarthol a chenedlaethol a fydd yn cael eu darparu i gefnogi gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019.

## Blaenoriaeth 5.3: Byddwn yn cynyddu ymwybyddiaeth am dwyll mewn cymunedau sy'n agored i niwed

### 5.3.1 Parhau i weithio â phartneriaid er mwyn codi ymwybyddiaeth a darparu addysg i gymunedau lleol ar sut i ddelio â galwyr digroeso, troseddau stepen drws, twyll wyneb yn wyneb ac anghydfodau cyffredinol cwsmeriaid:

O ganlyniad i orfod ail-flaenoriaethu gwaith er mwyn delio gyda'r pandemig Covid-19, mae'r cynnyd wedi bod yn gyfyngedig eleni.

Fodd bynnag, anfonwyd dros 150 o sticeri 'Dim Galwyr Digroeso' at unigolion bregus, yn dilyn negeseuon a anfonwyd ar gyfryngau cymdeithasol. Gweler hefyd y datganiad isod i'r wasg:

Sgamiau offer amddifynnol personol a galwyr digroeso:
https://www.ynysmon.gov.uk/cy/newyddion/newyddion/sgamiau-offer-amddiffynnol-personol-a-galwyr-digroeso


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# Amcan 6: Byddwn yn cynyddu mynediad at gyfranogiad er mwyn gwella amrywiaeth o ran gwneud penderfyniadau

## Blaenoriaeth 6.1: Mae cyrff gwneud penderfyniadau yn dod yn fwy cynrychiadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu

### 6.1.1 Cymryd yr holl gamau angenrheidiol yn lleol er mwyn cefnogi'r ymgyrch genedlaethol i ehangu cyfranogiad yn etholiadau lleol 2022:

Mae gwaith lleol i gefnogi'r ymgyrch genedlaethol sy'n cael ei harwain gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi'i raglennu i gychwyn yn gynnar yn 2021.

O ran cynyddu'r niferoedd sy'n pleidleisio mewn Etholiadau, mae'r Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 wedi ymestyn yr etholfraint ar gyfer etholiadau'r Senedd i ganiatau unigolion 16 ac 17 oed, ynghyd â dinasyddion cymwys o dramor i bleidleisio yn Etholiadau'r Senedd o 2021. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Etholiadau yn cyflwyno ymgyrch gyfathrebu cenedlaethol aml-sianel er mwyn cefnogi eu rhaglen ddiwygio etholiadol. Bydd annog pobl i bleidleisio, gyda ffocws arbennig ar unigolion sy'n 16 ac 17 oed a dinasyddion o dramor, yn rhan allweddol o'r ymgyrch.

Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi penodi Swyddog Ymgysylltu – Hyrwyddo Democratiaeth dros dro (hyd at 30 tachwedd 2021) er mwyn:

- Datblygu a gweithredu rhaglen ymgysylltu gynhwysfar er mwyn annog pobl i goffrestr, cymryd rhan a phleidleisio, gyda phwyslais arbennig ar unigolion 16 ac 17 oed a grwpiau anodd i'w cyrraedd.
- Defnyddio rhwydweithiau presennol a'r cyfryngau cymdeithasol yn effeithiol a chynhyrchu deynydd hyrwyddo sy'n hawdd i'w ddeall ac wedi'i anelu at gynulleidfeydd wedi'u targedu.

### 6.1.2 Gwneud defnydd o weithredu cadarnhaol fel rhan o'r broses o recriwtio aelodau cyfetholedig:

Mae pedwar o bwyllgorau'r Cyngor yn cynnwys aelodau cyfetholedig, sy'n cael ei recriwtio am gyfnodau penodol i gynrchioli meysydd penodol o ddiddordeb neu fater o ystyriaeth. Penodwyd pedwar aelod cyfetholedig annibynnol i'r Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr 2019, ac mae tair ohonynt yn ferched. Hyd at fis Rhagfyr 2020, ni wnaed unrhyw benodiadau pellach.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Blaenoriaeth 6.2: Mae ymgynghori ac ymgysylltu yn cael ei wella drwy gryfhau cysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a grwpiau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli pobl o'r holl grwpiau gwarchodedig

6.2.1 Gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd ymgysylltu ac ymgynghori perthnasol ymysg cynrychiolwyr o'r holl nodweddion gwarchodedig:

6.2.2 Y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd i fabwysiadu Rhestr Wirio Ymgysylltu ac Ymgynghori a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol gan wasanaethau:

Oherwydd effaith y pandemig COVID-19, ni eisteddodd y bwrdd ymgysylltu ac ymgynghori ar y cyd yn ystod 2020 ond mae'r rhestr wirio wedi'i dosbarthu ymhlith gwasanaethau'r Cyngor a'i defnyddio yn unol â hynny, yn dibynnu ar y pwnc.

Mae'n amlwg bod gweithgaredd ymgysylltu ac ymgynghori wedi'i gyfyngu i ddulliau electronig ac mae trafodaeth leol a chenedlaethol yn digwydd ynghylch sut y gall effeithiau parhaus y pandemig effeithio ar gyflawni gwaith o'r fath yn y dyfodol.

6.2.3 Parhau i weithio ar ymgysylltu gyda'n partneriaid rhanbarthol (fel aelodau o NWPSEN) drwy wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i ni:

Mae NWPSEN wedi bod yn cydweithio ers 2010 pan ddaeth y Ddeddf Cydraddoldeb i rym ac fe gynhaliwyd nifer o weithgareddau ymgysylltu rhanbarthol er mwyn llywio ers hynny ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Cynhaliwyd y digwyddiad ymgysylltu mwyaf diweddar gan NWPSEN ym mis Mai 2018, ac fe'i ddilynwyd gan weithdy o swyddogion NWPSEN ar 7 Mehefin 2019 i adolygu a datblygu ein amcanion cydraddoldeb rhanbarthol newydd.

Mae aelodau NWPSEN wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd arlein yn ystod 2020 er mwyn rhannu gwybodaeth ac arferion da.

## Amcan 7: Byddwn yn datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd gymdeithasol economaidd (pan fydd arweiniad ar gael) er mwyn adnabod y meysydd allweddol o effaith sydd angen rhoi sylw iddynt o dan bob amcan

### 7.1 Datblygu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o'r ddyletswydd cymdeithasol economaidd a sicrhau bod y ddyletswydd yn dod yn rhan annatod o'n busnes o ddydd i ddydd (unwaith y bydd arweiniad pellach ar gael):

Rhoddodd Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) y Cyngor ystyriaeth i bapur briffio cychwynnol ym mis Medi 2020. Cyflwynwyd ail bapur i'r UDA ar 4 Ionawr 2021, pryd y penderfynwyd cychwyn codi ymwybyddiaeth am yr gofynion ar draws y Cyngor trwy:

- ddefnyddio system rheoli polisiau electronig y Cyngor (y Porth Polisi) i sicrhau bod rheolwyr a staff perthnasol arall wedi darllen, deall a derbyn papur briffio ar ofynion y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol;

- ddefnyddio fforymau mewnol presennol y Cyngor er mwyn sicrhau bod aelodau etholedig a swyddion yn cael eu briffio ar ofynion y Ddyletswydd.

### 7.2 Adolygu canllawiau a thempledi corfforaethol er mwyn sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r angen i leihau anfanteision cymdeithasol-economaidd – gweler hefyd Blaenoriaeth 8.2:

Mae'r templedi corfforaethol ar gyfer adroddiadau i'r Pwyllgor Gwaith a Phwyllgorau Sgriwtini wedi'u hadolygu er mwyn ymgorffori'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ac i gryfhau'r cysylltiad gyda'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dydodol. Ar yr adeg ysgrifennu, roedd y templedi'n rhan o ymgynghoriad mewnol cyn eu cymeradwyo'n derfynol, gyda golwg ar cyflwyno'r fersiynau diwygiedig erbyn Ebrill 2021.

### 7.3 Defnyddio ein Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol er mwyn adrodd ar ddatblygiadau a dangos sut yr ydym yn cydymffurfio â'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd:

Gweler uchod.

## Amcan 8: Byddwn yn gwella gweithdrefnau'r Cyngor er mwyn sicrhau tegwch i bawb

### Blaenoriaeth 8.1: Mae rhaglen hyfforddiant staff wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod gan y staff cywir y sgiliau cywir er mwyn darparu gwelliannau o ran amrywiaeth

8.1.1 Parhau i godi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth ymysg staff y Cyngor yn ystod sesiynau cynefino corfforaethol a drwy hysbysu staff sydd â chyfrifon e-bost y Cyngor bod angen iddynt ddarllen, deall a derbyn y Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth:

Mae'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn un o naw polisi allweddol o fewn system rheoli polisïau electronig y Cyngor (y Porth Polisi) yn mae'n rhaid i bob aelod o staff sydd â chyfrif e-bost y Cyngor eu derbyn. Mae'r polisi wedi bod ar gael i'w dderbyn ers Gorffennaf 2019 ac mae'n cael ei aseinio o fewn 24 awr i unrhyw staff newydd a ychwanegir at y gwasanaethau. Fe gafodd data ar gydymffurfiaeth o ran y polisi hwn ei gynnwys mewn adroddiad i Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r Cyngor ar 1 Medi 2020, gan ddangos graddfa cydymffurfiaeth o 95% ar y cyfan hyd at fis Gorffennaf 2020.

Gan fod rhaid i staff dderbyn y polisiau corfforaethol allweddol pob dwy flynedd, mae'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi'i raglennu i'w gyflwyno eto i'w dderbyn ym mis Gorffennaf 2021.

(Mae'n bwysig nodi nad oes modd i staff gymryd rhan os nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur fel rhan o'u gwaith. Y bwriad eleni oedd arbrofi datrysiad yn seiliedig ar waith papur ond, o ganlyniad i Covid-19, ystyriwyd fyddai hyn yn briodol gan y byddai gofyn i nifer uchel o staff rannu gwaith papur. Bydd yr elfen hon o dderbyn polisiau corfforaethol felly'n parhau i gael ei hatal hyd nes y bydd datrysiad mwy ymarferol yn cael ei ganfod).

8.1.2 Parhau i hyrwyddo hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer yr holl staff ac ymateb yn y modd priodol lle mae anghenion penodol wedi eu hadnabod:

Mae hyfforddiant ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn parhau i fod yn rhan allweddol o'r rhaglen hyfforddi corfforaethol. Mynychodd 132 o staff yr hyfforddiant yma yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn ychwanegol, lansiwyd modiwl e-ddysgu newydd yn gynnar yn 2020 – Cydraddoldeb yn y Gweithle. Ceir mynediad at e-ddysgu trwy safle Learning Pool o unrhyw ddyfais a hynny yn y gweithle neu adref.

## Blaenoriaeth 8.2: Mae proses gorfforaethol effeithiol wedi'i sefydlu er mwyn sicrhau bod effaith yn cael ei asesu'n barhaus ar draws y gwasanaethau

### 8.2.1 Parhau i ddarparu cyfleoedd o ran cefnogi a datblygu aelodau a swyddogion er mwyn sicrhau bod ganddynt wybodaeth ddigonol am eu dyletswyddau tuag at bobl â nodweddion gwarchodedig:

Yn ychwanegol i'r hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, mae cyfle i staff ac Aelodau Etholedig perthnasol fynychu hyfforddiant asesu effaith ar gydraddoldeb. Mae'r sesiwyn yn cynnig mwy o wybodaeth ynghylch Dyletwydd Gyffredinol y Sector Gyhoeddus a'i chysylltiad gyda'r angen i asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Mae'r Strategaeth Datblygu Aelodau yn dweud y bydd y Cyngor yn darparu hyfforddiant a datblygiad hyblyg ac ymatebol sy'n seiliedig ar angen yr unigolyn a'r sefydliad ar gyfer Aelodau Etholedig. Mae Cydraddoldeb ac Amrwyiaeth ac Asesu Efaith yn parhau i bpd yn rhan allweddol o'r hyfforddiant a ddarperir i Aelodau Etholedig.

### 8.2.2 Adolygu'r templedi canlynol er mwyn cryfhau'r cyswllt â'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a'r ddyletswydd cymdeithasol-economaidd:

- Templedi adroddiadau Sgriwtini
- Templed ac arweiniad AEC corfforaethol:

Gweler Amcan 7 ar dudalen 40.

### 8.2.3 Cefnogi penderfyniadau a wneir yng nghyd-destun Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol:

- Adolygu'r Strategaeth Gwestiynu ar gyfer aelodau sgriwtini
- Datblygu cyfres stoc o gwestiynau ar gyfer aelodau sgriwtini, yn seiliedig ar Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Sgriwtini a gynhyrchwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Mae'r Strategaeth Holi ar gyfer Aelodau'r Cyngor wedi cael ei hadolygu yn ystod 2020 fel rhan o adolygiad o'n rhaglen datblygu craffu lleol a'i nodi yn yr Adroddiad Craffu Blynyddol 2019/2020. Mae cwestiynau stoc wedi'u datblygu ar gyfer meysydd polisi allweddol gan gynnwys:

y cylch gosod cyllideb blynyddol
monitro perfformiad chwarterol gwasanaethau'r Cyngor
monitro cyllideb
cynigion trawsnewid gwasanaethau

# Cyngor Sir Ynys Môn
# Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2020

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn (CSYM) gyhoeddi adroddiad blynyddol ar y bwlch cyflog rhywiol. Ar gyfer y dyddiad adrodd cipolwg o 31 Mawrth 2020, sy'n cynnwys holl weithwyr y Cyngor, ac eithrio'r rhai a gyflogir mewn ysgolion, mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Y bwlch cyflog cyfartalog rhwng y ddau ryw ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw 11.33%
- Y bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn yw 14.65%

Gan nad yw CSYM yn talu bonws i'w weithwyr, nid yw unrhyw ddangosyddion bwlch bonws rhyw yn berthnasol.

**Beth yw achosion sylfaenol bwlch cyflog rhyw Cyngor Sir Ynys Môn?**

Mae CSYM wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfle cyfartal a thriniaeth gyfartal i bob gweithiwr. Mae ganddo bolisi clir o dalu gweithwyr yn gyfartal am yr un gwaith neu waith cyfatebol, gwaeth beth fo'u rhyw ac mae'n gwerthuso swyddi a graddau cyflog fel bo'r angen er mwyn sicrhau strwythur teg. Felly, mae CSYM yn hyderus nad yw ei fwlch cyflog rhwng y rhywiau yn deillio o dalu dynion a merched yn wahanol i'r un gwaith neu waith cyfatebol ac mae'r bwlch cyflog cyfartalog rhyw, sef 11.33%, yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 14.6%.

Mae bwlch cyflog rhyw CSYM yn ganlyniad i'r swyddi y mae dynion a merched yn gweithio o fewn y sefydliad a'r cyflogau y mae'r swyddi hyn yn eu denu. Ar draws economi'r DU gyfan, mae dynion yn fwy tebygol na menywod o fod mewn swyddi uwch, tra bo merched yn fwy tebygol o fod mewn swyddi rheng flaen ar ben isaf y sefydliad. Mae canran uwch o weithwyr rhan-amser yn ferched ac mae mae merched yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod â chyfrifoldebau gofalu di-dâl na dynion. Mae dynion yn parhau i ddominyddu rhai mathau o swyddi sy'n talu'n uchel tra mae mwy o ferched yn parhau i gael eu cyflogi mewn galwedigaethau megis gofalu a glanhau, rolau sydd ddim yn sgorio'n uchel mewn cynlluniau arfarnu swyddi ac felly mae'r graddfeydd tâl yn is. Mae merched hefyd yn fwy tebygol o fod wedi cymryd seibiant o'r gwaith, sydd wedi cael effaith ar eu dilyniant gyrfa.

Adlewyrchir y patrwm cenedlaethol hwn yng nghyfansoddiad gweithlu CSYM, lle mae mwyafrif ei weithwyr yn fenywod, ac mae cyfran helaeth o'r rhain yn gweithio oriau rhan amser mewn swyddi sy'n cael lefel is o dâl, megis gofal cymdeithasol rheng flaen, glanhau, ac ati.

## Sut mae bwlch cyflog rhyw CSYM yn cymharu â sefydliadau eraill?

Mae gan y mwyafrif helaeth o sefydliadau bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae bwlch cyflog cyfartalog CSYM o 11.33% yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer yr economi gyfan o 14.6% (ONS 2020).

## Beth mae CSYM yn ei wneud i fynd i'r afael â'i bwlch cyflog rhwng y rhywiau?

Er bod y bwlch cyflog rhwng y ddau ryw yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, mae CSYM yn parhau i fod yn ymrwymedig i leihau'r bwlch hwn. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ei sgôp i weithredu'n gyfyngedig gan fod ei gyfraddau cyflog yn cael eu cytuno'n genedlaethol ac felly nid oes ganddo reolaeth uniongyrchol dros gyflogau. Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod rhaid i dâl a gradd pob swydd fod yn deg, dryloyw ac anwahaniaethol. Mae'n gweithredu cynllun Arfarnu Swyddi sy'n glynu at egryddorion cydraddoldeb a chynnal uniondeb a thegwch yn ei strwythur graddfeydd yn barhaus.

Hyd yma, mae'r camau a gymerwyd gan CSYM i hyrwyddo amrywiaeth rhyw ymhob maes o'i gweithlu yn cynnwys: -

- **Creu sail dystiolaeth:** i nodi rhwystrau i gydraddoldeb rhywiol a hysbysu blaenoriaethau ar gyfer gweithredu, monitro meysydd fel cyfrannau dynion a merched sy'n gwneud cais am swyddi, yn cael eu recriwtio a chael hyrwyddiadau; niferoedd dynion a merched ym mhob rôl a band cyflog a chymryd trefniadau gweithio hyblyg yn ôl rhyw a lefel.
- Adolygu ei bolisïau gweithio hyblyg a pholisïau eraill sy'n gyfeillgar i'r teulu.
- Adolygu ei strategaethau recriwtio a sefydlu dulliau gwahanol i ddenu talent.

Ni fydd unrhyw un o'r mentrau hyn, ar eu pen eu hunain, yn dileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau - a gall fod sawl blwyddyn cyn i ni weld effaith sylweddol. Mae'r Awdurdod yn ymrwymo i barhau i adrodd yn flynyddol ar yr hyn y mae'n ei wneud i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ac unrhyw gynnydd pellach y mae'n ei wneud.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 11 Mawrth, 2021 |
| **Pwnc:** | Ei gwneud yn bosib i Gyngor Sir Ynys Môn groesi'r bont i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030 - gan ddarparu Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol newydd. |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Darparu cyfle i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ystyried, ymateb i a dylanwadu ar y ffordd ymlaen er mwyn i'r awdurdod allu adeiladu ar y cynnydd a'r cyraeddiadau hyd yma er mwyn gallu trawsnewid i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030 |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cynghorydd Richard Dew (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**E-bost:** | Dylan Williams, Dirprwy Brif Weithredwr |
| **Aelodau lleol:** | Holl Aelodau'r Cyngor. |

**1 – Argymhelliad/ion**

1. **Cefnogi a chymeradwyo gwaith datblygu a gweithredu Rhaglen Newid Hinsawdd gorfforaethol newydd fel bod yr awdurdod yn gallu croesi'r bont i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030.**

2. **Cefnogi a chymeradwyo recriwtio Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd corfforaethol (swydd newydd) i arwain ar ddatblygu a chyflawni.**

3. **Cefnogi a chymeradwyo sefydlu Gweithgor Newid Hinsawdd (gyda chynrychiolaeth wleidyddol) - grŵp cynghori, nad yw'n gwneud penderfyniadau, i wneud argymhellion a cheisiadau.**

4. **Llywodraethu a strwythurau rhanbarthol - i'w cadarnhau.**

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Byddai'r Rhaglen Newid Hinsawdd arfaethedig yn ymateb yn uniongyrchol i un o amcanion llesiant y Cyngor a nodir yng nghynllun 2017-2022 y Cyngor o gydweithio â'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiad tra'n amddiffyn ein hamgylchedd naturiol. Bydd hefyd yn ychwanegu gwerth i un maes lle mae cynnydd yn cael ei wneud er mwyn gallu bod yn fwy effeithlon o ran y defnydd o ynni a lleihau allyriadau carbon.

Byddai hefyd yn cyfrannu at fodloni un o ddyheadau'r Cyngor a gafodd ei gyfleu drwy'r Ddogfen Ddarparu 2020-2022 o ran 'cefnogi a gweithio tuag at Sector Cyhoeddus Carbon Niwtral erbyn 2030'. Mae'r gweithredoedd sydd wedi eu cydnabod hyd yma hefyd yn cynnwys:

- Darparu arweinyddiaeth er mwyn datblygu arferion a darparu ymyraethau er mwyn lleihau ein ôl-troed carbon fel sefydliad ac fel Ynys.
- Ymchwilio i a chychwyn ar y ddarpariaeth o fannau gwefru cerbydau ar draws yr Ynys.
- Cynyddu nifer y ceir / cerbydau yn fflyd y Cyngor sy'n rhai trydan neu LP
- Parhau â'n bwriad i sicrhau bod 70% o'r holl wastraff cartref yn cael ei ailgylchu
- Datblygu llwybrau cerdded a beicio yn unol â Deddf Teithio Lleol Cymru

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

a) A ydych yn hyderus bod yr hyn sydd yn cael ei gynnig yn mynd i gyfrannu at sicrhau bod y Cyngor yn cyfarch gofynion deddfwriaeth a pholisïau newid hinsawdd allweddol?

b) Yn dilyn y datganiad o argyfwng hinsawdd, beth yw barn y Pwyllgor am y 4 maes blaenoriaeth ar gyfer awdurdodau lleol?

c) I ba raddau y bydd angen buddsoddiad pellach er mwyn sicrhau ein bod yn dod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030, a pha adnoddau ychwanegol fydd eu hangen?

| |
|---|
| d) Pa arferion da sydd wedi'u datblygu o ganlyniad i'r pandemig fydd angen sylw ac ystyriaeth wrth gynllunio am y cyfnod adfer? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Yn unfrydol cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn ("yr awdurdod") argyfwng hinsawdd yn y Cyngor Llawn ar 8 Medi 2020, gan ymrwymo'r awdurdod i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

1.2 Mae angen deall yn well raddfa'r newid trawsnewidiol sydd ei angen, a sut y gellir cyflawni hyn (trwy gyfuniad o weithgarwch, gwell ymwybyddiaeth a newid ymddygiad, a hynny'n gorfforaethol ac yn y gwasanaethau).

1.3 Mae sawl strategaeth genedlaethol a rhanbarthol wedi'u drafftio ers hynny i ymateb i'r heriau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Er bod yr awdurdod wedi ymrwymo'n llwyr i barhau i ddwyn i mewn yr holl bartneriaid, ar bob lefel, a chydweithio â nhw, cydnabyddir hefyd mai'n lleol y bydd yr holl waith cyflenwi. Mae'r awdurdod wedi ymrwymo i roi arweinyddiaeth leol ar yr Ynys, ac i weithredu'n gorfforaethol i gyflawni newidiadau pendant fel bod modd pontio'n effeithiol i fod yn sefydliad carbon niwtral. Er bod rhai penderfyniadau a chamau gweithredu o fewn rheolaeth yr awdurdod, bydd angen cymorth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer rhai eraill ac adnoddau ychwanegol i'w cydlynu, eu datblygu a'u cyflawni. Er gwaethaf yr heriau a'r ansicrwydd parhaus, mae angen achub ar y cyfle i greu effeithiau cadarnhaol, parhaus a newid.

**2.0 Cyd-destun**

2.1 Newid yn yr hinsawdd yw'r her sy'n ein diffinio'n fyd-eang yn y dyddiau sydd ohoni. Mae'n fater sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau gwleidyddol a chymdeithasol ac, yn aml, ar aelodau mwyaf bregus y cymunedau y mae hyn yn cael yr effaith fwyaf. Mae datgarboneiddio'n cynnig cyfleoedd enfawr i greu economi sy'n fywiog ac yn gymdeithasol gyfiawn. Crynhoir y ddeddfwriaeth a'r polisïau allweddol yn Atodiad A.

2.2 Gyda'i gilydd mae Deddf Newid Hinsawdd y DU (2008), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd a rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru, gyda phob un yn cael ei thanategu gan strategaethau a fframweithiau. Gyda'i gilydd maent yn rhoi Cymru fel economi carbon isel ac amgylcheddol gynaliadwy, yn barod i addasu i effeithiau newiod hinsawdd ac i liniaru effeithiau bioamrywiaeth.

Yr uchelgais i Gymru yn cynnwys nod o sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, mae Llywodraeth Cymru o blaid gweithredu fel 'tîm Cymru' gydag arweinyddiaeth, cydweithrediad ac ymgysylltiad gwleidyddol cryf o du'r llywodraeth, yn genedlaethol ac yn lleol, gan weithredu'n gyson a chadarn.

2.3 Cydnabyddir bod llywodraeth leol yn sylfaenol i gyflenwi datgarboneiddio, yn enwedig wrth roi arweinyddiaeth yn lleol a hyrwyddo atebion cynaliadwy, uchelgeisiol a newid ymddygiad. Mae cyfleoedd cyllido (grantiau a benthyciadau) sylweddol eisoes ar gael i fwrw ymlaen gyda chynlluniau a rhaglenni newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio, gyda chynnydd yn debygol dros y blynyddoedd i ddod. Bydd yn hanfodol cael cynllun clir, dull corfforaethol, gwaelodlin gynhwysfawr, trefniadau monitro cadarn, gallu ychwanegol pwrpasol, a rolau a chyfrifoldebau diffiniedig i geisio manteisio i'r eithaf ac atgyfnerthu gwaith cyfredol i drosglwyddo i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

2.4 Mae llywodraethau lleol ledled Cymru hefyd yn cydnabod y bydd gweithio gyda'n gilydd i rannu arbenigedd, tystiolaeth ac atebion yn helpu i sicrhau buddsoddiad, yn ogystal â strategaeth a pholisi effeithiol i ddatblygu a chyflwyno'r cyfeiriad cyflymaf a mwyaf cynaliadwy i gyflawni rhwymedigaethau ac uchelgeisiau cyfreithiol i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

**3.0 Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol**

3.1 Mae'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol wedi'i sefydlu i helpu i arwain, cefnogi, annog a rhoi trosolwg strategol.

3.2 Panel Cyngor Partneriaeth Cymru gytunodd i sefydlu'r Panel, a hynny ym mis Mehefin 2020, gyda chynrychiolaeth gan brif weithredwyr awdurdodau lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, Llywodraeth Cymru a chynghorwyr perthnasol. Mae'r Panel yn adrodd i'r Cyngor Partneriaeth sy'n rhoi cyfeiriad gwleidyddol ac arweinyddiaeth i'r gwaith. Cynrychiolir awdurdodau lleol Gogledd Cymru gan Brif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

**3.2.1 Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i:**

**a) Ddeall ei ôl troed carbon, yn unol â chanllawiau ar gyfer adrodd ar allyriadau tŷ gwydr yn y sector cyhoeddus**
**b) Cytuno i set o ymrwymiadau / addewidion sero net ar gyfer COP26 (y bwriedir ei gynnal yn Glasgow ym mis Tachwedd 2021)**
**c) Monitro ei allyriadau carbon, nawr ac yn y dyfodol yn agos ac adrodd arnynt**
**ch) Sicrhau bod cynllun gweithredu sero net cadarn, wedi'i seilio ar dystiolaeth yn ei le, fel dogfen fyw, erbyn Mawrth 2021**
**e) Gweithio gyda'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio newydd**

Mae'r Panel a Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi paratoi trywydd ar gyfer datgarboneiddio ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n cynnig y meysydd cyffredinol canlynol ar gyfer gweithredu: Adeiladau; Symudedd a Thrafnidiaeth; Defnydd Tir a Chaffael.

**4.0 Ôl-troed Carbon yr Awdurdod (Gwaelodlin)**

4.1 Mae'n hollbwysig deall ôl troed carbon yr awdurdod. Bydd gwaelodlin gorfforaethol cyfredol a chyflawn yn sicrhau y caiff y dull ei yrru gan ddata fel y byddir yn blaenoriaethu meysydd blaenoriaeth ar gyfer ymyrraeth ac yn bwrw ymlaen â'r rhain. Credir bod canllawiau Llywodraeth Cymru yn yr arfaeth, tra bod sawl awdurdod lleol arall eisoes wedi defnyddio methodolegau cydnabyddedig yn eu sefydliadau. Dyma sylfaen yr holl broses drosglwyddo gorfforaethol. Unwaith y bydd gwaelodlin, bydd yn bosibl cyflwyno fframwaith monitro corfforaethol a dangosfwrdd effeithiol. Yna gellir gosod targedau gyda chynllun y cytunwyd arno er mwyn cyflawni a bod yn garbon niwtral a'u hintegreiddio mewn trefniadau cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad ar bob lefel.

4.2 Mae Cynllun Cyfredol y Cyngor (2017-2022) yn cydnabod bod *"Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol"*, yn un o dair prif flaenoriaeth. Datblygir hyn trwy *"ddod yn fwy effeithlon o ran ynni a lleihau ein hallyriadau carbon trwy ganolbwyntio ar Ganolfannau Hamdden, Ysgolion a goleuadau stryd"*. Er gwaethaf y cynnydd a wnaed hyd yma, cydnabyddir y bydd angen ymgorffori dull corfforaethol mwy cynhwysfawr ac uchelgeisiol yng

Nghynllun nesaf y Cyngor, gyda gwaelodlin yr ôl troed carbon yn dylanwadu arno ac yn ei lywio.

4.3 Yn Atodiad C amlinellir yr allyriadau cyfredol y mae'r awdurdod yn eu monitro a'u mesur, a rhai meysydd lle mae angen mwy o waith.

**5.0 Y Camau Gweithredu Hyd yn Hyn (Gwaelodlin)**

5.1 Yn gynnar yn 2020 (cyn y pandemig) gweithiodd Grŵp Tasg a Gorffen swyddogion i baratoi gwaelodlin o gamau gweithredu a gafwyd hyd yn hyn i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol), gyda'r bwriad o lywio cynllun gweithredu drafft. Mae'r gwaelodlin hon (nid yw'n ddiffiniol) i'w gweld yn Atodiad D. Mae Gwasanaethau Unigol wedi bod yn gwneud newidiadau cadarnhaol ac maent yn parhau i'w gwneud. Er gwaethaf hyn, mae'r wybodaeth a gasglwyd yn ddisgrifiadol iawn o ran gweithgaredd, heb unrhyw ddull cyson o bennu, rhagfynegi na meintioli'r effaith ar leihau allyriadau carbon (yn erbyn gwaelodlin ôl troed carbon corfforaethol). Yn ogystal, ar hyn o bryd nid oes unrhyw dargedau lleihau carbon y cytunwyd arnynt yn ffurfiol.

5.2 Ers i'r gwaith hwn gychwyn mae sawl arfer gwaith traddodiadol a 'sefyllfa arferol' wedi'u newid er diogelu staff a darparu gwasanaeth (e.e. mae cyfarfodydd rhithwir wedi lleihau'r teithio cyffredinol sy'n gysylltiedig â gwaith, gweithio gartref ac ati). Bellach, mae'n rhaid cydnabod bod y rhain yn rhan o'r gwaelodlin, wedi'u meithrin a'u hymgorffori wrth i ni ddechrau ar y cyfnod adfer ôl-bandemig.

**6.0 Arfer Da – Adolygu a Dysgu**

6.1 Mae amrywiol swyddogion wedi mynd ati i wneud gwaith ymchwil a dysgu i ddylanwadu ar ddull corfforaethol arfaethedig o drosglwyddo i sefydliad carbon niwtral a llywio hyn. Cydnabyddir bod hyn yn ddechrau ar daith gorfforaethol newydd gyda disgwyliadau, polisïau, canllawiau, llywodraethu, a chyfleoedd posibl yn datblygu i sicrhau y ceir adnoddau cyflenwi a gweithredu ychwanegol.

6.2 Yn ogystal â chymryd rhan mewn amrywiol fforymau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a chenedlaethol, cydweithredu'n rhanbarthol (trwy strwythurau anffurfiol i raddau helaeth), ystyried strwythurau a dulliau gweithredu mewn awdurdodau lleol eraill, adolygu dogfennau a chyhoeddiadau perthnasol, cafwyd gwybodaeth trwy fod mewn sawl cynhadledd rithwir a gweminar diweddar a chymryd rhan ynddynt:

- Newid Hinsawdd Cymdeithas Lywodraeth Leol 2020 (yr 17eg a'r 18fed o Fedi 2020)
- Bord Gron Rithwir ar Argyfwng Hinsawdd (y 25ain o Fedi 2020)
- Cynhadledd Cysylltiadau Carbon Isel - Datgarboneiddio Gwres a Thrafnidiaeth (2il o Hydref 2020)
- Cloi i Mewn Ymddygiad Cadarnhaol a Manteision Gweminar Adferiad Gwyrdd (2il o Hydref 2020)
- Gweminarau Datganiadau Ardal Gogledd-orllewin Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru) (yr 16eg – y 27ain o Dachwedd 2020)

6.3 Crynhoir y dysgu hwn yn Atodiad E, i gynorthwyo'r awdurdod a'i gwneud yn bosib iddo wneud penderfyniad hyddysg ar y ffordd ymlaen.

**7.0 Cydlynu, Gallu ac Arbenigedd Corfforaethol**

Ar hyn o bryd nid oes gan yr awdurdod arweinydd corfforaethol (na gwleidyddol) pwrpasol ar gyfer newid yn yr hinsawdd. Er bod rhywfaint o arbenigedd ar ddatgarboneiddio o fewn gwasanaethau penodol, mae hyn yn cyd-fynd ag adeiladu a gwella adeiladau. Mae awdurdodau eraill wedi dangos eu hymrwymiad i'r maes thematig hanfodol hwn trwy neilltuo adnoddau pwrpasol. Y gobaith, a'r disgwyl, yw y bydd Llywodraeth Cymru, dros amser, yn cydnabod bod yn rhaid cael gweithgaredd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio a'i ymgorffori yn setliadau blynyddol awdurdodau lleol. Gan fod amser yn brin, nid oes dewis ond neilltuo cyllid craidd i greu gallu / arbenigedd pwrpasol i arwain ar symud ymlaen a chydlynu camau cychwynnol gwaith datblygu a chyflawni.

Câi hyn ei ddefnyddio i dalu costau cyflogi Uwch-reolwr Rhaglen Newid Hinsawdd corfforaethol am ddwy flynedd, gyda chyllideb weithredol a gâi ei defnyddio i baratoi gwaelodlin carbon, fframwaith monitro, dangosfwrdd, llunio cynllun gweithredu wed'i gostio, caffael hyfforddiant ac ati. Byddai'r swyddog pwrpasol hefyd yn cydlynu gweithgareddau traws-wasanaeth, yn cynrychioli'r awdurdod mewn grwpiau a digwyddiadau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol, yn adrodd ar gynnydd, yn dylanwadu ar weithgareddau'r gwasanaeth, yn nodi arfer da, ac yn sicrhau y ceir ymdeimlad o bwrpas, arweinyddiaeth a momentwm.

Ar hyn o bryd nid oes staff yn yr awdurdod i gyflawni'r camau cychwynnol hanfodol hyn.

**8.0 Casgliad**

8.1 Mae tystiolaeth glir bod gwahanol feysydd gwasanaeth yn bwrw ymlaen gyda llu o weithgareddau, gan ymateb yn gadarnhaol i'r angen i leihau ôl troed carbon yr awdurdod. Er gwaethaf hyn, ar hyn o bryd, nid oes gallu ac arbenigedd corfforaethol pwrpasol i arwain a llywio'r newid trawsnewidiol angenrheidiol i'r sefydliad cyfan sydd ei angen.

8.2 Nid oes cynllun gweithredu corfforaethol, dull gweithredu cyson, targedau wedi'u mabwysiadu, gwaelodlin gynhwysfawr na dulliau monitro ac adrodd ffurfiol. Mae disgwyliadau'n cynyddu, a nawr mae angen i'r awdurdod ddangos yr arweinyddiaeth leol fewnol ac allanol angenrheidiol.

8.3 Mae'r ymrwymiadau y mae pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi'u gwneud (trwy'r Panel Strategaeth Datgarboneiddio Llywodraeth Leol) yn gofyn am ymateb ymroddedig a pharhaus. Mae amser, ymdrech ac adnoddau ar draws yr awdurdod eisoes wedi'u trethu, a heb ddull rhaglen pwrpasol, cynllun gweithredu, llywodraethu, ag arbenigedd, mae'n annhebygol y bydd yr awdurdod yn cyflawni ei ymrwymiad i fod yn garbon niwtral erbyn 2030.

8.4 Mae amser yn brin ac mae angen cymryd camau cyflym, ystyrlon a phendant.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Petai'r Pwyllgor Gwaith yn cefnogi ac yn cadarnhau datblygiad a gweithrediad y Rhaglen Newid Hinsawdd Corfforaethol er mwyn galluogi'r awdurdod i ddatblygu i fod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030, bydd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac ystyriaeth o'r holl thema allweddol / meysydd effaith yn cael eu gwneud yn rhan annatod o'r broses |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| Ni ellir amcangyfrif y goblygiadau ariannol (costau a manteision) o ddarparu'r Rhaglen Newid Hinsawdd ar hyn o bryd. Mae angen gwaith pellach er mwyn paratoi'r Rhaglen a blaenoriaethu'r meysydd gweithgaredd. Cydnabyddir yr angen i geisio am a sicrhau nawdd grant allanol a chydweithio â sefydliadau eraill.<br><br>Mae'r goblygiadau ariannol cychwynnol ar gyfer y cynigion a nodir yn canolbwyntio ar gostau cyflogaeth ar gyfer y rôl newydd arfaethedig a gweithredoedd blaenoriaeth uniongyrchol sydd angen eu datblygu (fel y nodir ym mharagraff 3.2.1).<br><br>Mae cyllideb gychwynnol o £400,000 - £600,000 yn cael ei cheisio. |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| **<u>Atodiadau</u>**<br><br>**Atodiad A.**<br>**Crynodeb o Ddeddfwriaeth a Pholisïau Newid Hinsawdd Allweddol**<br><br>**Atodiad B.**<br>**Allyriadau a Fesurir ar Hyn o Bryd**<br><br>**Atodiad C.**<br>**Camau Gweithredu Hyd Yma (Gwaelodlin)**<br><br>**Atodiad D.**<br>**Awgrymiadau Arfer Gorau i Fynd i'r Afael â Newid Hinsawdd ac Argymhellion i'w hystyried** |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| |

# Atodiad A
## Crynodeb o Ddeddfwriaeth a Pholisïau Newid Hinsawdd Allweddol

### Deddf Newid Hinsawdd 2008

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau fod cyfrif carbon net y Deyrnas Unedig ar gyfer pob uno'r chwe nwy tŷ gwydr Kyoto am y flwyddyn 2050 yn 100% yn is (sero net) na gwaelodlin 1990. Mae gan Gymru darged o ostyngiad o 95% gyda'r nod o gyrraedd sero net.
**Dolen:http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2008/27contents**

### Cytundeb Paris

Cytundeb yng Nghonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig yw'r cytundeb byd-eang, cyffredinol sy'n gyfreithiol rwymol, yn ymdrin â lleddfu, addasu a chyllido allyriadau nwyon tŷ gwydr ac fe'i llofnodwyd yn 2016.
**Dolen:https://unfccc.imt/process-and-meetings/the-paris-agreement/the-paris-agreement**

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith tymor hir eu penderfyniadau, gweithio gyda phobl a chymunedau ac atal problemau parhaus, megis tlodi, anghyfartaledd a newid hinsawdd.
**Dolen:https://futuregenerations.wales/about-us/future-generations act**




### Datgarboneiddio Sector Cyhoeddus Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus. Cefnogwyd hyn gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn dadl ar ddatgarboneiddio yn y Sector Cyhoeddus ym Mehefin 2017. Datgarboneiddio yw un o flaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac mae arweinyddiaeth y sector cyhoeddus yn thema allweddol yn y cynllun gweithredu, "Ffyniant i bawb: Cymru garbon isel.
**Dolen:**
**https://gov.wales/sites/default/files/publications/201904/decarbonisation-of-the-public-sector-call-for-evidence-2017.pfd**

DRAFT

## Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016

Fe'i cyflwynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a daeth i rym yr 21ain o Fawrth, 2016. Rhydd y ddeddf yn ei lle'r ddeddfwriaeth angenrheidiol i allu cynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymry'n fwy cynaliadwy.

## Cynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2017-2022

Uchelgais allweddol y Cyngor o'r cynllun yw: "byddwn yn gweithio tuag at Ynys Môn sy'n iach, yn ffynnu ac yn llewyrchus" ac mae'n cynnwys tri phrif amcan:

- Gweld pobl yn gwireddu eu potensial
- Diogelu pobl fregus
- Gwarchod cymunedau a'r amgylchedd ar adegau o newid

DRAFT

**<u>Atodiad B</u>**
**Allyriadau a Fesurir ar Hyn o Bryd**

DRAFT

# Beth sy'n cael ei fesur ar hyn o bryd ?

| Cwmpas | Allyriadau | Perchennog | Beth ydyn ni'n ei fesur, pryd a sut? | Ble mae'n cael ei adrodd? | Sut mae'r data'n cael ei ddefnyddio i lywio'r broses gwneud penderfyniadau? | Proses awtomataidd neu â llaw? | A oes enghreifftiau mewn Cynghorau eraill? | Beth yw'r bylchau? |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwmpas 1 | Nwy, LPG ac Olew ar gyfer gwresogi adeiladau | Eiddo | Cofnod electronig o'r tanwydd a ddefnyddir a gedwir ar gyfer pob adeilad masnachol o filiau. Maent i gyd ar fesurydd ar gyfer nwy o'r prif gyflenwad tra bo'r olew a'r nwy a ddefnyddir yn cael ei gyfrif i raddau helaeth yn seiliedig ar nodiadau danfon. kWh wedyn yn cael ei drosi i tCO2e | Yn fewnol | Defnyddio'r data i ddarganfod a oes tuedd gyffredinol o ran lleihau'r ynni a ddefnyddir ac i benderfynu pa adeiladau i'w blaenoriaethu mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni, megis Re: Fit. | Â llaw | | |
| Cwmpas 1 | Y tanwydd a ddefnyddir mewn cerbydau fflyd | Fflyd | Y tanwydd a ddefnyddir (disel, LPG, petrol) / milltiroedd. Cyfansymiau blynyddol y tanwydd a ddefnyddir ac sydd ar gael o dderbynebau gwerthu / adroddiadau dosbarthu. Ar gael bob mis hefyd pan anfonir ffigurau i'r adran gyllid ar gyfer codi ar adrannau. Gellir trosi ffigurau i CO2e | Yn fewnol yn y gwasanaeth ac weithiau'n allanol. Mae data ar y fflyd wedi'u hanfon at wasanaeth ynni llywodraeth Cymru fel rhan o brosiect ULEV sydd â'r bwriad o roi adroddiad i ni a fydd, gyda gobaith, yn ein helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol o ran y fflyd. | Wedi'u ddefnyddio i gyfrifo costau fesul milltir | Â llaw | Ddim yn siŵr, efallai Cyngor Abertawe, a weithredodd fflyd o oddeutu. 40 fan drydan ychydig flynyddoedd yn ôl | |
| Cwmpas 2 | Defnyddio trydan mewn adeiladau | Eiddo | Cofnod electronig o'r trydan a ddefnyddir ar gyfer pob adeilad masnachol sy'n cael ei ddal y gellir ei drosi i tCO2e | Yn fewnol | Defnyddio'r data i ddarganfod a oes tuedd gyffredinol o ran lleihau'r ynni a ddefnyddir ac i benderfynu pa adeiladau i'w blaenoriaethu mewn prosiectau effeithlonrwydd ynni, megis Re: Fit. | Â llaw | | |
| Cwmpas 2 | Goleuadau stryd | Priffyrdd | Y trydan a ddefnyddir yn fisol ar gyfer goleuadau stryd o filiau ac allyriadau carbon misol gan PowerData Associates. | Yn fewnol | Caiff y data eu hasesu a'u trafod yn rheolaidd gyda'r Uwch-beiriannydd mewn cyfarfodydd tîm | Â llaw | | |
| Cwmpas 2 | Gwefru ceir trydan | Fflyd | Cofnod a gedwir o'r trydan a ddefnyddir yn ymwneud â gwefru cerbydau trydan - gellir ei drosi i tCO2e | Yn fewnol yn y gwasanaeth ac weithiau'n allanol. Mae data ar y fflyd wedi'u hanfon at wasanaeth ynni llywodraeth Cymru fel rhan o brosiect ULEV sydd â'r bwriad o ro iadroddiad i ni a fydd, gyda gobaith, yn ein helpu i wneud penderfyniadau yn y dyfodol o ran y fflyd. | Wedi'i ddefnyddio i gyfrifo costau fesul milltir | Â llaw | | |

DRAFT

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cwmpas 3 | Cyflenwad dŵr i adeiladau a dŵr gwastraff a ddaeth yn ôl fel carthffosiaeth | Eiddo | Cofnod a gedwir o'r dŵr a ddefnyddir ar gyfer pob adeilad masnachol y gellir ei drosi i tCO2e. Ceir biliau bob chwe mis ar gyfer mwyafrif y safleoedd. | Yn fewnol | Os bydd cynnydd sylweddol yn yr hyn a gaiff ei ddefnyddio mewn adeilad o un flwyddyn i'r llall, cynhelir ymchwiliad safle lle bo hynny'n bosibl i wirio am ollyngiadau. | Â llaw - proses hynod lafurus | | Mae biliau papur yn dal i gael eu derbyn a'u sganio i Civica, sy'n golygu bod yn rhaid chwilio am bob safle â llaw, sy'n waith llafurus ac yn dueddol o fod â chamgymeriad dynol. Yn wahanol i gontractau ynni, nid yw caffael wedi cymryd hyn drosodd a'i roi ar fil electronig cyfunol. |
| Cwmpas 3 | Ailgylchu a gwastraff o adeiladau masnachol | Caffael | Adroddiad blynyddol ar gael gan gontractwr sy'n cyflawni'r gwasanaeth gyda gwastraff mewn kg ar gyfer pob adeilad. Yna gellir trosi hwn i CO2e | Yn fewnol ac allanol | | | | |
| Cwmpas 3 | Gwastraff dinesig | Gwastraff | Cyfanswm tunelledd blynyddol y casgliad wrth ymyl y ffordd, Safleoedd Ailgylchu a sicrhau bod safleoedd ar gael gyda dadansoddiad ar gyfer gwahanol fathau o wastraff / ailgylchu. Gellir ei drosi i tCO2e | Yn fewnol ac yn allanol yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Rydym yn mewnbynnu'r holl ddata ar Lif Data Gwastraff | Unwaith y bydd y data wedi'i gyflwyno ar WDF, cawn ein ffigurau ailgylchu misol / chwarterol / blynyddol. Rydym yn asesu'r ffigurau chwarterol ac yn nodi lle mae angen i ni wella ar gyfer y chwarter nesaf. Anfonir y data yn fewnol fel dangosydd Perfformiad ac fe'i trafodir ag aelodau etholedig os na chyrhaeddir y targedau. | Mewnbynnir data â llaw | | |

DRAFT

# Beth arall sydd angen ei gynnwys?

| Cwmpas | Ffynhonnell | Allyriadau | Perchennog | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Cwmpas 1 | Hylosgi Tanwydd | Nwy, LPG ac Olew ar gyfer gwresogi tai cymunedol. | Tai | Ansicr os caiff ei fonitro ar hyn o bryd - Bydd yn ddibwys iawn yn y ffigur cyffredinol. |
| Cwmpas 2 | Trydan wedi'i Brynu | Y trydan a ddefnyddir mewn tai cymunedol. | Tai | Ansicr os caiff ei fonitro ar hyn o bryd - Bydd yn ddibwys iawn yn y ffigur cyffredinol. |
| Cwmpas 1 | Nwyon wedi'u Fflworeiddio | Nwyon wedi'u hoeri yn sgil aerdymheru | Eiddo / TG | Ansicr os caiff ei fonitro ar hyn o bryd - Bydd yn ddibwys iawn yn y ffigur cyffredinol. |
| Cwmpas 3 | Teithio Staff | Cymudo | Pob adran | Ni chaiff ei fonitro ar hyn o bryd |
| Cwmpas 3 | Teithio Staff | Defnyddio cerbydau personol at ddibenion busnes | Fflyd / Pob adran | Ansicr os caiff ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Cwmpas 3 | Caffael | Nwyddau a gwasanaethau wedi'u prynu | Pob adran | Ni chaiff ei fonitro ar hyn o bryd. Allyriadau uchel iawn sy'n gysylltiedig â chaffael. |
| Cwmpas 3 | Buddsoddiadau | | | |

**ATODIAD C**

**Gwaelodlin Gweithgaredd Hinsawdd Cyngor Sir Ynys Môn**

| TEITL | Cyfnod Gweithredu | Gwasanaeth Arweiniol / Corfforaethol | Trosolwg | Cyflawniadau Diweddar | Ffordd o Gyflawni (Mewnol/ Contract) | Yn adrodd i? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Ynys Ynni | Parhaus | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gweledigaeth Rhaglen Ynys Ynni yw creu cyfle unwaith mewn oes ar gyfer swyddi, twf economaidd a ffyniant trwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol sy'n rhoi Ynys Môn a'r rhanbarth ehangach ar flaen y gad o ran ynni, gwaith ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu carbon isel.<br><br>Mae'r Rhaglen Ynys Ynni yn cydweithredu â nifer o randdeiliaid allweddol i:<br><br>• Ddenu a dadrisgio buddsoddiad strategol mawr<br>• Dylanwadu ar ddarpar ddatblygwyr<br>• Cefnogi gwaith datblygu pobl a chymunedau cystadleuol<br>• Cefnogi gwaith datblygu busnesau cystadleuol<br>• Cefnogi gwaith datblygu seilwaith cystadleuol<br>• Gwireddu'r manteision y gall prosiectau mawr eu cael a lliniaru effeithiau andwyol<br>• Gwneud y mwyaf o fanteisiion gwaddol tymor hir | • Parhaus | Yn fewnol | Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth a Llywodraethu Lefel 2 CSYM |

Tudalen 80

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Cyflenwi'r Gwasanaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 2019-2020 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gweledigaeth y Gwasanaeth yw 'creu Ynys well i fyw a gweithio ynddi ac i ymweld â hi trwy gryfhau lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Ynys Môn a'i chymunedau".<br><br>Ei nod yw:<br><br>• Rheoli gwaith datblygu a defnyddio tir ac adeiladau i ddatblygu'r economi, cefnogi cymunedau a diogelu'r amgylchedd.<br>• Hyrwyddo a gwarchod amgylchedd byw a gweithio diogel, teg ac iach i breswylwyr a busnesau.<br>• Datblygu'r economi ymwelwyr, annog pobl i fwynhau adnoddau naturiol a rheoli asedau arfordirol yn effeithiol.<br>• Datblygu a darparu gweithgareddau fel bod modd creu swyddi, cael mwy o lewyrch, a chefnogi cymunedau bywiog a gwydn.<br>• Gwneud y mwyaf o fanteision cadarnhaol prosiectau mawr, gan liniaru effeithiau andwyol, er mwyn sicrhau gwaddol cadarnhaol a chynaliadwy.<br>• Darparu cyfleusterau a gweithgareddau hamdden i bobl, o bob oed, fyw eu bywydau mewn ffordd iach. | • Wrth adeiladu Unedau Busnes Pen-Yr-Orsedd ac ymestyn Canolfan Fusnes Ynys Môn defnyddiwyd technoleg ynni adnewyddadwy gan gynnwys paneli solar ffotofoltäig ar bob uned, mesurau effeithlonrwydd ynni a phwyntiau gwefru cerbydau trydan.<br>• Gwaith ailddatblygu Neuadd y Farchnad, Caergybi wedi'i gwblhau gyda gwaith yn anelu at safonau rhagoriaeth BREEAM;<br>• Prosiect Thematig Eiddo Gwag TRIP (2018/19 a 2019/20 a 2020/21) — rhagweld y bydd 98 o aelwydydd wedi cael cymorth i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi (cynllun isranbarthol Ynys Môn a Gogledd Gwynedd, CSYM yw'r corff arweiniol)<br>• Gwybodaeth sylfaenol a gasglwyd ar berfformiad ynni canolfannau hamdden yn ystod 2019. | Yn fewnol | Uwch-dîm Rheoli Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |

DRAFT

Tudalen 82

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Wedi gosod goleuadau LED ar draws yr holl ganolfannau hamdden i wella effeithlonrwydd ynni (mae rhagor o waith gwella effeithlonrwydd ynni yn digwydd ym mis Mawrth-Medi 2020 ac yn cynnwys: Solar Ffotofoltäig, Optimeiddio Bwyleri, Insiwleiddio ac ati.)<br>• Fe wellodd gweithgareddau AHNE ymddygiad pobl tuag at newid yn yr hinsawdd trwy hyrwyddo gwaith glanhau traethau ac ynys heb blastig.<br>• Y Swyddogaeth Gynllunio wedi symud i Bencadlys y Cyngor fel rhan o brosiect Gweithio'n Doethach y Cyngor (yn lleihau'r ynni a ddefnyddir a gwell effeithlonrwydd ac ati).<br>• Gwaith parhaus gan Adran Gwarchod y Cyhoedd - e.e. storio a dosbarthu petroliwm yn ddiogel mewn safleoedd trwyddedig; Archwilio prosesau | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | diwydiannol y mae'n rhaid iddynt fod â Thrwydded Amgylcheddol sy'n rheoli llygredd aer; Cyflenwi Dŵr Preifat - Samplau Statudol; Ymateb Rheoli Plâu.<br>• Adolygiad ac asesiad blynyddol o ansawdd aer ar Ynys Môn | | |
| Cynllun Rheoli Asedau | 2020 - 2025 | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (Adain Eiddo) | Mae'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yn gosod y fframwaith strategol ar gyfer rheoli holl asedau CSYM. Y bwriad yw llywio penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch caffael, defnyddio, datblygu a chael gwared ag asedau eiddo i ddiwallu anghenion gweithredol a strategol y sefydliad a'i wahanol feysydd Gwasanaeth. Mae'n ceisio sicrhau y caiff y portffolio o dir ac eiddo ei reoli'n effeithiol fel ei fod yn parhau'n addas at y diben (o fewn y cyfnod cyfredol o gyfyngiadau adnoddau a chyllid).<br><br>Nod y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yw sicrhau bod asedau'n cefnogi gofynion gwasanaeth cyfredol ac yn y dyfodol ac yn fodd i flaenoriaethu penderfyniadau yn y dyfodol ynghylch buddsoddi a rhesymoli. | • Mae nifer o asedau wedi'u trosglwyddo i Gynghorau Tref a Chymuned eu rhedeg, gan warchod darpariaeth gwasanaeth a chreu arbedion refeniw.<br>• Mae sawl ased dros ben gan gynhyrchu arbedion refeniw a derbyniadau cyfalaf gan arwain at bortffolio asedau teneuach.<br>• Yn sgil cwblhau gwaith adnewyddu Stad Wledig Manddaliadau cafwyd tai modern mwy effeithlon o ran ynni ac adeiladau allanol sy'n fwy diogel i'n tenantiaid.<br>• Yn sgil cwblhau'r Prosiect Gweithio Doethach cafwyd gweithlu mwy ystwyth a defnyddiwyd gofod | Grwpiau mewnol, allanol, gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol | Grŵp Tir ac Asedau |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Byddir yn bwrw ymlaen â’r nod trwy:<br><br>• Ymgorffori diwylliant newydd o arloesi sy'n gwneud y defnydd gorau o dechnoleg<br>• Cyflwyno gwasanaethau mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n gyson â gwerthoedd ac ymddygiadau craidd CSYM<br>• Ei gwneud yn bosib trawsnewid a chael rhagor o effeithlonrwydd trwy reoli portffolios yn rhagweithiol (wrth sicrhau'r incwm mwyaf posibl)<br>• Rheoli'r stad yn effeithiol<br>• Gwneud y mwyaf o gyfleoedd adfywio a llesiant trwy gaffael a chydweithio effeithiol<br>• Gwarchod yr amgylchedd a lleihau’r niwed cyffredinol iddo. | ym mhrif adeilad y Cyngor yn fwy effeithlon. | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adnewyddu Adeiladau | 2018-i'w gadarnhau | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (Adain Eiddo) | Fframwaith ar gyfer gwaith ôl-ffitio cadwraeth ynni yn adeiladau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yw Re: fit Cymru. Mae'n fodd i gyrff cyhoeddus gynnwys nifer o adeiladau a mesurau arbed o fewn un fframwaith contractio perfformiad ynni a gaffaelwyd gan yr OJEU gan ddarparu cynlluniau defnyddio llai o ynni ac ynni amgen sydd â graddfa.<br><br>Y prif nodau yw:<br>• Gwella effeithlonrwydd ynni adeiladau cyhoeddus yr awdurdod yn unol â'r targedau a osodwyd yn y strategaeth effeithlonrwydd ynni (2017-2022)<br>• Lleihau cost rhedeg adeiladau<br>• Lleihau effaith amgylcheddol adeiladau'r awdurdod ar yr amgylchedd trwy leihau allyriadau carbon a thrwy symud i ffwrdd o danwydd ffosil, lle bo hynny'n bosibl. | Ymhlith y mesurau effeithlonrwydd ynni a gynhaliwyd hyd yma mae:<br>• Paneli solar ffotofoltäig wedi'u gosod yn Ysgol Kingsland ac Ysgol Morswyn.<br>• Diweddarwyd Strategaeth Rheoli Busnes yn Swyddfeydd y Cyngor ac Ysgol Uwchradd Bodedern.<br>• Cafodd pibellau eu lagio ar draws nifer o safleoedd.<br>• Unedau rheoli ynni (Savacontrols) wedi'u gosod ar offer oeri mewn ysgolion i leihau ynni.<br>• Goleuadau LED wedi'u gosod yn Llyfrgell Llangefni | Yn fewnol ac Allanol - Wedi'i reoli gan GSYM ond yn cael ei ddarparu gan y Larkfleet Group. | Grŵp Tir ac Asedau |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Contract Arlwyo Ysgolion | 2020 – 2027 | Dysgu | Mae Contract Arlwyo Ysgolion Newydd yn cynnwys gofyniad i gydymffurfio â Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r statws Ynys Ddiblastig.<br><br>Bydd yr elfennau hyn yn y contract yn cael eu monitro a'u rheoli'n barhaus trwy gydol y contract. | | Contract | Uwch-dîm Arweinyddiaeth Gwasanaethau Dysgu |
| Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd | Parhaus | Dysgu | Amryfal brosiectau mewn ysgolion i ddiogelu rhywogaethau a chynefinoedd ac addysgu'r disgyblion ar sut y gall plannu coed a rheoli'r cynefinoedd hyn helpu i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd. | • Mae gan goedwig o'r enw Coed y Felin y tu ôl i Ysgol Syr Thomas Jones dros 11,000 o goed a blannwyd yn 2011 gan ddisgyblion o'r ysgol ac erbyn hyn mae'r safle hwn yn datblygu i fod yn gynefin ar gyfer amryfal anifeiliaid a phryfed.<br>• Mae grŵp o ddisgyblion o'r ysgol hon hefyd yn gwirfoddoli bob blwyddyn gydag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. | Yn fewnol | |

DRAFT

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | • Mae gan Ysgol Y Borth ardal bywyd gwyllt sy'n cynnwys pwll mawr o ddŵr a chynllun plannu coed sydd wedi bod yn rhedeg er y deng mlynedd diwethaf ac sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y coed ar y safle.<br>• Mae Ysgol Corn Hir wedi cael coed gan Goed Cadw ac wedi creu ardal bywyd gwyllt yng nghae'r ysgol i sicrhau cynefin addas i adar. | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Contract Cynnal a Chadw Tiroedd Ysgolion | 2019 – 2022 | Dysgu | Mae'r contract hwn yn cynnwys y gofynion a ganlyn:<br>○ Mae'r cemegyn a elwir 2:4:5 T (neu unrhyw sylwedd sy'n ei gynnwys) wedi'i wahardd rhag cael ei ddefnyddio yn holl eiddo'r Awdurdod.<br>○ Bydd y contractwr yn sicrhau nad yw ei weithredoedd yn cael effaith ar unrhyw lystyfiant na nodwedd amgylcheddol ac mai'r Contractwr ei hun fydd yn talu unrhyw hawliadau am ddifrod. Yr awgrym yw prynu yswiriant priodol.<br>• Bydd yr elfennau hyn yn y contract yn cael eu monitro a'u rheoli'n barhaus trwy gydol y contract | | Contract | Uwch-dîm Arweinyddiaeth Gwasanaethau Dysgu |
| Rhaglen Ynni Goleuadau Stryd a Lleihau Carbon | 2012 - Parhaus | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (Adain Eiddo) | Mae'r Cyngor Sir yn gyfrifol am gynnal a chadw 9,801 o oleuadau stryd cyhoeddus ac 844 o arwyddion wedi'u goleuo a'r ynni y maent yn eu defnyddio.<br>Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i barhau â'r gostyngiad mewn ynni a lleihau'r allyriadau carbon heb achosi newid andwyol i les pobl Ynys Môn. | Uwchraddio llusernau goleuadau stryd i lusernau LED ynni-effeithlon newydd. Mae'r llusernau LED newydd wedi profi i leihau llygredd golau, tresmasu golau, ymyrraeth ar olygfa, goleuo'r awyr wrth hefyd gyfyngu i'r eithaf ar olau llachar. Mae pob un ohonynt wedi gwella statws 'Awyr Dywyll' Ynys Môn.<br>Mae'r Awdurdod wedi derbyn cymorth ariannol trwy arian grant Salix ac mae bellach wedi cwblhau 99% o'r gwaith | Mewnol ac Allanol - Wedi'i reoli gan GSYM ond yn cael ei ddarparu gan Gontractwr Cynnal a Chadw Tîm Priffyrdd a Goleuadau Stryd. | Grŵp Tir ac Asedau |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | uwchraddio. Mae'r fenter hon eisoes wedi lleihau'r ynni a'r carbon a ddefnyddir 2,247,000kwh a 1,538 tunnell yn y drefn honno er 2012. | | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif | Parhaus | Dysgu / Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (Adain Eiddo) | Wrth adeiladu tair ysgol newydd ym Mand A y rhaglen, gwelwyd ysgolion newydd yn Ysgol Cybi, Caergybi, Ysgol Rhyd y Llan, Llanfaethlu ac Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch. Bydd yr ysgol olaf ym Mand A yn cychwyn yn ddiweddarach eleni.<br><br>Ymgynghorir ar gynlluniau ar gyfer Band B ar hyn o bryd a byddir yn canolbwyntio ar ardaloedd Llangefni, Amlwch a Seiriol. | Mae'r tair ysgol wedi cyflawni sgôr Ardderchog BREEAM.<br><br>Mae'r tair ysgol wedi ymgorffori ynni adnewyddadwy trwy bympiau gwres solar ffotofoltäig a ffynhonnell aer. | Mewnol ac Allanol - Dyluniad wedi'i Reoli ac Arweiniol gan GSYM gyda chymorth Ymgynghoryd d a chontractwr allanol. | Grŵp Moderneiddio Ysgolion |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Adeiladwyd Ysgol Rhyd y Llan o baneli waliau byrnau gwellt carbon isel ac enillodd y wobr Adeiladu Arbenigrwydd am Gynaliadwyedd yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig.<br><br>Goleuadau LED wedi'u gosod ledled y safleoedd - yn fewnol ac yn allanol.<br><br>Systemau Rheoli Busnes wedi'u gosod ar bob adeilad fel bod modd monitro perfformiad adeilad o bell o ran ynni, gwres, awyru, canfod gollyngiadau, canfod namau ac ati.<br><br>Bydd pob prosiect ysgol newydd yn y dyfodol yn cynnwys pwyntiau gwefru ceir trydan. | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiynu Gwasanaethau Gofal. | Parhaus | Gwasanaethau Oedolion | Cynllun y Cyngor 2017 - 2022<br><br>"Byddwn yn gweithio tuag at<br><br>Ynys Môn sy'n iach, yn ffynnu<br><br>ac yn llewyrchus"<br><br>AMCAN 1<br><br>Sicrhau fod pobl Ynys Môn<br><br>yn gallu ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir.<br><br>• Cyflwyno gwasanaethau mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sy'n gyson â gwerthoedd ac ymddygiadau craidd CSYM<br><br>Bydd pob cais Tendr yn y dyfodol yn gofyn i ymgeiswyr ddangos eu hymrwymiad i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr Ynys gyfan.<br><br>Gofynnir hefyd i dendrau ystyried a dangos tystiolaeth o ddealltwriaeth o gadwyni caffael / cyflenwi moesegol a chaethwasiaeth fodern.<br><br>Bydd contractau'n nodi ac yn disgwyl yr isod: | Trawsnewid Gofal a Chymorth Cartref.<br><br>Roedd y broses dendro'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr:<br><br>• Ddangos y gallu i ddarparu gwasanaethau sensitif a phriodol i Ynys Môn gyfan<br>• Ymrwymo i les Economaidd, Cymdeithasol ac Amgylcheddol yr Ynys gyfan.<br>• Dangos nodwedd unigryw'r sefydliad fydd yn ychwanegu gwerth i ddefnyddwyr a chomisiynwyr<br><br>Symudodd y gwaith ailfodelu ddarparwyr o bob rhan o'r Ynys i froÿdd bychain. Parodd hyn i staff deithio'n sylweddol lai wrth gynnig gwell canlyniadau i'r unigolion a gefnogwyd.<br><br>Mae symud i froÿdd llai hefyd wedi helpu i | Grwpiau mewnol, allanol, gwasanaeth cyhoeddus a chymunedol | ?? |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | <u>Economaidd:</u><br>• Cyflogi Pobl Leol o'r Cymunedau Lleol y maent yn eu gwasanaethu<br>• Talu o leiaf Gyflog Byw<br>• Gwarantu oriau i staff, fel eu bod yn gallu cael morgeisi.<br>• Datblygu staff trwy'r Fframwaith Cymwysterau a Chredyd - cynyddu lefelau sgiliau / cyflogadwyedd yn y dyfodol<br>• Prynu nwyddau yn lleol - arlwyo / deunydd ysgrifennu / offer.<br>• Cyflogi unigolion ag Anabledd<br><u>Cymdeithasol:</u><br>• Creu llyfrgell o wasanaethau / grwpiau / mwynderau lleol yn Ynys Môn<br>• Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i Ddefnyddwyr Gwasanaeth gael mynd i'r gymuned<br>• Cefnogi grwpiau / pwyllgorau lleol<br>• Dewis - "Cynnig Gweithredol" - darparu gwasanaeth trwy ddewis iaith y defnyddiwr gwasanaeth.<br><u>Amgylcheddol:</u><br>• Lleihau amser teithio rhwng ymweliadau gofal<br>• Arddangos mentrau fel biniau ailgylchu, paneli solar ac ati.<br>• Cefnogi Defnyddwyr Gwasanaeth i arbed dŵr / nwy / trydan<br>• Cefnogi ailgylchu<br>• Monitro Galwadau Electronig - lleihau'r angen am rotas papur a thaflenni amser. | ddatblygu ac ysgogi'r economi lleol trwy gadw recriwtio yn lleol ac yn gynaliadwy.<br><br>Mae telerau'r contract yn nodi bod yn rhaid i gyflogwyr dalu o leiaf y cyflog byw cenedlaethol i'w staff ac na ddylid defnyddio contractau Dim Oriau – fel bod modd i'r gweithwyr gael mwy o sicrwydd gyda'u swydd | | |

DRAFT

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Defnyddio hyfforddiant ar-lein (lle bo hynny'n briodol) / skype ac ati - lleihau teithio i staff.<br>• Gweithio gyda darparwyr tai i sicrhau bod cartrefi wedi'u hinswleiddio, lle bo angen. | | | |
| Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol (FCERM)<br><br>Rhaglenni Grantiau | Parhaus | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>(Adain Eiddo) | Mae'r adran yn dilyn Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd yr Awdurdod ac yn ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd. Lle bo hynny'n briodol, mae'n gwneud cais i Lywodraeth Cymru am Gymorth Grant i gynnal Astudiaethau a Chynlluniau i addasu i effeithiau Newid Hinsawdd. | Ymhlith y gwaith a gwblhawyd yn flaenorol mae:<br><br>Morglawdd Biwmares a wal bae Trearddur / amddiffynfeydd arfordirol.<br><br>Mae'r sefyllfa bresennol fel a ganlyn.<br><br>Gwaith ar y safle ar hyn o bryd;<br><br>• Lliniaru Llifogydd Biwmares Mae gwaith ar y safle'n parhau a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yng ngwanwyn 2020.<br><br>• Nant Y Felin, Pentraeth | Mae tîm llifogydd a thîm Cynnal a Chadw Priffyrdd yn gweithio gyda'i gilydd i gofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau llifogydd ac mae Cynnal a Chadw Priffyrdd yn gweithredu cynlluniau bychain FCERM gyda chymorth grant.<br><br>Mae cynlluniau mawr yn cael eu rheoli gan Brosiectau Mawr yn yr Adran Briffyrdd gydag astudiaethau ac achosion busnes yn cael eu cynnal i raddau helaeth gan ymgynghorwyr | Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.<br><br>A’r<br><br>Bwrdd Trawsnewid. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae'r gwaith ar y safle’n parhau a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn haf 2020.<br><br>• Maes Hafoty, Llansadwrn<br><br>Mae'r gwaith ar y safle yn parhau a rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2020.<br><br>• Cynlluniau Graddfa Fechan (gwerth hyd at £100k). Gwaith yn parhau neu i'w gwblhau erbyn mis Mawrth 2020<br><br> Dwyran<br><br> Llangristiolus<br><br> Rhos yr Aur, Niwbwrch<br><br> Bryn Cadnant<br><br> Lôn Ravenspoint<br><br> Lôn Caergybi, Llanfair<br><br> Tŷ’n Pwll, Llangoed<br><br> Mill Lane - Biwmares - prynu dyfais glanhau trawstiau sylfaen ymlaen llaw (i'w osod yn y strwythur newydd yn haf 2020) | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Achosion Busnes Amlinellol wedi'u cwblhau<br><br>• Porthaethwy - Dalgylch Penlon<br><br>Achos Busnes yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru. Os bydd yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd y cam dylunio a datblygu’n cymryd o leiaf 12 mis<br><br>• Llanfairpwll<br><br>Achos Busnes yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru. Os bydd yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd y cam dylunio a datblygu’n cymryd o leiaf 12 mis<br><br>• Y Fali<br><br>Achos Busnes yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru. Os bydd yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd y cam dylunio a | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | datblygu’n cymryd 6 i 12 mis<br><br>Achosion Cyfiawnhad Busnes wedi'u cwblhau<br><br>• Mill Lane, Biwmares<br><br>Achosion Cyfiawnhad Busnes yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ar gyfer strwythur newydd ym Mill Lane, Biwmares ar gyfer dyfais glanhau trawstiau sylfaen newydd<br><br>Achosion Busnes Amlinellol yn parhau<br><br>• Caergybi<br><br>Achos busnes amlinellol yn cael ei baratoi, gan gydweithredu â Dŵr Cymru ar fodelu. Rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn hydref 2020 ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>• Amlwch<br><br>Achos busnes amlinellol yn cael ei baratoi, gan gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ar agwedd o’r Brif Afon. Rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn haf | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | 2020 ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.<br><br>Cynlluniau Rheoli Risg Arfordirol<br><br>• Traeth Coch<br><br>Y cam Dylunio a Datblygu ar fin cychwyn. Disgwyl cyfnod o 12 mis.<br><br>• Brynsiencyn<br><br>Y cam Dylunio a Datblygu yn parhau. Disgwyl iddo gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2020.<br><br>• B5109 - Llanfaes<br><br>Nid yw'r cynllun hwn wedi llwyddo i gael arian grant, gan nad oes unrhyw gartrefi’n cael eu gwarchod. Mae'n flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Priffyrdd, oherwydd bod y ffordd yn fregus ac ar gau’n aml oherwydd llifogydd (y llanw a’r afon). Rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ystyried cynlluniau cyllido lle mae bygythiad i gysylltedd cymunedau ac yn ystyried y gronfa cadernid Newid Hinsawdd | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | a gyhoeddwyd yn ddiweddar fel ffynhonnell ariannu bosibl.<br><br>• Cynlluniau Graddfa Fechan ar gyfer 2020-21. Rydym yn rhagweld, yn fuan, wahoddiad i wneud cais am gynlluniau ar raddfa fechan ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21 a chredwn y bydd y gwahoddiad yn annog ceisiadau gwerth hyd at £200k. Mae rhestr yn cael ei pharatoi gan gynnwys gwaith ym Menllech.<br><br>Cynllun Rheoli’r Traethlin<br><br>Mae'r cynllun rheoli’r traethlin yn cyflwyno canllawiau polisi ar warchod yr arfordir o amgylch yr arfordir. Mae'n adlewyrchu newid yn yr hinsawdd ac yn darogan cynnydd yn lefel y môr ac yn nodi'r polisi i'w ddilyn ar rannau unigol o'r arfordir.<br><br>O amgylch Arfordir Ynys Môn mae gennym 12 lleoliad lle mae'r canllawiau polisi yn newid wrth i amser fynd yn ei flaen, o ddal y llinell i fynd | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | yn ôl dan reolaeth ac mewn dau achos, dim ymyrraeth weithredol. Mae angen rhagor o waith er mwyn nodi'r heriau a gyflwynir gan y newidiadau polisi hyn yn yr ardaloedd hyn o Ynys Môn. | | |
| Grant HWB – Trawsnewid TG mewn Addysg | 2019-2023 | Addysg/TG | Grant Llywodraeth Cymru i drawsnewid TGCh mewn Addysg. Nod y grant yw safoni caledwedd mewn ysgolion i sicrhau bod digon o adnoddau TGCh ar gyfer disgyblion. Mantais weddilliol hyn yw sicrhau y caiff ymarferion caffael eu cysoni. Rhaid i'r holl offer gydymffurfio â safonau amgylcheddol a rhaid i'r pecynnu gydymffurfio â pharamedrau caeth, megis cynnwys cardbord wedi'i ailgylchu, dim pecynnu plastig dros ben ac ati. | Mae rownd gyntaf caffael wedi arwain at gaffael offer rhwydwaith sy'n fwy effeithlon, fydd yn arwain at ostyngiad yn yr ynni a ddefnyddir wrth ei osod. Mae'r ail rownd wedi sefydlu set o safonau y mae ail rownd gaffael yn yn eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer dyfeisiau defnyddwyr. Yn y pen draw, bydd hyn yn gwneud i ffwrdd â'r offer hŷn oedd yn defnyddio mwy o ynni ac, felly, yn gostwng ôl troed TG mewn ysgolion. | Mewnol | Bwrdd Prosiect HWB– Rhys H Hughes (Cadeirydd) |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adran TGCh | Parhaus | TG | Mae'r adran TGCh yn cysoni ei chynlluniau Seilwaith TGCh i sicrhau y caiff yr effaith amgylcheddol ei hasesu wrth ystyried cynlluniau seilwaith. Bydd angen i unrhyw feddalwedd sy'n cael ei rhedeg yn y cwmwl ddangos safonau amgylcheddol ei chronfeydd data. Bydd unrhyw galedwedd a brynir hefyd yn cael ei sgorio yn ôl effeithlonrwydd. Ar hyn o bryd yn gweithio gyda'r adran eiddo trwy'r prosiect Re:Fit i ystyried dewisiadau amgen posibl i oeri'r cronfeydd data. | Mae nifer o weinyddion wedi'u creu o un gweinydd, gan arwain at ddefnyddio llai o ynni. Mae polisïau arbed ynni cyfrifiaduron personol wedi'u ffurfweddu. Mae dyfeisiau defnyddiwr yr awdurdod yn cael eu caffael trwy fframwaith sy'n rhoi sgôr am effeithlonrwydd ynni a math y pecynnu. | Mewnol | Rheolwr Tîm TGCh |
| Rheoli Gwastraff | Parhaus | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Gwneir ein holl waith ailgylchu ar Ynys Môn oherwydd gofynion strategaeth gwastraff genedlaethol Llywodraeth Cymru, "Tuag at Ddyfodol Diwastraff". Amcan sylfaenol y strategaeth hon yw lleihau effaith carbon. Yn gryno, mae'r llwybr ailgylchu yr ydym yn ei ddilyn wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â helpu'r amgylchedd. | | Mewnol / Allanol | |
| Môn Glân a Gwyrdd | Parhaus | Rheoli Gwastraff | Yn dilyn y cyhoeddiad yn nodi bod Ynys Môn bellach yn Ddiblastig, roedd angen llawer o waith i ennill y statws hwnnw mewn gwirionedd. Arweiniwyd y prosiect cyfan hwn o dan y rhagdybiaeth na fyddai unrhyw gyllid ac mae llawer o waith wedi'i wneud i wella'n fewnol | Statws:<br><br>Dim nwyddau plastig untro yn rhad ac am ddim i'w defnyddio yn y Primin. Mae trafodaethau wedi'u cynnal a byddir yn rhoi gwybod i adrannau maes o law i beidio â defnyddio nwyddau plastig untro. | | |

DRAFT

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Tynnwch Boteli Plastig o beiriannau gwerthu - Gwelir cynnydd cyson lle gall ein gwelliant cyntaf arwain at arbediad o 80% yn y gofyn am blastig yn y prif swyddfeydd a 40% ym mhob Canolfan Chwaraeon<br><br>Contractau Arlwyo Ysgol - Cynhaliwyd trafodaethau i roi gwybod i ymgeiswyr am bwysigrwydd hyn. Mae modd gweld gwelliant posibl ond y risg yw y bydd y contract yn costio mwy i'r awdurdod.<br><br>Parhewch i Fynd i Ysgolion a chynnig ymweliadau safle. Rydym ni, fel y Tîm Rheoli Gwastraff, bellach mewn sefyllfa i allu mynd o amgylch ysgolion a rhoi sgyrsiau i fyfyrwyr ar yr hyn y mae modd, ac nad oes modd, ei ailgylchu a fyddai, yn ei dro, yn cynyddu ailgylchu.<br><br>Gosod Offer Dŵr yn Niwbwrch ac ar Lwybrau Arfordirol. Mae Alun Owen wedi gwneud gwaith gwych yn sicrhau grant i | | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | allu ariannu gorsafoedd ail-lenwi mewn cyrchfannau poblogaidd ar yr ynys.<br><br>Cynllun Terracycle - Mae Siop Ellis yn Llangefni wedi bod yn garedig a chytuno i dderbyn ein gwastraff swyddfa cyhyd â bod popeth yn ei le. Mae pedair menter yr hoffwn inni gymryd rhan ynddynt – Papur am Siocled, Pecynnau Crisp, Pecynnu Bisgedi ac offer Ysgrifennu.<br><br>Symud i Barc Adfer - Mae gwastraff gweddilliol cartref bellach yn cael ei gludo i Barc Adfer yn hytrach nag i’n darparwr blaenorol, sef Andusia yn Sweden. Mae hynny, ynddo'i hun, yn arbed llawer ar allyriadau'r cludo’n unig. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyfrif Refeniw Tai | 2018-23 | Gwasanaethau Tai | Mae gan y Strategaeth chwe amcan:<br>• Angen Data Stoc a Buddsoddi<br>• Rheoli Asedau Gweithredol<br>• Cynllunio Buddsoddi<br>• Gwneud y mwyaf o enillion<br>• Fforddiadwyedd a Hyfywedd<br>• Cynllun Cyflenwi | | | |
| Rhaglen Cynnal a Chadw Gynlluniedig | 2013 - Parhaus | Gwasanaethau Tai | Yn ystod 2013 cychwynnodd y Gwasanaeth ar gyfnod newydd o Gontractau Cynnal a Chadw Cynlluniedig Traddodiadol ar ôl cwblhau'r Rhaglen Buddsoddi Mewnol yn llwyddiannus a sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau Ansawdd Tai Cymru.<br><br>Sbardun allweddol ar gyfer penderfynu oes angen buddsoddi a blaenoriaethu hynny yw graddfeydd ynni eiddo, a bydd hynny'n parhau.<br><br>Ymhlith y contractau cynnal a chadw cynlluniedig a ddyfarnwyd ar gyfer 2020/21 mae eiddo nad ydynt ar rwydwaith nwy o'r prif gyflenwad ac, ar hyn o bryd, sydd â sgôr ynni is na thargedau Safonau Ansawdd Tai Cymru. | Lle bynnag y bo hynny'n ymarferol, mae eiddo sydd â waliau solet wedi'u hinswleiddio'n allanol.<br><br>Er 2013, mae 719 eiddo wedi elwa o gontractau cynnal a chadw cynlluniedig traddodiadol. Yn nodweddiadol, mae contractau'n cynnwys y mesurau arbed ynni a ganlyn:<br><br>Inswleiddio Waliau Allanol;<br><br>Inswleiddio Waliau Ceudod o'r newydd;<br><br>Gosodiadau solar ffotofoltäig;<br><br>Ffenestri a drysau newydd; | Mewnol | Cynllun Busnes Blynyddol wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, y Cyngor Llawn a Llywodraeth Cymru |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Mwy o inswleiddio yn y llofftydd.<br><br>Yn ystod 2020/21 bydd gwaith yn parhau ar ddau gontract sy'n cynnwys 120 eiddo. Mae gan yr eiddo hyn yn Aberffraw, Rhosneigr, Llangoed a Llanddona swmp o LPG fel prif ffynhonnell tanwydd. | | |
| Newid tanwydd | 2012 - 15 | Gwasanaethau Tai | Gweithiodd y Gwasanaethau Tai mewn partneriaeth â Chymru a West Utilities a Nwy Prydain er mwyn asesu a fyddai modd ymestyn y rhwydwaith nwy fel prif gyflenwad yn Ynys Môn.<br><br>O ganlyniad, mae 230 eiddo arall yn elwa o gysylltiadau nwy fel prif gyflenwad. | Ymhlith y rhai nodedig oedd yn elwa ar y cynllun hwn 'roedd pentrefi Llannerch-y-medd a Llanfaes, ynghyd â Stad Tyddyn Mostyn ym Mhorthaethwy.<br><br>Mae pob eiddo yn elwa ar sgôr ynni uwch a llai o olion traed carbon. | Partneriaid Mewnol ac Allanol | |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Insiwleiddio Atigau | 2012 - 15 | Gwasanaethau Tai | Mewn partneriaeth â Nwy Prydain, cyflwynwyd rhaglen dreigl o osod neu gynyddu dyfnder gwaith inswleiddio atigau er budd y Stoc Dai. | Dros 1300 o osodiadau yn cyfrannu at dargedau effeithlonrwydd ynni ac yn helpu i aelwydydd gael cynhesrwydd y gallant ei fforddio. | Partneriaid Mewnol ac Allanol | |
| Ynni Adnewyddiadwy | 2011 - Parhaus | Gwasanaethau Tai | Mae'r Gwasanaeth Tai yn gosod offer Solar Ffotofoltäig lle bynnag y bo hynny'n ymarferol yn ystod Cynlluniau Cynnal a Chadw Cynlluniedig a chynlluniau Solar Ffotofoltäig annibynnol.<br><br>Mae cynhyrchu trydan solar ffotofoltäig yn rhad ac am ddim i'r defnyddiwr, fydd yn cynorthwyo i ddileu tlodi tanwydd. | Mae 503 o'r stoc dai yn elwa ar Solar Ffotofoltäig.<br><br>Mae gan 87 eiddo arall osodiadau Thermol Solar.<br><br>Yn ystod 2019 gwelodd cynllun solar ffotofoltäig, oedd yn cynnwys 36 eiddo a wasanaethir gan swmp LPG, gynnydd ar gyfartaledd o 53 i 73 mewn cyfraddau EPC (tystysgrif Perfformiad Ynni). | Mewnol | |
| Cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru | Parhaus | Gwasanaethau Tai | Sgôr SAP o 665 yw targed perfformiad ynni Safon Ansawdd Tai Cymru.<br><br>Cadarnhaodd arolwg llawn o gyflwr y stoc a gyhoeddwyd yn ystod 2011 mai 63 oedd y sgôr gyfartalog ar gyfer y stoc tai. | Yn ystod 2019/20, mae sgôr ynni (Gweithdrefn Asesu Safonol) dros 1000 o eiddo wedi'i ailasesu i fesur graddfeydd ynni uwch. Mae cyfraddau cyfartalog yr eiddo hyn wedi | Aseswyr Ynni Annibynnol Mewnol ac Allanol | Adroddiadau cyfnodol a ffurflenni ystadegol blynyddol i Lywodraeth Cymru. |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae'r targedau a ganlyn ym Mholisi Cydymffurfio'r Gwasanaeth Tai â Safonau Ansawdd Tai Cymru<br>• Graddfa EPC ar gyfartaledd o 70 ar draws y stoc gyfan<br>• Bydd gan 90% o'r stoc sgôr o 65 neu'n uwch<br>Mae Cynllun Busnes 30 mlynedd y Gwasanaeth Tai yn fodd i adnewyddu bwyleri gwres canolog bob 15 mlynedd. | cynyddu o 68 ar gyfartaledd i 75<br>Mae perfformiad ynni stoc cyfartalog cyffredinol bellach wedi cyrraedd 70 (Band C) | | Y Bwrdd Tai |
| Caffael | Parhaus | Gwasanaethau Tai | Ymhlith y contractau mawr a gaffaelwyd gan Dai mae Recriwtio a Hyfforddi wedi'u Targedu, Manteision Cymunedol Ehangach a gofynion Cyfleoedd y gadwyn gyflenwi.<br>Ymhlith yr elfennau allweddol mae<br>• Hyfforddiant a recriwtio<br>• Cyfleoedd y gadwyn gyflenwi leol<br>• Manteision cymunedol ehangach sy'n gysylltiedig â'r ardal leol<br>• Cwblhau Offeryn Mesur Budd Cymunedol Gwerth Cymru ar ôl cwblhau'r contract<br>Mae'r holl gyfleoedd tendro cyfalaf yn cael eu hysbysebu trwy'r porth gwerthwchigymru.<br>Gweledigaeth y Gwasanaeth Tai yw sicrhau bod contractwyr lleol a chadwyni cyflenwi'n cael pob cyfle i gystadlu am gontractau cyfalaf blynyddol.<br>Bydd dyfarnu contractau i gyflenwyr lleol sy'n defnyddio'r gweithlu lleol yn cyfrannu at leihau | Er 2013, dyfarnwyd 82%o Gontractau Cynnal a Chadw Cynlluniedig Traddodiadol i gontractwyr yng Ngogledd-orllewin Cymru.<br>Mae 59% o'r contractau uchod wedi'u dyfarnu i gontractwyr yn Ynys Môn. | Yn fewnol gyda chontractwyr allanol | Pecynnau Cymorth Gwerth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac a fonitrwyd ganddi |

DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | carbon wrth hyrwyddo gwaith creu swyddi a chadw swyddi. | | | |
| Adeilad newydd (tai cymdeithasol partneriaid y Cyngor a Landlordiaid Cymdeithasol Rhestredig) | Parhaus | Gwasanaethau Tai | Mae cyrraedd cyfradd uchaf yr EPC yn flaenoriaeth ar gyfer adeiladau newydd | Os yw eiddo yn rhedeg oddi ar ffynhonnell aer rhwydwaith nwy, gosodir pympiau gwres | Yn fewnol yn ogystal â gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Rhestredig sy'n bartneriaid | Bwrdd Gwasanaethau Tai |

DRAFT

**ATODIAD D**

# Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo

# Awgrymiadau Ymarfer Gorau i Fynd i'r Afael â Newid Hinsawdd ac Argymhellion i'w hystyried

DRAFT

**Tachwedd 2020**

**Awduron:**
**Simon J. Franco & Dylan Ll. Jones**

## 1.0 Pwrpas

1.1 Rhoi trosolwg o weithgareddau ymarfer gorau cyfredol y gellid eu mabwysiadu i gyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn lleol.

1.2 Cynnig argymhellion ar sut y gallai CSYM symud ymlaen wrth gyfrannu at fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn dilyn y cyhoeddiad argyfwng hinsawdd ddiweddar.

## 2.0 Cyd-destun

2.1 Mae Cytundeb Paris 2015 wedi sefydlu cynllun ar gyfer datgarboneiddio'r economi fyd-eang.

2.2 Llywodraeth y DU oedd yr economi fawr gyntaf i basio cyfraith allyriadau sero-net ym mis Mehefin 2019. Mi fydd y targed newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r DU ddod â'r holl allyriadau nwyon tŷ gwydr i sero-net erbyn 2050, o gymharu â'r targed blaenorol o ostyngiad o 80% o leiaf, o gymharu â lefelau 1990. Argymhellodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, sef corff cynghori hinsawdd annibynnol y DU, un o'r targedau mwyaf uchelgeisiol yn y byd, sef y targed sero-net erbyn 2050. Mae sero-net yn golygu y byddai unrhyw allyriadau yn cael eu cydbwyso gan gynlluniau i dynnu swm cyfatebol o nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer, megis plannu coed neu ddefnyddio technoleg fel dal a storio carbon.

2.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi targed i gyflawni sector cyhoeddus di-garbon net yng Nghymru erbyn 2030. Mae Llywodraeth Cymru a dros hanner yr holl awdurdodau lleol wedi datgan argyfwng hinsawdd hyd yma gyda'r bwriad o weithredu ar newid yn yr hinsawdd yn eu sefydliad a / neu'r ardal leol.

2.4 Ym mis Medi 2020, Ddatganodd CSYM argyfwng hinsawdd i sicrhau statws carbon niwtral erbyn 2030.

2.5 Mae'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd o nifer o gynadleddau a gweminarau diweddar fel y crynhoir yn y tabl isod:

| Digwyddiad | Dyddiad | Crynodeb o'r cynnwys | |
|---|---|---|---|
| Newid Hinsawdd Cymdeithas Lywodraeth Leol 2020 | 17-18/09/2929 | • Buddsoddiadau<br>• Adferiad Gwyrdd<br>• Ymgysylltu<br>• Cyfathrebu<br>• Argyfwng Hinsawdd<br>•Strategaeth/ Arweinyddiaeth | • Targedau Sero Net<br>• Blaenoriaethau<br>• Partneriaethau<br>• Metrigau<br>• Teithio / Trafnidiaeth<br>• Caffael |
| Bord Gron Rithwir ar Argyfwng Hinsawdd | 25/09/2020 | • Cyd-destun Polisi<br>• Gweithredu Hinsawdd ar Gyllidebau | • Cefnogi Awdurdodau Lleol<br>• Ymarfer Da Amgylcheddol |
| Cynhadledd Cysylltiadau Carbon Isel - Datgarboneiddio Gwres a Thrafnidiaeth | 30/09/2020 | • Canolbwyntio ar y mapiau Trafnidiaeth sydd newydd eu cynhyrchu o'r prosiect Gwefru Cerbydau Trydan | • Datgarboneiddio Gwres |
| Cloi i Mewn Ymddygiad Cadarnhaol a Manteision Gweminar Adferiad Gwyrdd | 02/10/2020 | • Cloi i mewn ymddygiadau cadarnhaol a manteision adferiad gwyrdd | |

DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| DATGANIADAU ARDAL GOGLEDD-ORLLEWIN CYMRU (CYFOETH NATURIOL CYMRU | 16-27/11/2020 | • Datganiadau Ardal, gadewch inni adolygu ble'r ydym.<br>• Argyfwng hinsawdd a'r amgylchedd.<br>• Ailgysylltu pobl â natur | • Annog economi cynaliadwy.<br>• Ffyrdd o weithio.<br>• Cyfleoedd ar gyfer ecosystemau cydnerth |

## 3.0 Arwain strategaeth ar yr hinsawdd

3.1 Y cam cyntaf tuag at sicrhau strategaeth hinsawdd gyraeddadwy yw gweledigaeth gadarnhaol ac ymarferol. Amlinellir rhai o'r ystyriaethau allweddol sy'n ofynnol isod:

| | |
|---|---|
| **Parodrwydd technegol** | A yw'r technolegau / ymddygiadau sydd eu hangen i leihau allyriadau carbon ar gael ac yn barod i'w defnyddio? |
| **Parodrwydd polisi** | A yw cynlluniau a pholisïau sydd mewn lle yn cefnogi’r gwaith sydd ei angen? |
| **Parodrwydd ariannol** | A oes cyllid ar gael? A oes opsiynau y gellir buddsoddi ynddynt yn y modelau busnes sy’n barod i'w defnyddio? |
| **Parodrwydd cymunedol** | A yw'r gymuned ehangach, aelodau'r cyhoedd a busnesau yn cefnogi'r camau sydd eu hangen? |
| **Parodrwydd dosbarthu** | A yw'r sgiliau a'r cadwyni cyflenwi angenrheidiol yn barod? |

3.2 Mae'r siart isod yn crynhoi rhai o'r prif elfennau wrth integreiddio newid yn yr hinsawdd ym mhenderfyniadau'r cyngor:

DRAFT

Datganiad Argyfwng Hinsawdd

Llythrennedd / ymwybyddiaeth carbon i staff

Cynllun buddsoddi

Integreiddio'r newid yn yr hinsawdd i'r holl benderfyniadau.

Adolygiadau ac adroddiadau blynyddol

Dylai polisïau newydd gyfrannu at y ddatganiad argyfwng hinsawdd, gan gynnwys yr holl gynigion cynllunio mawr.

DRAFT

## 4.0 Blaenoriaethau lleol wrth ddarparu sero-net

4.1 Ni ellir cyrraedd targedau datgarboneiddio ar lefel genedlaethol yn unig ac mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn chwarae rhan ar lefel ranbarthol a lleol.

4.2 Mae newid yn yr hinsawdd yn fater trawsbynciol. Mae angen ei ystyried ym mhob gweithgaredd gweithredol a wneir gan yr awdurdod lleol. Mae gan awdurdodau lleol ddylanwad neu reolaeth uniongyrchol o fewn sawl maes sy'n hanfodol wrth gyflawni sero-net. Rhestrir rhai ohonynt isod:


| | |
|---|---|
| Rheolaeth Uniongyrchol | •Adeiladau<br>•Teithio |
| Caffael | •Nwyddau a gwasanaethau |
| Siapio lle | •Y gallu i reoli datblygiad a thrafnidiaeth |
| Arddangos | •Arloesi, treialu, arddangos a gwobrwyo ymarfer da |
| Cyfleu a chyfrannu | •Dod â phobl a sefydliadau at ei gilydd |
| Ymgysylltu | •Trosi targedau hinsawdd byd-eang a chenedlaethol ar gyfer y lefel leol |

## 5.0 Awgrymiadau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

5.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r themâu a godwyd fel ymarfer gorau mewn cynadleddau diweddar y dylai CSYM eu hystyried wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn lleol.

### 5.2 Rhoi Cynllun Gweithredu ar Waith

5.2.1 Mae rhai o'r camau sydd eu hangen ar ôl datgan argyfwng hinsawdd fel a ganlyn:




| | |
|---|---|
| PERCHNOGI | Uwch berchennog i gydlynu gweithredu ar yr hinsawdd ar draws gwasanaethau a swyddogaethau. |
| DEALL | Asesu achosion allweddol lleol ac effaith newid yn yr hinsawdd i lywio ffocws. |
| CYNLLUNIO | Gosod targedau, cerrig milltir ac amserlen ar gyfer cyflawni gweithredoedd. |
| CYDWEITHIO | Ni all yr Awdurdod Lleol wneud yr holl waith sy'n ofynnol ar ei ben ei hun. Mae angen ymgysylltu â busnesau, sefydliadau ac unigolion. |
| BLAENORIAETHU | Darganfod pa gamau a all gael yr effaith fwyaf. |
| CYLLIDEB | Costio gweithredoedd a pharatoi cynlluniau busnes. |
| BUDDSODDI | Sicrhau buddsoddiad |
| GWEITHREDU | Amlinellu rhaglen weithredu |
| MONITRO | Casglu data ar ganlyniadau a pherfformiad a'u defnyddio i yrru cynnydd parhaus |

DRAFT

## 5.3 Cludiant Cynaliadwy

5.3.1 Mae'r heriau a'r rhwystrau i deithio cynaliadwy yn cynnwys canfyddiad ynghylch diogelwch, gwrthdaro / rhannu rhwydweithiau ffyrdd rhwng gwahanol grwpiau defnyddwyr, gorddibyniaeth ar geir preifat mewn ardaloedd gwledig.

5.3.2 Mae yna nifer o gyfleoedd y gellid eu hystyried wrth ddatgarboneiddio'r sector trafnidiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys: brwdfrydedd ac awydd i feicio a cherdded ers y pandemig Covid-19, Deddf Teithio Llesol 2013 a blaenoriaethau sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf fel y'u nodwyd gan Lywodraeth Cymru, sut y gall teithio mwy llesol gyfrannu tuag at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

5.3.3 Gallai cyfrannu at fentrau newid yn yr hinsawdd gynnwys: buddsoddi mewn seilwaith i wella'r ddarpariaeth beicio a cherdded, treialon e-feiciau, cerbydau fflyd trydan, mannau gwefru cerbydau trydan, cyfleusterau parcio a theithio, unigolion i leihau dibyniaeth ar gar preifat (cymhellion ariannol), ymgysylltu â thrigolion lleol i ddeall rhwystrau pobl mewn perthynas â theithio llesol a cheisio cael dealltwriaeth o'u dyheadau a chreu cynllun trafnidiaeth lleol addas i bwrpas.

5.3.4 Mae datgarboneiddio'r sector trafnidiaeth yn ffactor allweddol wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Gellid cyflawni hyn trwy greu cynllun trafnidiaeth lleol addas i bwrpas.

## 5.4 Dylanwadu ar Ymddygiad Dynol

5.4.1 Mae newid yn yr hinsawdd yn gofyn am newid ymddygiad. Mae integreiddio gwyddoniaeth ymddygiad dynol yn sylfaenol wrth geisio sicrhau newid o fewn sefydliad ac mae'n hanfodol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Rhaid i gymdeithas newid y ffordd rydym yn cynhesu ein cartrefi a'n swyddfeydd, yn teithio ac yn defnyddio cynnyrch a gwasanaethau. Mae hyn yn golygu fod angen gweithredu ar lefel unigol ac mae'n gofyn am newid ar lefel gymdeithasol ehangach hefyd.

5.4.2 Mae nifer o ddylanwadau ar ymddygiad megis teithio neu effeithlonrwydd ynni yn y cartref. Un o'r rhwystrau mwyaf i newid ymddygiad yw newid arferion dynol. Mae arfer dynol yn arwain at gulni meddyliol lle bydd yr un ymddygiad yn cael ei ailadrodd nes y gellir tarfu ar arfer penodol trwy newid neu ddigwyddiad.

5.4.3 Gall addysg a gwybodaeth yn yr ysgol neu'r colegau ddylanwadu ar ymddygiadau'r genhedlaeth nesaf o ran newid yn yr hinsawdd a materion fel ailgylchu a gallant ddylanwadu ar eu rhieni / teuluoedd. Gallai hyn fynd ymhellach trwy gyflwyno newid yn yr hinsawdd fel rhan o gwricwlwm yr ysgol. Fodd bynnag, mae hefyd angen ymyrraeth yn y gweithle ac mae angen ei ddatblygu fel y 'norm cymdeithasol'. Gallai gweithgareddau gynnwys sesiynau hyfforddi ar newid yn yr hinsawdd, ei ymgorffori fel rhan o'r broses gynefino, cyflwyno polisi mewnol ar newid yn yr hinsawdd, a hyrwyddo pencampwyr newid yn yr hinsawdd ym mhob Gwasanaeth i gyflwyno newid ymddygiad e.e. posteri / cyngor ar ailgylchu / lleihau'r defnydd o drydan.

DRAFT

5.4.4 Gellir defnyddio'r fframwaith isod er mwyn sicrhau newidiadau mewn ymddygiad:

**Hawdd -** Mae pobl yn dueddol o gymryd y llwybr o wrthwynebiad lleiaf. Felly gallwch annog ymddygiadau dymunol trwy gael gwared ar fân broblemau neu drafferthion, trwy gyfeirio pobl at y dewis dymunol yn ddiofyn, neu trwy ailgynllunio'r ffordd y mae dewisiadau'n cael eu cyflwyno i wneud yr ymddygiadau dymunol yn haws.

**Deniadol -** Mae pobl yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiad pan fydd yn dal ein sylw neu'n cyd-fynd â'n cymhelliant a'n credoau. Gallwch dynnu sylw gyda chiwiau gweledol sy'n arbennig o berthnasol neu amlwg, a siapio cymhelliant trwy bwysleisio'r pethau cadarnhaol a defnyddio cymhellion.

**Cymdeithasol -** Mae ymddygiad pobl yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan yr hyn y mae eraill o'n cwmpas yn ei wneud. Gallwch hyrwyddo gweithredoedd dymunol trwy dynnu sylw at y ffaith bod pobl eraill yn eu mabwysiadu. Gallwch hefyd wneud ymddygiad yn fwy gweladwy yn gyhoeddus, a phwysleisio cyfleoedd i bobl helpu ei gilydd.

**Amserol -** Mae pobl yn greaduriaid o arfer, felly mae rhoi hwb bach yn fwyaf effeithiol ar adegau o newid ym mywydau pobl. Mae gennym hefyd duedd i bwysleisio'r presennol yn fwy na'r dyfodol. Gallwch harneisio'r tueddiadau hyn trwy amseru ymgyrchoedd yn strategol, tynnu sylw at fuddion uniongyrchol gweithredoedd cynaliadwy, a helpu pobl i gynllunio ymlaen llaw.

## 5.5 Eiddo

5.5.1 Mae nifer o gamau y gall awdurdodau lleol eu cymryd yn cynnwys materion cymdeithasol ac amgylcheddol, rhestrir rhai o'r mesurau pwysicaf isod:

5.5.2 Cynnal a chadw adeiladau - Dylid ystyried yr angen i leihau ynni a chyfrannu at ddatgarboneiddio wrth wneud unrhyw waith adeiladu.

5.5.3 Datgarboneiddio gwresogi - Dylid rhoi blaenoriaeth i geisio datgarboneiddio gwresogi yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i CSYM oherwydd bod nifer sylweddol o safleoedd lle nad oes ganddynt gyflenwad nwy ac felly yn cael eu cynhesu trwy LPG neu olew sy'n fwy carbon-ddwys.

5.5.4 Effeithlonrwydd ynni - Dylid gwneud gwaith i wella effeithlonrwydd ynni adeiladau er mwyn cyflawni'r targed a nodir yn y strategaeth rheoli ynni.

5.5.5 Bioamrywiaeth - Sicrhau fod camau digonol yn cael eu cymryd i adnewyddu a chynyddu unrhyw fioamrywiaeth a gollir wrth wneud gwaith cynnal a chadw / adeiladu.

## 5.6 Harneisio ymgysylltiad cyhoeddus a sicrhau partneriaethau

5.6.1 Mae'n bwysig peidio â chymryd dealltwriaeth yn ganiataol wrth ymgysylltu â'r cyhoedd. Dangosodd astudiaeth ddiweddar gan Energy catapult UK fod llai na 49% o bobl yn ymwybodol bod ynni a ddefnyddir gartref yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.



DRAFT

5.6.2 Mae pobl yn ei chael hi'n anodd gwneud y cysylltiad rhwng newid yn yr hinsawdd a'u bywydau, er eu bod yn ymwybodol ei fod yn fater byd-eang mawr, maent yn methu â gwneud y cysylltiad ar lefel unigol.

5.6.3 Mae'n bwysig felly siarad am bethau sydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa arfaethedig, er enghraifft trwy ddangos bod byw a gweithio mewn ffyrdd mwy cyfeillgar i'r amgylchedd, nid yn unig yn lleihau'r defnydd o adnoddau ond hefyd yn arwain at arbedion ariannol i'r unigolion a sefydliadau.

5.6.4 Gellir gwneud cynnydd sylweddol trwy fanteisio ar y sefyllfa bresennol "i wthio yn erbyn drysau agored" wrth harneisio ymgysylltiad cyhoeddus a sicrhau partneriaethau. Mae'r gwerthfawrogiad newydd am natur a mannau gwyrdd yn ystod y pandemig COVID-19 er enghraifft, yn rhoi cyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion amgylcheddol a chymdeithasol ehangach. Mae teithio llesol yn faes arall lle gwelwyd cynnydd sylweddol mewn diddordeb yn ystod y pandemig gyda llawer o bobl yn dewis beicio.

## 5.7 Cyllid, polisi cyfreithiol a strategol

5.7.1 Mae cyllid, polisi cyfreithiol a strategol yn darparu'r sylfaen dechnegol i alluogi'r arweinwyr i gyflawni'r weledigaeth o ymateb i newid yn yr hinsawdd.

5.7.2 Y ffordd orau o gyflawni niwtralrwydd carbon yw dysgu trwy wneud. Mae angen i CSYM gael trefn ar ei dŷ ei hun, arwain yr agenda hwnnw, sicrhau bod gweithrediadau yn cyflawni niwtralrwydd carbon cyn gynted â phosibl ac yna ystyried y materion ehangach. Byddai'n fuddiol cael cynghorydd sy'n gyfrifol am weithredu ar yr hinsawdd i arwain ar yr agenda hwn a'i goruchwylio.

5.7.3 Mae angen cymryd pob cyfle i herio effeithiau carbon pob penderfyniad a wneir (e.e. Cyllidebau, cynllunio, defnydd tir, rheoleiddio) ac yna sicrhau bod y gymuned ehangach yn ymuno ar y daith hefyd, trwy sicrhau partneriaethau a thrwy ymgysylltu â'r cyhoedd.

5.7.4 Gan fod Newid Hinsawdd yn fater datganoledig, argymhellir bod swyddog addas o CSYM yn trafod yn uniongyrchol â Gwasanaeth Ynni LlC unrhyw ffrydiau cyllido sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Deallir o'r cynadleddau nad oes potiau cyllido penodol ar gyfer newid yn yr hinsawdd yn Lloegr, ond yn hytrach, dylai sero-net fod yn rhan o gynigion cyllido'r dyfodol gan y dylai fod yn fater sy'n cael ei integreiddio i brosiectau neu fusnes fel arfer.

## 5.8 Gyrru'r agenda trwy'r strategaeth gaffael

5.8.1 Gall y broses gaffael fod yn rhwystr ac yn gyfle i awdurdodau lleol adeiladu ar werth cymdeithasol. Trwy feini prawf y gadwyn gyflenwi, mae gan awdurdodau lleol ysgogiadau eang ac maent mewn sefyllfa i sicrhau trawsnewid.

5.8.2 Yn hanesyddol, bu agweddau gwerth amgylcheddol a chymdeithasol yn ymarfer ticio bocsys i ddangos cydymffurfiad i raddau, ond wrth symud ymlaen mae angen iddynt ffurfio rhan greiddiol o'r broses gwneud penderfyniadau a chynlluniau busnes. Mae matricsau safonol yn her, mae'n bwysig gwybod pa fatricsau i'w blaenoriaethu wrth iddynt ymgorffori gwerth amgylcheddol mewn gweithgareddau gwerth cymdeithasol.

5.8.3 Bydd sicrhau strategaeth gaffael gynaliadwy yn galluogi Cyngor Sir Ynys Môn i ddiwallu ei anghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n cyflawni gwerth am arian ar sail oes gyfan ac yn cynhyrchu buddion nid yn unig i'r awdurdod, ond i'r gymdeithas hefyd yn ogystal â'r economi a'r amgylchedd.

5.8.4 Gellir gweithredu'r camau canlynol fel man cychwyn ar gyfer caffael cynaliadwy:

- Ymrwymo i'r egwyddor a sicrhau ei fod yn ganolog i'r sefydliad
- Datblygu cynllun caffael cynaliadwy ar gyfer holl bryniannau'r cyngor sy'n annog opsiynau ynni isel a mwy cynaliadwy
- Hyrwyddo prynu yn lleol lle bo'n bosibl
- Asesu ôl-troed carbon nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu caffael, er mwyn deall effeithiau caffael a chomisiynu presennol
- Cynhyrchu cod ymarfer caffael cynaliadwy i'w ddefnyddio ar draws yr awdurdod.
- Defnyddio costau oes gyfan wrth asesu pob prosiect cyfalaf
- Trosglwyddo i ynni adnewyddadwy 100% ar gyfer yr adeiladau a'ch gweithrediadau eich hun

# 6.0 Ôl-troed Carbon yr Awdurdod (Gwaelodlin)

Ar hyn o bryd, mae data carbon o nifer o ffynonellau ar gael er nad yw'n glir pa ffynonellau y dylid eu cynnwys wrth gyfrif cyfanswm holl allyriadau gwaelodlin yr awdurdod.
Er enghraifft, Mae'r "offeryn cyfrifo nwyon tŷ gwydr" a gynhyrchir gan gymdeithas Llywodraethau Lleol a phartneriaethau lleol yn nodi y dylid eithrio tai cyngor ac, ar hyn o bryd, mae y tu allan i'r cwmpas. Felly, byddai'n fuddiol cael arweiniad clir a chyson ar hyn fel y gellir ymdrechu'n ddwys i gyfrifo'r allyriadau y mae angen adrodd arnynt.

## 6.1 Data Allyriadau sydd ar Gael

- Ynni Adeiladu - Gwresogi a Thrydan
- Defnydd dŵr
- Fflyd - Defnydd tanwydd
- Goleuadau Stryd - Defnydd trydan
- Gwastraff adeiladu masnachol
- Gwastraff trefol
- Tai - Ffigur carbon yn seiliedig ar sgôr EPC.

## 6.2 Data allyriadau y gellid ei gael yn gymharol hawdd

- Cymudo staff
- Teithio busnes

DRAFT

## 6.3 Data allyriadau nad oes modd eu mesur ar hyn o bryd

- Caffael - Amcangyfrifir ei fod oddeutu 50% o allyriadau'r awdurdod
- Defnydd tir
- Asedau ar brydles

# 7.0 Argymhellion

1. Datblygu Cynllun Gweithredu gyda gweithgareddau i gynnwys rhai o'r mesurau realistig a amlinellir yn yr adroddiad hwn - mae angen i weithgareddau ystyried y canlynol; Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig, Amserol, Gwerthuso, Adolygu).

2. Cael trefn ar eich "tŷ" eich hun yn gyntaf (Trefniadau / ymyriadau mewnol) i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

3. Llywodraethu - holl benderfyniadau'r Cyngor i gadw at y Cynllun Gweithredu / Gweledigaeth Newid Hinsawdd

4. Ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd i reoli disgwyliadau ac i ddeall dyheadau

5. Addysgu a darparu gwybodaeth am newid yn yr hinsawdd mewn ysgolion a chymhwyso egwyddorion tebyg o fewn yr awdurdod lleol i hyrwyddo newid ymddygiad mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd (e.e. Hyrwyddwyr Newid Hinsawdd, hyfforddiant gorfodol Newid Hinsawdd, a chymhellion ariannol ar gyfer beicio / cerdded i'r gwaith). Mae newid ymddygiad yn sylfaenol wrth ddelio â newid yn yr hinsawdd.

6. Sicrhewch fod pob cais am gyllid allanol yn cynnwys y thema drawsbynciol sero-net / newid yn yr hinsawdd gan fod hyn yn ffactor allweddol wrth wneud penderfyniadau cyllido. Dylid integreiddio Newid Hinsawdd i unrhyw geisiadau cyllido yn y dyfodol.

7. Ymgorffori matricsau amgylcheddol a chymdeithasol perthnasol yn y broses gaffael fel y rhoddir yr un ystyriaeth iddynt â materion ariannol.

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 11 Mawrth 2021 |
| **Pwnc:** | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2019/20 |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Mae'r adroddiad hwn yn cwrdd â'r gofyn statudol bod Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol. Mae'n darparu trosolwg o waith Byrddau Diogelu Plant ac Oedolion Gogledd Cymru rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020 a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion allweddol ar draws y rhanbarth i ddiogelu pobl. Mae'n amlinellu'r camau nesaf a chynlluniau tymor hwy ar gyfer y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Y Cynghorydd Gwilym O Jones |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | Anwen Huws<br>01248751811<br>AnwenMHughes@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

| 1 Argymhelliad/argymhellion |
|---|
| Bod Aelodau Etholedig yn ystyried ac yn nodi'r wybodaeth a gynhwysir yn Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2019-20. |

| 2 Cyswllt â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill |
|---|
| Mae'r Cyngor yn credu bod gan bob plentyn a phob oedolyn yr hawl i fod yn ddiogel rhag niwed. Un o gyfrifoldebau Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yw sicrhau fod pob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru yn diogelu'r bobl sy'n byw yn eu siroedd perthnasol. |
| **3 Egwyddorion fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer / dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]** |

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

a) I ba raddau y mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol diweddaraf?
b) Pa mor effeithiol yw'r bartneriaeth o ran cydweithio a dal ei gilydd i gyfrif?
c) I ba raddau mae'r Bwrdd wedi gallu rhoi sicrwydd fod lefel diogelu wedi bod o ansawdd yn ystod y flwyddyn heriol ddiwethaf oherwydd Covid-19?
d) Pa waith mae'r Bwrdd wedi ei wneud mewn perthynas â datblygu, a chefnogi cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2019?
e) Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiadau ymarfer mewn achosion penodol – sut mae'r dysgu o rhain yn cael ei rhannu er mwyn sicrhau dysgu gwersi a chefnogi gwelliant parhaus?

**5 Cefndir / Cyd-destun**

**Fframwaith Cyfreithiol**

i. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae Rheoliadau Byrddau Diogelu (Cyffredinol) (Cymru) 2015 yn ymwneud â sefydlu'r Byrddau Diogelu a'u Swyddogaeth. Mae rheoliadau 5 a 6 yn ymwneud â Byrddau Diogelu'n gwneud cynlluniau blynyddol ac adroddiadau blynyddol. Cymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer 2019/20 gan holl aelodau'r Bwrdd Diogelu Plant a holl aelodau'r Bwrdd Diogelu Oedolion.

ii. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch Cydweithio i Ddiogelu Pobl yn nodi mai amcanion Bwrdd Diogelu Plant yw:

- Amddiffyn plant yn ei ardal sy'n cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu'n dioddef mathau eraill o niwed, neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.
- Atal plant yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu rhag mathau eraill o niwed.

ac mai amcanion y Bwrdd Diogelu Oedolion yw amddiffyn oedolion yn ei ardal sydd –

- Ag anghenion gofal a chefnogaeth (p'un a yw awdurdod lleol yn cwrdd ag unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio), a
- Yn cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso
- Atal yr oedolion hynny yn ei ardal rhag bod mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

iii. Mae'r ddau fwrdd yn gosod cyfeiriad strategol ar gyfer diogelu, gan gynnwys cyfeiriad polisi a monitro effeithiolrwydd gwaith diogelu mewn asiantaethau ledled y rhanbarth. Mae'r byrddau comisiynu adolygiadau ymarfer ac yn lledaenu dysgu i ymarferwyr er mwyn sicrhau bod ymwybyddiaeth eang am ddysgu lleol a bod diogelu yn uchel ar yr agenda ar bob lefel o'r gweithlu.

iv. Mae aelodaeth gyson o'r Awdurdod Lleol ar y Bwrdd a'r amryfal grwpiau rhanbarthol ac isranbarthol o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Dysgu. Mae'r cydweithio rhwng y ddau wasanaeth yma hefyd yn nodweddu ein trefniadau diogelu corfforaethol.

**Blaenoriaethau 2019/20**

v. Ar gyfer 2019/20, nodwyd dwy flaenoriaeth strategol a rennir, gydag un flaenoriaeth yr un ar gyfer y Bwrdd Plant a'r Bwrdd Oedolion: Cam fanteisio [Blaenoriaeth a Rennir]: Cam-drin Domestig [Blaenoriaeth a Rennir]: Gwell ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth yn y Broses Oedolion mewn Perygl [Blaenoriaeth y Bwrdd Oedolion] a Diogelu mewn Addysg [Blaenoriaeth y Bwrdd Plant].

**Blaenoriaeth ar gyfer 2020/21**

vi. O ddiwrnod datblygu Busnes y Bwrdd ac i adlewyrchu'r Agenda Cenedlaethol yng Nghymru hefyd, y meysydd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer y Bwrdd Plant a'r Bwrdd Oedolion oedd hyrwyddo ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth mewn perthynas â'r Gweithdrefnau Diogelu Oedolion Cymru Gyfan newydd a'r Gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan newydd. Y rhesymeg dros ddewis y ddau faes blaenoriaeth hyn yw bod angen hyrwyddo'r gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan newydd ymhellach, ond bod angen i ni hefyd, yn ystod y deuddeg mis nesaf, ddangos ein bod fel rhanbarth wedi gwreiddio'r gweithdrefnau mewn ymarfer.

vii. Yn ogystal, nodwyd dau faes i'w gwella

- Arweinyddiaeth Gref a Thystiolaeth o Gydymffurfiaeth: Darparu arweinyddiaeth strategol mewn perthynas â diogelu a sicrhau bod Byrddau Diogelu Gogledd Cymru yn gallu dangos eu bod yn effeithiol wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol
- Cynyddu Gwybodaeth a Dysgu Parhaus: Derbyn sicrwydd bod asiantaethau'n adnabod y plant, pobl ifanc ac oedolion yn ein rhanbarth sy'n wynebu'r perygl mwyaf a'u diogelu'n effeithiol. Datblygu a gwella'r ffordd y mae asiantaethau'n gweithio'n barhaus fel bod canlyniadau'n gwella.

**Negeseuon Allweddol o'r Adroddiad Blynyddol**

vii. Mae diogelu yn golygu bod rhaid gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ac mae Adroddiad Blynyddol 2019/20 yn cydnabod arfer dda ledled y rhanbarth, yn ogystal â meysydd i'w datblygu. Mae'r meysydd i'w datblygu yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun busnes Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar gyfer 2020/21.

viii. Mae'r Byrddau wedi parhau i aeddfedu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae cydweithio effeithiol a her yn cael eu hamlygu fel rhan o fusnes dydd i ddydd.

ix. Gall y Byrddau arddangos sut y maent wedi dylanwadu ar yr agenda cenedlaethol o ran y Gweithdrefnau Cenedlaethol a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan.

x. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn tystio bod y Byrddau wedi mynd i'r afael ag agenda mwy

trawsbynciol sy'n canolbwyntio ar ddiogelu gyda phersbectif 'pobl'.

**Cyflawniadau Allweddol y Byrddau Diogelu yn ystod 2019/20**

xi. Hyfforddiant ar Weithdrefnau Diogelu Cymru i gefnogi'r gwaith o weithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Yn ystod y cyfnod Ionawr 2020 - Mawrth 2020 cynhaliwyd 10 sesiwn ar y Modiwl Plentyn mewn Perygl a 10 sesiwn ar y modiwl Oedolyn mewn Perygl. Roedd 50 - 60 aelod o staff yn bresennol ym mhob sesiwn. Roedd rhagor o sesiynau wedi cael eu trefnu ond bu'n rhaid eu gohirio oherwydd Covid19. Mae'r Bwrdd yn darparu fideos a phodlediadau ar adrannau unigol y gweithdrefnau er mwyn galluogi staff i ddiweddaru eu dealltwriaeth o'r newidiadau ac mae hyn yn arbennig o bwysig o ran y newidiadau sylweddol mewn perthynas â Diogelu Oedolion. Bydd hyn hefyd yn caniatáu i'r Bwrdd ddiweddaru'r wybodaeth os a phryd y bydd y gweithdrefnau'n cael eu diweddaru, er mwyn eu cadw'n gyfredol a chynorthwyo i greu dull diogelu rhanbarthol. Rhagwelir y bydd hyfforddiant a diweddariadau pellach yn cael eu darparu drwy Weminarau a fideo gynadleddau er mwyn caniatáu rhyngweithio rhwng y mynychwyr a'r hyfforddwr.

xii. Ansawdd ymarfer amlasiantaethol: Mae'r Adroddiadau Blynyddol yn tystio y cafodd y gwaith ei wneud i arfarnu ansawdd ymarfer amlasiantaethol ac i lywio dysgu a datblygiad parhaus.

xiii. Adolygiad Partneriaeth:  Cwblhawyd yr Adolygiad Partneriaeth a sefydlwyd y Bwrdd Bregusrwydd  a Cham fanteisio. Mae hyn yn rhoi cyfle i gydweithio ac alinio blaenoriaethau ac i osgoi dyblygu rhaglenni gwaith, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch materion yn ymwneud â bregusrwydd a cham-fanteisio ar draws Gogledd Cymru. Fel rhan o'r pecyn gwaith hwn, ac yn unol â'r Adolygiad o Bartneriaeth Diogelu Gogledd Cymru, datblygwyd y panel Bregusrwydd a Cham fanteisio i ddarparu arweinyddiaeth, llywodraethiant a chyfeiriad strategol er mwyn cwrdd â blaenoriaethau sy'n cael eu gyrru ar lefel genedlaethol a rhanbarthol mewn perthynas â bregusrwydd a cham-fanteisio ac i sicrhau fod blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer diogelu ac atal bregusrwydd a cham-fanteisio yn cael eu cyflawni'n effeithiol.

xiv. Rôl yr Ymarferydd Arweiniol / Ymholiadau Adran 126: Ymgymerodd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru â rhaglen waith helaeth mewn perthynas â rôl ac ymholiadau Adran 126, a chynhaliwyd gweithdai amlasiantaethol ar draws y rhanbarth.

xv. Hyfforddiant Diogelu Sylfaenol ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir: Datblygwyd model o ddatblygu dysgu i gynorthwyo asiantaethau i ddarparu eu hyfforddiant yn fewnol. Bydd y rheolwr neu uwch aelod o'u staff gofal yn cael eu hyfforddi i ddarparu'r modiwl diogelu eu hunain a byddant yn defnyddio modiwl diogelu Gofal Cymdeithasol Cymru wedi iddo gael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau mewn gweithdrefnau.

xvi. Datblygu Gweithdrefnau/Protocolau/Canllawiau i Gefnogi Ymarferwyr: Datblygwyd nifer o brotocolau yn ystod y flwyddyn i gefnogi asiantaethau, rhai ohonynt o ganlyniad i ddysgu o Adolygiadau Diogelu Plant / Adolygiadau Diogelu Oedolion ac eraill mewn ymateb i geisiadau am arweiniad gan asiantaethau ac ymarferwyr.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| --- |
| |

| |
|---|
| Mae Adroddiad Blynyddol 2019/20 yn grynodeb o waith a wnaed drwy gydol y flwyddyn ledled rhanbarth Gogledd Cymru. Rhoddwyd ystyriaeth i gynigion / benderfyniadau unigol. |

| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
|---|
| Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn defnyddio'r fformiwla ariannu genedlaethol i asesu a nodi cyfraniadau ariannol blynyddol gan asiantaethau partner statudol. Mae cyfraniad Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â'r fformiwla hon. Cytunir y cyllidebau gan bartneriaid y Bwrdd Diogelu er mwyn sicrhau cynaliadwyedd wrth ddatblygu'r rhaglenni gwaith a chânt eu dwyn ymlaen hyd nes y cânt eu haddasu i sicrhau sefydlogrwydd a diogelwch y cyllid dros fwy nag un flwyddyn ariannol. |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2019/20<br><br>https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/wp-content/uploads/2020/09/ADRODDIAD-BLYNYDDOL.pdf |

| **9 – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| |

# BWRDD DIOGELU GOGLEDD CYMRU

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

# 2019 – 2020

**GORFFENNAF 2020**

## Cyflwyniad:



### Jenny Williams (Cadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru):

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlinellu'r cynnydd rydym wedi ei wneud yn erbyn yr amcanion a osodwyd gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ym mis Mawrth, 2019 fel rhan o'n Cynllun Strategol Blynyddol. Mae'r Bwrdd wedi parhau i aeddfedu dros y flwyddyn ddiwethaf i un sy'n dangos cydweithio effeithiol, gyda her yn rhan o'n busnes dyddiol.

Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru yn gallu dangos sut rydym wedi dylanwadu ar raglen genedlaethol Gweithdrefnau Cenedlaethol a Chanllawiau Ymarfer Cymru Gyfan. Rydym wedi ymateb i argymhellion gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Comisiynydd Plant.

Mae cydweithio gyda BDOGC wedi bod yn gadarnhaol, a nawr mae gennym raglen gyfoethocach gyda meysydd ymarfer gwahanol o fewn gwasanaethau oedolion a phlant i wella ein gilydd, gydag ymarferwyr yn gweld buddion dull pob oedran o weithio, i warchod plant ac oedolion diamddiffyn.

Bydd heriau wrth ddarparu gwasanaethau cymhleth o'r fath ar draws ardal ranbarthol mor eang â Gogledd Cymru, ond mae'r adroddiad blynyddol hwn yn dangos yn glir y cynnydd da a wnaed wrth ddangos sut mae BDGC yn effeithio ar ddeilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae'n fraint, fel Cadeirydd BDPGC, i barhau i wasanaethu preswylwyr a chymunedau amrywiol rhanbarth Gogledd Cymru wrth arwain ar, a chyflawni amcanion y Bwrdd fel y nodir yn Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i warchod ac atal plant yn y rhanbarth rhag profi camdriniaeth, esgeulustod a mathau arall o niwed.

Goffwn gydnabod cydweithiwr annwyl, David Beard, a fu farw. Roedd David yn berson dylanwadol, gan gynnig mewnbwn cadarn i'r bwrdd, geiriau doeth, a chefnogaeth mewn llawer o adolygiadau / materion cymhleth mae'r bwrdd a chydweithwyr wedi'u cael dros y blynyddoedd.

### Neil Ayling (Cadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru):

Mae'r adroddiad blynyddol yn amlinellu'n fanwl y cynnydd rydym wedi ei wneud yn erbyn yr amcanion a osodwyd gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru fel rhan o'n Cynllun Strategol Blynyddol a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth, 2019.



Mae gan y Bwrdd ymrwymiad gwych gan ei aelodau, sy'n cefnogi gwelliant y siwrnai'n glir. Mae'r Bwrdd yn newid i fod yn gorff fwy cadarn, agored, yn adeiladol heriol sy'n parhau i ddatblygu, gyda ffocws clir ar ddiogelu oedolion mewn perygl, wrth galon popeth.

Daeth yn glir bod y Bwrdd wedi cael ei wella gan raglen drawsbynciol sy'n canolbwyntio ar ddiogelu o safbwynt pobl. Mae'r adroddiad blynyddol yn cyfeirio at y gwaith rydym wedi ei gyflawni.

Rydym yn parhau i hyrwyddo'r rhaglen diogelu Oedolion mewn Perygl yng Ngogledd Cymru, ac wedi datblygu cysylltiadau pellach ar draws y sector. Mae'r gwaith rydym yn ei wneud o ran datblygu Fframwaith Diogelu gyda CEM y Berwyn yn enghraifft o hyn.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i bob aelod o BDOGC a'r is-grwpiau am y gwaith a wnaed drwy gydol y flwyddyn, ac rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'r Bwrdd y flwyddyn nesaf wrth hyrwyddo a gwella ymarfer diogelu Oedolion mewn Perygl.

| Adran | Cynnwys: | Tudalen: |
|---|---|---|
| | Cyflwyniad | 1 |
| | Amcanion y Byrddau Diogelu | 3 |
| 1. | Ynghylch Byrddau Diogelu Gogledd Cymru | 3 |
| 2. | Y Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Byrddau Diogelu i gyflawni amcanion penodol. | 6 |
| 3. | I ba raddau mae’r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol mwyaf diweddar. | 12 |
| 4. | Sut mae’r Byrddau Diogelu wedi cydweithio gyda phobl neu gyrff eraill sy’n ymgysylltu â gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y bwrdd? | 21 |
| 5. | Unrhyw geisiadau y mae’r Bwrdd Diogelu wedi’i wneud i bersonau cymwys dan adran 137(1) y Ddeddf ar gyfer gwybodaeth benodol, ac a gydymffurfiwyd yn unol â'r ceisiadau. | 23 |
| 6. | Cyflawniadau’r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn. | 23 |
| 7. | I ba raddau cyfrannodd pob aelod y Bwrdd Diogelu at effeithiolrwydd y Bwrdd. | 25 |
| 8. | Asesiad o sut ddefnyddiodd y Byrddau Diogelu eu hadnoddau i arfer eu swyddogaethau neu gyflawni eu canlyniadau. | 29 |
| 9. | Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y mae’r Byrddau Diogelu yn arfer eu swyddogaethau fel y ddengys mewn dadansoddiad o achosion y mae wedi delio â hwy, ac unrhyw newidiadau y mae wedi ei roi ar waith o ganlyniad. | 32 |
| 10. | Y nifer o orchmynion amddiffyn oedolion a chefnogi a ddefnyddiwyd yn ardal y Bwrdd Diogelu. | 33 |
| 11. | Pryd a sut oedd plant neu oedolion yn arfer cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu. | 34 |
| 12. | Unrhyw wybodaeth neu addysg mae’r Bwrdd Diogelu wedi’i wasgaru, neu hyfforddiant y mae wedi ei argymell neu ei ddarparu. | 39 |
| 13. | Sut mae’r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw ganllaw neu gyngor a roddir gan Weinidogion Cymru neu’r Bwrdd Cenedlaethol. | 43 |
| 14. | Materion eraill yn berthnasol i waith y Byrddau Diogelu. | 43 |
| 15. | Enghreifftiau o Arferion Da sydd wedi’u cysoni gyda Blaenoriaethau BDGC. | 45 |
| | Atodiad 1: Rhestr Termau | 51 |

## Amcanion y Byrddau Diogelu:

Nid yw gwasanaethu dinasyddion a chymunedau amrywiol rhanbarth Gogledd Cymru, sy'n cynnwys chwe ardal Awdurdod Lleol, yn dod heb heriau sylweddol yn ei sgil. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd a'i aelodau'n parhau i fod yn falch o'r ethos cryf o gydweithio a gweithio mewn partneriaeth sydd wedi'i sefydlu ar lefel yr uwch fwrdd gweithredol a'r is-grwpiau. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn i ddod ac at barhau i adeiladu ar y sylfaeni cadarn a sefydlwyd yn y pedair blynedd diwethaf er mwyn cyflawni ein hamcanion a'n dyhead i gyrraedd rhagoriaeth mewn gwaith Diogelu, ymarfer proffesiynol a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n cymunedau.


Mae amddiffyn ac atal plant ac oedolion mewn perygl rhag dioddef niwed, a hyrwyddo lles pobl Gogledd Cymru, gan eu galluogi i gyflawni gwell canlyniadau, yn parhau i fod yn ganolog i waith y Bwrdd.

Nodwyd meysydd sydd angen parhau i'w gwella a fydd yn galluogi'r Bwrdd a'i aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel yr amlinellir yn Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i amddiffyn ac atal plant ac oedolion mewn perygl yn y rhanbarth rhag dioddef camdriniaeth ac esgeulustod a mathau eraill o niwed.

## 1. Ynghylch Byrddau Diogelu Gogledd Cymru:

### Strwythur:


Mae Byrddau Diogelu Gogledd Cymru yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn ar hyn o bryd, a ddwywaith y flwyddyn ar y cyd; yn ychwanegol at hynny mae Diwrnod Datblygu Busnes ar y cyd yn cael ei gynnal yn flynyddol i osod blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac i hunanasesu cynnydd y Byrddau.



## Is-grwpiau BDOGC:

| | | |
|---|---|---|
| Grŵp Cyflawni Sir y Fflint a Wrecsam: | Cadeirydd: | Jane Davies, Cyngor Sir y Fflint |
| Grŵp Cyflawni Conwy a Sir Ddinbych: | Cadeirydd: | Claire Lister, (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) |
| Grŵp Cyflawni Gwynedd a Môn: | Cadeirydd: | Alwyn Jones, Cyngor Môn |
| Grŵp Polisi a Gweithdrefnau: | Cadeirydd: | Alaw Pierce, Cyngor Sir Ddinbych |
| Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion: | Cadeirydd: | Tim Griffiths, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru |
| Hyfforddiant a'r Gweithlu ar y Cyd | Cadeirydd: | Mark Foster-Rowley, Grŵp Datblygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: |

.




## Is-grwpiau BDPGC:

| | | |
|---|---|---|
| Grŵp Cyflawni Sir y Fflint a Wrecsam: | Cadeirydd: | Meinir Williams-Jones, Barnardo's |
| Grŵp Cyflawni Conwy a Sir Ddinbych: | Cadeirydd: | Chris Weaver, BIPBC |
| Grŵp Cyflawni Gwynedd a Môn: | Cadeirydd: | Fon Roberts, ALI Ynys Môn |
| Grŵp Adolygu Ymarfer Plant: | Cadeirydd: | David Beard, Barnardo's |
| Grŵp Polisi a Gweithdrefnau: | Cadeirydd: | Cindy Thompson, Cyngor Sir Ddinbych |

Mae Grŵp Cyflawni Ymarfer a Grŵp Polisïau a Gweithdrefnau'r Bwrdd yn cwrdd bob chwarter ar hyn o bryd. Mae'r Grwpiau Adolygu Ymarfer, a'r Gweithlu ar y cyd a'r Grŵp Hyfforddi yn cwrdd ddwywaith y mis hefyd.

## Aelodaeth y Bwrdd:

### Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru:

**Cadeirydd:** Neil Ayling Prif Swyddog - Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint

**Is-gadeirydd:** Michelle Denwood Cyfarwyddwr Cyswllt Diogelu - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cyngor Ynys Môn - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

CBS Conwy - Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg Pennaeth Gwasanaeth Plant, Teuluoedd a Diogelu

Cyngor Sir Ddinbych - Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol

Cyngor Sir y Fflint - Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol Uwch Reolwr Diogelu a Chomisiynu

Cyngor Gwynedd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Pennaeth Gwasanaethau Iechyd a Lles Oedolion

CBS Wrecsam - Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion

Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC

BIPBC - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio MHLD

Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol – Swyddog Dynodedig

Heddlu Gogledd Cymru – Ditectif Uwcharolygydd /Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn

Iechyd Cyhoeddus Cymru – Nyrs Dynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol

Fforwm Gofal Cymru – Uwch Ymgynghorydd Polisi

Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru – Pennaeth Diogelu

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – Rheolwr Addysg Busnes a Tîm Atal Tanau Bwriadol

Carchar EM Berwyn – Pennaeth Diogelwch a Chydraddoldeb

### Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru:

**Cadeirydd:** Jenny Williams - Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol ac Addysg – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Is-Gadeirydd:** Judith Magaw - Pennaeth Lleihau Aildroseddu - Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - Cyngor Ynys Môn

Pennaeth y Gwasanaethau Plant, Teuluoedd a Diogelu - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a Phennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant - Cyngor Sir Ddinbych

Prif Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol. Pennaeth Gwasanaethau Plant – Cyngor Sir y Fflint.

Pennaeth Cefnogi Plant a Theuluoedd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cyngor Gwynedd

Rheolwr Gwasanaeth Atal a Chefnogaeth y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Pennaeth Gwasanaeth – Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam

Pennaeth Diogelu Corfforaethol, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant - Barnardo's

Ditectif Uwcharolygydd Uned Diogelu Pobl Diamddiffyn – Heddlu Gogledd Cymru

Cyfarwyddwr Cyswllt Diogelu a Meddyg Dynodedig Diogelu Plant - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Pennaeth Gwasanaethau Plant – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Pennaeth Yr Uned Gyflawni Leol – Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Nyrs Dynodedig Tîm Diogelu Cenedlaethol - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rheolwr Gwasanaeth Gogledd Cymru (Gwasanaethau Plant) - NSPCC

Arbenigwr Diogelu, Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion - Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

## 2. Y Camau Gweithredu a gymerwyd gan y Byrddau Diogelu i gyflawni amcanion penodol.

COVID-19:

Wrth ysgrifennu hyn, mae’r pandemig yn lledaenu ac rydym dan gyfarwyddyd cyfnod clo gyda'r rhan fwyaf o staff, sy’n gallu, yn gweithio o gartref. Mae’r heriau presennol mae’r GIG yn ei hwynebu yn sylweddol, a bydd y Bwrdd yn edrych ar sut y gall helpu i'w cefnogi yn ogystal â’r holl bartneriaid eraill yn ystod yr argyfwng hwn.

Mae cyfarfodydd y Bwrdd Argyfwng yn cael eu cynnal ar alwadau cynadledda, i sefydlu’r safle ranbarthol presennol o ran rheoli’r broses ddiogelu, sydd o fewn Gwasanaethau Plant ac Oedolion. Drwy rannu beth mae partneriaid yn ei wneud, bydd yn sicrhau bod gan y Bwrdd drosolwg a chaniatáu syniadau wrth fynd i’r afael â sefyllfaoedd amrywiol. Bydd Uned Fusnes y Bwrdd yn ymgymryd â rhai cyfarfodydd dros y we dros dro, gyda Chadeiryddion cyfarfodydd cynhadledd gwarchod Oedolion a Phlant fel bod gan y Bwrdd drosolwg. Bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnal dros y we i sicrhau bod y Bwrdd yn bodloni ei ddyletswyddau statudol, gystal ag y gallai dan yr amgylchiadau.

Cynllun Hyfforddi Gweithdrefnau Diogelu:

Mae Grŵp Datblygu'r Gweithlu a Hyfforddiant yn Bwrdd, ar y cyd gyda’r Uned Fusnes, wedi dechrau cynllunio sesiynau hyfforddiant i Staff a Darparwyr o fis Gorffennaf 2019, unwaith roedd wedi sefydlu y byddai’r gweithdrefnau yn cael eu lansio yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Drwy ofyn i’r swyddogion hyfforddi rhanbarthol nodi pwy fyddai angen mynd i’r gyfran gyntaf o sesiynau hyfforddiant, aeth y sawl sydd ar y rheng flaen, ag angen brys i ddeall y newidiadau a nodwyd o fewn Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar sesiynau hyfforddi diwrnodau llawn.  Cafodd hyn ei weithredu ar gyfer Gweithdrefnau Diogelu Plant ac Oedolion.

Ers mis Ionawr 2020 - bu:

- Sesiynau Modiwl Plentyn mewn Perygl: cynhaliwyd 10 sesiwn
- Sesiynau Modiwl Oedolyn mewn Perygl: Cynhaliwyd 10 sesiwn – 3 wedi’u gohirio.

Daeth 50-60 o staff i bob sesiwn. Trefnwyd sesiynau pellach yn benodol ar gyfer staff addysg, ond maent wedi eu gohirio ar hyn o bryd oherwydd Covid-19.

Mae’r Byrddau’n bwriadu mewnosod gweithdrefnau yn bellach i’r arferion drwy wneud fideos a phodlediadau ar gael ar adrannau gwahanol o’r gweithdrefnau i alluogi staff i adnewyddu eu dealltwriaeth o’r newidiadau. Mae hyn yn benodol o bwysig mewn perthynas â newidiadau sylweddol o fewn y maes Amddiffyn Oedolion. Bydd hyn yn caniatáu i’r Bwrdd ddiweddaru’r wybodaeth os a phan mae diweddariadau i’r gweithdrefnau yn cael eu gwneud, i’w cadw’n ddiweddar ac i helpu i greu dull diogelu rhanbarthol o weithio.

Disgwylir y bydd hyfforddiant a diweddariadau pellach yn cael eu darparu dros Weminarau a chynadledda fideo i alluogi ymgysylltiad gyda mynychwyr a’r hyfforddwr.

## Adroddiadau Diogelu Oedolion:

Fel rhan o gynllun strategol ar gyfer 2020/21, mae'r Bwrdd wedi gweithio i edrych ar ansawdd adroddiadau diogelu; Adroddiadau Diogelu Oedolion yn benodol. Mae'n amlwg o'r data perfformiad sy'n cael ei gyflenwi gan Grwpiau Cyflawni Ymarfer Lleol bod y nifer o adroddiadau amhriodol yn parhau i gynyddu oherwydd eu bod un ai o ansawdd isel neu bod materion adodd ynghylch ansawdd y gofal yn hytrach na phryderon diogelu. Mae'n anffodus nad yw pob ALI wedi gallu darparu'r wybodaeth hon oherwydd trosglwyddiad i un system wybodaeth i un arall, ac mewn rhai achosion, salwch ymysg staff, er bu ymdrechion i sicrhau bod y data hwn yn cael ei gasglu a'i gyflenwi fel mater o arfer yn y dyfodol ymhob cyfarfod GCYLl.

Mae'r data ar gyfer tri chwarter cyntaf y flwyddyn fel a ganlyn:

Nifer yr Adroddiadau a Dderbyniwyd: 1787
Nifer na fodlonwyd y trothwy: 968

Mae partneriaid asiantaeth eraill, megis yr Heddlu, hefyd wedi nodi nad yw ansawdd y wybodaeth maent yn ei derbyn, yn arbennig o ran digwyddiadau gan, a rhwng oedolion mewn perygl ac mewn sefydliadau gofal, yn addas bob amser. Mae rhagor o amser yn cael ei dreulio ar gasglu digon o wybodaeth i allu cymryd camau gweithredu addas, oherwydd bod hyn yn effeithio ar adnoddau.

Mae'r data a gesglir yn dangos ffynhonnell yr adroddiadau diogelu a chategori y camdriniaeth o'r rhanbarth gyfan. Mae hyn yn cael ei ddangos isod:

| Asiantaeth Ddarparu | Cydlynydd Gofal SSD | Iechyd | Perthynas | Heddlu Gogledd Cymru | Eraill gan gynnwys AGC | Hunangofnodwyd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 670 | 197 | 528 | 68 | 77 | 257 | 10 |

| Diofalwch gan gynnwys o'i Hun | Corfforol gan gynnwys DA | Rhywiol | Seicolegol gan gynnwys ar lafar | Cyllid | Amryfal | Anhysbys |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 550 | 619 | 90 | 416 | 337 | 127 | 22 |

Yn dilyn cynnydd mewn adroddiadau Oedolyn mewn Perygl, mae Diogelu Corfforaethol BIPBC wedi cefnogi 3 adolygiad bwrdd gwaith ar draws gwahanol wardiau ac unedau Iechyd Meddwl Pobl Hŷn, a oedd yn canolbwyntio ar ymarferion diogelu i gael sicrwydd ynghylch diogelwch cleifion, staff a diogelwch trefniadol.

Mae'r Bwrdd wedi edrych ar sut mae gwybodaeth ar amcanion yn cael ei chasglu a sut yr adroddir arni mewn ffordd sy'n galluogi'r bwrdd diogelu oedolion a'r partneriaid i ddangos tystiolaeth o'r gwahaniaeth y maent yn ei wneud i bobl, a defnyddio hyn i wella cefnogaeth diogelu. Mae tystiolaeth o arferion da yn cael ei chasglu a'i rhannu yn

rheolaidd ar draws y rhanbarth ac mae enghreifftiau o hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn.

## BDOGC – Archwiliadau o Hunan-esgeulustod:

Ymgymerwyd ag archwiliad achos o hunan-esgeulustod gan y Grwpiau Cyflawni Ymarfer er mwyn asesu sut mae asiantaethau yn mynd i'r afael ag achosion o hunan-esgeulustod a pha mor effeithiol oedd y protocol hunan-esgeulustod wrth gynorthwyo gyda hyn.

Gofynnwyd i'r archwilwyr edrych ar sut oedd y gwaith yn ystyried yr Oedolyn/Unigolyn mewn Perygl.
Adroddodd pob un bod tystiolaeth gadarn o gyfranogiad amlasiantaethol, roedd tystiolaeth o drafodaethau amlasiantaethol a'r gwaith achos a gynhaliwyd. Cafodd yr unigolyn eu cynnwys drwy gydol y broses ac roedd diogelwch yn hollbwysig. Rhoddwyd ystyriaeth i faint oedd yr unigolyn yn gallu gwneud yn annibynnol a pha anghenion oedd angen cymorth gan iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Roedd meysydd eraill o arferion da a nodwyd yn cynnwys:
- Tystiolaeth gyson o wahanol ddulliau o gyfathrebu gyda'r unigolyn.
- Tystiolaeth glir o gyfranogiad amlasiantaethol wrth gadw'r unigolyn yn saff.
- Mae tystiolaeth bod galluedd meddyliol yn cael ei ystyried a'i adolygu'n rheolaidd a bod eiriolaeth yn cael ei gynnig.
- Mae tystiolaeth i ddangos, er efallai bod unigolion yn gwrthod ymgysylltu gydag asiantaethau, mae tystiolaeth gadarn bod asiantaethau ac unigolion wedi gweithio'n galed i ddarparu cefnogaeth a chymorth.

Nodwyd y canlynol fel bod angen gwelliant:
- Gall y Cynllun Gwarchod Gofal a Chefnogaeth fod yn un ddogfen weithio. Hefyd, dylai hanes yr unigolyn fod yn gydran allweddol o weithio yn y dyfodol.
- Nid oes tystiolaeth o hyd bod asesiad risg ffurfiol wedi cael ei gwblhau.
- Teimlwyd, mewn rhai achosion, y gallai asesiad gofal cymdeithasol wedi cael ei ddatblygu'n gynt.

## Archwiliadau Achos BDOGC:

Mae archwiliadau wedi cael eu cynnwys gan y Grwpiau Cyflawni Ymarfer Oedolion er mwyn nodi meysydd sydd angen eu gwella o ran ymarfer a nodi blaenoriaethau dyfodol y Bwrdd, yn ogystal ag edrych ar ba feysydd ychwanegol o hyfforddiant sydd efallai eu hangen.

**Cyfarfodydd Strategaeth/Cynhadledd Achos:**

Meysydd o arferion da:

- Cwblhau camau gweithredu clir – dyddiad a gan bwy
- Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl clir ar gyfer archwiliad
- Yr oedolyn mewn perygl / Eiriolwyr sydd wedi cael eu cynnwys o fewn y cyfarfod strategaeth
- Mae trefniadau Rheoli Risg ar waith

Meysydd i'w gwella:

- Nid oedd cofnodion yn gynhwysfawr
- Dylai bod y DLM/Cadeirydd wedi dilyn adolygiad o fesurau neu strategaethau rheoli risg i fyny.

**Dyletswydd i ymholi:**

Meysydd o arferion da:

- Cwblhawyd y mwyafrif o achosion o fewn y terfyn amser 7 niwrnod.
- Roedd tystiolaeth bod camau gweithredu uniongyrchol wedi cael eu cymryd i ddiogelu'r unigolyn.
- Roedd tystiolaeth o'r mwyafrif o achosion bod sail resymegol glir ar gyfer y broses gwneud penderfyniadau.

Meysydd i'w gwella:

- Mae diffyg cysondeb o ran ansawdd yr atgyfeiriadau cychwynnol.
- Nid oes tystiolaeth o Asesiad Galluedd Meddyliol bob amser.
- Tystiolaeth ynghylch cydsynio i'r atgyfeiriad diogelu.
- Mae cydsyniad i unrhyw weithgaredd diogelu yn hollbwysig ac mae awdurdodau lleol yn derbyn atgyfeiriadau lle nad yw'r agwedd hwn o waith wedi cael ei ystyried yn llawn gan y sawl sy'n gwneud yr atgyfeiriad, er ei fod yn gwestiwn penodol ar y ffurflen atgyfeirio.
- Dangoswyd bod y samplau a archwiliwyd ar draws y chwe awdurdod lleol, yn adlewyrchu cymhlethdodau a heriau yr atgyfeiriadau diogelu sy'n cael eu derbyn ar hyn o bryd.
- Er yr ymddangosir bod y canlyniadau ar gyfer yr unigolion a atgyfeiriwyd yn gadarnhaol ac yn cael eu rheoli'n dda, nid oedd tystiolaeth i gefnogi'r siwrnai yn gallu cael ei nodi yn hawdd bob amser.
- Mae angen i'r Awdurdod Lleol rannu'r adroddiadau o ganlyniadau'r oedolyn mewn perygl gydag awduron/asiantaeth yr adroddiad.

Archwiliad Cam-drin Domestig BDPGC:

Fel rhan o'r pecyn gwaith parhaus a nodwyd yng Nghynllun Gwaith i'r Dyfodol Grŵp Cyflawni Lleol BDPGC, cytunwyd y byddai archwiliad yn cael ei gynnal mewn perthynas â'r gwaith a gwblhawyd gan Awdurdodau Lleol, Iechyd a'r Heddlu ynghylch plant dan fygythiad o Gamdriniaeth Domestig.

Bydd yr archwiliad hwn yn cael ei gynnal i asesu ansawdd eich cefnogaeth i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o drais domestig er mwyn cymell datblygiadau yn y maes hwn ac i adolygu roedd y gwaith yn ystyried y plentyn.

Cwblhawyd ffurflen archwilio ar wahân i bob plentyn o safbwyntiau gwahanol asiantaethau, a gasglwyd o'r manylion oedd ar ffeil. Adolygwyd cyfranogiad asiantaethau o'r 6 mis diwethaf. Roedd y pecyn archwilio'n canolbwyntio ar yr ymarfer canlynol:

- Ansawdd yr atgyfeiriad, asesiad a chofnodi'r achos.

- Ansawdd Trosolwg Rheolwyr.
- Asiantaethau’n cydweithio’n effeithiol.
- Asiantaethau’n gweithio fel partneriaeth yn gyffredinol.

Mae’r archwiliad yn gofyn i bob asiantaeth wneud **dyfarniad cyffredinol** ynghylch ansawdd eu gwaith ar gyfer pob adran:

- ✓ Rhagorol – ymarfer sy’n sylweddol uwch na’r safonau ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith amlasiantaeth.
- ✓ Da – ymarfer sy’n gyson yn cwrdd â’r safonau ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith amlasiantaeth.
- ✓ Angen gwella – ymarfer sy’n anghyson wrth gwrdd â’r safonau ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith amlasiantaeth.
- ✓ Annigonol – ymarfer sy’n methu cwrdd â’r safonau ar gyfer eu gwaith eu hunain a gwaith amlasiantaeth.

## Casgliadau:

### Ansawdd yr atgyfeiriad

Yn gyffredinol mae angen gwella ansawdd yr atgyfeiriadau. Nodwyd y risgiau, ond ni fanylwyd ar ba gamau gweithredu y cymrwyd. Er bod atgyfeiriadau yn amlygu pryderon, nid oeddent yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y plant, y teulu, ymgysylltiad blaenorol neu pryderon/gwybodaeth hanesyddol.

### Ansawdd yr asesiadau

Yn gyffredinol, roedd ansawdd yr asesiadau yn dda, a oedd yn cael ei dystiolaethu gan y canlynol; roedd asesiadau iechyd o safon uchel, roedd asesiadau cyfannol yn fanwl, ac roedd asesiadau'n cael eu cwblhau'n gynnar yn y broses gynllunio; ymgymerwyd ag asesiadau pellach drwy broses y llysoedd.

Fodd bynnag, gellir gwella; gellir dadansoddi yn fanylach, yn benodol mewn perthynas â chyfranogiad y tad, ac roedd gan rai asesiadau ddiffyg rheoli risg.

### Ansawdd y cynllun

Yn gyffredinol mae angen gwella ansawdd y cynllun; mae angen i’r cynllun ganolbwyntio fwy ar y ganlyniadau ac angen y plentyn.

Mae angen cynnal gwaith ar sut y gellir gweithio gyda’r tad/cyflawnwr a chael eu ymgysylltiad.

Nid oedd tadau sydd wedi'u gwahanu o'u plant (nad ydynt yn byw yn yr aelwyd) yn cael eu cynnwys ddigon mewn asesiad neu'r cynllun i ddiogelu eu plant.

Er bod sylwadau, cafodd y cynllun wedi cael ei ddatblygu i gadw’r plentyn yn ddiogel ac wedi cael ei uwchgyfeirio'n briodol, gyda materion a gofnodwyd yn glir.

Goruchwyliaeth Rheolwyr o Achosion

Yn gyffredinol, mae angen gwella goruchwyliaeth achosion, o fewn yr arolygiad hwn. Mae goruchwyliaeth yn darparu goruchwyliaeth rheolwyr ac yn archwilio'r heriau wrth ymgysylltu gyda'r teulu.

Awgrymwyd pan mae atgyfeiriadau newydd yn cael eu derbyn ar achos agored, bod goruchwyliaeth rheolwr yn ymddangos yn gyfyngedig, a gallai fod yn fwy cadarn gyda chamau gweithredu a therfynau amser mwy eglur.

O ran nodiadau goruchwyliaeth ffurfiol, roedd angen gwella rhai fel tystiolaeth o oruchwyliaeth rheolwyr ac atebolrwydd.

Nododd Iechyd y cafwyd mynediad i oruchwyliaeth ac fe'i ddarparwyd yn unol â Polisi Goruchwylio BIPBC.

Mewn un achos, roedd tystiolaeth o oruchwyliaeth glir gan reolwyr o fewn y canlynol: trafodaethau achos gyda chyngor cyfreithiol, adolygiadau Cynhadledd GP, Sicrwydd Ansawdd Asesiad Cymhleth.

Mewn achos arall roedd gan ddau dîm farn wrthgyferbyniol; awgrymwyd y byddai cyfnod byr o ymyrraeth gan reolwyr wedi bod yn fuddiol i ddarparu goruchwyliaeth.

Ansawdd y Gwaith Cyffredinol fel Partneriaeth

Yn gyffredinol, roedd gwaith fel partneriaeth yn dda, roedd gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ac roedd tystiolaeth o gyfathrebu da, ar draws asiantaethau.

Roedd tystiolaeth o asiantaethau'n cydweithio drwy gydol y broses i rannu gwybodaeth a gweithredu'n briodol, ac er budd gorau'r plentyn.

Yr Arferion Da a nodwyd

- Tystiolaeth o Weithiwr Cymdeithasol yn ceisio ymgysylltu gyda thad y plant
- Cyfathrebu a gweithio amlasiantaethol da
- Ansawdd da o adroddiadau cynadleddau achos gan bob asiantaeth
- Atgyfeiriadau at wasanaethau a chymorth arbenigol i ymgysylltu
- Grwpiau craidd rheolaidd
- Ymgysylltiad gyda'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg

Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant:

Ni chafodd Adolygiadau Ymarfer Oedolion eu comisiynu yn ystod 2019/2020 er y cytunwyd y byddai Fforwm Ymarfer Aml-Asiantaeth yn cael ei gynnal mewn perthynas ag un atgyfeiriad a dderbyniwyd.

O ran Adolygiadau Ymarfer Plant, cafodd 2 eu comisiynu yn ystod 2019/20 ochr yn ochr â Fforwm Ymarfer Aml-Asiantaeth.

## 3. I ba raddau mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu ei Gynllun Blynyddol mwyaf diweddar.

Mae'r canlynol yn ddiweddariad ar y cynnydd a gyflawnwyd:

### 1. Blaenoriaeth Gyffredin Strategol 1: Ecsbloetiaeth

**1a. Datblygu Strategaeth Ecsbloetiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru:**

Cynhaliwyd gweithdy adolygiad partneriaeth ym mis Tachwedd. Fel rhan o'r gweithdy, lluniodd y Rheolwr Busnes gais ynghylch defnyddio cyfarfod y Bwrdd ar y Cynd fel fforwm i drafod ecsbloetiaeth yn hytrach na chreu panel ecsbloetiaeth a phobl agored i niwed ar wahân.

Cynhaliwyd cyfarfod pellach yn y Flwyddyn Newydd i ystyried y cynnig hwn ymhellach, a datblygwyd Strategaeth Ecsbloetiaeth Rhanbarthol gan y Rheolwr Busnes fel rhan o'r gwaith oedd yn cael eu gynnar yn yr adolygiad Partneriaeth Diogelu ar draws Gogledd Cymru.

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Ynghyd â'r NSPCC, cynhaliodd BDPGC sawl Digwyddiad cymuned ymarfer Ecsbloetiaeth ar draws Gogledd Cymru. Ym mis Chwefror 2020, cynhaliodd BDPGC Canolfan Arbenigedd Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant mewn digwyddiad rhanbarthol. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar Ganllaw Ymarfer Diogelu Plant Rhag Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant Cymru Gyfan, a goblygiadau'r canllaw ymarfer newydd hwn. Trosolwg o'r digwyddiad:

- Ymchwil ynglŷn ag arfau asesu risg a'r defnydd o arfau o'r fath wrth ymarfer.
- Adnabod achosion o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a chodi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol allweddol i nodi ac ymateb i hynny.
- Darganfyddiadau o'r ymchwil diweddar am gofnodion Awdurdodau Lleol yng Nghymru: datgelu graddau cam-drin plant yn rhywiol mewn cofnodion gofal cymdeithasol.
- Rôl y Ganolfan Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant o safbwynt darparu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Wrth symud ymlaen mae cyfrifoldeb ar gyfer monitro a sicrhau bod camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn gorwedd gyda Grwpiau Cyflawni Lleol BDPGC. Bydd y Grŵp Cyflawni Lleol yn adrodd yn ôl i Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru bob chwarter.

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi codi ymwybyddiaeth o'r cynllun gweithredu Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant drwy gyfrwng cyflwyniadau i bob un o'r Grwpiau Cyflawni Lleol yng Ngogledd Cymru.

Bwriad BDPGC yw bod y Grwpiau Cyflawni Lleol yn canolbwyntio’n bennaf ar y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Camfanteisio’n Rhywiol ar Blant ym mis Mehefin 2020, gyda chefnogaeth gan y Canolfan Arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol.

Enghraifft: Dros y 12 mis diwethaf, mae Wrecsam wedi darparu ystod eang o hyfforddiant i staff ar ecsbloetiaeth, a hwyluswyd gan Barnardo's. Roedd yr hyfforddiant ar gael i staff Gwasanaethau Plant ac Oedolion, yn ogystal â phartneriaid asiantaeth.

Mae Gwasanaethau Oedolion yn cymryd rhan mewn cydweithio gyda Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd, ar Strategaeth MET (Ar goll, ecsbloetiwyd, masnachwyd) ar gyfer CBSW. Mae camau cyntaf yr adolygiad wedi cychwyn ac fe nodwyd gweithgorau i symud y gwaith o nodi pecyn sgrinio ymlaen ar gyfer ecsbloetiaeth, datblygu polisi a gweithdrefnau, hyfforddiant a chyfathrebu. Mae’r adolygiad yn ddull amlasiantaeth gyda’r partneriaid wedi ymgysylltu’n llwyr wrth gydlynu gwelliannau.

Mae pryderon ynghylch Llinellau Sirol yn cael eu hadnabod yn gynt gan Weithwyr Cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill gyda Gweithwyr Cymdeithasol yn peilota Pecyn Gwaith Ecsbloetio Plant yn Droseddol, sydd yn darparu Fframwaith Asesu Risg. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud dros y 12 mis nesaf i fonitro effeithlonrwydd y pecyn asesu risg newydd, monitro’r data a’r ymyraethau a chynllunio i weithwyr proffesiynol weithio mewn dull diogelu cyd-destunol.

**1b. Casglu a Rhannu Gwybodaeth – Atal pobl rhag ymwneud ag ecsbloetio Oedolion/Plant:**

Mae asesiad o anghenion Llinellau Sirol Gogledd Cymru wedi gwneud nifer o argymhellion ynghylch casglu/rhannu gwybodaeth. Bydd angen ystyried yr argymhellion yn y Bwrdd, er ein bod o blaid cael Protocol Rhannu Gwybodaeth rhanbarthol ar gyfer ecsbloetiaeth.

Mae gwaith yn dechrau ar beilot gyda TRAC yn CSDd ynghylch ymgysylltiad gyda phlant a phobl ifanc mewn perthynas â materion diogelu. Bydd y peilot yn cael ei ystyried ar draws Gogledd Cymru. Cynhaliwyd sesiynau yn Ysgol Uwchradd y Rhyl gyda grŵp o bobl ifanc agored diamddiffyn drwy gyfrwng TRAC. Pwrpas y sesiynau hyn oedd i nodi beth sy'n bwysig i bobl ifanc yn nhermau diogelu a sut gallai'r bwrdd ddarparu cefnogaeth.

Nododd y grŵp amryw o faterion megis camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, materion iechyd meddwl, pwysau gan gyfoedion ac ofn colli teulu/ffrindiau. Roedd y grŵp yn meddwl y fyddai’n ddefnyddiol petai’r bwrdd yn datblygu ap; byddai gan yr ap wybodaeth ar bynciau sy'n bwysig iddynt a'u cyfeirio at gymorth priodol / gwybodaeth bellach.

Dywedodd y bobl ifanc yn y sesiynau hyn nad ydynt yn defnyddio Twitter, Facebook na gwefannau, ac mai ap oedd eu ffordd dewisol o gyrchu gwybodaeth. Mae’r Cydlynydd Busnes wedi siarad â datblygwr gwefan y Bwrdd am greu ap. Gwnaed cais i grwpiau eiriolaeth am ymgysylltu â barn Oedolion mewn Perygl ynghylch ymarferion diogelu.

Amlygodd y Rheolwr Busnes y gwaith a wnaed yn Lloegr o ran canllawiau anstatudol sy'n trafod rhannu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ynghylch rhannu gwybodaeth i Blant, ond rydym wedi gwneud cais am ganllaw rhannu gwybodaeth ar wahân i gael i'w cyhoeddi ar gyfer oedolion.

Er bod Cytundebau Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ar wahân wedi cael eu cyhoeddi, nid ydym wedi creu un dogfen drosfwaol ar gyfer y rhanbarth.

Er enghraifft o waith parhaus o fewn maes codi ymwybyddiaeth - Nododd Cyngor Sir y Fflint bod gyrwyr tacsis yn benodol yn cwrdd â phlant ac oedolion diamddiffyn wrth eu gwaith bob dydd. Yn ystod mis Hydref 2019, derbyniodd 412 o yrwyr, gweithredwyr a gweithredwyr desgiau tacsi hyfforddiant diogelu, a drefnwyd gan y Tîm Trwyddedu a'i ddarparu gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC). Erbyn hyn, mae'n amod gorfodol o'u trwydded, gyda hyfforddiant yn cael ei gynnig i yrwyr bysiau a hebryngwyr ysgol hefyd.

**1c. Datblygu Darpariaeth Gwasanaeth i Ddioddefwyr – Cryfhau trefniadau diogelu yn erbyn ecsbloetio oedolion/plant drwy amddiffyn dioddefwyr rhag rhagor o erledigaeth ac amddiffyn y rhai a allai fod yn agored i gael eu hecsbloetio:**

Mae gwaith wedi cael ei gynnal gyda'r tîm Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), a gyda chefnogaeth Grwpiau Cyflawni Lleol ynghylch mapio gwasanaethau cynnal sydd ar gael ar draws y rhanbarth.

Er mwyn adolygu'r achoson risg uchel hynny yn Sir Ddinbych, rydym yn cynnal Panel Ecsbloetiaeth misol sydd yn Fforwm Amlasiantaethol lle mae'r plant a phobl ifanc mwyaf diamddiffyn yn cael eu hystyried. Mae'r cyfarfod yn boblogaidd gyda nifer o asiantaethau a gweithwyr proffesiynol er mwyn rhannu arferion da a gwybodaeth leol a monitro plant a phobl ifanc risg uchel. Yn dilyn y Panel, mae Gwasanaeth Therapiwtig Sir Ddinbych wedi bod yn datblygu gwaith grŵp ar gyfer rhieni'r plant a phobl ifanc hynny i'w hawdurdodi a'u galluogi i rannu eu profiadau.

**1d. Taclo'r Cyflawnwyr – Erlid ac amharu ar unigolion a grwpiau sy'n gyfrifol am ecsbloetio oedolion/plant:**

Mae asesiad o anghenion Llinellau Sirol Gogledd Cymru wedi gwneud nifer o argymhellion am daclo cyflawnwyr, ac mae'n enghraifft o'r gwaith mewn perthynas â phroffilio rhanbarthol hefyd.

Enghraifft: Cafodd Heddlu Gogledd Cymru, mewn partneriaeth â Barnardo's, y Gorchymyn Risg Caethwasiaeth a Masnachu Pobl gyntaf yng Nghymru mewn perthynas â diogelu plentyn.

**1e. Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth – Lleihau'r niwed o ecsbloetio trwy adnabod dioddefwyr yn well a rhoi mwy o gefnogaeth iddynt:**

Mae'r is-grŵp gweithlu a hyfforddiant rhanbarthol wedi datblygu cynnig ynghylch gweithdy ecsbloetiaeth rhanbarthol. Bydd angen cytundeb ar hyn fel rhan o'r adolygiad partneriaeth diogelu ehangach.

Mae Sir y Fflint a Wrecsam wedi sefydlu Panel MET Gweithredol yn y gorffennol ynghyd â Phanel MET strategol chwarterol. Mae gan y ddau Banel gynrychiolaeth gan asiantaethau partner. Mae'r panel Met Strategol yn gyfarfod ar y cyd gyda Wrecsam, ac mae'n cael ei adolygu ar hyn o bryd. Mae'r MET gweithredol yn canolbwyntio'n benodol ar Sir y Fflint. Mae'r ymagwedd hon yn cefnogi canolbwynt strategol a gweithredol ar ddatblygu cudd-wybodaeth cywir am dueddiadau lleol a rhwydweithiau gan ganolbwyntio ar ddioddefwyr, troseddwyr a lleoliad (gan gynnwys diogelwch ar y rhyngrwyd ynghyd â lleoedd).

Drwy MET, mae gwybodaeth wedi cael ei rhannu'n addas am blant lleol dan fygythiad, ac sy'n profi, ecsbloetiaeth gyda chefnogaeth a gwaith atal yn cael ei ddyrannu drwy ymatebion cydlynol ar draws asiantaethau. Mae'r panel yn cwrdd ddwywaith y mis i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol i warchod plant a phobl ifanc, a bod cynlluniau rheoli risg yn ogystal â chanlyniadau'n cael eu cytuno ar gyfer bob achos.

## 2. Blaenoriaeth Gyffredin Strategol 2: Cam-drin Domestig

**2a. Cydweithio gwell rhwng y BDGC a Phartneriaeth Cymunedau Diogelach er mwyn hyrwyddo cydymffurfiaeth â gofynion VAWDASV:**

Mae'r adolygiad partneriaeth wedi gwneud nifer o argymhellion am gysylltiadau. Bydd pob asiantaeth yn ymateb i'r dangosyddion Cenedlaethol newydd.

Mae heriau yn parhau ynghylch yr hyfforddiant Gofyn a Gweithredu. Nid yw'r hyfforddiant wedi cyfeirio at Weithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan 2019. Mae'n hanfodol hefyd bod gan hyfforddwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant Hyfforddi'r Hyfforddwr y profiad diogelu perthnasol.

Peilot cyfarfodydd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg wythnosol dros y we: Dechreuodd y peilot ar 11 Chwefror 2020 yn nwyrain y rhanbarth ac fe'i gwblhawyd ar 31 Mawrth 2020. Cytunwyd ar y peilot gan fod y niferoedd o ddioddefwyr risg uchel o gam-drin domestig oedd yn cael eu trafod mewn Cynadleddau misol, wedi cynyddu i lefel nad oedd posib ei reoli, ac roedd asiantaethau yn ymrwymo adnoddau diwrnod cyfan i ateb y galw.

Nod y peilot oedd sgrinio'r atgyfeiriadau a dderbynnir fel tîm amlddisgyblaeth, yna gwneir penderfyniad ar ba achosion y dylid eu hadolygu fel rhan o'r cyfarfodydd MARAC misol a datblygu cynllun gweithredu i ddiogelu'r unigolion hynny sydd wedi cael eu hatgyfeirio'n amserol. Mae dioddefwyr risg uchel o gam-drin domestig yn cael eu trafod yn wythnosol yn hytrach nac yn fisol, gan wella diogelwch y dioddefwyr.

Wrth werthuso'r peilot, y canlyniad oedd bod dioddefwyr risg uchel o gam-drin domestig yn cael eu trafod gan dîm aml-asiantaeth yn amserol, gyda chamau gweithredu wedi'u cwblhau yn arwain at achosion yn cael eu cau ar y cam hwn. Mae hyn wedi arwain at leihad yn y niferoedd sy'n cael eu trafod mewn cyfarfodydd MARAC misol. Oherwydd llwyddiant peilot Sir y Fflint, hoffai Heddlu Gogledd Cymru weithredu hyn ar draws Gogledd Cymru. Mae MARAC Wrecsam wedi mabwysiadu'r broses ers 1 Ebrill 2020, ac mae Conwy yn y broses o'i weithredu ym mis Mehefin 2020.

**2b. Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau o VAWDASV ar draws gogledd Cymru:**

Bydd angen i'r Bwrdd ystyried y ffordd mae'r adroddiad VAWDASV blynyddol yn edrych ar berfformiad yng Ngogledd Cymru pan mae ar gael.

Mae Ymgyrch Encompass yn fenter ddiogelu dan arweiniad yr heddlu, i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n destun neu'n dystion i achosion o gam-drin domestig lle bu'n rhaid galw'r heddlu. Lansiwyd hyn yn Sir y Fflint yn 2019, ac mae'n golygu fod yr heddlu'n cysylltu â'r ysgol dan sylw pan fod achos o gam-drin domestig yng nghartref plentyn / person ifanc i sicrhau fod yr ysgol yn cynnig cefnogaeth briodol ac yn diogelu'r plentyn / person ifanc yn erbyn effaith cam-drin domestig. Rhoddwyd gwybod am 54 o achosion i'r ysgolion perthnasol ers lansio'r fenter ac mae cysylltiadau agos â Diogelu Oedolion pan fod angen cefnogi oedolion sy'n dioddef cam-drin domestig.

**2c. Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion am berthnasau diogel, cyfartal ac iach:**

Derbyniodd BDOGC gyflwyniadau mewn perthynas â DHR wedi'i gwblhau i alluogi addysg o hynny i gael ei rannu drwy'r asiantaethau partner.

Mae'r gweithdrefnau Diogelu Oedolion a Phlant newydd yn cynnwys Dyletswydd i Adrodd. Mae'r effaith ynghylch oedolyn mewn perygl yn benodol yn cael ei ystyried gan BDOGC.

Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried datblygu un dull adolygu ymarfer o weithio i oedolion a phlant yn hytrach na chael dulliau ar wahân. Cynhaliwyd y cyfarfod cychwynnol cyntaf ym mis Ionawr 2020, gyda Rheolwr Prosiect Llywodraeth Cymru.

Enghraifft: Mae'r cwmni Cats Paw wedi parhau i ddarparu eu cynhyrchiad ar berthnasoedd iach i ddisgyblion blwyddyn 9 yn Wrecsam. Mae'r ymgyrch hwn yn llwyddiannus iawn ac mae pobl ifanc bob amser yn ymateb yn dda i'r dull.

**2d. Adolygu effeithiolrwydd systemau data a monitro gofynion ar gyfer dulliau diogelu fel sy'n gysylltiedig â VAWDASV:**

Mae cydweithwyr ar draws Gogledd Cymru yn cynorthwyo gyda datblygiad templedi adrodd ar gyfer WCCIS i fod o gymorth gyda'r maes ymarfer penodol hwn. Mae

dangosyddion perfformiad VAWDASV yn darparu fframwaith adrodd ar gyfer asiantaethau.

Enghraifft: Mae Wrecsam wedi ailddechrau Grŵp Llywio MARAC a VAWDASV Wrecsam/Sir y Fflint, sy'n dod ag asiantaethau partner a gwasanaethau statudol ynghyd i gefnogi a bwrw ymlaen â'r Cynllun Gweithredu VAWDASV yn ogystal â nodi tueddiadau, patrymau ac atebion o ganlyniad i MARAC. Rydym wedi adolygu'r Cynllun Gweithredu VAWDASV ac wedi rhannu ein Hadroddiad Blynyddol â Llywodraeth Cymru, ac ar wefan allanol CBSW ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

## 3. Blaenoriaeth Strategol 3: Gwella ymwybyddiaeth a chydymffurfiad â'r broses Oedolion mewn Perygl (Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru)

**3a. Gwell dealltwriaeth o'r broses Oedolion mewn Perygl fel y nodir yn y Canllaw Gweithio gyda'n Gilydd:**

Cynhaliwyd gweithdai ar draws Gogledd Cymru ar gam ymholi'r broses Diogelu Oedolion. Er ein bod wedi hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth, mae'n rhaid i ni wneud gwaith pellach i sicrhau bod pob asiantaeth yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

Mae'r Grwpiau Cyflawni Lleol yn monitro perfformiad ynghylch gwaith diogelu.

Bydd gweithdai hyfforddi Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn cael eu cynnal drwy gydol mis Ionawr - Mawrth 2020.

Enghreifftiau: Rhoddodd Ynys Môn bolisi a gweithdrefnau ar waith i gefnogi Trin Achosion Unigol o Oedolion mewn Perygl: gan sicrhau bod yr unigolyn wrth galon eu profiad diogelu. Cafodd hyn ei gefnogi gan uwch arferion da mewn ymholiadau diogelu a ddarparwyd dros dau ddiwrnod i 29 ymarferwyr a rheolwyr gan Bond Solon:

Darparwyd 112 o sesiynau hyfforddiant diogelu wyneb yn wyneb ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n golygu fod 4,895 o staff wedi derbyn hyfforddiant yn ystod 2019-20. Cwblhawyd sesiynau Hyfforddiant Llysgenhadon Diogelu hefyd. Caiff llysgenhadon eu recriwtio i hyrwyddo'r rhaglen ddiogelu ar draws eu meysydd arbenigedd unigol.

Mae cwrs Ymchwilwyr Oedolion mewn Perygl gan Heddlu Gogledd Cymru wedi ei gynllunio gyda chymorth gan bartneriaid, a bydd yn un o ychydig gyrsiau ymchwilwyr heddlu yn genedlaethol.

**3b. Bod dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn amlwg trwy gydol y Broses Ddiogelu:** Mae'r Bwrdd wedi dechrau gweithio gyda gwasanaethau eirioli i dderbyn adborth gan yr Oedolyn mewn Perygl mewn perthynas â'r broses ddiogelu: Mae pob asiantaeth yn ymwybodol o bwysigrwydd sicrhau bod dull o weithio yn bodoli sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Enghreifftiau:

Gwynedd – mwy o ddefnydd o Wasanaethau Eirioli dros y 12 mis diwethaf.

Ynys Môn – Ymgynghori gyda Theuluoedd / Eiriolaeth a gofyn am farn yr unigolion. Gwahoddir Teuluoedd / Eiriolaeth i gynadleddau achos.

Sir Ddinbych - Mae oedolion mewn perygl ac/neu aelodau o'r teulu wedi bod yn mynychu cynadleddau achos oedolion, ac wedi gallu cyfrannu trwy drafodaeth gyda chomisiynwyr ac/neu ddarparwyr.

Conwy – Cafodd archwiliad diogelu ei gwblhau i sefydlu bod dymuniadau a theimladau'r oedolyn mewn perygl wedi cael eu hystyried a'u bod wedi eu grymuso i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain.

Sir y Fflint: Cwblhawyd adolygiad o brosesau mewnol a diwygiwyd y dogfennau perthnasol i sicrhau fod cofnod clir o gyswllt yn cael ei wneud gydag oedolion mewn perygl, teuluoedd a gofalwyr. Rydym wedi ymchwilio i ymarfer da yn y maes hwn ar draws y DU ac mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi rhoi enghreifftiau i ni o awdurdodau lle mae arferion da yn y maes hwn.

Wrecsam: Mae diogelu'n sicrhau, pan mae ymholiadau'n cael eu gwneud, bod holiadur Beth sydd o Bwys yn cael ei lenwi gyda'r unigolyn diamddiffyn neu'r eiriolwr.

BIPBC - Mae Diogelu Corfforaethol yn ymgysylltu ac yn cysylltu'n uniongyrchol gyda gwasanaethau eirioli ar draws Gogledd Cymru i sicrhau y diogelir hawliau cleifion unigol.

**3c. Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynghylch "Cam Ymholiadau'r Broses Oedolyn mewn Perygl":**

Cwblhawyd chwe gweithdy ynghylch ymholiadau Adran 126 a rôl yr arweinydd diogelu dynodedig. Mae gan BIPBC gynigion ar waith i ddatblygu'r arweinydd diogelu dynodedig o fewn y gwasanaeth Iechyd Meddwl / Anableddau Dysgu.

Mae BDGC yn cyfrannu i Dempledi Diogelu System WCCIS – ymgynghoriad ar waith – sy'n cynnwys y cam ymholi a dogfennaeth arall.

Enghraifft: Cynhaliwyd gweithdai i esbonio rôl yr Arweinydd Proffesiynol o fewn y broses Diogelu Oedolion, a sut mae arferion y Tîm Diogelu Oedolion yn cefnogi'r polisi.

Mae gan y Tîm Diogelu Oedolion yn Wrecsam Setiau Dysgu Gweithredol misol i drafod, adolygu ac ymgynghori ar unrhyw newidiadau arfaethedig i arferion neu ddatblygiadau Diogelu newydd sy'n gymorth i welliant parhaus.

## 4. Blaenoriaeth Strategol 4: Diogelu mewn Addysg (Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru)

**4a. Cynyddu proffil Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ymysg holl ddarparwyr addysg yn y rhanbarth:**

Mae Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi cynnal dau weithdy sy'n gwahodd Ymarferwyr Addysg Awdurdod Lleol / Arweinwyr Diogelu Dynodedig / Ysgolion Annibynnol / Llywodraethwyr Ysgolion / Arweinwyr Diogelu mewn Colegau i ystyried y gofynion a nodwyd yn y canllawiau drafft cadw dysgwyr yn ddiogel. Yn ychwanegol at hynny, mae chwe Phennaeth Addysg yr Awdurdodau Lleol nawr yn aelodau o'r Bwrdd.

**4b. Bod pob disgybl oedran ysgol yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd lle gallant ffynnu a chael eu cadw'n ddiogel:**

Bydd gofyn i Grwpiau Cyflawni Lleol ddiweddaru data ynghylch addysg yn y cartref.

Caiff arferion da mewn perthynas ag Addysg Yn Y Cartref eu rhannu gan Grwpiau Cyflawni Lleol ar draws y rhanbarth.

Mae'r prosiect peilot gyda TRAC yn enghraifft o ymgysylltiad gyda phlant nad oes ganddynt fynediad i ysgolion prif ffrwd.

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru'n cydweithio gyda Phrosiect Gwella i ddatblygu dogfen ganllaw genedlaethol ynghylch Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB) ar gyfer ysgolion.

Enghraifft: Mae diogelu o fewn ysgolion Sir Ddinbych wedi cynnwys adolygu'r Polisi a Gweithdrefnau newydd a sicrhau bod Arweinwyr Diogelu ym mhob ysgol yn hyderus yn eu rôl. Mae hyn wedi cynnwys pecyn hyfforddi cynhwysfawr ar draws yr ysgolion i benaethiaid ac Arweinwyr Diogelu Dynodedig wedi'u hwyluso gan Hyfforddwyr Diogelu Barnardo's.

**4c. Lleihau nifer yr achosion o blant ysgol/pobl ifanc yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol:**

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru'n cydweithio gyda Phrosiect Gwella i ddatblygu dogfen ganllaw genedlaethol ynghylch HSB ar gyfer ysgolion. Yn ychwanegol at hynny, mae gwaith yng Ngwynedd a Môn yn cael ei gynnal mewn ymateb i HSB.

Mae BDPGC angen dogfen ddadansoddi i nodi bylchau mewn perthynas ag ymyrraeth gynnar; fe nodwyd modelau arferion da yn yng Ngwynedd a Môn fodd bynnag.

Enghraifft: Sir y Fflint – Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i barhau i weithio gyda darparwyr addysg wrth ymgeisio i leihau achosion o ymddygiad rhywiol niweidiol a'i effeithiau o fewn sefydliadau addysg, ac maent wedi hyfforddi cohort o ymarferwyr a rheolwyr Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar becynnau asesu AIM 3 ac AIM wedi'i gynorthwyo gan dechnoleg.

Yng Ngwynedd, yn ystod 2019-2020, maent wedi sefydli Tim Emrallt yn llwyddiannus, sef tîm ymddygiad rhywiol problemus/niweidiol amlasiantaethol newydd, sydd wedi'i leol yn swyddfeydd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn y Felinheli. Yn ychwanegol at hyn, mae

Gwynedd wedi comisiynu arweinydd yn y maes i gefnogi datblygiad cynllun cyflawni camau strategol a gweithlu Ymddygiad Rhywiol Problemus/Niweidiol i Wynedd.

**4d. Diogelu plant a phobl ifanc mewn Addysg rhag niwed a gwneud y dewisiadau anghywir mewn cysylltiad â throseddau gyda chyllyll:**

Mae'r pecyn gwaith hwn wedi cael ei gefnogi gan y gwaith sy'n cael ei wneud a'i gomisiynu gan Gomisiynydd Trosedd yr Heddlu.

Enghraifft: Mae datblygiadau'n parhau o ran creu trefniadau gweithio effeithiol rhwng yr Adran Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i ail-lansio'r fforwm rhwng addysgwyr yn y cartref a'r Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau, pe bai pryderon am blentyn sy'n cael ei addysgu yn y cartref, eu bod yn cael eu dwyn i sylw'n gynt er mwyn cynorthwyo ag ymyrraeth ataliol ac osgoi argyfwng.

## CYNLLUN GWELLA BDGC

***Risgiau:*** Adolygwyd y gofrestr risg ym mis Medi 2019. Nodwyd risg ychwanegol mewn perthynas â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer asiantaethau partner. Darparodd y Bwrdd ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth drwy Grwpiau Cyflawni Lleol Oedolion. Mewn perthynas â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, mae rhaglen hyfforddiant ar waith.

***Sefydlu ffiniau clir o ran atebolrwydd a mecanweithiau adrodd:*** Rhwng y Byrddau Diogelu (Plant ac Oedolion): Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, Byrddau Cynllunio Ardal, Cymunedau Mwy Diogel, Grŵp VAWDASV, ac ati. Mae dogfennau'n cael eu datblygu ynghylch canllawiau ar y cyd rhwng y Bwrdd Diogelu, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a'r Bwrdd Cynllunio Ardal.

***Ymateb i, a gweithredu cynlluniau gweithredu o Adroddiad Perfformiad Blynyddol/Adolygiad Ymarfer Plant ac adolygiadau eraill:*** Mae'r archwiliad Hunan-esgeulustod yn enghraifft o'r gwaith mae BDOGC wedi ei wneud i fonitro gweithrediad addysg o gynlluniau gweithredu. Mae cynlluniau gweithredu Lleol, Adroddiad Perfformiad Blynyddol/Adolygiad Ymarfer Plant yn cael eu cadarnhau. Rydym wedi datblygu ein defnydd o Briff 7 Munud ar gyfer rhannu addysg.

Mae archwiliad o ansawdd diogelu yn ymwneud ag asesiadau cyn geni wedi cael eu cynnal gan Iechyd mewn perthynas â gweithredu monitro o Gynllun Gweithredu Adolygiad Ymarfer Plant.

Mae BIPBC wedi datblygu proses Rheoli Risg Trawma (TriM) ar draws y Bwrdd Iechyd. Roedd hyn mewn ymateb i argymhelliad yn Adolygiad Ymarfer Plant Sir y Fflint. Mae hon yn gefnogaeth a arweinir gan gyfoedion i fonitro unigolion sy'n agored i drawma, a phan fo'n angenrheidiol eu cefnogi i gael mynediad at gefnogaeth broffesiynol. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol i gefnogi staff sy'n ymwneud â'r broses PRUDiC.

Mae BDGC wedi datblygu canllawiau amlasiantaethol hefyd, i gefnogi gweithwyr sydd wedi'u heffeithio gan ddigwyddiadau tyngedfennol o ganlyniad i addysg o'r Adolygiad Ymarfer Plant hwn.

## 4. Sut mae'r Byrddau Diogelu wedi cydweithio gyda phobl neu gyrff eraill sy'n ymgysylltu â gweithgareddau yn ymwneud ag amcanion y bwrdd?

Mae Byrddau Diogelu Oedolion a Phlant Gogledd Cymru wedi bod yn ymgysylltu gyda byrddau rhanbarthol eraill yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'r adolygiad partneriaeth a wnaed. Bu trafodaeth ar gytundeb o sut bydd y byrddau yn dod ynghyd yn y dyfodol ar lefel uchel, ac ni fydd y ffordd o symud ymlaen yn cael ei anfon i gyfarfod y Prif Weithredwyr ar gyfer ei gadarnhau.

Mae'r Bwrdd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru wrth gynorthwyo â'r Gynhadledd Diogelu Oedolion Cenedlaethol, a oedd wedi cael ei groesawu yn Ngogledd Cymru. Mae aelodau'r Bwrdd a'r Uned Fusnes yn cynnig mewnbwn i'r cynigion ynghylch datblygiad fframwaith 'un adolygiad', sy'n edrych yn weithredol ar sut y bydd hynny'n gweithio.

Yn ychwanegol at hynny, mae ymarferwyr ar draws y rhanbarth yn gweithio gyda Grŵp Rhaglen WCCIS ar hyn o bryd wrth ddatblygu templedi diogelu ar gyfer y system; gobeithir y bydd hyn yn golygu bod pob rhanbarth yng Ngogledd Cymru'n gweithio gyda'r un ddogfennaeth.

Mae Gogledd Cymru wedi, ac mae'n parhau i gyfrannu at Weithdrefnau Diogelu Cymru. Fel un o'r Byrddau cyntaf i gychwyn ei raglen hyfforddiant, mae'r bwrdd wedi bod mewn safle gadarn i allu amlygu unrhyw broblemau gyda'r gweithdrefnau a chynnig adborth i'r Bwrdd Prosiect. Fel rhan o'r sesiynau hyfforddi, lluniodd yr hyfforddwyr sesiwn holi i alluogi i'r ymarferwyd godi unrhyw faterion yr oeddent wedi eu nodi. Ar hyn o bryd, mae'r gweithdrefnau wedi cael eu trefnu i fod ar waith ar 6 Ebrill, 2020, ond teimlir oherwydd pandemig Covid-19, bydd oedi sylweddol.

Mae'r Bwrdd yn cysylltu gyda Bwrdd VAWDASV a'u grŵp hyfforddi, Grŵp Caethwasiaeth Fodern Rhanbarthol, Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, a Phartneriaethau Rhanbarthol eraill, gyda aelodau'r bwrdd yn mewnbynnu i'r grwpiau hyn ac yn adrodd yn ôl i BDGC. Mae cydweithio'n digwydd gyda Rheolwyr Busnes y Bwrdd Cynllunio Ardal hefyd, mewn perthynas ag Adroddiad Perfformiad Blynyddol / adolygiadau Ymarfer Plant a DHR, a sut y gallwn rannu'r addysg.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Swyddfa Cymru'n aml yn dod i ddigwyddiadau a gweithdai yng Ngogledd Cymru. Ar gyfer eitemau sy'n berthnasol i Eiriolaeth yn benodol, dyma gyflwyniad sy'n cael eu roi yn gyson er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth. Mae cyhoeddiadau gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cael eu rhannu ar llyfrgell dogfennau ar-lein hefyd sydd ar wefan Byrddau Diogelu Gogledd Cymru ynghyd â unrhyw fwletinau newyddion sy'n cael eu rhannu. Mae Swyddfa Comisiynydd Pobl Hŷn wedi cael y cyfle i hwyluso sesiynau ymwybyddiaeth yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â Cham-Drin Domestig Pobl Hŷn hefyd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Crwneriaid Gogledd Cymru yn ogystal â Chomisiynydd Trosedd yr Heddlu yn rheolaidd, ac mae'r Cadeiryddion yn cwrdd ag Arolygiaeth Gofal Cymru i gael trafodaeth barhaus gyda nhw.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Plant a'r Uned Fusnes yn parhau i gwrdd gyda'u cyfatebwyr ym Mhartneriaeth Diogelu Gorllewin Swydd Gaer, ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer yr Uned Fusnes i gysylltu a chwrdd gyda Phartneriaethau Diogelu eraill ar draws Cymru a Lloegr, i allu rhannu arferion da a gwybodaeth.

Mae Byrddau Diogelu Gogledd Cymru wedi ymgysylltu gyda'r canlynol drwy gydol y flwyddyn:

Partneriaeth Strategol Diogelu Chwaraeon Cymru Gyfan – Ymddiriedolaeth Ann Craft: Cafwyd cyflwyniad yn y Bwrdd, ac o ganlyniad trefnwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth yng Ngogledd Cymru.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus: Ar ôl mynychu'r Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru, i drafod gwaith Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus a derbyn adborth gan aelodau, cafodd y wybodaeth a'r cyflwyniadau eu rhannu a'u trafod gyda Grwpiau Cyflawni Ymarfer Lleol er mwyn cyrraedd sefydliadau ac asiantaethau eraill.

Rhannu Bywydau: Cytunodd Grŵp Polisi a Gweithdrefnau BDOGC i gwrdd ac i drafod awgrymiadau sydd wedi cael eu cynhyrchu ar y cyd gan Rhannu Bywydau a Mwy ac ADASS, a fwriedir ar gyfer awdurdodau lleol i sicrhau y gellir dilyn yr arfer oriau pan credir bod unigolyn sy'n defnyddio Rhannu Bywydau mewn perygl o niwed ac mae pryder diogelu yn cael ei godi. Mae'r grŵp yn aros am y ddogfennaeth newydd i'w hadolygu.

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: Cafwyd ymgynghoriad gyda Grwpiau Cyflawni Ymarfer Lleol i hwyluso mwy o ymwybyddiaeth o ran pryd a sut i wneud atgyfeiriadau i'r gwasanaeth.

Dadansoddiad o Anghenion Llinellau Sirol Heddlu Gogledd Cymru: Mae'r uned fusnes wedi bod yn cysylltu â hyn yn weithredol gydag aelodau eraill y Bwrdd ac wedi ei drafod yn y Byrddau, sy'n parhau. Mae'r dadansoddwyr sydd wedi bod yn ymgymryd â'r gwaith hwn wedi gael gwahoddiad i ddod i sesiwn Diogelu Cyd-Destunol a ddarparwyd gan Dr Carlene Firmin, ac sydd wedi arwain at y tîm yn trafod a ddylid edrych ar y materion mewn ffyrdd gwahanol.

Roedd cydweithio'n cael ei wneud mewn perthynas ag Iechyd Meddwl a Diogelwch Rhywiol ar wardiau ysbytai hefyd. Mae grŵp llywio amlasiantaethol yn cwrdd yn rheolaidd i symud y darn hwn o waith ymlaen.

Mae'r Rheolwr Busnes yn parhau i gwrdd â rheolwyr eraill o Unedau Busnes ar draws Cymru a Llywodraeth Cymru i drafod materion cenedlaethol a lleol. Mae'r Uned Fusnes wedi bod yn mynd i brifysgolion a cholegau i siarad gyda myfyrwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol, myfyrwyr gwaith cymdeithasol ac ati, i amlygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru, a beth mae'r newidiadau yn ei olygu iddynt. Mae'r Uned Fusnes wedi cael llawer iawn o geisiadau i gyflwyno ar hyn ar gyfer asiantaethau megis Canolfan Argyfwng Trais, a grŵp o Gyfreithwyr, Gwasanaethau Eirioli, CAFCAS a sawl un arall, a'r nod yw gallu bodloni'r ceisiadau hynny i gyd.

## 5. Unrhyw geisiadau y mae’r Bwrdd Diogelu wedi’i wneud i bersonau cymwys dan adran 137(1) y Ddeddf ar gyfer gwybodaeth benodol, ac a gydymffurfiwyd yn unol â'r ceisiadau.

Dim. Fodd bynnag, mae’r Bwrdd wedi bod yn llwyddiannus wrth gasglu gwybodaeth heb orfod troi at y mesur hwn, drwy gyfathrebu clir gyda'r asiantaethau perthnasol, yn arbennig y sawl nad ydynt yn bodloni meini prawf 'unigolion cymwys' dan y Ddeddf.

## 6. Cyflawniadau’r Bwrdd Diogelu yn ystod y flwyddyn:

### Adolygu’r Bartneriaeth:

Mae adolygiad o’r bartneriaeth wedi cael ei gwblhau ac mae trafodaethau yn mynd rhagddynt mewn perthynas â chysoni'r rhaglen a thrafod yr amryw grwpiau a fydd yn dod o dan ymbarél y Bwrdd Unigolion Diamddiffyn ac Ecsbloetiaeth, a bydd hyn yn cynnwys VAWDASV a Chaethwasiaeth Fodern. Disgwylir y bydd sawl cyfarfod ar y cyd o’r grwpiau hyn bob blwyddyn a byddant yn gallu cysoni blaenoriaethau ac osgoi dyblygiad rhaglenni gwaith, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion ynghylch unigolion diamddiffyn ac ecsbloetiaeth ar draws Gogledd Cymru.

Fel rhan o’r pecyn gwaith hwn, ac yn unol ag Adolygiad o Bartneriaeth Diogelu Gogledd Cymru, datblygwyd panel Unigolion Diamddiffyn ac Ecsbloetiaeth.

Pwrpas y Panel Unigolion Diamddiffyn ac Ecsbloetiaeth yng Ngogledd Cymru yw:

- Darparu arweinyddiaeth, llywodraethu a chyfeiriad strategol i fodloni blaenoriaethu cenedlaethol a rhanbarthol yn ymwneud â unigolion diamddiffyn ac ecsbloetiaeth.
- Sicrhau darpariaeth effeithiol blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer gwarchod unigolion diamddiffyn ac atal ecsbloetiaeth.

Cydweithio mewn partneriaeth i gefnogi cynnydd blaenoriaethau unigolion diamddiffyn ac ecsbloetiaeth, gan gynnwys:

- Datblygu trosolwg strategol o ecsbloetiaeth, cefnogi partneriaeth rhagweithiol lle mae’r sawl sydd mewn perygl yn cael eu nodi a’u diogeli, ac mae troseddwyr yn cael eu amharu a’u herlyn.
- Galluogi ymateb effeithlon ac effeithiol i gam-drin domestig, trais rhywiol a niwed difrifol a achosir gan drais yn erbyn merched.

### Gweithdrefnau Diogelu Cymru:

Mae’r Bwrdd wedi cynllunio yn bell cyn lansiad y gweithdrefnau i ymgymryd â hyfforddiant ynghylch y gweithdrefnau newydd.  Fodd bynnag, mae cyfran gyntaf yr

hyfforddiant wedi cael ei ohirio oherwydd oedi i gyflenwad deunyddiau 'Hyfforddi'r Hyfforddwr'.

Cynhaliwyd y mwyafrif o'r hyfforddiant, gyda'r sesiynau olaf ar gyfer Ymarferwyr Diogelu Oedolion yn y Gorllewin ac i Staff Addysg yn cael eu gohirio oherwydd y pandemig. Bydd hyfforddiant nawr yn cael ei ddarparu gan defnyddio fideos a chanllawiau gan Swyddogion Hyfforddi Rhanbarthol.

## Rôl yr Ymarferydd Arweiniol/Ymholiadau Adran 126:

Mae BDOGC wedi ymgymryd a rhaglen waith eang ar y rôl ac ymholiadau A.126, gyda gweithdai amlasiantaethol yn cael eu cynnal ar draws y rhanbarth. Roedd ymarferwyr oedd yn mynychu'r rhain yn cynnwys Rheolwyr Cofrestredig ac UC o'r sector gofal, staff iechyd rheng flaen ac ymarferwyr gofal cymdeithasol.

Datblygwyd dogfennaeth i gyd-fynd â'r rôl hefyd, ac mae'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd fel sail ar gyfer trafodaeth gyda Thîm Prosiect WCCIS mewn perthynas â chynhyrchu templedi diogelu cyffredin ar gyfer y system.

Mae Canllawiau Ymarfer Pellach yn cael eu datblygu gan y rhanbarth i gyd-fynd â'r gweithdrefnau, gyda'r gobaith y byddant ar gael i'w defnyddio yn y man.

## Hyfforddiant Diogelu Sylfaenol ar gyfer Gwasanaethau a Gomisiynir:

Mae'r Grŵp Hyfforddi a Datblygu'r Gweithlu wedi bod yn canolbwyntio ar Ddadansoddi Anghenion Hyfforddi gan gynnwys holl sectorau ac asiantaethau, ac amlygodd canfyddiadau dechreuol o amgylch y Dadansoddiad fod gwahaniaethau o ran mynediad i Hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir, gofal cartref a phreswyl.

Mae prosiect peilot wrthi'n cael ei gynnal yn Wrecsam, sef model datblygu dysgu i helpu asiantaethau i ddarparu eu hyfforddiant yn fewnol.  O fis Ebrill ymlaen, gofynnir i'r ALI gymryd rhan mewn peilot drwy enwebu 3 gwasanaeth a gomisiynir yn eu hardal i gymryd rhan.  Bydd rheolwr neu uwch aelod o'r staff gofal yn cael eu hyfforddi i gyflwyno'r modiwl diogelu eu hunain, gan ddefnyddio modiwl diogelu Gofal Cymdeithasol Cymru ar ôl iddo gael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau yn y gweithdrefnau.

## Atgyfeiriadau'r Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd:

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi bod yn cyflwyno i'r grwpiau darparu ymarfer rhanbarthol ynglŷn â'r diffyg atgyfeiriadau i'r gwasanaeth o Gymru.  Eu nod oedd i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ac amlygu'r ddyletswydd i gyfeirio a phryd ddylai hynny ddigwydd. Mae codi ymwybyddiaeth yn parhau i ddigwydd, yn arbennig mewn perthynas â chyfrifoldebau dan Adran 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

Datblygu Gweithdrefnau/Protocolau/Canllawiau i Gefnogi Ymarferwyr:

Cafodd y protocolau canlynol eu datblygu yn ystod y flwyddyn i gefnogi asiantaethau, rhai o ganlyniad i ddysgu o Adolygiad Ymarfer Plant/APR ac eraill mewn ymateb i geisiadau am ganllawiau gan asiantaethau ac ymarferwyr:

- Protocol ar gyfer Rheoli Adroddiadau Lluosog am Ddigwyddiadau rhwng Oedolion mewn Perygl. Comisiynodd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru y gwaith hwn yn dilyn ymateb y Bwrdd i ddogfen HASCAS 'Ymchwil Annibynnol i'r Gofal a'r Driniaeth a Ddarparwyd ar Ward Tawel Fan: 'Adroddiad Gwersi ar gyfer Dysgu.' Y cam gweithredu oedd bod Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru (BDOGC) yn creu canllaw aml-asiantaeth er mwyn ymdrin ag adroddiadau lluosog o achosion o ddigwyddiadau rhwng Oedolion mewn Perygl, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ar draws yr asiantaethau.

- Canllawiau Amlasiantaethol ar gyfer Cefnogi Gweithwyr wedi'u heffeithio gan Ddigwyddiadau Tyngedfennol: Mae'r canllawiau amlasiantaethol hyn yn dangos ymrwymiad i ddarparu gwasanaeth rheoli straen digwyddiadau tyngedfennol yng ngogledd Cymru. Mae'n mynd i'r afael yn benodol â darparu gwasanaeth ôl-drafodaeth digwyddiadau tyngedfennol i staff sy'n cefnogi plant ac oedolion yng ngogledd Cymru.

- Delio gyda Safbwynt Gwahanol: Bwriedir y canllawiau hyn ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n dod i gysylltiad â theuluoedd sydd â safbwynt gwahanol tra'n gweithio gydag Oedolion mewn Perygl.

- Trefniadau Diogelu y Tu Allan i'r Ardal: Nod y ddogfen hon yw ategu canllawiau statudol presennol a pholisïau a gweithdrefnau lleol trwy ddarparu canllawiau ychwanegol er mwyn ymateb i bryderon diogelu sy'n cynnwys ystyriaethau traws-ffiniol.

- Canllawiau Beth sy'n Wahanol Plant/Oedolion: Mae'r newidiadau allweddol mewn perthynas â Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi eu hamlygu yn y 'Canllaw Cyflym' hwn wedi'u nodi gan grŵp gorchwyl o ymarferwyr diogelu.

## 7. I ba raddau y cyfrannodd pob aelod o'r Bwrdd Diogelu at effeithiolrwydd y Bwrdd:

CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

**Cyngor Sir Ynys Môn:**

Mae'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn mynychu Cyfarfodydd Bwrdd BDGC ac mae'n Gadeirydd Grŵp Darparu Ymarfer Oedolion Gwynedd a Môn. Mae'r Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaeth Plant a

Theuluoedd yn mynychu Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

Rheolwr Gwasanaeth, Rheolwr Diogelu Oedolion. Mae Ynys Môn yn cyfrannu at waith y Bwrdd – mewn perthynas ag ymgymryd â Fforymau Proffesiynol Amlasiantaeth – cadeirio a darparu adolygwr ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant.

### Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cyfarwyddwr Cyswllt Diogelu (Is-Gadeirydd) Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Roedd Pennaeth Isadran Diogelu Oedolion (MHLD) yn Gadeirydd Grŵp Tasg a Gorffen yn datblygu protocol mewn perthynas â delio gyda rheoli sawl adroddiad o ddigwyddiadau o oedolyn mewn perygl ac mae hefyd yn un o adolygwyr APR - NWSAB2/2017 hefyd ar hyn o bryd.

Mae'r Pennaeth Diogelu Plant yn Cadeirio  Grŵp Darparu Ymarfer Plant Conwy a Sir Ddinbych ac roedd yn Adolygwr mewn perthynas  ag Adolygiad Ymarfer Plant.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

Sefydlwyd y trefniadau canlynol:

Mae'r Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg yn Gadeirydd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion Integredig yn Gadeirydd Grŵp Darparu Ymarfer Oedolion Conwy a Sir Ddinbych.

Mae Rheolwr Datblygu'r Gweithlu a Dysgu yn Gadeirydd Cyd Grŵp Datblygu Gweithlu a Hyfforddiant.

Mae Conwy hefyd yn darparu Ymgynghorwyr Cyfreithiol ar gyfer y ddau Fwrdd.

### Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol yn Gadeirydd Panel Adolygu Ymarfer Oedolion Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ar hyn o bryd.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth Plant yn Swyddog Adolygu ar gyfer Adolygiad Ymarfer Plant.

Mae'r Rheolwr Gwasanaeth yn Gadeirydd Grŵp Polisi a Gweithdrefnau Oedolion.

### Cyngor Sir y Fflint

Mae'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol yn Gadeirydd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Mae'r Uwch-Reolwr Diogelu a Chomisiynu yn Gadeirydd Grŵp Darparu Diogelu Oedolion Sir y Fflint a Wrecsam.

## Cyngor Gwynedd

Mae'r Uwch Reolwr Diogelu a Sicrhau Ansawdd yn adolygwr APR (Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru 2/2017 Conwy) ar hyn o bryd.

Mae'r Pennaeth Gwasanaeth (Plant) wedi cyfrannu at sawl adolygiad fel adolygwr a chadeirydd. Hefyd mae wedi cynrychioli'r Bwrdd mewn perthynas â Grŵp Prosiect Cenedlaethol yn datblygu Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

## Heddlu Gogledd Cymru

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i fod yn bartner hanfodol yn y Bwrdd Diogelu a'i weithgareddau ar draws y rhanbarth. Oherwydd galwadau cystadleuol, mae presenoldeb yn yr is-grwpiau mewn ardaloedd penodol wedi bod yn gymysg. Bydd y llwyddiant a gafwyd wrth sicrhau dwy swydd Ditectif Arolygydd a dwy swydd Ditectif Sarjant yn rowndiau cyllido 2019/20 yn lliniaru hyn.

Presenoldeb a chyfrannu at holl is-grwpiau Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
National Probation Service

## Gwasaneth Prawf Cenedlaethol a KSS CRC

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ystyried presenoldeb ar y Bwrdd fel blaenoriaeth strategol ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn lefel ac amlder presenoldeb yng nghyfarfodydd Bwrdd Gogledd Cymru.

Presenoldeb Bwrdd Diogelu Oedolion / Plant Gogledd Cymru.

CRC Safle Strategol Allweddol – o 1 Rhagfyr 2019, roedd rheolaeth wedi trosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Roedd Pennaeth Uned Leol CRC SSA yn Is-Gadeirydd BDPGC.

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Pennaeth Gwasanaeth, Diogelu ac Iechyd Meddwl a Rheolwr Datblygu Ymarfer.

Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru: Mae'r Pennaeth Gwasanaeth, Diogelu ac Iechyd Meddwl wedi bod yn allweddol ar gyfer darparu canllawiau a deunyddiau mewn perthynas ag ymholiadau Rôl yr Ymarferydd Arweiniol, A126 ac roedd yn cynrychioli Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru mewn perthynas â Gweithdrefnau Cymru drwy'r Grŵp Prosiect Cenedlaethol.

**Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Mae cynrychiolydd o'r gwasanaeth hwn yn mynychu Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Mae cynrychiolydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar bob Grŵp Darparu Ymarfer Oedolion Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ac mae'n mynychu a chyfrannu at Grwpiau Polisi a Gweithdrefnau BDOGC.

**Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

Mae'r Uwch Weithiwr Proffesiynol Diogelu yn Gadeirydd Grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion.
Presenoldeb yn BDOGC a BDPGC, cynrychiolaeth ar bob Grŵp Darparu Diogelu Oedolion, cynrychiolydd hefyd yn mynychu Grŵp Polisi a Gweithdrefnau BDOGC.

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Gyda chynrychiolydd ar y ddau BDGC. Mae'r Tîm Diogelu Cenedlaethol yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG i wella diogelu ar draws GIG Cymru ac asiantaethau partner eraill.

Mae'r Rhwydwaith yn allweddol ar gyfer y cydweithio hwn. Lansiwyd yn 2012 mae'r Rhwydwaith wedi llwyddo i gysylltu polisi lleol a chenedlaethol i gefnogi Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG gan ryddhau eu cyfrifoldebau dros ddiogelu.

**Fforwm Gofal Cymru**

Mae Prif Swyddog Polisi yn mynychu Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ac yn cyfrannu at Grŵp Polisi a Gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

Mae cynrychiolwyr Fforwm Gofal Cymru yn aelodau gweithredol o Grwpiau Darparu Diogelu Oedolion BDOGC ar draws y rhanbarth.

**Barnardo's ac NSPCC**

Mae'r ddau sefydliad wedi darparu cefnogaeth amhrisiadwy i BDPGC. Mae Aelod o'r Bwrdd Barnardo's hefyd yn Gadeirydd Grŵp Adolygiad Ymarfer Plant. Mae'r gwaith sy'n ymwneud â Chamfanteisio ac Ymddygiad Rhywiol Niweidiol wedi parhau ac mae gwaith yr NSPCC a Barnardos wedi bod yn amhrisiadwy i wella arfer ar draws y rhanbarth.

Mae'r NSPCC hefyd wedi cynorthwyo i ddarparu hyfforddiant mewn perthynas â Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn amlygu'r newidiadau mewn arferion ynglŷn â Diogelu Plant.

## 8. Asesiad o sut ddefnyddiodd y Byrddau Diogelu eu hadnoddau i arfer eu swyddogaethau neu gyflawni eu canlyniadau:

Cyfraniadau Ariannol:

Roedd cyfraniadau ariannol blynyddol gan yr asiantaethau partner statudol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 wedi eu gohirio oherwydd yr hinsawdd economaidd presennol bryd hynny.

Gan fod Byrddau Diogelu Gogledd Cymru wedi rhoi adnoddau presennol mewn cronfa er mwyn cynnal y BGLl cyn i'r byrddau rhanbarthol ddod yn statudol, roedd yna arian wrth gefn oedd yn caniatáu i hyn ddigwydd heb effeithio'n sylweddol ar fusnes y Byrddau na'r Uned Fusnes.

Nodir bod cyfraniadau yn unol â'r fformiwla cyllid statudol yn cael eu hawlio gan sefydliadau ar gyfer y flwyddyn 2020/21 gan fod yr adnoddau hyn bellach wedi eu defnyddio.

Mae'r cyllid yn seiliedig ar fformiwla a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae'r gwerth ariannol wedi'i nodi isod:

**Incwm 2019/20**

| **Asiantaeth** | **Cyfraniad** |
|---|---|
| Conwy | £ 21,964.82 |
| Sir Ddinbych | £ 17,873.46 |
| Sir y Fflint | £ 29,072.24 |
| Gwynedd | £ 23,236.81 |
| Wrecsam | £ 25,702.12 |
| Ynys Môn | £ 13,296.91 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | £ 54,638.85 |
| Heddlu Gogledd Cymru | £ 21,855.54 |
| Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | £ 10,927.78 |
| **Cyfanswm Incwm:** | **£218,568.53** |
| Gwariant: | |
| Costau staff | £155,570.00 |
| Costau rhedeg o ddydd i ddydd | £ 53,620.00 |
| **Costau eraill:** | |
| Adolygiadau Adolygiad Ymarfer Plant (costau wedi eu diwallu o gronfeydd) | £ 20,430.00 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **£209,193.40** |

## Hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Cymru:

Gweithdrefnau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures

Yn ogystal â'r grant hyfforddiant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, mae Byrddau Diogelu Gogledd Cymru wedi sicrhau bod gweithdai hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol wedi eu cynnal a'u datblygu ac mae'n parhau.   Ers Ionawr 2020 mae'r Bwrdd wedi comisiynu 10 sesiwn ar gyfer Modiwlau Plant mewn Perygl. 10 Sesiwn ar gyfer y Modiwlau Oedolyn mewn Perygl gyda 3 wedi eu gohirio ar hyn o bryd.


Roedd 50 – 60 aelod o staff wedi mynychu pob sesiwn.   Roedd sesiynau pellach yn benodol ar gyfer staff addysg wedi eu trefnu ond maent wedi eu gohirio ar hyn o bryd oherwydd Covid-19.  Mae BDGC yn edrych ar drefnu hyfforddiant parhaus dros y we gyda fideos a gweminarau ar gael.

## Gwefan Byrddau Diogelu Gogledd Cymru:




Mae gwaith helaeth wedi'i wneud ar wefan y Bwrdd. Mae llyfrgell dogfennau newydd wedi'i chreu i alluogi ymarferwyr a'r cyhoedd ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym.

Drwy ychwanegu gwybodaeth ranbarthol a chenedlaethol, mae'r llyfrgell yn profi'n adnodd gwych i ddod â phopeth ynghyd mewn un lle a chreu 'archif' ar gyfer dogfennau. Mae'r llyfrgell yn cynnwys nodweddion chwilio sy'n caniatáu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, am faterion penodol i gael eu harddangos gyda'i gilydd.




Mae'r llyfrgell hefyd yn ystorfa ar gyfer adolygiadau ymarfer o fewn y rhanbarth, i alluogi ymarferwyr fynd nôl ac adolygu dysgu a fanylwyd ynddynt.  Rhagwelir y byddwn yn gallu ychwanegu adolygiadau neu ddolenni i adolygiadau o ranbarthau eraill.

Mae'r wefan hefyd wedi bod yn brif ffynhonnell dysgu o Friff 7 Munud, mae'r adnodd nawr yn cynnwys 98 briff o'r fath, sydd nid yn unig ar draws Gogledd Cymru ond yn genedlaethol

Derbynnir sylwadau cadarnhaol yn rheolaidd gan asiantaethau a sefydliadau ar draws Cymru ynglŷn â chynnwys y wefan.


*Sylwadau:*

**Anhygoel gweld yr holl adnoddau cefnogi bendigedig a gwasanaethau hyn ar gael mewn un lle. Bydd hyn yn sicr yn helpu unrhyw un sy'n dioddef camdriniaeth, edrych ar adrodd, atgyfeirio neu gynghori unigolion mewn sefyllfa gamdriniol, cael mynediad i'r gwasanaethau cywir a all gefnogi eu hanghenion unigol yn gyflym."*

** Casgliad gwych o rwydweithiau cefnogi a sut i greu cysylltiad, hawdd i'w lywio a'i ddeall. Hanfodol yn ystod y cyfnodau hyn o straen a thu hwnt wrth gwrs."*

*"Gwybodaeth a chanllawiau diddorol iawn ar gyfer y sefyllfa bresennol rydym ynddi! Gwych cael hwn ar gael i'w drosglwyddo i bobl mewn sefyllfaoedd cam-drin domestig ac ati. Rwy'n gweithio i'r Gymdeithas Alzheimer's ac mae pobl yn cael eu rhoi dan gymaint mwy o bwysau."*

Yn ystod y pandemig Covid-19 mae'r wefan yn darparu llawer o wybodaeth i'r cyhoedd, gan gynnwys dogfennau hawdd eu deall a thaflenni ffeithiau penodol i blant. Mae dolenni wedi eu cynnwys ar gyfer amrywiol adnoddau 'aros gartref', gweithgareddau i blant yn ogystal â lle i fynd am gymorth, gan ddarparu rhifau llinell gymorth a chyfeiriadau gwefan.




Cynhadledd Flynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru:

Cafodd y Gynhadledd Flynyddol ei chynnal yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu. Thema'r gynhadledd oedd 'Dychmygu'r Annychmygol.' Roedd grŵp drama (AFTA Thought) yn ailfyw senario achos CPR ac APR gan gynnwys Operation Jasmine. Roedd yna hefyd gyflwyniad gan Marilyn Jenkins (Grŵp Cyfiawnder Teuluol Operation Jasmine) ac Andy a Matt Smith (Smashed Lives) yn siarad am eu profiadau o fewn Gofal Maeth.

Wythnos Genedlaethol Diogelu

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd pob asiantaeth wedi cynnal gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, gweithdai a chynadleddau yn ystod Wythnos Genedlaethol Diogelu. Roedd Uned Fusnes y Bwrdd wedi cyflenwi deunydd hyrwyddo, taflenni gwybodaeth a chynorthwyo i hybu holl weithgareddau.

Roedd y rhaglen o weithgareddau a drefnwyd gan Awdurdodau Lleol, BIPBC, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac eraill yn cynnwys sesiynau ymwybyddiaeth/hyfforddiant mewn perthynas â'r canlynol:

- Llys Gwarchod
- Goruchwyliaeth gyda Bydwragedd

- Eiriolaeth
- Gweithdy Hunan-Esgeuluso
- Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth o Ecsbloetiaeth
- Digwyddiadau codi ymwybyddiaeth ar Ddiogelwch Tân
- Cyfweliad Môn FM ar Gaethwasiaeth Fodern – Tony Jones,
- Hyfforddiant Diogelu ar gyfer Cwmnïau Cludiant Ysgolion – yn cynnwys lansiad Cyngor ar gyfer Cludant Ysgolion
- Y prosiect Diogelu Plant Effeithiol – sesiwn aml-asiantaeth i weithwyr proffesiynol
- Prosiect Peilot Llysgennad Lles
- Ymarfer Diogel mewn Diogelu




Cynhadledd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol:

Roedd Byrddau Diogelu Gogledd Cymru eto yn cael eu cynrychioli yn y Gynhadledd Flynyddol Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol, rhannu gwybodaeth, Adroddiadau Blynyddol a Chynlluniau Busnes gydag ymwelwyr ar draws Cymru. O ddiddordeb arbennig i gynrychiolwyr oedd y gwaith mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru wedi ei wneud o amgylch Hunan-esgeulustod.

## 9. Unrhyw themâu sylfaenol yn y ffordd y mae'r Byrddau Diogelu yn arfer eu swyddogaethau fel y ddengys mewn dadansoddiad o achosion y mae wedi delio â hwy, ac unrhyw newidiadau y mae wedi ei roi ar waith o ganlyniad:

Dysgu o adolygiadau:

O ganlyniad i'r adroddiadau annibynnol ar Tawel Fan, roedd y grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd gan y Bwrdd i ymateb i hyn, yn nodi nifer o gamau, un y byddai Grŵp Polisi a Gweithdrefnau BDOGC yn datblygu protocol ar gyfer sut oedd asiantaethau yn delio gydag amryfal adroddiadau o gamdriniaeth gan Oedolion mewn Perygl. Mae'r canllawiau a ddatblygwyd yn aros am gadarnhad gan y Bwrdd ar hyn o bryd. Bydd y Protocol i reoli amryw o adroddiadau o achosion rhwng Oedolion mewn Perygl ar gael ar wefan y Byrddau a disgwylir lledaenu drwy bob asiantaeth drwy gynrychiolwyr ar y Bwrdd. Mae siart llif wedi'i gynnwys yn y protocol i'w wneud yn hawdd i'w ddefnyddio.

Roedd nifer o Adolygiadau Ymarfer Oedolyn yn nodi bod Briwiau Pwysedd Di-baid a gafwyd yn thema, o ganlyniad i hyn, cynhaliwyd adolygiad gan adran ddiogelu Sir Ddinbych a BIPBC a gweithredwyd yn y meysydd ar y wardiau.

Roedd camau a gymerwyd fel a ganlyn:

- Cyflwyno pasbort anaf pwysedd.
- Gweithredu cynllun gweithredu dynamig ar gyfer rhoi gwybod am anaf pwysedd, gwyliadwriaeth ac ymarfer ED.
- Archwiliad misol i ddogfennaeth crynhoi bwriadol.
- Mae BIPBC hefyd wedi neilltuo nyrs gyswllt TVN yn yr adran, yn ymwneud ag addysg gan mai un thema gyffredin anafiadau pwysedd yw nodi difrifoldeb briw.
- Dadansoddiad parhaus o ddata oedolyn mewn perygl ar draws pob lleoliad cleifion preswyl BIPBC.
- Cyfathrebu da rhwng diogelu corfforaethol BIPBC a thîm oedolyn mewn perygl Sir Ddinbych.

Rhagwelir y bydd hyn yn cael ei gyflwyno fesul cam ar draws ardal Gogledd Cymru.

Wrth ddangos nad oes angen cwblhau adolygiad cyn y cymerir camau i wella polisi neu ganllaw, mae BIPBC eisoes wedi nodi meysydd ar gyfer gwella fel polisi rhyddhau o'r ysbyty i gartrefi nyrsio ac maent yn cynnal adolygiad o hyn cyn cwblhau'r broses adolygu. Cynhelir ymgynghoriad ar y polisi ar hyn o bryd.

Gwybodaeth archwilio:

Mae archwiliadau wedi eu cynnal drwy gydol y rhanbarth gan y Grwpiau Darparu Ymarfer Oedolion Lleol, mae tystiolaeth yr archwiliadau hynny wedi dangos meysydd ar gyfer gwella, fel ansawdd adroddiadau diogelu. Mae hefyd wedi rhoi sicrwydd i aelodau'r Bwrdd o ymdrechion parhaus asiantaethau i sicrhau cydymffurfiaeth gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ble bu maes amlwg sy'n dangos bod angen gwella e.e. atgyfeiriad i Wasanaethau Eirioli, mae'r Bwrdd wedi gallu cynnal gweithdai/sesiynau codi ymwybyddiaeth ac ati er mwyn atgyfnerthu'r neges. Mewn perthynas ag atgyfeirio ar gyfer Eiriolaeth, mae'r Bwrdd wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau ar draws y rhanbarth.

Enghreifftiau Arfer Da:

Mae enghreifftiau o arferion da yn cael eu rhannu'n rheolaidd o fewn y Grwpiau Darparu Ymarfer, sy'n dangos y cymerir camau wrth ddysgu o adolygiadau, gwelliannau a awgrymir o arolygiadau AGC ac ati.

## 10. Y nifer o orchmynion amddiffyn a chefnogi oedolion a ddefnyddiwyd yn ardal y Bwrdd Diogelu:

Nid oedd unrhyw geisiadau ar gyfer ASPO o fewn ardal Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn.

## 11. Pryd a sut oedd plant neu oedolion yn arfer cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd Diogelu:

Tra bod y Bwrdd yn parhau i edrych ar sut y gallwn ymgysylltu mwy gydag Oedolion – mae'r Bwrdd Plant wedi bod yn gweithio gyda grŵp plant rhithiol a bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach.

### Cyfrannu at y broses ddiogelu:

Mae'r Byrddau bob amser yn hybu 'ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn', y defnydd o eiriolaeth i sicrhau bod teimladau a dymuniadau'r unigolyn yn cael eu clywed ac y gweithredir arnynt. Mae gwaith ar y gweill i gynnwys mwy ar y cleient yn y broses ddiogelu, bydd y gweithdrefnau diogelu newydd yn helpu gyda hynny ond yn y cyfamser mae'r Bwrdd yn cysylltu â Gwasanaethau Eirioli i geisio cael profiad y cleient o'r broses. Mae'r Uned Fusnes yn cysylltu â Grŵp Eiriolaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn rheolaidd ac yn mynychu rhai o'u cyfarfodydd, mae'r Eiriolwyr hefyd wedi derbyn gwahoddiad gan Fwrdd yr Uned Fusnes i roi cyflwyniad iddynt ar y newidiadau yn y Gweithdrefnau Diogelu a'r effaith ar Wasanaethau Eiriolaeth, rhagwelir y bydd hyn yn digwydd ym mis Medi 2020.

Mae'r Grwpiau Darparu Ymarfer hefyd yn edrych ar sut i ymgysylltu'n well gyda phlant ac oedolion. Mae asiantaethau unigol wedi manylu eu profiadau hyd yma, fydd yn galluogi'r Bwrdd i edrych ymhellach ar sut i ymgysylltu'n well.

Mae pob sefydliad yn gweithio i wella ymgysylltu fel y manylwyd isod. Mae hyn hefyd wedi'i nodi fel blaenoriaeth ar gyfer Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ac mae wedi'i gynnwys yn y Cynllun Busnes ar gyfer 2020/21:

### Cyngor Sir Ynys Môn:

Oedolion – mae ymdrechion yn parhau i geisio adborth gan ddioddefwyr cam-drin sydd wedi bod drwy'r broses ddiogelu. Mae hyn yn parhau'n her gan fod llawer o'r dioddefwyr yn methu ymgysylltu oherwydd anallu neu fodlonrwydd.

Ble nad oes gan yr unigolyn y gallu o ran digwyddiad diogelu penodol, cynghorir Teuluoedd / Eiriolaeth a gofynnir am farn. Gwahoddir teuluoedd / eiriolaeth i gynadleddau achos.

Plant a phobl ifanc – mae'r datblygiad hyd yma wedi canolbwyntio'n bennaf ar gyfranogiad plant a phobl ifanc â phrofiad gofal.

Mae rhieni, gofalwyr a phlant yn cael eu hannog i fynychu cynadleddau amddiffyn plant. Mae cyfranogiad rhieni a gofalwyr o fewn cynadleddau yn dda, ond mae plant a phobl ifanc yn dewis peidio mynychu yn gyffredinol. Dylai adroddiadau i gynhadledd achos adlewyrchu dymuniadau a theimladau'r plentyn ac mae'r cadeirydd yn canolbwyntio ar hyn o fewn y gynhadledd. Rydym yn sicrhau fod y plentyn/person ifanc yn deall ei hawl i eiriolaeth a monitro a wnaed gan gynnig gweithredol eiriolaeth.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy:

Oedolion - Roedd diogelu yn nodwedd o fewn yr Arolwg Cwsmeriaid Blynyddol lle gofynnwyd i ddinasyddion a oeddynt yn ddiogel o unrhyw fath o gamdriniaeth, niwed corfforol neu o syrthio tu mewn a thu allan i'ch cartref.

Mae Gofal Cymdeithasol yn mynd ati i ymgysylltu â phobl, a defnyddio eu barn a'u profiadau i hysbysu cynlluniau a gwella canlyniadau ar gyfer unigolion a gwasanaethau. Mae Conwy wedi cyflwyno gwaith cyfranogi ar draws pob un o'n meysydd gwasanaeth gofal cymdeithasol ac mae gan ein gweithlu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i sicrhau fod oedolion mewn perygl a'u teuluoedd yn cael eu clywed ac yn gwneud gwahaniaeth.

Plant a Phobl Ifanc - Mae Conwy wedi parhau i gynnal grwpiau rhieni a phobl ifanc ymgynghorol sydd wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â nhw i ddatblygu'r ymdriniaeth Cefnogi Teuluoedd. Rydym hefyd wedi cynnal sawl ymgynghoriad gyda rhieni, plant a phobl ifanc ynglŷn ag anghenion eu teulu, yn enwedig yn yr ardaloedd Dwyreiniol a Chanolog. Mae Conwy wedi cynnal cyfweliadau ansoddol gyda theuluoedd a phobl ifanc i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r profiadau maent wedi byw drwyddynt. Mae'r Tîm Cyfranogiad ar hyn o bryd yn cynnal gwerthusiad o'r gwasanaeth drwy holiaduron a chyfweliadau gyda theuluoedd.

Cyngor Sir Ddinbych:

Oedolion: Oedolion mewn perygl ac/neu aelodau o'r teulu wedi bod yn mynychu cynadleddau achos oedolion, ac wedi gallu cyfrannu trwy drafodaeth gyda chomisiynwyr ac/neu ddarparwyr yn erlyn rhannu profiadau i lywio'r angen am newid mewn ymarfer neu weithdrefn.

Plant a Phobl Ifanc - Grŵp o blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yw grŵp plant mewn gofal sydd yn cyfarfod yn ystod gwyliau'r haf ac sydd wedi cyfrannu tuag at ein strategaeth wella yn cynnwys proses o ymgysylltu a recriwtio.

Mae Sir Ddinbych hefyd wedi datblygu nifer o Ffurflenni/Arolygon Adborth – yn cynnwys Cynadleddau Amddiffyn Plant ac Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal yn ogystal â chyfres o becynnau er mwyn ymgysylltu a chyfathrebu gyda phlant a phobl ifanc. Mae Ffurflenni Adborth o Gynadleddau wedi galluogi Sir Ddinbych i rannu profiad rhieni yn y broses hon er mwyn cael mwy i gymryd rhan.

Wedi comisiynu ap digidol yn ddiweddar o'r enw Mind of My Own sydd yn ap digidol hygyrch er mwyn i blant a phobl ifanc rannu eu barn, dymuniadau a theimladau gan ddefnyddio teclyn digidol diogel. Mae apiau Mind of My Own wedi'u dylunio a'u cydgynhyrchu'n gydwybodol gyda phobl ifanc ar gyfer pobl ifanc.

Cyngor Sir y Fflint:

Oedolion: Cwblhawyd adolygiad o brosesau mewnol llynedd a diwygiwyd y dogfennau perthnasol i sicrhau fod cofnod clir o gyswllt yn cael ei wneud gydag oedolion mewn perygl, teuluoedd a gofalwyr.

Mae Sir y Fflint wedi ymchwilio i ymarfer da yn y maes hwn ar draws y DU ac mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi rhoi enghreifftiau i ni o awdurdodau lle mae arferion da yn y maes hwn.  Mae Sir y Fflint nawr yn ceisio gwybodaeth i helpu i gefnogi ein gwaith.

Mae Sir y Fflint yn cyflogi Gweithiwr Cymdeithasol Diogelu Oedolion sydd â'r rôl o ymholi ac ymchwilio i atgyfeiriadau fel sydd angen a gweithio'n agos gyda theuluoedd ac unigolion i roi gwybod iddynt am y broses, y camau sy'n cael eu cymryd a'r canlyniadau. Yn sgil y gwaith hwn, rydym wedi sylwi mai ychydig o unigolion neu deuluoedd sy'n gofyn i gael bod yn rhan o'r Cynadleddau Achos gan eu bod eisoes wedi bod yn rhan o'r broses ac wedi'u hymgysylltu'n llawn. Bydd y cynnydd yn staff yr Uned Ddiogelu Oedolion hefyd yn caniatáu Cyngor Sir y Fflint i sicrhau fod yr holl deuluoedd ac oedolion mewn perygl yn cael eu hysbysu ar bob cam o'r broses. Mae'r niferoedd o fewn Cyngor Sir y Fflint ar gyfer cynadleddau diogelu oedolion yn parhau'n isel.

Mae Sir y Fflint yn parhau i hybu'r defnydd o eiriolwyr er mwyn caniatáu'r rhai sydd heb lais i gael eu cynnwys yn y broses. Mae rôl eiriolwyr yn rhan annatod o nifer o feysydd gwaith o fewn maes diogelu. Mae Gwasanaethau Eirioli yn cael eu defnyddio fel Cynrychiolwyr Person Perthnasol wrth gynnal asesiadau DOLS. Pan dderbynnir adroddiadau Diogelu Oedolion, rhoddir ystyriaeth bob amser i destun yr atgyfeiriad ac a oes angen gwasanaethau eirioli annibynnol arnynt i sicrhau fod eu hanghenion yn cael eu diwallu a'u lleisiau'n cael eu clywed.

Plant a Phobl Ifanc – Mae Sir y Fflint yn gweithredu'r cynllun cyfeillio mewn cynhadledd fel rhan gweithredol ac hanfodol o'r gynhadledd achos amddiffyn plant.   Mae'n cael ei ddefnyddio'n eithaf sylweddol gyda phlant a phobl ifanc sydd dros oedran arbennig.  Y man cychwyn yw 10 ac i fyny ond rhoddir ystyriaeth i blant ifanc os ydynt yn frodyr neu chwiorydd plant sy'n diwallu'r meini prawf neu â gallu gwybyddol penodol.  Mae'r cyfaill naill ai'n cwrdd ar wahân gyda'r bobl ifanc ac mae'n defnyddio ffurflen safonol i gael eu barn ac yna'n mynychu cynhadledd i gynnig eu barn ac yna adborth yn ôl iddynt ar ôl y gynhadledd.  Mae'r un cyfaill yn cwrdd gyda'r person ifanc cyn pob adolygiad i gynnal cysondeb a datblygu perthynas.   Bydd y cyfaill hefyd yn mynd gyda'r person ifanc i'r gynhadledd os byddant yn nodi dymuniad i fynychu.   Mae'r llyfrynnau cyfaill cynhadledd yn dangos effaith cadarnhaol yr ymyrraeth amddiffyn plant drwy lygaid y plentyn.

Mae'r un gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i gasglu barn plant ble mae eu rhieni/gofalwyr yn mynd drwy'r broses Amlinellol Cyfraith Gyhoeddus.

Mewn achosion anstatudol drwy TAF/Teulu Cyfan, mae pecyn gwerthuso a elwir yn Wemwebs yn cael ei ddefnyddio i ddangos beth sy'n gweithio'n dda, beth sydd ddim yn gweithio'n dda a beth yw barn teuluoedd am y gwasanaeth a gynigir. Mae atgyfeiriadau i'r gwasanaethau hyn yn dod drwy'r canolbwynt.

## Cyngor Gwynedd:

Oedolion: Mae yna ymrwymiad clir i ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaethau.  Mae'r Cydlynydd Diogelu Oedolion wedi ymrwymo i ymchwilio 9 achos diogelu oedolyn ar hap bob chwarter.   Gall hyn fod yn her ar adegau gan nad oes gan lawer o'r unigolion y gallu meddyliol i gyfrannu, fodd bynnag, gwneir ymdrechion i geisio cael barn aelodau o'r teulu neu eiriolaeth.   Er mwyn mynd i'r afael â'r her gyda chofnodi, bydd y Cydlynydd hefyd

yn ymchwilio cofnodion y 9 achos ac yn adrodd i'r Uwch Reolwyr a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru drwy'r Grŵp Darparu Ymarfer.

Bydd yr achosion archwilio yn rhoi gwybodaeth i ni am sut mae'r unigolion wedi eu cynnwys yn y broses a'r lefel boddhad gyda'r broses a'r canlyniad. Mae'r achosion archwilio yn cael eu dewis ar hap a gall hyn fod yn anodd ar adegau gan fod nifer o achosion heb gapasiti wedi cymryd rhan mewn archwiliad. Byddwn hefyd yn cysylltu â theuluoedd ac eiriolaeth am adborth pan fydd hyn yn briodol.

Plant a Phobl Ifanc – yn ystod eleni, cwblhaodd gwasanaethau plant a'r adran addysg adolygiad Vanguard ar y cyd o wasanaethau er mwyn nodi sut gellid gwella profiadau teuluoedd sy'n derbyn gwasanaethau. Fel rhan o'r gwaith hwn, treuliodd pob Uwch Reolwr, Pennaeth Gwasanaeth, Cyfarwyddwr Statudol ac arweinwyr cabinet amser gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd yn gwrando ar eu profiadau gyda'r bwriad o ddysgu o'r profiadau hynny. Yn anffodus, oherwydd COVID, nid yw'r dadansoddiad terfynol a'r broses gwneud penderfyniadau a gweithredu unrhyw newidiadau wedi bod yn bosibl, ond mae'n dal i fod yn flaenoriaeth.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam:

Oedolion: Mae holiaduron adborth ar gyfer holl atgyfeiriadau diogelu wedi eu datblygu ac wedi eu cynnwys ar gyfer ymarfer. Bydd adborth a dderbyniwyd gan unrhyw ddinesydd neu eiriolydd yn y broses Diogelu Oedolion yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo i ddatblygu'r gwasanaeth a chanlyniadau a rannwyd gydag asiantaethau amlasiantaeth mewn Setiau Dysgu Ymarfer Diogelu Oedolion a drefnir yn fisol, drwy'r flwyddyn. Ar ôl cytuno ar gynnwys y templed, bydd yr holiaduron adborth ar gael i aelodau'r cyhoedd naill ai drwy ddychwelyd yn y post neu gyflwyno ffurflen ar-lein drwy dudalen gwe allanol CBSW.

Plant a Phobl Ifanc - Llwyddodd dau Unigolyn sy'n Gadael Gofal i gwblhau'r hyfforddiant Technegau Cyfweld ar 30 Hydref. Mae dau o'n bobl ifanc wedi cofrestru fel arolygwyr ifanc, a byddant yn mynychu cwrs preswyl i gwblhau'r achrediad ym mis Chwefror 2020. Bydd arolygwyr ifanc yn ymweld ag Awdurdodau Lleol ar draws Cymru sy'n gwneud cais i dderbyn Marc Barcud yn erbyn y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol.

30 mlynedd o ddathliadau CCUHP - Mynychodd Is-gadeirydd y Cyngor Plant a Phobl Ifanc ddigwyddiad i ddathlu 30 mlynedd o'r CCUHP yng Nghymru. Roedd y digwyddiad a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd yn nodi 30 mlynedd ers creu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Roedd y digwyddiad yn cydnabod siwrnai'r CCUHP yng Nghymru hyd yma, ac yn ystyried yr hyn sydd angen ei gyflawni yn y dyfodol.

Mae dau unigolyn ifanc wedi gweithio ar ddatblygu sesiwn hyfforddiant gofal maeth dan y teitl 'Pe baech yn fy esgidiau i'. Cafodd yr hyfforddiant awr a hanner ei ddarparu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2019 ac mae un person ifanc wedi cymryd rhan mewn cyfweliad ar gyfer swyddi o fewn gofal cymdeithasol plant.

Ar 18 Chwefror 2020, fe wnaeth wyth o bobl ifanc fynd i wylio'r Addewid yn cael ei arwyddo yn Neuadd y Dref. Mae'r addewid yn nodi ymrwymiad gan Gyngor Bwrdeistref

Sirol Wrecsam i fod yn rhieni da i blant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal neu bobl sy’n gadael gofal yr awdurdod lleol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

Oedolion: Mae’r Isadran MHLD, mewn partneriaeth â Diogelu Corfforaethol wedi cyd-gynhyrchu polisi dan arweiniad defnyddwyr gwasanaeth sy’n cynnig arweiniad i staff a chleifion pan gaiff unigolyn ei dderbyn ar ward Iechyd Meddwl mewn perthynas â diogelwch rhyw. Cynhaliwyd sesiynau ymgynghori ar draws Gogledd Cymru rhwng staff Betsi Cadwaladr, asiantaethau partner, asiantaethau trydydd sector a defnyddwyr gwasanaeth. Mae hyn wedi ei gyflwyno bellach am gymeradwyaeth derfynol.

Mae ymgysylltu Rhanddeiliaid HASCAS gyda Diogelu Corfforaethol wedi parhau’n llwyddiannus drwy 2019/2020 i sicrhau tryloywder a gweithio mewn partneriaeth go iawn; mae hyn wedi cynnwys presenoldeb rhanddeiliad mewn hyfforddiant Diogelu yn ystod 2019.

Drwy gydol 2019/2020, mae Diogelu Corfforaethol wedi parhau i hyrwyddo’r angen i sicrhau fod Oedolion Mewn Perygl, eu teuluoedd ac/ neu eiriolwyr yn cymryd rhan lawn yn y broses ddiogelu ar draws Betsi Cadwaladr ac yr ymgynghorir arnynt ar ôl pob gweithgaredd priodol.

Fel gwasanaeth, mae Diogelu Corfforaethol yn cymryd rhan mewn trafodaethau ystyrlon ynghylch ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth o fewn y sefydliad ac yn benodol i weithgaredd diogelu, ond yn cydnabod hwn fel maes datblygu.

Plant a Phobl Ifanc – Prosiect Rhannu Straeon. Nod y prosiect mewn cydweithrediad â SARC oedd hysbysu plant a phobl ifanc am y broses System Cyfiawnder Troseddol i gefnogi adferiad goroeswyr ifanc drwy roi llwyfan cadarnhaol a chyfle iddynt ailfframio eu trawma, cynyddu ei gwytnwch a lleihau eu hunigedd.

Mae’r prosiect wedi cael ei ddatblygu o’r gwaith a gyflawnwyd yng ngrŵp merched ifanc SARC a gydlynwyd gan Gynghorydd Trais Rhywiol Plant a Phobl Ifanc (CYPSVA). Roedd y grŵp wedi datblygu llyfryn yn seiliedig ar eu profiadau a siwrneiau, ffilm a phodlediad. Cafodd y prosiect ei enwebu yng Ngwobrau Cenedlaethol Crime Beats, ac fe enillodd y Wobr Pobl Ifanc.

Roedd CYPSVA yn llwyddiannus wrth gyflawni cyllid drwy PACT (Heddlu a Chymunedau Gyda’i Gilydd) i brynu Wig a Gŵn fel y gwisgir gan farnwyr a bargyfreithwyr mewn llys. Nod hyn yw gwneud plant a phobl ifanc yn gyfarwydd â’r math hyn o ddillad, gan egluro gweithdrefnau a pham y gwisgir hwy. Yna, gall y plentyn eu gwisgo nhw, neu gall aelod o’r teulu neu CYPSVA eu rhoi ymlaen, ac mae hyn wedi helpu i wneud y profiad yn llai dychrynllyd i blentyn yn ystod achos llys, a helpu i leihau pryder cyffredinol o amgylch y profiad yn y llys.

Heddlu Gogledd Cymru:

Oedolion: Mae Heddlu Gogledd Cymru yn rhedeg nifer o arolygon gwahanol gyda dioddefwyr trosedd er mwyn deall ein darpariaeth gwasanaeth. Fodd bynnag, mae

cynnal y rhain gyda dioddefwyr agored i niwed yn anodd ac yn broses sensitif iawn. Mae gennym dîm sydd yn cynnal arolygon gyda dioddefwyr Cam-drin Domestig, bydd rhai o'r dioddefwyr hynny'n Oedolion mewn Perygl. Rydym hefyd yn ceisio sefydlu grŵp goroeswyr ar gyfer dioddefwr Cam-drin Domestig er mwyn helpu i fwydo i mewn i arferion, hyfforddiant a pholisi.

Ar hyn o bryd, nid yw Heddlu Gogledd Cymru yn ymgysylltu gyda gofalwyr a theuluoedd fel mater o arfer. Fodd bynnag, mae gennym broses cwynion ac anfodlonrwydd, a'r diben yw dysgu o ymchwiliadau nad ydynt wedi bodloni gofynion y dioddefwyr a'u teuluoedd.

Plant a Phobl Ifanc - Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi lansio Comisiwn Ieuenctid er mwyn ymgynghori i gael safbwyntiau pobl ifanc am flaenoriaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Wrth ofyn cwestiwn i'n cydweithwyr sy'n gweithio yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, sefydlwyd grŵp gyda goroeswyr ifanc camdriniaeth rywiol i gael eu barn ar y ffordd y deliodd yr heddlu â'u hachos. Arweiniodd hyn at fewnwelediad gwerthfawr a'i ddatblygu drwy'r CYPSVA i mewn i lyfryn Rhannu Straeon Rhannu Cryfderau

Carchar EM a Gwasanaeth Prawf:

Oedolion, Plant a Phobl Ifanc - Mae'r Arolwg Defnyddiwr Gwasanaeth GPC a gynhelir yn flynyddol yn ceisio adborth i gael barn troseddwyr a dioddefwyr ac yn golygu newid o ganlyniad i adborth o'r fath. Cynnal dadansoddiad o ganlyniadau Arolwg Troseddwyr 2019 i ddeall anghenion y sawl yn ein gofal ac edrych am gyfleoedd arloesol i ychwanegu gwerth i ddefnyddwyr gwasanaeth.

## 12. Unrhyw wybodaeth neu addysg mae'r Bwrdd Diogelu wedi'i wasgaru, neu hyfforddiant y mae wedi ei argymell neu ei ddarparu;

Cafodd y wybodaeth ganlynol ei dosbarthu drwy weithdai, cynadleddau a drwy'r wefan:

Hyfforddiant Diogelu Sylfaenol Cymru Gyfan – Gorffennaf 2019

CVSC Conwy – targedwyd yn benodol at grwpiau gwirfoddol a chymunedol i godi ymwybyddiaeth o beth mae pawb angen ei wybod am ddiogelu.

Diogelu Oedolion – A126 Gweithdai Ymholiadau – Gorffennaf 2019

Cynhaliwyd 6 sesiwn ar draws y rhanbarth, yn amlygu ymholiadau A126 – Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn amlinellu newid diwylliant o ran ymholiad diogelu swyddogaethau A126, llai o ffocws ar yr ALl yn cael rôl ymchwilio – mae cyfrifoldebau yn canolbwyntio ar wneud yr unigolyn yn ddiogel, datblygu ein hymateb yn unol â dymuniadau'r oedolyn mewn perygl, cydlynu a gwneud ac/neu ddirprwyo ymholiadau, a sicrhau camau angenrheidiol i ddiogelu a chefnogi'r oedolyn yn cael eu cynnal.

## Digwyddiad Cymuned Ymarfer BDPGC a'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant – Prosiect Cadw'n Ddiogel – Medi 2019

Mae'r  prosiect 'Cadw'n Ddiogel?' yn astudiaeth tair blynedd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru drwy Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, ac yn cael ei gyflawni gan dîm o ymchwilwyr o Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, wedi ei arwain gan Dr Sophie Hallett. Nod yr astudiaeth hon oedd cynnal ymchwiliad gwreiddiol i ganlyniadau plant a phobl ifanc sydd wedi'u hasesu o fod 'mewn perygl' o gam-fanteisio'n rhywiol.

## Cadw Dysgwyr yn Ddiogel  - Medi/Hydref 2019

Roedd Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru wedi gwahodd Awdurdod Lleol / Ymarferwyr Addysg / Arweinwyr Diogelu Penodedig / Ysgolion Annibynnol / Llywodraethwyr Ysgol/Arweinwyr Diogelu mewn Colegau i'r gweithdy hwn i ystyried gofynion yn y canllawiau cadw dysgwyr yn ddiogel drafft.

## Hyfforddiant Diogelu Oedolion mewn Perygl ar gyfer Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon yng Nghymru – Hyd 2019

Ymddiriedolaeth Ann Craft – Dau ddigwyddiad hyfforddiant am ddim ar gyfer Cyrff Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon. Mae'r hyfforddiant hwn ar gyfer Swyddogion Diogelu Arweiniol, aelodau Bwrdd ac Uwch Staff Byrddau Llywodraethu Cenedlaethol chwaraeon Cymru.

## Lansio Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan – Tach 2019

Gweithdrefnau Diogelu Cymru
Wales Safeguarding Procedures



Yn lansio'r gweithdrefnau yng Ngogledd Cymru oedd Julie Morgan - Y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Lance Carver – Cadeirydd y Grŵp Prosiect gyda chyflwyniadau gan Alys Jones, Natasha James, Jan Howarth, Dr Witcombe-Hayes (Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant) a Steve Bartley yn cynrychioli Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

## Digwyddiad Dysgu Oedolyn Mewn Perygl – Rhagfyr 2019

Dros 50 o bobl wedi mynychu digwyddiad aml-asiantaeth/3ydd sector yn amlygu oedolyn mewn perygl a chyfrifoldebau a phrosesau diogelu. Roedd y defnydd o Eiriolwyr yn brif ffocws y digwyddiad hwn – Roedd Steve Batley o Swyddfa'r OPC yn bresennol i roi cyflwyniad.  Roedd y gweithdy hefyd yn cynnwys ansawdd adroddiadau diogelu, A.126 o'r gweithdrefnau diogelu a rolau asiantaethau o fewn y cam ymholiadau.

Fframwaith Dysgu Diogelu Amlasiantaeth 2020

Mae datblygiad pellach o fewn y maes hyfforddiant yn parhau, fel datblygu fframwaith dysgu diogelu amlasiantaeth (gobeithio y gellir gwneud hyn yn genedlaethol).

Sesiynau Hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Cymru – Ionawr – Mawrth 2020

Gweithdrefnau Diogelu Cymru Wales Safeguarding Procedures

Diben y Gweithdai Dysgu ac Ymwybyddiaeth hyn oedd: Deall y fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â'r Gweithdrefnau. Sut mae cysyniadau allweddol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn sail i'r Gweithdrefnau Diogelu newydd. Trosolwg o bob adran (yn egluro proses diogelu'r siwrnai). Amlygu'r prif newidiadau ymarfer.

Mae adnoddau ariannol sylweddol wedi eu defnyddio i ymestyn y sesiynau hyfforddiant sydd ar gael mewn perthynas â Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru, er mwyn agor sesiynau i'r 3ydd Sector a'r Sector Preifat, Staff Addysg ac Arolygwyr AGC, bydd mwy o adnoddau yn cael eu defnyddio i ddarparu fideos a gweminarau hyfforddiant pellach a deunydd ar-lein ychwanegol yn y 12 mis nesaf.

Hyfforddiant ar gyfer Sicrhau'r Dystiolaeth Orau ar gyfer 2020;

Gan adeiladu ar lwyddiant y rhaglen ranbarthol byddwn yn parhau i ddarparu'r dysgu hwn yn 2020 ynghyd â sesiwn gloywi JIT rhanbarthol. Bydd yr Is-grŵp Diogelu yn cynnal archwiliad rhanbarthol i fesur pa mor aml mae'r sawl sydd wedi derbyn hyfforddiant ABE yn cynnal cyfweliadau ABE.

Hyfforddiant Ymchwilio ar y Cyd (JIT):

Rydym yn adolygu'r rhaglen ddysgu JIT rhanbarthol ar hyn o bryd yn unol â chyhoeddi'r gweithdrefnau diogelu newydd. Yn 2020 byddwn yn datblygu a darparu rhaglen ddysgu JIT i oedolion.

Diogelu Cyd-destunol:

Roedd Dr Carlene Firmin yn bresennol fel sylfaenydd Diogelu Cyd-Destunol ac roedd yn amlinellu tri pheth i dros 50 o ymarferwyr oedd yn bresennol.

- Un: sut mae cyd-destun y tu hwnt i deuluoedd wedi'i gysylltu gyda cham-drin.
- Dau: sut mae systemau diogelu plant traddodiadol yn methu ymgysylltu â'r dynameg cyd-destunol hynny.
- Tri: yr elfennau o'r system Diogelu Cyd-Destunol fyddai'n ailddiffinio beth mae diogelu plant yn ei olygu.

Digwyddiadau Hyfforddiant Prosiect Gwella (Barnardo's) – Ion/Chwef 2020

Gwella – gweithio gyda phlant sydd wedi profi trawma datblygiadol (cwrs hyfforddiant undydd am ddim).

Cynhadledd Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Oedolion – Chwef 2020

Cynhadledd Genedlaethol agored i bartneriaid diogelu, sefydliadau ac ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion mewn perygl yng Nghymru.

Gweithdai Dysgu ar gyfer Gofal Oedolion – Chwef 2020

Gweithdai Dysgu ar gyfer Gofal Oedolion/Rheolwyr Cartrefi Nyrsio/Unigolion Cyfrifol a Rheolwyr Gofal Cartref ar y Gweithdrefnau Diogelu Oedolion Cymru Gyfan newydd.

Digwyddiad Cymuned Ymarfer Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru a'r Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant – Chwef 2020

Ymchwil ynglŷn ag arfau asesu risg a'r defnydd o arfau o'r fath wrth ymarfer.

Adnabod achosion o Gam-drin Plant yn Rhywiol a chodi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol allweddol i nodi ac ymateb i hynny. Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu am y rhaglen LEADS ac ymarferoldeb darparu hon yng Nghymru fel rhaglen ranbarthol.


Darganfyddiadau o'r ymchwil diweddar am gofnodion Awdurdodau Lleol yng Nghymru ynglŷn â chasglu data am Gam-drin Plant yn Rhywiol: Datgelu faint o achosion o gam-drin plant yn rhywiol sydd mewn cofnodion gofal cymdeithasol.

Rôl y Ganolfan Cam-drin Plant yn Rhywiol o safbwynt darparu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar Gam-drin Plant yn Rhywiol.

Gweithdrefnau Diogelu Cymru:

Mae Llwybrau Newydd dan gontract gan Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu deunyddiau dysgu cyfunol er mwyn darparu gweithdy hyfforddi'r hyfforddwr. Mae hwn yn bennaf ar gyfer hyfforddwyr dan gontract i ddarparu'r hyfforddiant cyntaf ar draws Gogledd Cymru. Mae aelodau Is-grŵp Diogelu wedi bod yn bresennol mewn un cyfarfod yn unig a gynhaliwyd er mwyn asesu ansawdd y deunydd dysgu. Ar hyn o bryd mae hyn wedi'i ohirio oherwydd y pandemig Covid-19.

### Dysgu o Adolygiadau Ymarfer:




Dysgu o APR/CPR/DHR ac adolygiadau eraill ar draws y DU yn cael eu rhannu'n rheolaidd ac amlygir drwy'r rhanbarth drwy'r Grwpiau Darparu Adolygu Ymarfer a Diogelu a gweithdai. Mae gwaith yn parhau gyda'r Grŵp Datblygu a Hyfforddi'r Gweithlu i ddarparu dulliau ar gyfer rhannu ac ymgorffori'r dysgu o'r rhain.

## 13. Sut mae'r Bwrdd Diogelu wedi gweithredu unrhyw ganllaw neu gyngor a roddir gan Weinidogion Cymru neu'r Bwrdd Cenedlaethol;

### Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed – eglurder gan Lywodraeth Cymru

Cyd-destun – Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 nawr wedi disodli gweithdrefnau POVA ac o ganlyniad mae'r fframwaith cyfreithiol a'r terminoleg wedi newid ac maent wedi dyddio. Byddant yn cael eu disodli gan Weithdrefnau Diogelu Cymru, a ddatblygir gan Fwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro ar hyn o bryd, ar ran holl Fyrddau Diogelu yng Nghymru'.

Cafodd partneriaid perthnasol eu hatgoffa am ddyletswyddau Deddf 2014 a bod yn rhaid iddynt roi sylw i ganllawiau statudol cysylltiedig o dan rhan 7 Deddf 2014, yn arbennig Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cyfrol 6 – Ymdrin ag achosion Unigol i amddiffyn oedolion mewn perygl

Mae hyfforddiant Gweithdrefnau Diogelu Cymru wedi'i gynnal sy'n ailgadarnhau'r negeseuon yn Rhifyn 6 – Ymdrin ag achosion unigol i amddiffyn oedolion mewn perygl ac mae holl ddogfennaeth berthnasol wedi'i diweddaru i adlewyrchu unrhyw gyfeiriad at POVA yn cael ei dynnu allan.

### Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol – Adroddiad Blynyddol

Mae adborth gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol fel y manylwyd yn eu Hadroddiad Blynyddol diwethaf, mewn perthynas â gwybodaeth yn Adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Diogelu wedi'i nodi a gobeithio wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiad hwn.

## 14. Materion eraill yn berthnasol i waith y Byrddau Diogelu:

Roedd y themâu/materion canlynol wedi eu nodi yn Adroddiadau Blynyddol Asiantaeth Bartner a gyflwynwyd i'r Bwrdd ar gyfer 2019/20:

## System WCCIS:

Mae cyflwyno'r system WCCIS fesul cam wedi achosi problemau ar draws y rhanbarth o ran casglu data ers cyflwyno'r system hon, mae hyn wedi bod yn anghyson a phroblemus.

Mae amryw o gynrychiolwyr o bob asiantaeth yn ymgysylltu â'r grŵp prosiect ar hyn o bryd i ddatblygu'r templedi diogelu oedolion ar gyfer y system i gynorthwyo i sicrhau cysondeb ar draws Cymru. Gobeithio unwaith y bydd y templedi i gyd mewn lle y gellir casglu data yn gyson fydd yn caniatáu ar gyfer dadansoddi gwell.

Fodd bynnag, nid oes eglurder ar hyn o bryd o ran pryd fydd pob asiantaeth, gan gynnwys Iechyd yn mudo ar y system, ac mae hyn yn creu rhai problemau o ran cynnal sicrwydd ansawdd a chasglu data yn y dyfodol.

## Adolygiad Diogelu Unedig Sengl:

Mae gwaith wedi dechrau ynglŷn â chynigion o amgylch SUSR. Y nod yw alinio'r broses DHR/APR/CPR ac adolygiadau eraill, i gael un broses tebyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer APR/CPR. Mae ymchwil wedi dangos yn achos DHR, bu achosion o fwy na 5 adolygiad cydamserol yn cael eu cynnal ar yr un achos – felly yn creu dyblygu.

Mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru yn cyfrannu at y gwaith a ymgymerir i alinio'r broses hon a sut, yn y dyfodol, y bydd adolygiadau a gwblhawyd a dysgu ar gael i bawb.

## Adolygiad Partneriaeth Strategol:

Mae Byrddau Diogelu Gogledd Cymru wedi bod yn cyfrannu at yr adolygiad partneriaeth, sy'n anelu i ddod â holl flaenoriaethau strategol sy'n ymwneud â diogelu o dan un ymbarél, felly yn sicrhau bod dyblygu gwaith yn cael ei osgoi ac yn cynnwys arbenigedd a gwybodaeth o bob asiantaeth. Gobeithio y bydd hyn yn cynorthwyo i gyflawni'r blaenoriaethau cyfunol yn effeithiol.

Rhagwelir y bydd creu Grŵp Partneriaeth Diogelu Gogledd Cymru yn darparu'r goruchwyliaeth a llywodraethu ar gyfer llai o fyrddau i weithio'n effeithiol ac mewn partneriaeth â'i gilydd i sicrhau bod diogelwch dinasyddion Gogledd Cymru yn parhau'n flaenoriaeth.

## Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid

Roedd pob asiantaeth yn nodi trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn faes pryder ar gyfer eu sefydliadau ac yn amlygu y gall gweithredu Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru hefyd gael effaith mawr.

O dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019, bydd trefniadau diogelu rhag colli rhyddid yn cael eu disodli gan Drefniadau Diogelu Rhyddid. Ni fydd trefniadau diogelu rhyddid yn dod i rym ar 1 Hydref 2020, ond yn hytrach yn Ebrill 2022. Bydd y

Llywodraeth yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y rheoliadau draft a'r Cod Ymarfer ar gyfer Trefniadau Diogelu Rhyddid a gynhelir am 12 wythnos.

Asesu Gallu Meddyliol: O fewn BIPBC, mae Tîm DoLS Diogelu Corfforaethol wedi bod yn gweithio gydag aelodau'r Grŵp Strategaeth Cydsyniad a Chapasiti i ddatblygu asesiad gallu meddyliol a ystyrir yn 'safon aur'.

## 15. Enghreifftiau o Arferion Da wedi'u halinio i Flaenoriaethau BDGC:

Blaenoriaeth Strategaeth ar y Cyd: 1c. Datblygu Darpariaeth Gwasanaeth i Ddioddefwyr – Cryfhau trefniadau diogelu yn erbyn ecsbloetio oedolion/plant drwy amddiffyn dioddefwyr rhag rhagor o erledigaeth ac amddiffyn y rhai a allai fod yn agored i gael eu hecsbloetio:

Roedd M yn ddynes 71 oed o Kenya a oedd wedi cael ei masnachu i'r DU ac yn destun cam-fanteisio ariannol ac efallai rhywiol. Roedd hi wedi bod yn byw mewn eiddo oedd bron yn adfail, ac nid oedd gwasanaethau'n ymwybodol ohoni'n flaenorol. Roedd landlord yr eiddo wedi ffonio'r heddlu ac wedi dweud bod angen symud M o'r eiddo gan ei bod wedi bod yn tresmasu mewn tŷ lle'r oedd y to'n anniogel. Symudwyd hi gan yr heddlu ac aethpwyd â hi i'r swyddfa dai leol.

Nodwyd mewn sgriniad cychwynnol gan yr adran tai nad oedd hi'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cefnogaeth tai oherwydd ei statws mewnfudo a'r diffyg eglurder ynghylch ei statws. Cyfeiriodd Tai at y gwasanaethau cymdeithasol a dderbyniodd gyfrifoldeb dan SSWBA. Dangosodd asesiad ar M bod ganddi anghenion gofal a chymorth a chafodd ei dyrannu i'r tîm Oedolion mewn Perygl.

Trefnwyd llety i M mewn llety lleol dros gyfnod y Nadolig, wedi'i ariannu ar y cyd gan yr adran gofal cymdeithasol a thai. Cefnogwyd M i gael ffon gerdded ac i fynd i'r eglwys ar ddiwrnod Nadolig, a rhoddwyd parseli bwyd iddi ac aeth gweithiwr cefnogi Oedolion mewn Perygl â hi i siopa bwyd. Cafwyd cyswllt gan yr adran Tai dros y Nadolig.

Ddechrau mis Ionawr, aethpwyd â M am asesiad yn BAWSO, ble y cwrddodd hi â gweithiwr a oedd yn gallu cyfathrebu yn Swahili. Trefnodd BAWSO fod M yn symud i loches, a dyna y gwnaeth bythefnos yn ddiweddarach. Roedd M wrth ei bodd i fedru siarad yn ei iaith ei hun, ac roedd yn arbennig o falch fod pryd o Kenya wedi cael ei gynnig iddi. Cefnogwyd M i roi eglurhad dros ei statws cyfreithiol a chael y gwaith papur cywir. Yn ystod ei hasesiad, datgelodd M gamdriniaeth rywiol a cham-fanteisio rhywiol a chyfeiriwyd ei hachos at dîm arbenigol yr heddlu am gefnogaeth ac ymchwiliad pellach.

Mae M yn parhau i gael ei chefnogi a chafodd ei hachos ei arddangos fel enghraifft o ymarfer rhyngasiantaethol ardderchog yn y MARAC Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Mewn Pobl Rhanbarthol.

## Blaenoriaeth Gyffredin Strategol 2: Cam-drin Domestig

Cefndir: Mae'r person ifanc yn 14 oed ac wedi cael eu cofrestru ar ddau achlysur blaenorol oherwydd defnydd ei rhieni o alcohol a thrais yn y cartref.

Roedd gan Awdurdodau Lleol bryderon fod Plentyn A yn cael ei hecsbloetio'n rhywiol oherwydd yr adroddwyd ei bod yn cysylltu â dynion hŷn annymunol. Roedd Plentyn A mewn hwyliau isel ac yn arddangos arwyddion o hunan niweidio ac roedd yn defnyddio alcohol a chyffuriau yr oedd y dynion annymunol hyn yn eu rhoi iddi.

Ar adeg y Gynhadledd Diogelu Plant Cychwynnol ym mis Mehefin 2019, aseswyd fod plentyn A yn cael ei ecsbloetio ac yn dioddef esgeulustra oherwydd sawl ffactor:

- Ar goll o'i chartref yn aml
- Rhieni ddim yn gwneud adroddiadau
- Cael ei darganfod mewn awdurdodau cyfagos gyda dynion annymunol
- Dwyn o siopau
- Defnyddio cyffuriau ac alcohol
- Ddim yn mynd i'r ysgol
- Hunan-barch isel
- Rhieni wedi gwahanu ond yn dal i fyw gyda'i gilydd, gan beri dryswch i'r plentyn.
- Pryderon bod ganddi anawsterau cymdeithasu a chyfathrebu

Ymyrraeth: roedd y cynllun diogelu gofal a chymorth yn dweud bod angen i rieni Plentyn A ymgysylltu â'r rhaglen Lucy Faithful er mwyn cynorthwyo â gweithrediad effeithiol y cynllun diogelu. Ymgysylltodd Plentyn â'i Weithiwr Cymdeithasol yn ogystal a mynychu'r prosiect Arfwisg a oedd yn rhoi llwybrau diogel iddi.  Roedd ymyrraeth amlasiantaeth yn cynnwys yr adran addysg a oedd yn darparu addysg wedi'i theilwra'n arbennig, y tîm Onyx yn ogystal a CAMHS a oedd yn ei helpu i reoli ei dealltwriaeth emosiynol a chymdeithasol a'i hanawsterau cyfathrebu.

Ar y dechrau arweiniodd y cynllun gofal a chymorth at ostyngiad dramatig mewn achosion o Blentyn A yn mynd ar goll o'i chartref; fodd bynnag daeth i'r amlwg wedyn nad oedd ei rhieni'n rhoi gwybod am yr achosion hyn nac yn cydymffurfio a'r cynllun diogelu. Roedd Plentyn A felly mewn mwy o berygl byth o gael ei hecsbloetio'n rhywiol ac yn droseddol. Dechreuodd mam Plentyn A ddeall yn well y lefelau o risg cysylltiedig â'i merch a daeth yn fwy gwyliadwrus o ran sicrhau ei bod yn gwybod lle oedd ei merch gan ymgysylltu a'r Tim Ymyrraeth Teuluoedd.

Roedd y berthynas rhwng Plentyn A a'i rhieni yn wael i ddechrau ac roedd y cyfathrebu rhyngddynt yn gyfyngedig ac yn aneffeithiol. Parhaodd y Gweithiwr Ymyrraeth Teuluoedd i ddarparu ymyrraeth uniongyrchol, gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol hefyd yn meithrin perthynas o ffydd gyda Phlentyn A. Cafodd Plentyn A ddiagnosis o Syndrom Asperger yn ddiweddarach, ail-ffocysodd CAMHS eu gwaith a rhoddwyd cyngor am ddulliau o gyfathrebu. Dechreuodd perthynas y fam a'r ferch wella gyda'r ddwy yn treulio mwy o amser yng nghwmni ei gilydd. Llwyddodd mam Plentyn A a'r gweithwyr proffesiynol i'w hysgogi i ddatblygu diddordebau newydd diogel a'i dysgu i adnabod perthynas ddiogel ac anniogel.

Canlyniad: Ar ôl wyth mis o'r ymyrraeth gywir o dan gynllun diogelu gofal a chymorth roedd tystiolaeth bod y risgiau o escbloetiaeth a ddynodwyd wedi lleihau. Roedd Plentyn A yn gallu cyfleu ei theimladau'n well ac aeth yn ôl i addysg llawn amser heb unrhyw adroddiadau pellach ei bod wedi mynd ar goll o'i chartref.

Mae Plentyn A wedi ffurfio dau gyfeillgarwch diogel ac mae'r berthynas rhyngddi hi a'i mam wedi gwella'n sylweddol. Mae'r Awdurdod Lleol yn dal yn ymwneud â Phlentyn A ond mae hyn dan gynllun gofal a chymorth.

Cydflaenoriaeth 2 Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau o VAWDASV ar draws Gogledd Cymru:

Cefndir: Roedd y Tîm Diogelu Oedolion wedi derbyn cysylltiad gan y tîm AMPH ynglŷn ag unigolyn oedd â phryderon diogelu. Roedd y wraig hon yn eithaf sâl ac roedd ei phartner yn atal mynediad i'r cartref ac at yr unigolyn. Er mwyn diogelu, roedd y Tîm Diogelu yn gallu gwneud cais a chyflwyno APSO, cael mynediad at yr unigolyn a chafodd ei derbyn yn yr ysbyty o dan Adran 2 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Ymyrraeth: Roedd gwaith partneriaeth rhwng y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol a'r Tîm Diogelu Oedolion, gydag arweiniad clir wedi'i seilio gan yr SSWBA, wedi arwain at y wraig fregus hon yn derbyn cefnogaeth yr oedd ei hangen a mynd i'r ysbyty.

Canlyniad: Wrth i'r Prosesau Diogelu ddod i ben, roedd y tîm yn ymwybodol nad oedd yr oedolyn agored i niwed bellach yn y berthynas gamdriniol hon.

Roedd yr APSO hefyd wedi helpu i ddatblygu hyder y Tîm Diogelu Oedolion, gan eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan wybod bod y broses APSO wedi'i defnyddio'n ddefnyddiol i ddarparu canlyniadau gwell i ddinasyddion.

Blaenoriaeth Strategaeth ar y Cyd: 2c. Cynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion am berthnasau diogel, cyfartal ac iach

Mae'n brin iawn i Oedolyn atgyfeirio ei hun o dan y Gweithdrefnau Diogelu ond roedd hwn yn achos diweddar. Derbyniwyd adroddiad gan ddyn oedd yn hawlio ei fod wedi'i drin yn ormesol gan ei chwaer oedd yn byw yn y dref. Roedd yn ddyn medrus iawn gyda gallu llawn i wneud pob penderfyniad o ran ei brydles a materion ariannol ond roedd ei chwaer yn mynnu gwneud pob penderfyniad bach a mawr ar ei ran ym mhob agwedd o'i fywyd.

Atgyfeiriodd ei hun i'r Uned Ddiogelu ac ar ôl cwblhau'r ymholiad cychwynnol – oedd wedi profi bod yr adroddiad yn briodol a bod y dyn angen ei ddiogelu rhag camdriniaeth emosiynol a seicolegol ei chwaer – cafodd yr achos ei atgyfeirio i weithiwr cymdeithasol o fewn yr ardal ble roedd yn byw. Roedd yn rhaid cymryd camau sensitif a gofalus, er mwyn gweithio'n gyfrinachol oherwydd nad oedd yn dymuno i'w chwaer wybod am y Tîm Diogelu. Er nad oedd y brawd a'r chwaer yn byw gyda'i gilydd, un o ddymuniadau'r brawd oedd symud i dref arall cyfagos. Roedd yn teimlo y byddai cael pellter rhyngddynt yn ei wneud ychydig yn fwy anodd i'w chwaer ei "reoli" i'r fath raddau.

Roedd yna ganlyniad cadarnhaol yn yr achos hwn gan y canfuwyd fflat addas i'r gŵr. Mae nawr yn byw'n annibynnol ac yn gallu byw bywyd llawnach, hapusach a chyfrannu unwaith eto i'r gymdeithas.

Er gwaethaf y problemau a achoswyd gan y chwaer yn ymwybodol o ddymuniadau ei brawd, deellir y bu cymodi a bellach mae yna "berthynas" wahanol, iachach rhwng y ddau erbyn hyn.

Blaenoriaeth Strategol 3: Gwella ymwybyddiaeth a chydymffurfedd â'r broses Oedolion mewn Perygl (Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru)

Cefndir: Mynegodd darparwr gofal preswyl bryderon mewnol am aelod o staff tuag at Oedolyn mewn Perygl oedd mewn gofal preswyl. Daethpwyd o hyd i ffilm oedd yn awgrymu bod y preswylydd wedi dioddef ymosodiad a chamdriniaeth gan yr aelod o staff, o ganlyniad i ddulliau adrodd mewnol a defnydd o deledu cylch cyfyng mewnol.

Ymyrraeth: Fe wnaeth y sefydliad gofal wahardd yr aelod staff yn syth, casglu unrhyw dystiolaeth a gweithio gyda'r awdurdodau.

Fe wnaeth archwiliad pellach o'r cylch teledu cyfyng ddangos digwyddiadau honedig eraill gan ddatgelu ail aelod o staff yn ymddwyn mewn dull camdriniol honedig tuag at yr un preswylydd, a nifer o staff eraill yn methu cymryd y cyfle i weithredu.

Derbyniwyd adroddiad pellach o safbwynt honiadau bod dau ofalwr wedi cam-drin yr un Oedolyn mewn Perygl yn gyhoeddus, y tu allan i siop. Roedd gwaith partneriaeth da, ac ymgysylltu gyda Gwasanaethau Heddlu Lleol, wedi arwain at fwy o dystiolaeth oddi ar Deledu Cylch Cyfyng.

Canlyniad: Mae ymchwiliad ar y cyd gan yr heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion, BIPBC, Arolygiaeth Gofal Cymru, Eiriolwr annibynnol ac arbenigwr ymddygiad wedi golygu pump diswyddiad, dau rybudd ysgrifenedig terfynol a dau ymyrraeth rheoli ffurfiol.

Mae dau aelod o staff hefyd wedi eu cyhuddo o gamdrin / esgeuluso'n fwriadol ac yn wynebu achos troseddol.

Mae lles y preswylydd bellach yn gwella'n sylweddol.

Blaenoriaeth Strategol 3b: Dymuniadau a theimladau'r unigolyn yn amlwg trwy gydol y Broses Ddiogelu:

Cefndir: Dinesydd 32 oed yn byw yn y gymuned, mynegwyd pryderon gan y tîm camddefnyddio sylweddau yn ymwneud â chyhuddiad o gam-drin rhywiol gan ffrind neu ddyn anhysbys. Roedd hefyd honiad hanesyddol o gam-drin rhywiol, corfforol ac emosiynol yn ymwneud â chyn-bartner. Nid oedd yr oedolyn eisiau rhoi gwybod am yr achosion hyn i'r heddlu, ystyriwyd fod ganddi allu ar adeg gwneud y datgeliad hwn. Serch hynny, mae cydnabyddiaeth gan y gweithwyr proffesiynol dan sylw y byddai gallu A yn amrywio ar adegau oherwydd lefel ei meddwdod.

Roedd ffactorau risg ychwanegol yn ymwneud ag eraill e.e. aelodau o'r teulu ac eraill y gellir eu hystyried yn 'oedolion mewn perygl'. Gweithredwyd mesurau Diogelu ar gyfer y dioddefwr honedig, aelodau eraill y teulu a'r pryderon diogelu ehangach. Ni ymgynghorwyd â'r unigolyn ynglŷn â rhoi gwybod am y cyhuddiad hwn, felly nid oedd cydsyniad â'r adroddiad diogelu ac nid oedd yr ymholiadau adran 126 wedi eu harchwilio gan yr Adroddwr. Cynhaliwyd trafodaethau pellach gan yr Adroddwr gyda'r unigolyn i ystyried pa gamau fyddai'n eu dymuno, roedd yr unigolyn yn cytuno y byddai cefnogaeth ychwanegol ynglŷn â diogelu gan eiriolwr annibynnol yn ei galluogi i gael llais drwy'r broses hon.

Ymyriadau: Dechreuodd proses ddiogelu gydag ymholiadau Adran 126 i benderfynu a oedd y dinesydd yn oedolyn mewn perygl, yn profi neu mewn perygl o gamdriniaeth ac o ganlyniad yn methu diogelu ei hun yn erbyn camdriniaeth. Roedd Ymarferydd Arweiniol yn sefydlu gallu'r unigolyn i gefnogi ei dymuniadau a'i barn ar y camau a ddymunir ganddi.  Roedd yr unigolyn yn gallu mynegi pa gamau a ddymunir ganddi e.e. canlyniadau personol.

Mae'r ymholiadau hyn yn cynnwys nifer o asiantaethau e.e. Yr Heddlu, BIPBC, timau IMC, Gwasanaethau Plant, Eiriolaeth (CADMAS). Casgliad yr ymholiadau oedd bod achos rhesymol i amau bod yr unigolyn hwn yn oedolyn mewn perygl. Cytunodd y gweithwyr proffesiynol bod yr wybodaeth yn cefnogi'r farn bod yr unigolyn mewn perygl o niwed pellach, roedd yr unigolyn wedi cydsynio i weithredu'r broses ddiogelu i adolygu strategaethau diogelu ac felly lleihau perygl o niwed pellach.

Roedd ymdrechion pellach gan yr Heddlu i gefnogi'r oedolyn i wneud cwyn i ganiatáu sefydlu ymchwiliad troseddol, ond gwrthododd yr unigolyn i gwyno. Cyflwynwyd nifer o atgyfeiriadau amddiffyn plant i sicrhau fod unrhyw gwynion diogelu ehangach yn cael eu harchwilio'n llawn gan yr asiantaeth briodol. Cefnogodd yr eiriolwr yr unigolyn drwy gydol y broses a galluogi ei barn a'i dymuniadau i fod wrth galon y broses ddiogelu hon.

Canlyniad: Roedd y camau a gymerwyd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, roedd yna ddealltwriaeth glir o'r canlyniadau personol yr oedd yr oedolyn yn dymuno eu cyflawni. Roedd ei chanlyniadau wrth galon y system i gefnogi dod o hyd i'r datrysiad cywir.  Yn anffodus, roedd yr unigolyn wedi ymddieithrio o'r broses ac ni chyflawnwyd y cynllun amddiffyn oedolion, dywedodd yr unigolyn ei bod yn gallu cadw ei hun yn ddiogel ac nad oedd angen y gefnogaeth gan y gweithwyr proffesiynol.

Blaenoriaeth Strategol: 4b. Bod pob disgybl oedran ysgol yn cael eu haddysgu mewn amgylchedd lle gallant ffynnu a chael eu cadw'n ddiogel:

Cefndir: Mae B yn fachgen 13 oed sydd wedi derbyn diagnosis ADHD, anabledd dysgu ac anawsterau lleferydd ac iaith  Roedd yn derbyn gofal gan ei deulu mamol ers yn 3 oed (o dan orchymyn gwarchodaeth arbennig).  Nid oedd ei rieni biolegol yn gallu gofalu amdano oherwydd effaith camddefnyddio cyffuriau ac alcohol.

Roedd gweithgaredd gwybyddol B, ADHD ac anawsterau cyfathrebu sylweddol yn effeithio ar ei allu i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda chyfoedion.  Roedd wedi cael profiad o fwlio drwy gydol ei blentyndod ac yn ceisio cael ei dderbyn gan ei gyfoedion.  Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yna bryder cynyddol am B yn dianc ac yn

mynd ar goll o'i gartref am gyfnodau. Dechreuodd B ysmygu ac arbrofi gyda sylweddau, ac roedd mewn perygl o gamfanteisio troseddol drwy linellau cyffuriau. Er gwaethaf eu hymdrechion nid oedd y teulu yn gallu diogelu B rhag niwed. Dechreuwyd Gweithdrefnau Amddiffyn Plant.

Ymyrraeth: Darparwyd cefnogaeth gychwynnol gan y Tîm o Amgylch y Teulu. Yn 2019 cafodd y person ifanc ei atgyfeirio i'r Gwasanaeth Plant Arbenigol. Wrth gydnabod ei anghenion ychwanegol, penderfynwyd ei bod yn well asesu ei anghenion gofal a chefnogaeth.

Penderfyniad y Gynhadledd Achos Amddiffyn Plant oedd bod y person ifanc mewn perygl o niwed sylweddol a bod angen cynllun amddiffyn plant aml-asiantaeth. Roedd y cynllun amddiffyn plant yn cynnwys ymagwedd gydgysylltiedig gydag asiantaethau'n gweithio'n agos gyda'r person ifanc a'i deulu:

- Ymyrraeth seicolegol i gefnogi'r person ifanc o amgylch hunaniaeth, bwlio a pherthynas ddiogel gyda chyfoedion.
- Canfuwyd lleoliad addysgol priodol ble gellir gwireddu ei ddeilliannau addysgol,
- Mynediad i 'Be di'r Sgôr' (sesiynau atal cyffuriau) wedi'i sicrhau.
- Penodwyd Gweithwyr Cefnogi i weithio gyda B i ddatblygu ei weithgareddau hamdden a chymdeithasol.
- Darparu gwasanaeth ar alwad y tu allan i oriau fel y gallai ddychwelyd gartref o'r gorsafoedd heddlu ar ôl cyfnodau o ddianc.
- Roedd CAMHS wedi darparu cefnogaeth rhianta i'r teulu ac asesiad parhaus o anghenion y person ifanc.

Canlyniad: Symudodd y teulu i ardal arall a chwblhawyd trosglwyddiad cadarn gyda gwasanaethau'n gorgyffwrdd i sicrhau trosglwyddiad llyfn i'r person ifanc. Roedd y Cynllun Diogelwch yn ei gadw'n ddiogel. Gwrandawyd arno a'i gefnogi i ddeall bod bwlio yn anghywir. Derbyniodd gymorth i wneud synnwyr o'r cyfnodau y bu ar goll yn y gorffennol. Roedd siart wobrwyo gyda lluniau wedi'i gweithredu ac roedd yn llwyddiannus i leihau'r cyfnodau y bu ar goll.

# GEIRFA:

| | |
|---|---|
| **ADD** | Adolygiad Dynladdiad Domestig |
| **ADIM** | Anableddau Dysgu Iechyd Meddwl |
| **ALl** | Awdurdod Lleol |
| **AYO** | Adolygiad Ymarfer Oedolion |
| **AYOE** | Adolygiad o Ymarfer Oedolion Estynedig |
| **AYP** | Adolygiad Ymarfer Plant |
| **AYPE** | Adolygiad o Ymarfer Plant Estynedig |
| **BDAC** | Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol |
| **BIPBC** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **BLlDP** | Bwrdd Lleol Diogelu Plant |
| **BDGC** | Byrddau Diogelu Gogledd Cymru |
| **BDOGC** | Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru |
| **BDPGC** | Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru |
| **CAC** | Cwmni Adsefydlu Cymunedol |
| **CAMHS** | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc |
| **CAMPUS** | Penodol, Mesuradwy, Cyflawnadwy, Realistig, Amserol |
| **CBSC** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **CBSW** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| **CCH** | Comisiynydd Cwynion yr Heddlu |
| **CG** | Cyngor Gwynedd |
| **CRhB** | Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant |
| **CSDd** | Cyngor Sir Ddinbych |
| **CSFf** | Cyngor Sir y Fflint |
| **CSYM** | Cyngor Sir Ynys Môn |
| **DPA** | Dangosydd Perfformiad Allweddol |
| **DGCLl** | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| **DoLS** | Trefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid |
| **GAPCG** | Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan |
| **GCIGC** | Gwasanaeth Cyngori Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| **GCLl** | Grwpiau Cyflawni Lleol |
| **GH a DG** | Grŵp Hyfforddiant a Datblygu'r Gweithlu |
| **GIP** | Gofal Iechyd Parhaus |
| **GPC** | Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| **HGC** | Heddlu Gogledd Cymru |
| **ICC** | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| **IMO** | Iechyd Meddwl Oedolion |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |
| **MAPF** | Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol |
| **MARAC** | Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth |
| **NSPCC** | Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant |
| **P a G** | Polisi a Gweithdrefnau |
| **PDGGC** | Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol |
| **POVA** | Amddiffyn Oedolion sy'n Ddiamddiffyn |
| **PRUDIC** | Ymateb Trefniadol i Farwolaethau Annisgwyl mewn Plentyndod |
| **PVPU** | Uned Amddiffyn Unigolion Diamddiffyn |

# GEIRFA:

**SERAF** Fframwaith Asesu'r Risg o Gamfanteisio Rhywiol

**UCLl** Uned Cyflawni Lleol

**WAST** Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**YRhN** Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

**YM** Ynys Môn

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **11 Mawrth, 2021** |
| **Pwnc:** | **Craffu ar Bartneriaethau** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **1. Cyflwyno trosolwg o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor rhwng Mehefin, 2019 a Tachwedd, 2020**<br>**2. Ystyried blaen raglen waith y Pwyllgor ar gyfer 2021/22** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng. Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cyng. Dafydd Rhys Thomas, Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Corfforaethol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Annwen Morgan, Prif Weithredwr** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Sioned Rowe, Swyddog Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**SionedRowe@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau lleol:** | **Amherthnasol** |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio nodi a chefnogi:<br>**A1** Y gwaith craffu ar bartneriaethau allweddol a gyflawnwyd yn ystod 2019/20 (**Atodiad 1**)<br>**A2** Y partneriaethau y bwriedir rhoi blaenoriaeth iddynt yn rhaglen waith y Pwyllgor dros y flwyddyn nesaf (**Atodiad 2)**<br>**A3** Y camau nesaf arfaethedig y manylir arnynt ym mharagraff 5.11 yr adroddiad.<br>**A4** Gwahodd y partneriaethau ble mae'r rhaglen waith wedi llithro yn sgil pandemig Covid-19 i drafod eu gwaith partneriaethol a hynny i gyd-fynd â'r cyfnod adfer. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Bydd y ffrwd waith hon yn gwneud cyfraniad sylweddol i un o brif themâu Cynllun y Cyngor 2017/2022 sef – "Y thema allweddol sy'n rhedeg trwy'r cynllun yw ein huchelgais i weithio â phobl Ynys Môn, ein cymunedau a'n partneriaid er mwyn sicrhau gwasanaethau o safon uchel a fydd yn gwella ansawdd bywyd i bawb ar yr Ynys". |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. I ba raddau mae'r partneriaethau a nodwyd i'w cynnwys yn y flaen raglen waith (paragraff 5.11) yn cynrychioli cydbwysedd teg o bartneriaethau allweddol y Cyngor?
2. I ba raddau mae'r Pwyllgor yn fodlon fod yr adroddiad yn gosod sylfaen gadarn i'r flaen raglen waith yn ystod 2021/22 a thu hwnt?
3. A oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ynghylch blaenoriaethu partneriaethau i graffu arnynt?
4. Sut mae'r dull sy'n esblygu o graffu'n drawsbynciol ar bartneriaethau yn cydymffurfio â'r agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**CEFNDIR**

**5.1 Sgriwtini Trawsbynciol:** mae gwaith partneriaeth yn enghraifft o fater trawsbynciol. Mae Mesur Llywodraeth Leol yn rhoi mwy o bwyslais ar gydweithio a phartneriaethau ac felly mae'r ffordd hon o weithio'n debygol o gynyddu yn lleol ac yn rhanbarthol. Yn

ogystal, mae'r Mesur yn darparu canllawiau cenedlaethol ar graffu ar y cyd[1]. Mae ein strwythur sgriwtini lleol wedi esblygu dros y blynyddoedd diwethaf i gynnwys pwyllgor sgriwtini partneriaethau dynodedig sy'n rhoi llwyfan i graffu ar faterion trawsbynciol, thematig. Ystyrir bod y dull hwn yn arfer dda.

**5.2** Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn rhan bwysig o arferion gwaith yr Awdurdod, gan gryfhau capasiti'r Awdurdod i ddarparu gwasanaethau. Er y gall manteision sylweddol ddeillio o waith partneriaeth, megis ymateb i heriau cymhleth, cynnig hyblygrwydd ac adnoddau ychwanegol er mwyn darparu gwasanaethau, nid yw'n broses bob amser heb ei heriau a gall greu risgiau sylweddol, yn arbennig o ran cynaliadwyedd a chost effeithiolrwydd. Mae nifer o sylwadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf[2] wedi tynnu sylw at yr angen i wella a chryfhau trefniadau craffu ar bartneriaethau mewn gwasanaethau cyhoeddus.

**5.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn tanlinellu'r angen i gryfhau craffu ar bartneriaethau ymhellach. Mae'r Ddeddf yn rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd tymor hir yn y modd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu dylunio a'u cyflwyno, ac yn rhoi pwyslais ar gyrff cyhoeddus yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau gwell canlyniadau nawr ac yn y dyfodol. Dylai ein trefniadau lleol hefyd ddatblygu mewn modd sy'n dangos ymrwymiad i Egwyddor Datblygu Cynaliadwy y Ddeddf Llesiant. Golyga hyn: *"Weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau..."*

O ganlyniad, dylai trefniadau cadarn i fonitro a chraffu ar ein gwaith partneriaeth ychwanegu gwerth i'n gwaith partneriaeth yn lleol.

---

[1] Mae craffu ar y cyd (a elwir weithiau'n sgriwtini cydweithredol) yn cyfeirio at unrhyw drefniant ffurfiol neu anffurfiol sy'n dod â chraffwyr o wahanol sefydliadau at ei gilydd er mwyn cyflawni rhywbeth na fyddai modd ei gyflawni mewn unrhyw ffordd arall. Gall sgriwtini ar y cyd fod yn bwyllgor ffurfiol, yn grŵp cydlynu, yn grŵp tasg a gorffen anffurfiol neu'n amywiad ar unrhyw un o'r rhain. Gall ddod â chyngorwyr sgriwtini o ddau neu ragor o gynghorau at ei gilydd gyda chraffwyr anweithredol o gyrff cyhoeddus eraill. Gall sgriwtini ar y cyd fod yn gyfuniad o'r trefniadau hyn

[2] Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, Ionawr 2014), Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Awst, 2017) a Cryfhau Llywodraeth Leol: Cyflawni dros ein Pobl (Mawrth, 2018)

**CYD-DESTUN**

**5.4** Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn brofiad helaeth o weithio mewn partneriaeth, boed ar lefel leol, rhanbarthol neu genedlaethol[3]. Gyda mwy o bwysau ar y pwrs cyhoeddus, mae gan y Cyngor ganllawiau clir mewn lle i benderfynu pryd i sefydlu partneriaethau, pa wasanaeth(au) a'r canlyniadau a ddisgwylir ganddynt ac ar gyfer rheoli'r berthynas yn gadarn er mwyn:

- Ein galluogi i gyflawni Cynllun y Cyngor a'n blaenoriaethau strategol. Hefyd, gwella profiadau a chanlyniadau unigolion sy'n defnyddio ein gwasanaethau
- Rhoi tystiolaeth o werth am arian neu gost effeithlonrwydd wrth fuddsoddi yn y dyfodol a sicrhau canlyniadau clir a mesuradwy
- Ymateb i risgiau mewn perthynas â phartneriaethau a sicrhau bod meysydd i'w datblygu'n cael sylw
- Cael eglurder ynghylch atebolrwydd a threfniadau monitro
- Nodi unrhyw le y gellir rhesymoli partneriaethau a sicrhau gweithdrefn glir ar gyfer dod ag unrhyw drefniadau i ben.

Mae'r maes gwaith hwn yn canolbwyntio ar bartneriaethau lle mae'r Cyngor yn dewis gweithio gyda sefydliadau eraill yn y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Nid yw'n cynnwys cysylltiadau a wneir drwy'r broses gaffael[4].

**5.5** Ar 14 Mawrth 2016, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith ddogfen Bolisi Partneriaethau Corfforaethol fel sylfaen i'n gwaith partneriaeth ac fel fframwaith hefyd i lywio trefniadau monitro partneriaeth. Yn y polisi, diffinnir partneriaeth fel:

*"Trefniant cydweithio lle mae'r partneriaid yn gyrff annibynnol, yn cytuno i gydweithio i gyrraedd nod cyffredin o wydnwch cymunedol ac i gyflawni hynny, yn creu strwythur neu broses sefydliadol a rhaglen y cytunwyd arni."*

---

[3] Adroddiad Gwella Blynyddol 2014/15 (yn ymgorffori'r Adroddiad Asesiad Corfforaethol 2015), Swyddfa Archwilio Cymru, Rhagfyr 2015

[4] Amgylchiadau pan fyddai'r Cyngor yn rhoi cyfle i nifer o sefydliadau neu unigolion ddarparu eu gwasanaethau at ddiben penodol drwy broses gystadleuol gyda'r Cyngor yn dewis un darparwr ac yn cadarnhau'r trefniadau drwy gytundeb

**CRAFFU AR BARTNERIAETHAU**

**5.6** Dylai un o amcanion allweddol craffu ar bartneriaethau ganolbwyntio ar herio'n adeiladol a rhoi cyfle i ddysgu ac hunan-fyfyrio yn hytrach na dal i gyfrif yn unig[5].

**5.7 Nodweddion craffu'n effeithiol ar bartneriaethau:** mae ymchwil cenedlaethol wedi nodi fod trefniadau craffu ar bartneriaethau'n effeithiol pan fo'r nodweddion canlynol mewn lle:

- Mae sgriwtini yn "ffrind beirniadol" ar gyfer hyrwyddo cydweithio
- Mae Aelodau yn monitro perfformiad fel rhan o'u rôl o arwain yn y gymuned (o safbwynt y dinesydd)
- Ffordd o asesu cymhlethdodau gweithio mewn partneriaeth
- Canolbwyntio ar wella trefniadau partneriaeth a sicrhau'r canlyniadau cywir ar gyfer dinasyddion
- Dal Aelodau sy'n eistedd ar bartneriaethau allweddol i gyfrif.

**5.8 Datganiad Sefyllfa- Pandemig Covid 19**
Fel y gwyddoch, o ganlyniad i'r pandemig presennol, mae'n rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu ei adnoddau ac ymdrechion ei weithlu, felly, nid oes modd cynnal "busnes fel arfer".

Mae Ddeddf Coronafeirws 2020 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 wedi lleihau'r rhwymedigaethau cyfreithiol ar awdurdodau lleol o ran cynnal cyfarfodydd, a chaniateir cynnal cyfarfodydd o bell. Adolygwyd amserlen Pwyllgorau arferol y Cyngor yn sgil y ddeddfwriaeth hon, a chymeradwywyd Strategaeth Cyfarfodydd Pwyllgor ar 12 Mai, 2020[6].

Yn ogystal â hyn, o ganlyniad i'r pandemig, rhoddwyd o'r neilltu gofynion i graffu rhai adroddiadau blynyddol er enghraifft, neu ymestynwyd yr amserlen er mwyn ymgymryd â'r gwaith hwn.

Cyfarfu'r ddau Bwyllgor Sgriwtini am y tro cyntaf ers ddechrau'r pandemig yn ystod mis Medi, 2020, ac ers hynny, mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi ailafael yn y gwaith craffu ar bartneriaethau allweddol ac wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol. Er hynny, mae rhai partneriaid a amserlenwyd yn naturiol wedi cael eu gohirio oherwydd y pandemig, a bu rhaid blaenoriaethu rhaglen

[5] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Llywodraeth Cymru, Awst 2017
[6] Strategaeth ar gyfer Cyfarfodydd Pwyllgor hyd at Ebrill, 2021 (CSYM, Mai, 2020).

waith y Pwyllgor i gydfynd â gofynion lleol ac ystyried gofynion a phwysau yr oedd ein partneriaid yn ei wynebu hefyd.

**5.9 Cofrestr Partneriaethau Corfforaethol:** mae'r Cyngor yn cynnal Cofrestr o'r holl bartneriaethau allweddol ac mae'n cael ei hadolygu o bryd i'w gilydd.
**5.10** Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor hwn yn cynnwys trefniadau partneriaeth lleol a rhanbarthol. Mae crynodeb o'r partneriaethau y bu i'r Pwyllgor hwn graffu arnynt yn ystod 2019/20 yn **Atodiad 1**.

**5.11 Blaen Raglen Waith 2021/22:** rhaid parhau i reoli'r dasg o graffu ar bartneriaethau, gan ganolbwyntio ar bartneriaethau strategol allweddol sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion a'i flaenoriaethau. Er mwyn ychwanegu gwerth, rhaid i'n trefniadau ar gyfer craffu ar bartneriaethau barhau i fod yn amserol ac yn gymesur. O ganlyniad, argymhellir bod blaen raglen waith y Pwyllgor hwn yn rhoi blaenoriaeth i gydbwysedd priodol o bartneriaethau statudol, partneriaid allweddol mae'r Cyngor yn gweithio â nhw a chyrff eraill (darparu gwasanaeth), yn cynnwys y canlynol:

| Enw'r Bartneriaeth | Aelod / Swyddog Arweiniol | Ffocws Sgriwtini | Amserlen | Mater Thematig Trawsbynciol |
|---|---|---|---|---|
| **Partneriaethau Statudol** | | | | |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) | Cyng. Llinos Medi Huws<br><br>Prif Weithredwr | Trefniadau llywodraethiant a strwythur cyflawni | Craffu ar lywodraethiant a strwythur cyflawni'r BGC - 9 Tachwedd 2021 | **Llesiant**<br><br>Nodir y disgwyliad cenedlaethol yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru[7] |
| | | Cynllun Llesiant – craffu ar gyflawniad hyd yma | Craffu ar gynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Llesiant - 11 Mawrth, 2021 | |
| | | Adroddiad Blynyddol y BGC – craffu ar gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol / herio blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol | Craffu ar Adroddiad Blynyddol y BGC – 15 Mehefin, 2021 | |
| Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) | Cyng. Alun Mummery<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr | Craffu ar waith partneriaeth drwy Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (yn hytrach na gwaith y cyrff unigol) drwy:<br>• Graffu ar gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol<br>• Herio blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol | 20 Medi 2021 | **Diogelwch Cymunedol**<br><br>Sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei dyletswyddau o dan Adran 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a Heddlu 2006 |
| Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru | Cyng. Llinos Medi Huws<br><br>Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Craffu ar drefniadau llywodraethiant, cyflawniad a pherfformiad y trefniadau rhanbarthol | Dyddiad i'w gadarnhau | **Llesiant**<br><br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |

[7] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Awst, 2017)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) (Rhan 9) | Cyng. Llinos Medi Huws<br><br>Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Adroddiad blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:<br>• Craffu ar gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol<br>• Herio blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf | Gorffennaf, 2021 | **Llesiant**<br><br>Rhan 9, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| **Partneriaid allweddol mae'r Cyngor yn gweithio â nhw** | | | | |
| Gwaith partneriaeth lleol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Craffu ar y gwaith partneriaeth lleol gyda'r Bwrdd Iechyd | Rhaglen waith wedi llithro | **Llesiant**<br><br>Aelod statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol 2015) |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Cyng. Eric Wyn Jones, Richard Griffiths, Dylan Rees<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr | Craffu ar waith partneriaeth lleol gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub | Rhaglen waith wedi llithro | **Diogelwch Cymunedol**<br><br>Aelod statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol 2015) |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Craffu ar waith partneriaeth lleol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru | I'w gadarnhau | Aelod statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol 2015) |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru | Cyng. Dylan Rees<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr | Craffu ar waith partneriaeth lleol gyda Heddlu Gogledd Cymru | Rhaglen waith wedi llithro | **Diogelwch Cymunedol**<br><br>Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn monitro sut mae'r Heddlu ac eraill yn gweithredu'r Cynllun Heddlu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | a Throsedd 2017/2021<br><br>Aelod o'r BGC<br>(Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) |
| Medrwn Môn | Cyng. Llinos Medi Huws<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr | Adroddiad blynyddol y sefydliad:<br>• Trefniadau llywodraethiant yn cynnwys trefniadau rheoli risg<br>• Craffu ar gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol<br>• Herio blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod | Rhaglen waith wedi llithro | **Gwydnwch Cymunedol** |
| Menter Môn | Cyng. Ieuan Williams<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr | Adroddiad blynyddol y sefydliad:<br>• Trefniadau llywodraethiant yn cynnwys trefniadau rheoli risg<br>• Craffu ar gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol<br>• Herio blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod | I'w gadarnhau | **Gwydnwch Cymunedol** |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alun Mummery | Craffu ar waith partneriaeth lleol gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Rhaglen waith wedi llithro | **Diogelwch Cymunedol**<br><br>Aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>(Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) |
| **Cyrff eraill (darparu gwasanaeth)** | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | Cyng R Meirion Jones<br><br>Cyfarwddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Adroddiad cynnydd i graffu ar:<br>• Gyflawniad a pherfformiad<br>• Flaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf | 12 Hydref, 2021<br>13 Ebrill, 2022 | **Addysg a Sgiliau**<br><br>Partneriaeth darparu gwasanaeth gyda Chyngor Gwynedd |
| GwE – Gwasanaeth Gwella Ysgolion | Cyng. R Meirion Jones<br><br>Cyfarwddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Craffu ar Adroddiad Blynyddol y Consortiwm er mwyn:<br>• Cefnogi GwE i ddatblygu cynlluniau busnes a sicrhau bod cynlluniau'n cymryd anghenion ysgolion lleol i ystyriaeth<br>• Craffu yn well ar drefniadau rheoli perfformiad<br>• Sicrhau bod ystod o strategaethau mewn lle i gefnogi ysgolion i wella | 8 Rhagfyr, 2021 | **Addysg a Sgiliau**<br><br>Disgwyliad cenedlaethol fod awdurdodau lleol yn craffu ar y consortia addysg rhanbarthol |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru<br><br>Bargen Dwf Gogledd Cymru | Cyng. Llinos Medi Huws<br><br>Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol | Sicrhau bod y Bwrdd yn ymgymryd â'i rôl:<br><br>Fel Partneriaeth Dysgu a Sgiliau ar gyfer Gogledd Cymru. Rhagwelir y bydd gan y Bwrdd gynrychiolydd ar y Cyd Bwyllgor sy'n gweithredu Bid Twf Gogledd Cymru;<br>O greu cyfleoedd cyflogaeth a gwella cysylltedd digidol yng Ngogledd Cymru ac Ynys Môn | I'w gadarnhau (chwarterol) | **Adfywio**<br><br>Disgwyliad cenedlaethol bod awdurdodau yn craffu ar bartneriaethau rhanbarthol<br><br>Mae cynghorau Gogledd Cymru wedi ffurfio Bwrdd Twf Gogledd Cymru i gwblhau'r Fargen Dwf a rheoli'r gwaith o'i gyflawni ar ôl dod i gytundeb gyda |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Llywodraethau'r DU a Chymru. Mae'r corff newydd yn Gyd –Bwyllgor Awdurdodau Lleol gyda chynrychiolwyr o'r prif bartneriaid |
| Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | Cadernid y gwasanaeth rhanbarthol i gynorthwyo'r Cyngor i ddelio gydag argyfyngau o ganlyniad i dywydd drwg, damwain drafnidiaeth neu ddiwydiannol, llygredd dŵr neu derfysgaeth | Rhaglen waith wedi llithro | **Diogelwch Cymunedol**<br><br>Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004 |
| Cynnal | Cyng. R Meirion Jones, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts<br><br>Cyfarwddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Craffu ar berfformiad a gwerth am arian | I'w gadarnhau | **Addysg a Sgiliau** |

Mae'r tabl uchod yn nodi'r bwriad o ran craffu ar bartneriaethau yn ystod y flwyddyn weinyddol i ddod. Argymhellir y dylid gwahodd y partneriaethau ble mae'r rhaglen waith wedi llithro yn sgil pandemig Covid-19 i drafod agweddau canlynol o'u gwaith partneriaethol a hynny i gyd-fynd â'r cyfnod adfer:

- Rhannu'r stori ymateb i Covid 19 a'r gwaith partneriaethol gyda Chyngor Sir Ynys Môn
- Pa wersi a ddysgwyd
- Pa ffocws fydd i'r gwaith partneriaethol wrth symud ymlaen. Beth fydd yn cael ei wneud yn wahanol?

**5.12 Rôl Aelodau ar bartneriaethau allanol:** wrth gydnabod rôl bwysig Aelodau Etholedig ar bartneriaethau allanol, dylid nodi y bydd y Pwyllgor Sgriwtini angen sicrwydd gan y Cynghorwyr sy'n cynrychioli'r Cyngor ynglŷn â'r agweddau allweddol canlynol o waith partneriaeth:

- Cyflawni rhaglenni gwaith / canlyniadau a ddymunir
- Trefniadau llywodraethu
- Rheoli cyllideb
- Rheoli risgiau

O ganlyniad, rhaid parhau gyda'r trefniadau lleol mewn lle i gefnogi rôl yr Aelodau mewn perthynas â hynny, gan sicrhau bod y Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn gwybodaeth amserol.

**5.13** Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i ddatblygu ein dull lleol o graffu ar bartneriaethau:

- Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini wedi aeddfedu, gyda'r pwyllgor yn edrych mewn manylder ar 12 partneriaeth rhwng Mehefin 2019- a Tachwedd 2020 (ceir crynodeb yn **Atodiad 1**)
- Cynllun gweithredu lefel uchel (paragraff 5.11 uchod) i alluogi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i flaenoriaethu ei flaen raglen waith ar gyfer 2021/22 a thu hwnt
- Mae Aelodau Etholedig yn cael eu diweddaru'n rheolaidd am bartneriaethau yn y Sesiynau Briffio misol ar gyfer Aelodau.

**Camau Nesaf:**
Argymhellir fod ein dull lleol o graffu ar bartneriaethau'n cael ei ddatblygu ymhellach:

i. Datblygu ymhellach ein cynllun gweithredu lefel uchel i alluogi'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i flaenoriaethu ei flaen raglen waith ar gyfer 2021/22 a thu hwnt
ii. Diweddaru Aelodau'n rheolaidd am bartneriaethau allweddol yn y Sesiynau Briffio Aelodau misol
iii. Datblygu trefniadau lleol i ddwyn i gyfrif yr Aelodau sy'n eistedd ar bartneriaethau allweddol.

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| D/B |

| |
|---|
| |

| 7 – Oblygiadau Ariannol |
|---|
| D/B |

| 8 – Atodiadau |
|---|
| 1. Partneriaethau a gafodd eu monitro gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn ystod 2019/20<br>2. Blaen raglen waith ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2021/22 |

| 9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda): |
|---|
| Sioned Rowe, Swyddog Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7TW |

**<u>Atodiad 1- Gwaith Craffu Partneriaethol 2019/20</u>**

| **Enw'r Bartneriaeth** | **Ffocws Sgriwtini** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol Gwynedd a Môn | Craffu ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y bartneriaeth ar gyfer cwrdd ag anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc Ynys Môn | 13 Mehefin, 2019 |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn | Adroddiad Blynyddol 2018/19 | 13 Mehefin, 2019 |
| | Trefniadau Llywodraethu | 17 Tachwedd, 2019 |
| | Adroddiad cynnydd ar gyflawni'r Cynllun Llesiant | 11 Mawrth, 2020 |
| | Adroddiad Blynyddol 2019/20 | 21 Medi, 2020 |
| | Trefniadau Llywodraethu | 10 Tachwedd, 2020 |
| Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru | Adroddiad Blynyddol 2018/19 | 11 Gorffennaf, 2019 |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol 2019/20 | 10 Tachwedd, 2020 |
| Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Adroddiad Blynyddol 2018/19 | 12 Tachwedd, 2019 |
| | Adroddiad Blynyddol 2019/20 | 22 Hydref, 2020 |
| GwE | Adroddiad Blynyddol 2018/19 | 21 Ionawr, 2020 |
| Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Craffu ar waith partneriaeth lleol gyda'r Awdurdod Tân ac Achub | 4 Chwefror, 2020 |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru/ Heddlu Gogledd Cymru | Craffu ar waith partneriaeth lleol gyda Heddlu Gogledd Cymru | 4 Chwefror, 2020 |
| Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru | Adroddiad Blynyddol 2018/19 | 4 Chwefror, 2020 |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | Craffu ar waith partneriaeth lleol gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | 25 Chwefror, 2020 |
| Medrwn Môn | Effeithiolrwydd y sector wirfoddol ar Ynys Môn drwy Adroddiad Blynyddol 2018/19 | 25 Chwefror, 2020 |
| Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru | Adroddiad cynnydd ar waith y gwasanaeth rhanbarthol | 25 Chwefror, 2020 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) | Gwaith partneriaeth lleol | 12 Mawrth, 2019 |

| Enw'r Bartneriaeth | Aelod / Swyddog Arweiniol | Ffocws Sgriwtini | Amserlen | Mater Thematig Trawsbynciol |
|---|---|---|---|---|
| **Partneriaethau Statudol** | | | | |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) | Cyng. Llinos Medi Huws<br><br>Prif Weithredwr | Trefniadau llywodraethiant a strwythur cyflawni | Craffu ar lywodraethiant a strwythur cyflawni'r BGC - 9 Tachwedd 2021 | **Llesiant**<br><br>Nodir y disgwyliad cenedlaethol yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru[1] |
| | | Cynllun Llesiant – craffu ar gyflawniad hyd yma | Craffu ar gynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Llesiant - 11 Mawrth, 2021 | |
| | | Adroddiad Blynyddol y BGC – craffu ar gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol / herio blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol | Craffu ar Adroddiad Blynyddol y BGC – 15 Mehefin, 2021 | |
| Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) | Cyng. Alun Mummery<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr | Craffu ar waith partneriaeth drwy Adroddiad Blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (yn hytrach na gwaith y cyrff unigol) drwy:<br>• Graffu ar gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol<br>• Herio blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol | 20 Medi 2021 | **Diogelwch Cymunedol**<br><br>Sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei dyletswyddau o dan Adran 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a Heddlu 2006 |
| Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru | Cyng. Llinos Medi Huws<br><br>Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Craffu ar drefniadau llywodraethiant, cyflawniad a pherfformiad y trefniadau rhanbarthol | Dyddiad i'w gadarnhau | **Llesiant**<br><br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) (Rhan 9) | Cyng. Llinos Medi Huws<br><br>Cyfarwyddwr Statudol y | Adroddiad blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol:<br>• Craffu ar gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol | Gorffennaf, 2021 | **Llesiant**<br><br>Rhan 9, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |

[1] Canllawiau ar gyfer Pwyllgorau Craffu Awdurdodau Lleol ar graffu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Awst, 2017)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau Cymdeithasol | • Herio blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn nesaf | | |
| **Partneriaid allweddol mae'r Cyngor yn gweithio â nhw** | | | | |
| Gwaith partneriaeth lleol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol | Craffu ar y gwaith partneriaeth lleol gyda'r Bwrdd Iechyd | Rhaglen waith wedi llithro | **Llesiant**<br><br>Aelod statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol 2015) |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Cyng. Eric Wyn Jones, Richard Griffiths, Dylan Rees<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr | Craffu ar waith partneriaeth lleol gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub | Rhaglen waith wedi llithro | **Diogelwch Cymunedol**<br><br>Aelod statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol 2015) |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Craffu ar waith partneriaeth lleol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru | I'w gadarnhau | Aelod statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol 2015) |
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru | Cyng. Dylan Rees<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr | Craffu ar waith partneriaeth lleol gyda Heddlu Gogledd Cymru | Rhaglen waith wedi llithro | **Diogelwch Cymunedol**<br><br>Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn monitro sut mae'r Heddlu ac eraill yn gweithredu'r Cynllun Heddlu a Throsedd 2017/2021<br><br>Aelod o'r BGC (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) |
| Medrwn Môn | Cyng. Llinos Medi Huws<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr | Adroddiad blynyddol y sefydliad:<br>• Trefniadau llywodraethiant yn cynnwys trefniadau rheoli risg<br>• Craffu ar gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol | Rhaglen waith wedi llithro | **Gwydnwch Cymunedol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | • Herio blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod | | |
| Menter Môn | Cyng. Ieuan Williams<br><br>Dirprwy Brif Weithredwr | Adroddiad blynyddol y sefydliad:<br>• Trefniadau llywodraethiant yn cynnwys trefniadau rheoli risg<br>• Craffu ar gyflawniadau'r flwyddyn flaenorol<br>• Herio blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod | I'w gadarnhau | **Gwydnwch Cymunedol** |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru | Dirprwy Brif Weithredwr<br><br>Cyng Alun Mummery | Craffu ar waith partneriaeth lleol gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | Rhaglen waith wedi llithro | **Diogelwch Cymunedol**<br><br>Aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015) |
| **Cyrff eraill (darparu gwasanaeth)** | | | | |
| Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | Cyng R Meirion Jones<br><br>Cyfarwddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Adroddiad cynnydd i graffu ar:<br>• Gyflawniad a pherfformiad<br>• Flaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf | 12 Hydref, 2021<br>13 Ebrill, 2022 | **Addysg a Sgiliau**<br><br>Partneriaeth darparu gwasanaeth gyda Chyngor Gwynedd |
| GwE – Gwasanaeth Gwella Ysgolion | Cyng. R Meirion Jones<br><br>Cyfarwddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Craffu ar Adroddiad Blynyddol y Consortiwm er mwyn:<br>• Cefnogi GwE i ddatblygu cynlluniau busnes a sicrhau fod cynlluniau'n cymryd anghenion ysgolion lleol i ystyriaeth<br>• Craffu yn well ar drefniadau rheoli perfformiad<br>• Sicrhau bod ystod o strategaethau mewn lle i gefnogi ysgolion i wella | 8 Rhagfyr, 2021 | **Addysg a Sgiliau**<br><br>Disgwyliad cenedlaethol fod awdurdodau lleol yn craffu ar y consortia addysg rhanbarthol |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Cyng. Llinos Medi Huws | Sicrhau bod y Bwrdd yn ymgymryd â'i rôl:<br><br>Fel Partneriaeth Dysgu a Sgiliau ar | I'w gadarnhau (chwarterol) | **Adfywio**<br><br>Disgwyliad cenedlaethol bod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Bargen Dwf Gogledd Cymru | Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol | gyfer Gogledd Cymru. Rhagwelir y bydd gan y Bwrdd gynrychiolydd ar y Cyd Bwyllgor sy'n gweithredu Bid Twf Gogledd Cymru;<br>O greu cyfleoedd cyflogaeth a gwella cysylltedd digidol yng Ngogledd Cymru ac Ynys Môn | | awdurdodau yn craffu ar bartneriaethau rhanbarthol<br><br>Mae cynghorau Gogledd Cymru wedi ffurfio Bwrdd Twf Gogledd Cymru i gwblhau'r Fargen Dwf a rheoli'r gwaith o'i gyflawni ar ôl dod i gytundeb gyda Llywodraethau'r DU a Chymru. Mae'r corff newydd yn Gyd –Bwyllgor Awdurdodau Lleol gyda chynrychiolwyr o'r prif bartneriaid |
| Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | Cadernid y gwasanaeth rhanbarthol i gynorthwyo'r Cyngor i ddelio gydag argyfyngau o ganlyniad i dywydd drwg, damwain drafnidiaeth neu ddiwydiannol, llygredd dŵr neu derfysgaeth | Rhaglen waith wedi llithro | **Diogelwch Cymunedol**<br><br>Deddf Argyfyngau Sifil Posib 2004 |
| Cynnal | Cyng. R Meirion Jones, Dafydd Roberts, Margaret M Roberts<br><br>Cyfarwddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc | Craffu ar berfformiad a gwerth am arian | I'w gadarnhau | **Addysg a Sgiliau** |
| Cymdeithasau Tai<br><br>(Grŵp Cynefin<br><br>Clwyd Alyn<br><br>Tai Gogledd Cymru) | Cyng Alun Mummery<br><br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth Adnoddau (Swyddog Adran 151)<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Tai | Craffu ar waith partneriaethol lleol | I'w gadarnhau | **Cyflenwad Tai yn lleol** |

This page is intentionally left blank

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **11 Mawrth, 2021** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2020/21** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Gwilym Owen Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

**1 – Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2020/21

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill**

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â'r blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022 a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

**3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

### 1. Cefndir

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

### 2. Cyd-destun Lleol

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2017/2022 a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu

2.4 **Effaith yr Argyfwng presennol ar Raglen Waith y Pwyllgor**

Mae'r cyfnod presennol (**rheoli ymateb argyfwng i'r Pandemig, yr Adfer ac yn raddol dychwelyd i'r Normal Newydd**) yn eithriadol o heriol i'r Cyngor a bob sefydliad cyhoeddus arall drwy Gymru wrth i ni barhau i wynebu heriau'r argyfwng Covid-19, ac mae'n anorfod bod hyn yn cael effaith ar raglen waith y Pwyllgor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi newid ei ffordd o weithio o ganlyniad i'r argyfwng iechyd byd-eang. Yn ystod cyfnod o argyfwng fel hyn, mae llywodraethu ac atebolrwydd yn allweddol bwysig.

Mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn cynnig model sgriwtini penodol yn sgil y pandemig, sydd ar y cyd â Strategaeth Bwyllgorau'r Cyngor yn gymorth i lywio rhaglen waith y Pwyllgor, gweler amlinelliad ohono isod:

i. Ffocws ar nifer llai o faterion allweddol sy'n canolbwyntio ar agweddau sylfaenol bywyd pobl leol ("*life and limb*")
ii. Cynnal briff gwylio dros wasanaethau'r Cyngor, perfformiad a materion ariannol
iii. **Elfennau penodol y Model Craffu:**
   - Trosolwg o ymateb y Cyngor i Covid-19
   - Trosolwg penodol ar faterion sylfaenol bywyd (deddfwriaeth gofal; diogelu plant ac oedolion; iechyd cyhoeddus)
   - Cynnal trosolwg ar faterion cyllidol y Cyngor
   - Gweithredu fel cyfrwng ar gyfer profiadau cymunedol.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2020/21 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2020

| |
|---|
| lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:<br>• Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor 2017/2022)<br>• Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini). |

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2020/21 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI → MEDI 2020 – EBRILL, 2021**
**[Fersiwn ddyddiedig 04/03/21]**

Drafft Diweddaraf

## Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â'r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.gov.uk]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Medi, 2020 (14/09/20)** | **Medi, 2020 (21/09/20)** |
| Craffu Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 (yn cynnwys yr effaith ariannol) | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Craffu Agweddau Partneriaethol: Ymateb y Cyngor i'r Argyfwng Covid-19 |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| **Medi, 2020 (22/09/20)** | |
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2019/20 | |
| | |
| **Hydref, 2020 (20/10/20)** | **Hydref, 2020 (22/10/20)** |
| Strategaeth Ataliol Corfforaethol | Adroddiad Cynnydd Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2019/20 | Partneriaeth Diogelwch Cymunedol: Adroddiad Blynyddol 2019/20 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Ffioedd Casglu Gwastraff Gwyrdd |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Tachwedd, 2020 (02/11/20) (Cyfarfod wedi'i ganslo)** | **Tachwedd, 2020 (10/11/20)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu ar y trefniadau llywodraethu |
| | Cytundeb Llywodraethu 2 - Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) |
| | Cyllidebau Cyfun (Anableddau Dysgu) |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Tachwedd, 2020 (17/11/20) [Ch2]** | |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2020/21 | |
| Cynllun Cyflawni Blynyddol: 2020/21 | |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | |
| | |
| **Rhagfyr, 2020 (10/12/2020)** | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Y Graig a'r Talwrn) | |
| **Rhagfyr, 2020 (17/12/2020)** | |
| Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardal Llangefni (Corn Hir a Bodffordd) | |
| | |
| **Ionawr, 2021 – Diddymu** | **Ionawr, 2021 (19/01/21)- Diddymu** |
| | |
| **Chwefror, 2021 (16/02/21) [cyllideb 2021/22]** | **Chwefror, 2021 (09/02/21)** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2021/22 | Adroddiad Cynnydd GwE 2020/21: cefnogi ysgolion yn ystod pandemig Covid 19 |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Estyn: Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19 |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Canllaw Cynllunio Atodol- Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Mawrth, 2021 (08/03/21)** | **Mawrth, 2021 (11/03/21)** |
| Adroddiad Cynnydd Cynllun Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2020/21 | Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb 2020/21 |
| Cwrs Golff Llangefni | Newid Hinsawdd |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru 2019/20 |
| | Craffu ar Bartneriaethau |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |
| | |
| **Ebrill, 2021 (12/04/21)** | **Ebrill, 2021 (14/04/21)** |
| Ymateb y Cyngor i Covid-19 – Materion dilyn i fyny ar gais y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:<br>• Llesiant staff y Cyngor a chymunedau<br>• Monitro effeithiolrwydd y strategaeth Tracio ac Amddiffyn (TTP) | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad: diweddariad |

Drafft Diweddaraf

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Cynllun Rheoli Asedau / Man-ddaliadau (i'w gadarnhau) | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2020/21 |

**Eitemau i'w rhaglennu:**

**Trawsnewid Cyfleon Dydd Anableddau Dysgu**

**Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – ardaloedd Seiriol / Amlwch**

Draft Diweddaraf

This page is intentionally left blank